# Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Y Prif Ymateb

Ymateb ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:
emissions.trading@beis.gov.uk

# Cynnwys


Cynnwys 3

Crynodeb Gweithredol 6

Pennod 1: Adolygiad o’r cap cyson â sero net, y lwfansau heb eu dyrannu, a dyraniadau am ddim 11

- Cap cyson â sero net 11
- Opsiynau ar gyfer dod â lwfansau heb eu dyrannu i’r farchnad 18
- Symleiddio’r newid i gap cyson â sero net a chefnogi hylifedd y farchnad 19
- Cadw lwfansau er mwyn sefydlogi’r farchnad 23
- Newidiadau i ddyraniadau am ddim yng nghyd-destun cap cyson â sero net 24
- Lliniaru yn erbyn cymhwyso Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau 29
- Newidiadau i’r fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim 30
- Dull eang o ymdrin â pholisïau lliniaru dadleoli carbon eraill 34
- Dosbarthu a defnyddio lwfans Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU 36

Pennod 2: Adolygiad o ddyraniadau am ddim – newidiadau technegol 40

- Newidiadau technegol i ddyraniadau am ddim 40
  - Cynnig un: Diwygio’r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch oherwydd blwyddyn COVID 2020 41
  - Cynnig dau: diwygio’r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch i ystyried diffodd gweithgarwch ar gyfer cynnal a chadw neu amser segur a gynlluniwyd 42
  - Cynnig tri: Newidiadau i Lefel Gweithgarwch a thrin is-weithfeydd presennol/newydd 44
  - Cynnig pedwar: cynnwys gwerthoedd meincnod cyfredol yng nghyfraith y DU 45
  - Cynnig pump: diwygio diffiniad cynhyrchydd trydan i ystyried allforion trydan yn y cyfnod sylfaen yn unig 47
  - Cynnig chwech: Gorsafoedd Gwres a Phŵer Cyfunedig a’r diffiniad o gynhyrchydd trydan 49
- Cynnig: Diwygiadau i’r Meincnodau a’r Rhestr dadleoli carbon 52
- Cynnig: Cynhyrchwyr trydan 55

Pennod 3: Cais am Dystiolaeth ar Bolisi Marchnadoedd y Dyfodol 57

- Camddefnyddio’r farchnad ac ymddygiad ansefydlogi 57
- Datblygiad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU dros y blynyddoedd i ddod 58
- Amcanion polisi marchnadoedd wrth i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU aeddfedu 60

Crynodeb o bolisïau marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU 61
Pris Cadw Arwerthiannau 61
Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau 62
Proses arwerthiannau 63
Cyfrif mecanwaith sefydlogrwydd marchnadoedd 64
Bancio a benthyca lwfansau 65
Ymateb yr Awdurdod 65
Pennod 4: Hedfanaeth 66
Trywydd Dyraniadau am Ddim 67
Methodoleg Dyraniadau am Ddim 74
Cais am Dystiolaeth ar Danwyddau Hedfan Cynaliadwy 77
Cais am Dystiolaeth ar effeithiau ar yr hinsawdd nad ydynt yn rhai CO2 80
Cais am Dystiolaeth ar Gydweithredu Rhyngwladol, gan gynnwys Hediadau o'r DU i'r Swistir 84
Pennod 5: Ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU o fewn y sectorau sydd dan sylw 88
Olew a Nwy i Fyny'r Gadwyn – Awyru a Ffaglu 88
Awyru CO2 88
Cais am Dystiolaeth ar Fethan 92
Cais am Dystiolaeth ar awyru a ffaglu am resymau diogelwch 95
Cais am Dystiolaeth ar gyfer allyriadau olew a nwy i fyny'r gadwyn sy'n weddill 96
Dal Defnyddio a Storio Carbon, a Chludo 98
Biomas 101
Cais am Dystiolaeth ar gyfer trothwy 20MWth a throthwy cydgrynhoi 3MWth 105
Pennod 6: Ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i sectorau newydd 109
Ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i'r Sector Morwrol Domestig 110
Opsiwn Gweithredu 110
Cwmpas y Polisi 116
Monitro, Adrodd a Dilysu 118
Datgarboneiddio ac Effeithiau Dosbarthiadol 120
Lleihau allyriadau o wastraff – Cais am Dystiolaeth ar ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys llosgi gwastraff ac ynni o wastraff 125
Amseru 125

Pwynt Rhwymedigaeth 128
Monitro, Adrodd a Dilysu allyriadau 132
Effeithiau dosbarthiadol a'r farchnad 135
Rhyngweithio â pholisïau arfaethedig a pholisïau sy'n bodoli eisoes 141
Pennod 7: Cais am dystiolaeth ar waredu nwyon tŷ gwydr ac amaethyddiaeth ac allyriadau defnydd tir 144
Cais am dystiolaeth ar rôl Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel marchnad hirdymor ar gyfer technolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr 144
Rôl Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU 145
Datblygu fframwaith o feini prawf cymhwysedd ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU 151
Dyluniadau marchnad posibl 154
Cyflwyno gwaredu nwyon tŷ gwydr i farchnad 155
Ffynonellau a thystiolaeth arall 156
Ymateb yr Awdurdod 156
Cais am Dystiolaeth ar sut y gellir monitro, adrodd a dilysu allyriadau amaethyddiaeth a defnydd tir yn briodol 163
Defnyddio Monitro, Adrodd a Dilysu 164
Defnyddio monitro, adrodd a dilysu i ddatgarboneiddio'r sector amaethyddiaeth 167
Ymateb yr Awdurdod 170
Pennod 8: Diwygiadau gweithredol i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU 175
Llwybrau Apelio 175
Cosbau 176

# Crynodeb Gweithredol

Pan sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ym mis Ionawr 2021, ein nod oedd ei gysoni ag ymrwymiad sero net y DU, sydd gyda’r gorau yn y byd. Mae’r ddogfen hon yn nodi’r newidiadau strwythurol pwysig i’r cynllun a fydd yn cyflawni’r nod hwn.

Ym mis Mawrth 2022 ymgynghorodd Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (yr ‘Awdurdod’ o hyn ymlaen) – sy’n cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a’r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon – ar gynigion i ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Fe wnaethom siarad â thros 300 o sefydliadau a chael ymatebion ganddynt, sy’n cynrychioli amrywiaeth eang o randdeiliaid o’r sectorau ynni, diwydiannol a hedfanaeth, yn ogystal â chyrff anllywodraethol, y byd academaidd, grwpiau eiriolaeth a Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Rydym yn hynod ddiolchgar am ddyfnder ac ehangder yr ymgysylltu a gafwyd. Mae’r wybodaeth a’r dystiolaeth a gafwyd wedi cyfrannu’n uniongyrchol at y penderfyniadau a gyflwynir yn Ymateb yr Awdurdod hwn.

Ers lansio’r ymgynghoriad y gwanwyn diwethaf, mae’r byd wedi wynebu cynnydd na welwyd ei debyg o’r blaen o ran costau ynni a chostau byw. Rydym yn ymwybodol iawn o’r heriau y mae busnesau wedi eu hwynebu yn sgil hyn a’r angen i sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn ynghylch Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gytbwys a’n bod yn ystyried yr effeithiau’n ofalus. Ochr yn ochr â’r penderfyniad ar y cap cyson â sero net, rydym wedi gwneud penderfyniadau i bontio’n ddidrafferth ac i sicrhau bod busnesau’n parhau i gael cymorth yn y tymor canolig. Bydd hyn yn darparu cymorth wedi ei dargedu tra bydd busnesau a llunwyr polisi yn cyflawni’r trawsnewid technolegol sy’n hanfodol i hyfywedd ein diwydiant mewn dyfodol sero net.

Mae’r cynnydd diweddar mewn prisiau ynni hefyd wedi cynyddu’r angen i barhau i symud oddi wrth danwydd ffosil a thuag at ynni glân, fforddiadwy, cynhenid. Bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a’r newidiadau strwythurol yn y ddogfen hon yn parhau i gefnogi a chymell y newid hwn y mae mawr ei angen.

Wrth wneud y penderfyniadau yn Ymateb yr Awdurdod hwn, mae’r Awdurdod wedi gweithio’n agos gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a’r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon ac wedi ystyried y ffordd mae’n rhyngweithio â’r cyd-destun polisi ehangach. Rydym hefyd wedi gwrando’n ofalus ar ein rhanddeiliaid a cheisiadau am eglurder hirdymor, cryfder yr uchelgais o ran yr hinsawdd, a chymorth wedi ei dargedu i fusnesau yn ystod y cyfnod pontio.

Rydym wedi gwneud y penderfyniadau a ganlyn:

- **Gosod cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel ei fod yn gyson â sero net a gwneud hyn ar frig yr ystod gyson â sero net:** yn gyntaf oll, mae sero net wrth galon Ymateb yr Awdurdod hwn. Yn dilyn yr asesiad diweddaraf o gynnydd yn erbyn targedau hinsawdd pedair llywodraeth y DU, rydym wedi dod i’r casgliad bod yr ystod

uchelgeisiol yr ymgynghorwyd arni ar gyfer cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dal yn gyson â chyflawni sero net. Bydd dewis brig yr ystod hon yn cynorthwyo cyfranogwyr i bontio’n ddidrafferth ac yn galluogi hyblygrwydd parhaus i liniaru risgiau yn y farchnad a dadleoli carbon. Yn unol â’n hymrwymiadau blaenorol, bydd y cap sero net yn cael ei roi ar waith yn 2024.

- **Symleiddio’r newid i’r cap sero net:** drwy ryddhau 53.5 miliwn[1] o lwfansau ychwanegol o’r potiau wrth gefn i’r farchnad rhwng 2024 a 2027, byddwn yn sicrhau nad oes gostyngiad sydyn yn y cyflenwad o lwfansau rhwng 2023 a 2024. Mae’r lwfansau hyn eisoes wedi cael eu creu ym mlynyddoedd blaenorol y cynllun o fewn terfynau cyffredinol y cap, ac ni fydd hyn felly’n effeithio ar gryfder yr uchelgais gyffredinol. Bydd y newid hwn yn digwydd yn raddol, gan roi amser i’r farchnad a chyfranogwyr addasu.
- **Gosod y Cap Diwydiant ar 40% o’r cap cyffredinol:** rydym yn cydnabod bod angen amser a chymorth ar fusnesau i ddatgarboneiddio. Bydd gosod terfyn uwch ar faint o lwfansau sydd ar gael i’w dosbarthu am ddim, o’i gymharu â chadw’r terfyn o 37%, yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu lwfansau am ddim i’r sectorau hynny lle mae’r perygl mwyaf o ddadleoli carbon. Bydd cap uwch i ddiwydiant hefyd yn galluogi hyblygrwydd ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch dosbarthu lwfansau am ddim yn ystod ail gam yr adolygiad o ddyraniadau am ddim.
- **Darparu gwytnwch hirdymor yn y farchnad:** rydym yn cydnabod y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau cyson â sero net wynebu heriau na welwyd eu tebyg o’r blaen neu rai nad oes modd eu rhagweld. Felly, byddwn yn neilltuo 29.5 miliwn[2] o lwfansau ar gyfer rheoli’r farchnad yn y dyfodol. Mae hyn yn cyfateb i dros 3% o'r cap cyffredinol. Bydd hyn yn rhoi gwydnwch i’r Awdurdod ymateb mewn ffordd sy’n hyblyg, wedi ei thargedu ac yn amserol yn wyneb heriau yn y farchnad. Bydd hefyd yn cefnogi’r adolygiad parhaus o’r farchnad a fydd yn pennu’r ffordd y bydd polisïau’r farchnad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael eu cynllunio yn y dyfodol.
- **Newidiadau technegol i’r polisi dyrannu am ddim:** rydym wedi gwrando ar bryderon ynghylch nodweddion o’r polisi dyraniadau am ddim diwydiannol nad ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd ac rydym yn cymryd camau i fynd i’r afael â hyn. Rydym hefyd yn gwneud newidiadau wedi eu targedu i feincnodau a’r polisi dadleoli carbon ar gyfer rhanddeiliaid penodol yn y sectorau Echdynnu Brag a Chalch. Bydd ein hadolygiad o ddyraniadau am ddim yn parhau gyda’r nod o ddiweddaru’r fethodoleg i dargedu cymorth yn well i’r sectorau hynny y mae dadleoli carbon yn peri’r perygl mwyaf iddynt.
- **Diddymu’r dyraniad am ddim y sector hedfanaeth yn raddol:** yn unol â’r canfyddiadau mai ychydig iawn o risg sydd o ddadleoli carbon i’r sector hedfanaeth, ni fyddwn yn ymestyn y dyraniad ar gyfer y sector hedfanaeth ar gyfer cyfnod dyrannu 2026-2030. Rydym yn cydnabod y bydd angen amser ar fusnesau i baratoi ar gyfer y diddymu. Gan hynny, bydd gweithredwyr awyrennau yn cael eu hawl bresennol ar gyfer blynyddoedd 2024 a 2025 y cynllun fel y nodir yn nhabl dyraniadau’r sector

[1] Cyflwynir y ffigur hwn i'r 0.5 miliwn agosaf drwy gydol y ddogfen hon.
[2] Cyflwynir y ffigur hwn i'r 0.5 miliwn agosaf drwy gydol y ddogfen hon.

hedfanaeth. O'r herwydd, bydd yr hawl i ddyraniadau am ddim yn y sector hedfanaeth yn gostwng ar y swm sefydlog presennol o 2.2% bob blwyddyn yn 2024 a 2025 tan arwerthiant llawn yn 2026. Mae hyn yn sicrhau y gall gweithredwyr awyrennau baratoi ar gyfer y newid i arwerthiant llawn. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod darpariaethau i gynorthwyo cwmnïau awyrennau a llwybrau unigol. Os bydd angen, byddwn yn ystyried pa fesurau lliniaru priodol y gallai fod eu hangen i osgoi canlyniadau negyddol.

- **Ehangu cwmpas y cynllun:** bydd cynnwys sectorau ychwanegol yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU a chapio cyfran uwch o allyriadau'r DU yn cyfrannu ymhellach at gyflawni targedau sero net a thargedau lleihau carbon y DU am y gost leiaf i ddiwydiant. Yn amodol ar ymgynghori pellach ar y manylion gweithredu, rydym yn bwriadu ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys y sector morwrol domestig erbyn 2026, ac ynni o wastraff a llosgi gwastraff yn 2028 (a chyn hynny bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o ddwy flynedd rhwng 2026 a 2028). Ar ben hynny, byddwn yn ehangu cwmpas presennol y cynllun i greu tegwch rhwng gweithredwyr sy'n defnyddio piblinellau i gludo CO2 a rhai sy'n defnyddio dulliau eraill. Bydd awyru CO2 o olew a nwy ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi yn dod o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a byddwn yn ymgynghori ar gyflwyno meini prawf cynaliadwyedd biomas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer pob math o fiomas er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'i effeithiau ar farchnadoedd ac ar weithredwyr.
- **Ymgorffori technoleg Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr:** rydyn ni'n credu fod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn farchnad hirdymor ar gyfer Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr. Rydym yn bwriadu cynnwys technolegau Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu peiriannu yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn amodol ar ymgynghori pellach; bod trefn fonitro, adrodd a dilysu gadarn ar waith; a rheoli effeithiau ehangach. Credwn y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gynnig marchnad hirdymor briodol ar gyfer technolegau Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar natur, yn amodol ar wneud rhagor o waith i ystyried yr amrywiaeth o faterion posibl a gyflwynir drwy'r Cais am Dystiolaeth a chan y Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl ynghylch sefydlogrwydd, costau ac effeithiau ehangach o ran rheoli tir.

Mae cael polisi hinsawdd uchelgeisiol yn rhan hanfodol o sbarduno twf economaidd cynaliadwy. Mae'r rhain yn newidiadau strwythurol angenrheidiol a byddant yn cael eu rhoi ar waith yn bwyllog a fesul cam. Ein bwriad yw y bydd hyn yn ategu'r broses barhaus o drawsnewid ein systemau ynni ac yn rhoi arwydd clir i fusnesau, gan roi'r hyder iddynt fuddsoddi mewn datgarboneiddio hirdymor yn awr er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy.

I ategu dull gweithredu pwyllog, rydym yn ymrwymo i ymgynghori pellach – gyda'r bwriad o'i gynnal ddiwedd y flwyddyn hon – i ddatblygu a nodi manylion pwysig am ehangu'r cynllun i'r sector morwrol domestig a gwastraff, Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr, diwygiadau i'r farchnad ac adolygu'r polisi dyrannu am ddim. Byddwn yn ymgysylltu'n agos â chyfranogwyr yr effeithir arnynt i sicrhau bod dull gweithredu terfynol y meysydd polisi hyn yn briodol i fodloni gofynion y cynllun yn y dyfodol ac i sicrhau ei fod yn gweithio'n fwyaf effeithiol yng nghyd-destun y DU.

Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad ar Ddatblygu *Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU*[3], bu datblygiadau sylweddol yn y maes polisi hinsawdd yn ehangach. Ym mis Ionawr 2023, cafodd Llywodraeth y DU adroddiad terfynol yr *Adolygiad Annibynnol o Sero Net*.[4] Roedd yr adroddiad hwn yn pwysleisio maint y cyfle economaidd y mae sero net yn ei gynnig a'r angen i roi'r sicrwydd polisi hirdymor sydd ei angen ar fusnesau er mwyn iddynt fuddsoddi yn awr. Yn benodol, roedd yn nodi rôl well ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel sylfaen ar gyfer economi ffyniannus, wedi ei datgarboneiddio hyd at 2050 a thu hwnt.

Derbyniodd Llywodraeth y DU argymhelliad yr *Adolygiad Annibynnol o Sero Net* y dylai weithio o fewn Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i ddatblygu llwybr hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd yn ymrwymo i weithio o fewn yr Awdurdod i gyhoeddi'r weledigaeth hon ar gyfer datblygu'r cynllun erbyn diwedd y flwyddyn hon. Yn amodol ar gael cytundeb yn yr Awdurdod, bydd y llwybr hwn yn nodi ein bwriad i ddeddfu i barhau â'r Cynllun Masnachu Allyriadau ar ôl 2030 tan o leiaf 2050 a pharhau i alinio â sero net, ac i edrych ar ehangu'r cynllun i ragor o sectorau yn yr economi, gan gynnwys sectorau sy'n allyrru llawer.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn o ddogfennau gan gynnwys *Powering Up Britain: Energy Security Plan* a'r *Net Zero Growth Plan.*[5] Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn darparu strategaeth fanwl yn nodi sut bydd Llywodraeth y DU yn gwella diogelwch ynni'r DU ac yn cyflawni ein targedau sero net. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad hefyd ar *Fynd i'r afael â'r perygl o ddadleoli carbon i gefnogi datgarboneiddio*. [6] Mae hwn yn nodi amrywiaeth o fecanweithiau polisi posibl a fyddai, ar y cyd â diwygio dyraniad am ddim Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn darparu pecyn cyfannol o gymorth yn erbyn risg dadleoli carbon yn y dyfodol.

Mae'r penderfyniadau yn y ddogfen hon yn rhan o'r cyd-destun polisi ehangach hwn a byddwn yn parhau i weithio'n agos ar draws Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon i sicrhau bod dull cyfannol o ymdrin â pholisi hinsawdd ac ynni.

Yn y ddogfen hon rydym wedi cynnwys crynodebau o'r ymatebion rydym wedi eu cael, sy'n ceisio rhoi darlun cywir o bwysau'r safbwyntiau. Serch hynny, dylid trin hyn fel canllaw, o ystyried natur agored llawer o gwestiynau a'r nifer fawr o awgrymiadau amrywiol a gawsom. Nid yw'n ymarferol yn y ddogfen hon i fanylu ar bob safbwynt neu ddarn o dystiolaeth a ddarparwyd. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi adolygu ac ystyried yr holl gyflwyniadau yn llawn. Ni chafodd yr wybodaeth a ddarparwyd gan ymatebwyr ei chadarnhau na'i dilysu'n annibynnol wrth gynhyrchu'r ddogfen hon chwaith.

[3] https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets
[4] https://www.gov.uk/government/publications/review-of-net-zero
[5] https://www.gov.uk/government/publications/powering-up-britain
[6] https://www.gov.uk/government/consultations/addressing-carbon-leakage-risk-to-support-decarbonisation

## Llwybr tymor hirach ar gyfer datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Roedd yr *Adolygiad Annibynnol o Sero Net* yn cydnabod bod y DU wedi bod yn arweinydd byd-eang ym maes masnachu allyriadau ers dros ugain mlynedd. Roedd yr Adolygiad yn nodi rôl well ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel sylfaen ar gyfer economi ffyniannus, wedi ei datgarboneiddio hyd at 2050 a thu hwnt. Roedd yn dangos, gydag ymrwymiad hirdymor i farchnad garbon ehangach, y gallwn ddatgloi buddsoddiad yn seilwaith y DU, ysgogi arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg sydd gyda’r gorau yn y byd yn y DU, a chefnogi busnesau yn y DU sydd â’r dulliau mwyaf cost-effeithiol a hyblyg o gyflawni sero net.

Derbyniodd Llywodraeth y DU argymhelliad yr adolygiad y dylai weithio o fewn Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i ddatblygu llwybr hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, gan gynnwys:

- nodi gweledigaeth ar gyfer dyluniad a gweithrediad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y dyfodol a bwriad i ddeddfu i barhau â’r cynllun ar ôl 2030 tan o leiaf 2050;
- edrych ar y posibilrwydd o ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i fwy o sectorau yn yr economi, gan gynnwys sectorau sy’n allyrru llawer;
- datblygu opsiynau ar gyfer cynnwys Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr i gymell buddsoddiad cynnar mewn technolegau newydd; ac
- ystyried sut bydd y Llywodraeth yn lliniaru’r risg o ddadleoli carbon o ganlyniad i ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithio gydag Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gyhoeddi’r llwybr hirdymor hwn ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU erbyn diwedd 2023.

Mae llawer o’r gwaith hwn eisoes ar y gweill, gan gynnwys y cynigion i ddechrau ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ar gyfer ymgorffori Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr ac ar yr adolygiad o’r fethodoleg dyraniadau am ddim sy’n cael ei thrafod yn y ddogfen hon. Mae Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â gweddill yr Awdurdod i weithio tuag at gyhoeddi ymateb yr Awdurdod i argymhelliad yr *Adolygiad Annibynnol o Sero Net* ar y cynllun yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

# Pennod 1: Adolygiad o’r cap cyson â sero net, y lwfansau heb eu dyrannu, a dyraniadau am ddim

Mae’r bennod hon yn ymdrin â chynigion a nodir ym Mhenodau 1, 2 a 3 yn yr ymgynghoriad.

Mae’r Awdurdod wedi penderfynu gosod cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer 2021-2030 ar frig yr ystod gyson â sero net, sef 936 miliwn o lwfansau.

Rydym wedi ymrwymo i symleiddio’r newid i’r cap cyson â sero net a byddwn yn cynnig arwerthu 53.5 miliwn o lwfansau o’r cronfeydd wrth gefn yn ystod 2024-2027.

I ddechrau, byddwn yn cadw 29.5 miliwn o lwfansau wrth gefn ar gyfer mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad a mesurau lliniaru Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn y dyfodol, a bydd adolygiad o’r gronfa wrth gefn i ddilyn.

Bydd y cap diwydiant yn cael ei ailosod yn 2024 i gyd-fynd â chyflwyno cap cyson â sero net. Gan ystyried yr heriau sy’n wynebu’r diwydiant, rydyn ni wedi penderfynu gosod y cap diwydiant ar 40% o’r cap cyffredinol, lefel fwy hael na chadw’r gyfran bresennol o 37%.

Bydd lefelau cyfredol y dyraniadau am ddim yn cael eu gwarantu tan 2026, a bydd tua 2.5 miliwn o lwfansau o’r gronfa wrth gefn yn cael eu defnyddio i liniaru’r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn 2024-2025. Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau yn y dyfodol i’r fethodoleg dyraniadau am ddim cyn diwedd 2023.

## Cap cyson â sero net

### Crynodeb o'r Cynnig

Pan lansiwyd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, fe wnaethom ymrwymo i gysoni’r cap â'r trywydd sero net ac i roi’r newidiadau ar waith erbyn mis Ionawr 2024. Mae’r bennod hon yn cynnwys:

- Y penderfyniad am drywydd cyson â sero net ar gyfer y cap.
- Y penderfyniad ynghylch sut y byddwn yn pontio i gap cyson â sero net er mwyn sicrhau nad oes gostyngiad sydyn yn y cyflenwad o lwfansau.
- Y penderfyniad ynghylch faint o lwfansau i’w cadw wrth gefn a’u defnyddiau posibl.
- Y penderfyniad ar addasu’r cap diwydiant, sy’n gosod terfyn ar y lwfansau sydd ar gael i’w dosbarthu am ddim.

I ddechrau, gosodwyd y cap ar gyfer Cam I Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (2021-2030) 5% yn is na chyfran dybiannol ddisgwyliedig y DU o gap Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE ar gyfer Cam IV Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE (2021-2030). Roedd hyn yn cyfateb i tua 156 miliwn o lwfansau yn 2021 (ar gyfer gweithredwyr gweithfeydd sefydlog ac awyrennau) ac roedd yn debygol o weld gostyngiad o 4.2 miliwn o lwfansau bob blwyddyn.

Nododd yr Awdurdod amrywiaeth o werthoedd a allai, o dan rai amodau, ddarparu cap cyson â sero net ar gyfer y cynllun. Byddai'r cynnig yn gosod cyfanswm y cap ar gyfer Cam I ar lefel rhwng 887 miliwn o lwfansau a 936 miliwn o lwfansau.[7] O'i gymharu â'r cap sydd yn y ddeddf ar hyn o bryd, sef 1365 miliwn o lwfansau dros Gam I i gyd, byddai hyn yn golygu bod rhwng 30-35% yn llai o lwfansau'n cael eu darparu yn ystod y cam hwn. Byddai hyn yn gofyn am newid sylweddol yn lefel y cap yn 2024, a byddai'r cap wedyn yn tynhau dros y cyfnod, gan gyrraedd cap blynyddol o tua 50 miliwn o lwfansau yn 2030.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **1) Ydych chi'n cytuno ag ystod arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer y cap sy'n gyson â sero net? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**2) Yn eich barn chi beth fydd effaith y cap a bennir ar waelod yr ystod (h.y. Cyfanswm o tua 887 miliwn o lwfansau dros y cam cyfan) ar eich cynlluniau i leihau allyriadau yn ystod y 2020au?**<br><br>**3) Yn eich barn chi beth fydd effaith y cap a bennir ar frig yr ystod (h.y. cyfanswm o tua 936 miliwn o lwfansau dros y cam cyfan) ar eich cynlluniau i leihau allyriadau yn ystod y 2020au?** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cawsom 114 o ymatebion i'r cynigion ym Mhennod 1 yr ymgynghoriad. O'r rhain, roedd 41 (36%) yn cytuno ag ystod arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer y cap cyson â sero net, roedd 50 (44%) yn anghytuno, ac nid oedd 23 (20%) wedi ymateb. Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi cyfuno neu ailadrodd eu hatebion, felly rydym wedi grwpio'r ymatebion i gwestiynau 1, 2 a 3.

Y thema fwyaf cyffredin oedd pryder nad yw'r ystod arfaethedig ar gyfer y cap yn cyd-fynd â'r dechnoleg sydd ar gael a'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer datgarboneiddio. Soniodd pedwar deg naw o ymatebwyr (43%) am hyn. Er enghraifft, dywedodd cwmni yn y sector dur nad yw'r 'ystod arfaethedig ar gyfer y cap cyson â sero net yn ystyried pa mor gyflym y gall gweithfeydd yn y sector a fasnachir â hi leihau eu hallyriadau'. Cyfeiriwyd yn aml am Gasglu, Defnyddio a Storio Carbon a Hydrogen fel enghreifftiau o'r dechnoleg sydd ei hangen ar weithfeydd i ddatgarboneiddio, ond mae'n annhebygol y bydd y dechnoleg ar gael tan ddiwedd y 2020au a dechrau'r 2030au.

[7] Lluosir gyda ffactor y gostyngiad ar gyfer ysbytai ac allyrwyr bach

Dywedodd llawer a oedd yn anghytuno â'r ystod arfaethedig ar gyfer y cap fod y newid sylweddol yn y cap yn 2024 yn symud yn rhy gyflym. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch effeithiau negyddol posibl fel mwy o risg o ddadleoli carbon, rhoi diwydiant y DU o dan anfantais gystadleuol, a phryderon y bydd cap rhy lym yn cynyddu pris carbon ac yn atal buddsoddiad. Roedd diwydiannau sy'n defnyddio llawer o garbon lle mae perygl o ddadleoli carbon, fel cerameg a dur, yn poeni'n benodol am effeithiau negyddol posibl yr ystod. Roedd diwydiannau fel cerameg, sydd fel arfer â gweithfeydd mewn lleoliadau gwasgaredig, yn mynegi pryderon ynghylch mynediad at ddatrysiadau datgarboneiddio newydd.

Wrth ymateb i gwestiynau 2 a 3, dywedodd llawer o ymatebwyr ei bod yn anodd amcangyfrif yr union effeithiau ar eu busnes heb gynnal asesiad effaith a heb gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau ehangach y llywodraeth i liniaru dadleoli carbon. Gofynnodd dau ddeg tri (20%) o ymatebwyr am asesiad effaith manylach. Galwodd dau ddeg pedwar o ymatebwyr am ddatblygu a/neu weithredu polisi lliniaru dadleoli carbon (fel dyraniadau am ddim a Mecanwaith Addasu Ffin Garbon y Deyrnas Unedig) ar yr un pryd â chap cyson â sero net.

Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno ag ystod arfaethedig y cap yn gwneud hynny ar y sail y byddai'n helpu i gyrraedd targedau hinsawdd ac yn arwydd hirdymor effeithiol o ddatgarboneiddio. Roedd nifer o ymatebwyr yn y sector ynni yn cefnogi ystod arfaethedig y cap ac roeddent ymysg y 33 o ymatebwyr (29%) a oedd o'r farn bod yr ystod yn cyd-fynd â thargedau hinsawdd y DU, fel cyllidebau carbon a sero net. Er enghraifft, dywedodd cwmni yn y sector ynni fod yr 'ystod arfaethedig' yn cyd-fynd â'n cyllidebau carbon a deddfwriaeth sero net a dylai ddarparu arwydd hirdymor effeithiol ar gyfer datgarboneiddio.

Roedd rhai ymatebion hefyd yn nodi bod cysylltiad rhwng cap tynnach a'r manteision y gallai hynny ei greu drwy ddenu mwy o fuddsoddiad. Er enghraifft, nododd un ymatebydd a oedd yn cefnogi'r ystod a amlinellwyd ar gyfer y cap 'bydd hyn yn anfon neges glir y dylai cyfranogwyr y Cynllun Masnachu Allyriadau fuddsoddi mewn technolegau datgarboneiddio, treialon arloesi, mesurau effeithlonrwydd ynni ac adnoddau, a newid tanwydd.' Roedd un ymatebydd o'r farn ei bod yn 'hanfodol i'r cap fod yn gyson â'r trywydd lleihau allyriadau sydd ei angen i gyflawni sero net'. Dywedodd ymatebydd arall eu bod yn cydnabod yr angen i leihau ystod y cap ymhellach na'r hyn a gynhigiwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd.

Mynegodd rhai ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cap arfaethedig bryderon ynghylch gallu gweithfeydd i ddatgarboneiddio yn unol â'r ystod heb gael gwell mynediad at opsiynau datgarboneiddio. Er enghraifft, roedd un gymdeithas fasnach yn croesawu cysoni Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU â sero net, ond dywedodd nad yw'r cynigion ar gyfer y cap cyson â sero net yn ystyried 'argaeledd technolegau ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol dros y cyfnod hwn na thrywyddau datgarboneiddio amrywiol sectorau fel yr amlinellir yn Strategaeth Sero Net y llywodraeth ei hun'. Galwodd nifer o ymatebwyr am fwy o gyllid gan y llywodraeth i gefnogi datgarboneiddio'r sector a fasnachir.

Gofynnom am gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar y cynigion ym Mhennod 1 ar gyfer cysoni cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU â thrywydd cyson â sero net. Dywedodd y Pwyllgor

Newid Hinsawdd, yn ei adroddiad Cynnydd o ran lleihau allyriadau[8] ym mis Mehefin 2022, “Oherwydd bod cydbwysedd gwahanol o allyriadau fesul sector yn nhrywydd y Llywodraeth o’i gymharu â’r hyn sydd yn ein Trywydd Cytbwys (e.e. mae trywydd y Llywodraeth wedi gosod rhagamcanion is ar gyfer allyriadau o gynhyrchu trydan), mae cap arfaethedig Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dynnach na’r hyn a argymhellir gan y Pwyllgor. Mae hyn yn briodol, o ystyried y trywydd a nodir yn y Strategaeth Sero Net.” Roedd eu llythyr dilynol[9] at y Gwir Anrhydeddus Graham Stuart AS ynghylch datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, dyddiedig 11 Hydref 2022, yn ailadrodd y cyngor hwn.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod wedi penderfynu ailosod cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer 2021-2030 ar frig yr ystod gyson â sero net, sef 936 miliwn o lwfansau, gostyngiad o 30% yn ystod y cyfnod hwn. Rydym wedi asesu’r ymatebion i’r cynigion ym Mhennod 1 yr ymgynghoriad ac mae’r wybodaeth a’r dystiolaeth a ddarparwyd wedi llywio’r penderfyniad. Rydym wedi arfarnu asesiadau wedi eu diweddaru o gynnydd o ran lleihau allyriadau ac wedi ystyried y prif amcan o gysoni’r cap â thargedau hinsawdd uchelgeisiol y DU a sicrhau arwydd hirdymor effeithiol ar gyfer datgarboneiddio. Rydym hefyd wedi ystyried yr amcanion ychwanegol o ddarparu proses bontio ddidrafferth i gyfranogwyr a lliniaru unrhyw effeithiau anfwriadol y gallai’r llwybr canlyniadol eu cael ar y risg o ddadleoli carbon, cystadleurwydd a fforddiadwyedd.

Mae gosod y cap ar frig yr ystod yn gyson â sero net a, thrwy ganiatáu mwy o lwfansau, bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i reoli’r farchnad a risgiau dadleoli carbon o’i gymharu ag opsiynau sy’n is yn yr ystod. Rydym yn cydnabod y newid sylweddol mewn lwfansau o dan y cap o 2024 ymlaen ac wedi clywed am bryderon gan rai sectorau diwydiannol am yr effeithiau posibl. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi cymryd camau i esmwytho’r newid ac i sicrhau nad oes gostyngiad sydyn yn y cyflenwad o lwfansau rhwng 2023 a 2024, er mwyn lleihau’r risg y bydd hyn yn gwthio’r pris i fyny (gweler yr ymateb i gwestiwn 30). Bydd y newid hwn yn digwydd yn raddol, gan roi amser i’r farchnad a chyfranogwyr addasu.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn parhau yn erbyn dadleoli carbon ar gyfer busnesau yn y tymor canolig drwy barhau i ddarparu dyraniad am ddim. Ochr yn ochr â mecanweithiau polisi ehangach ar gyfer diogelu rhag dadleoli carbon yn y dyfodol, dylai hyn helpu i liniaru unrhyw effeithiau anfwriadol yn sgil addasu’r cap. Yn nes ymlaen yn y bennod hon, rydym yn nodi penderfyniad yr Awdurdod i ddarparu mesurau lliniaru yn erbyn dadleoli carbon drwy ei benderfyniad ar lefel y cap diwydiant a newidiadau i ddyraniadau am ddim yn y dyfodol.

Mynegodd nifer o gyfranogwyr bryderon na fyddai’r dechnoleg a’r seilwaith sydd eu hangen ar gyfer datgarboneiddio ar gael. Yn benodol, bydd datgarboneiddio diwydiannol yn gofyn am drawsnewid technolegol sylweddol a bydd angen cefnogaeth gan lunwyr polisïau, buddsoddwyr a busnesau. Mae’r blwch testun atodol ar ddatgarboneiddio diwydiannol yn nodi rhai o’r ymrwymiadau y mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a’r

[8] https://www.theccc.org.uk/publication/2022-progress-report-to-parliament/
[9] https://www.theccc.org.uk/publication/letter-development-of-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets/

Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon wedi eu gwneud i gefnogi datgarboneiddio diwydiannol, ac mae’r manylion ar gael isod.

Mae’r cap sero net yn gosod terfyn ar gyfanswm yr allyriadau ar gyfer pob sector sy’n dod o dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU – mae’n adlewyrchu ymdrech gronnol yr holl gyfranogwyr o dan y cynllun dros amser. Mae’r cap a’r mecanwaith masnachu, gan gynnwys y gallu i gario lwfansau drosodd o un flwyddyn i’r llall, yn golygu mai busnesau a diwydiant sy’n gwneud eu penderfyniadau ynghylch ble a phryd mae gostyngiadau’n digwydd, ac mae’n debygol y bydd gwahanol ddiwydiannau’n datgarboneiddio ar hyd gwahanol drywyddau.

Mae’r Awdurdod yn glir bod angen symud i gap cyson â sero net i gefnogi’r ymrwymiadau hinsawdd a wnaed gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae symud i gap sy’n gyson â sero net yn cefnogi cynllun hirdymor y Llywodraeth i roi terfyn ar gyfraniad domestig y DU at newid yn yr hinsawdd a achosir gan ddyn erbyn 2050. Mae Llywodraeth y DU yn dal i lynu at y Strategaeth Sero Net, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, fel ei gynllun i gyflawni sero net erbyn 2050. Mae penderfyniad yr Awdurdod ar gap Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn rhoi arwydd clir i ddatgarboneiddio ar y cyflymder a’r raddfa sy’n ofynnol i gadw allyriadau ar lefel y cap neu’n is na hynny.

Wrth wneud ei benderfyniadau ar ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, mae’r Awdurdod wedi ystyried dyletswyddau’r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, gan gynnwys dyletswyddau o ran cyllidebau carbon a chyrraedd y targed sero net.[10] Roedd Cynllun Cyflawni’r Gyllideb Garbon, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, yn amlinellu bod y Llywodraeth yn disgwyl i’w pholisïau a’i chynigion meintiol gyflawni dros 100% o’r gostyngiadau mewn allyriadau sy’n ofynnol i gyflawni cyllideb garbon 4. Ar y sail hon, mae’r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net wedi rhoi gwybod i’r Awdurdod bod sefyllfa polisi Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn gyson â chynlluniau Llywodraeth y DU i ganiatáu cyflawni cyllideb garbon pedwar. Bydd y penderfyniadau yn Ymateb yr Awdurdod hwn hefyd yn helpu i ganiatáu cyflawni cyllidebau carbon pump a chwech. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflawni ei Chyfraniad a Bennir yn Genedlaethol 2030 a bydd yn adrodd i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd ar gynnydd tuag at gyflawni hyn yn 2024 a phob dwy flynedd ar ôl hynny. Mae Gweinidogion ar draws Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a’r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn fodlon bod y cynigion yn bodloni eu cyllidebau carbon eu hunain.

Bydd angen addasu’r cap ymhellach ar ôl ychwanegu sectorau newydd at Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Bydd unrhyw newid yn cadw’r un uchelgais o ran y gostyngiadau sydd eu

[10] O dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, mae’r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau na fydd allyriadau’r DU yn mynd y tu hwnt i’r lefel a bennir mewn cyllidebau carbon (dyletswydd adran 4); paratoi polisïau a chynigion ar gyfer galluogi cyflawni cyllidebau carbon (dyletswydd adran 13); ac am gyflwyno adroddiad gerbron y Senedd yn nodi’r rhain ar ôl pennu pob cyllideb garbon (dyletswydd adran 14).

hangen mewn allyriadau â'r cap cyson â sero net a amlinellir uchod ar gyfer y sector a fasnachir ar hyn o bryd. Mae rhagor o fanylion ar gael ym Mhennod 6[11].

Mae gwybodaeth am ddatgarboneiddio diwydiannol a chymorth prisiau ynni ar gael isod.

### Cymorth Datgarboneiddio Diwydiannol:

Mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cydnabod bod angen cyfres gynhwysfawr o bolisïau gan gynnwys cyllid, rheoleiddio a phrisiau carbon i gyflawni'r datgarboneiddio sydd ei angen arnom y degawd hwn drwy dechnoleg sydd wedi llwyddo, a chyflymu'r broses o ddefnyddio technolegau arloesol fel hydrogen a Dal, Defnyddio a Storio Carbon.

Gyda Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cymell buddsoddiad mewn datgarboneiddio, ac yn codi £6.1 biliwn yn 2022, mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gweithio gyda busnesau i sicrhau bod y gefnogaeth a'r fframweithiau economaidd cywir ar waith i gyflawni sero net.

Mae refeniw Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU eisoes yn cefnogi blaenoriaethau allweddol y llywodraeth, gan gynnwys datgarboneiddio. Ymrwymodd Llywodraeth y DU i wneud buddsoddiad domestig o £30 biliwn ar gyfer y chwyldro diwydiannol gwyrdd yn yr Adolygiad o Wariant 2021, £6 biliwn ar gyfer effeithlonrwydd ynni ar gyfer 2025-2028 yn Natganiad yr Hydref 2022, a hyd at £20 biliwn ar gyfer Dal, Defnyddio a Storio Carbon a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y Gwanwyn 2023. Ers mis Tachwedd 2020, mae dros 80,000 o swyddi gwyrdd yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd neu ar y gweill ar draws economi'r DU o ganlyniad i bolisïau newydd a gwariant y llywodraeth.

Ar gyfer diwydiant, mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon wedi ymrwymo i roi cefnogaeth ariannol a chefnogaeth polisi ar gyfer datgarboneiddio. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i barhau i gefnogi effeithlonrwydd ynni drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol, estyniad a gyhoeddwyd yn y cynllun Twf Sero Net, gan gynyddu cyfanswm y cyllid grant sydd ar gael i £500 miliwn.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymestyn y Cynllun Cytundebau Newid yn yr Hinsawdd am ddwy flynedd, sy'n darparu cyfraddau'r Ardoll Newid yn yr Hinsawdd is ar gyfer busnesau cymwys mewn dros 50 o sectorau diwydiannol sy'n werth tua £300 miliwn y flwyddyn, ac mae wedi cyhoeddi rhestr negodi prosiect Dal, Defnyddio a Storio Carbon Trac-1, gan gynnwys prosiectau dal diwydiannol. I fynd i'r afael ag allyriadau diwydiannol y tu allan i glystyrau, bydd cystadleuaeth y Cynlluniau Datgarboneiddio Diwydiannol Lleol gwerth £5 miliwn yn cael ei lansio'r haf hwn. Bydd yn cefnogi gweithgynhyrchwyr diwydiannol gwasgaredig i ddatgarboneiddio a dechrau eu taith tuag at ddyfodol carbon isel.

Ar gyfer gweithgynhyrchwyr diwydiannol cymwys sydd â safleoedd yn yr Alban, mae Cronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol yr Alban - Effeithlonrwydd ynni - yn dal ar waith ac wedi rhoi

[11] Gweler tud. 100-131

dros 20 o gynigion grant. Ar ôl galw tair gwaith ar brosiectau sy’n cefnogi diwydiannau gweithgynhyrchu i ariannu technolegau effeithlonrwydd ynni sy’n barod ar gyfer buddsoddi a phrosiectau, yn ogystal ag astudiaethau, defnyddio datgarboneiddio dyfnach, mae SIETF yn cael ei adolygu cyn i Lywodraeth yr Alban wneud cyhoeddiad ynghylch rowndiau pellach.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi cynlluniau a chefnogaeth ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol. Mae ei Gynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu yn ddull cydweithredol a chydgysylltiedig o gefnogi gweithgynhyrchu, gan ddod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i fynd i’r afael â materion pwysig fel yr argyfwng hinsawdd, gwella cydnerthedd y gadwyn gyflenwi, datblygu sgiliau o’r radd flaenaf a sbarduno mwy o Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. Mae hyn yn cael ei gefnogi drwy greu sefydliad Diwydiant Sero Net Cymru, a fydd yn helpu diwydiant i ddatblygu trywyddau sero net, a Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cymorth ariannol ar gyfer datgarboneiddio drwy’r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru. Nod y cynllun yw buddsoddi £10 miliwn dros dair blynedd mewn prosiectau gan gynnwys ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni ac uwchraddio peiriannau.

Byddwn yn parhau i adolygu a yw’r rhain yn ddigonol i gefnogi datgarboneiddio sectorau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac i sicrhau cydbwysedd teg o ran cyfraniadau gan y sectorau preifat a chyhoeddus i’r newid i sero net.

## Cymorth gyda Phrisiau Ynni:

Cymerodd Llywodraeth y DU gamau cyflym a phendant ar raddfa na welwyd ei thebyg o’r blaen i gefnogi aelwydydd a busnesau, drwy’r Cynllun Cymorth Biliau Ynni tan fis Mawrth 2023 a’r Warant Pris Ynni tan fis Mawrth 2024 ar gyfer defnyddwyr domestig, a’r Cynllun Rhyddhad Biliau Ynni tan fis Mawrth 2023 a’r Cynllun Disgownt Biliau Ynni tan fis Mawrth 2024 ar gyfer defnyddwyr ynni annomestig. Mae’r Cynllun Disgownt Biliau Ynni wedi ei anelu at sectorau sy’n gwneud defnydd arbennig o uchel o ynni a dwysedd masnach, ac mae llawer ohonynt yn dod o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer yr aelwydydd mwyaf agored i niwed drwy daliadau penodol ar gyfer costau byw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £90 miliwn i gefnogi aelwydydd agored i niwed gyda chostau cynyddol ynni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cynnwys cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru sy’n cynnig taliad o £200 i bob aelwyd gymwys. Mae’r cyllid hefyd wedi cefnogi cynllun talebau dan arweiniad y Sefydliad Banc Tanwydd i gefnogi’r rhai sydd ar fesuryddion talu ymlaen llaw nad ydynt yn gallu rhoi mwy o arian ar eu mesuryddion a chronfa gwres ar gyfer y rhai oddi ar y grid nwy i brynu tanwydd mewn swmp. Ar ben hynny, mae’r Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru hefyd yn cynnig cymorth brys ar gyfer prynu ynni oddi ar y grid nwy fel olew a Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi i gefnogi awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i ehangu a gwella’r ddarpariaeth o Hybiau Cynnes ledled Cymru sy’n cynnig mannau cynnes a diogel i bobl nad ydynt yn gallu fforddio gwresogi eu cartrefi. Mae Rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru, sy’n cynnwys y Cynllun Nyth sy’n cael ei arwain gan y galw yn darparu

cymorth i wella effeithlonrwydd ynni'r aelwydydd incwm isel sydd â'r cartrefi lleiaf thermo-effeithlon yng Nghymru. Buddsoddwyd £420 miliwn i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, ac mae dros 73,000 o aelwydydd ar incwm is wedi elwa o hyn.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn buddsoddi hyd at £30 miliwn eleni drwy'r Gronfa Ansicrwydd Tanwydd. Un o flaenoriaethau cyntaf y Prif Weinidog yw gwneud popeth yn ein gallu i ddiogelu pob Albanwr, cyn belled ag y bo modd, rhag y niwed a achosir gan yr argyfwng costau byw. Dyna pam mai un o'r camau cyntaf a gymerodd oedd mynd gam ymhellach na dyblu'r Gronfa Diogelwch Tanwydd fel y gwnaed y llynedd, gan ei threblu ar gyfer 2023-2024. Mae'r Gronfa yn elfen hollbwysig yn ein cefnogaeth i bobl sy'n cael trafferth talu eu costau ynni. Mae'n parhau i fod yn achubiaeth i aelwydydd sydd mewn perygl o ddogni i'w hunain neu o ddatgysylltu eu hunain rhag defnyddio ynni. Partneriaid trydydd sector fydd yn darparu hyn er mwyn cefnogi'r aelwydydd mwyaf agored i niwed yn yr Alban.

Ar ben hynny, mae Taliad Gwres y Gaeaf newydd Llywodraeth yr Alban yn disodli Taliad Tywydd Oer yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yn darparu £50 sefydlog a dibynadwy'r flwyddyn a fydd yn helpu tua 400,000 o unigolion ar incwm isel i dalu eu costau gwresogi bob gaeaf. Yn 2022-2023, mae Llywodraeth yr Alban wedi dyrannu £119 miliwn wedi ei dargedu at aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd i gyflwyno gwelliannau i effeithlonrwydd gwres ac ynni i helpu i leihau biliau ynni. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy becyn cymorth drwy raglenni sydd wedi eu hen sefydlu ac eisoes wedi cefnogi dros 150,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o hynny (Cynlluniau Ardaloedd, Home Energy Scotland a Warmer Homes Scotland). Yn olaf, rhoddodd Llywodraeth yr Alban £8 miliwn eleni i helpu mentrau bach a chanolig, sefydliadau nid-er-elw ac elusennau yn yr Alban i ariannu'r gwaith o osod mesurau effeithlonrwydd ynni a gwresogi adnewyddadwy.

Yn fwy cysylltiedig â phrisio carbon, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Ebrill 2022 y bydd y Cynllun Iawndal Diwydiannau Ynni-ddwys hirsefydlog, sy'n darparu rhyddhad o'r Cynllun Masnachu Allyriadau a chostau system cymorth prisiau carbon ar ddefnydd trydan busnesau, yn cael ei ymestyn am dair blynedd arall a bydd lefel ei gyllideb yn cael ei ddyblu. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gymorth ychwanegol hefyd gyda phrisiau trydan drwy Wibwefrwr Diwydiant Prydain, a fydd yn cael gwared â chostau polisi o filiau trydan Diwydiannau Ynni-ddwys o 2024 ymlaen.

## Opsiynau ar gyfer dod â lwfansau heb eu dyrannu i'r farchnad

Mae Pennod 3 yr ymgynghoriad yn nodi tri llwybr i ddod â lwfansau heb eu dyrannu i'r farchnad. Mae'r Awdurdod wedi penderfynu:

- Defnyddio oddeutu 2.5m o lwfansau o'r gronfa wrth gefn i liniaru Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau rhwng 2024-2026 ar ôl addasu'r Cap Diwydiant. Bydd hyn yn diogelu lefelau presennol y Dyraniad am Ddim ar gyfer gweddill y cyfnod dyrannu hwn.
- Arwerthu 53.5m o lwfansau o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod 2024-2027, i esmwytho'r newid i gap cyson â sero net.

- Cadw 29.5m o lwfansau wrth gefn ar gyfer defnyddiau, fel sefydlogrwydd y farchnad a mesurau lliniaru Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn y dyfodol (ar ôl 2026).

Mae'r cap diwydiant yn gosod terfyn ar faint o lwfansau sydd ar gael i'w rhoi am ddim i weithfeydd sefydlog. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau dosbarthiad cytbwys o lwfansau rhwng dyraniad am ddim a chyfran yr arwerthiant. Os yw'r cymhwysedd ar gyfer dyrannu am ddim mewn cyfnod neilltuo penodol yn fwy na'r cap diwydiant, mae'r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn defnyddio gostyngiad unffurf i ddyraniad am ddim pob cyfranogwr. Er mwyn osgoi defnyddio'r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau, gellir defnyddio lwfansau wrth gefn i ychwanegu at ddyraniad am ddim mewn blynyddoedd i ddod lle mae mwy o gymhwysedd nag y gellir darparu ar ei gyfer.

# Symleiddio'r newid i gap cyson â sero net a chefnogi hylifedd y farchnad

## Crynodeb o'r Cynnig

Bydd rhoi cap cyson â sero net ar waith yn 2024 yn golygu bod angen gostwng nifer y lwfansau sy'n cyrraedd y farchnad yn 2024 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd yr Awdurdod yn cynnig arwerthu chyfran o lwfansau heb eu dyrannu yn 2021-2023 a/neu gyfran hyblyg, er mwyn symleiddio'r newid i'r cap cyson â sero net.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **30) Ydych chi'n cytuno y dylai cyfran o lwfansau heb eu dyrannu a/neu gyfran hyblyg gael eu dyrannu fel bod y broses o bontio i'r cap sero net yn un esmwyth? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**31) Ydych chi'n cytuno y dylem ystyried arwerthu cyfran o lwfansau heb eu dyrannu a/neu gyfran hyblyg cyn 2024 er mwyn cefnogi hylifedd y farchnad? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 66 o ymatebion i gwestiwn 30, ac roedd 41 (62%) ohonynt yn cytuno â'r cynnig i arwerthu lwfansau er mwyn symleiddio'r newid i'r cap cyson â sero net. Nid oedd 16 (24%) yn cytuno, ac ni wnaeth naw (14%) ohonynt ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. O'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol, y themâu allweddol oedd cefnogi hylifedd, sicrhau sefydlogrwydd prisiau lwfansau, lliniaru cynnydd tymor byr mewn prisiau, a mynd i'r afael â damcaniaethu gan endidau nad ydynt yn cydymffurfio. Nododd pum ymatebydd (8%) y bydd yn bwysig sicrhau tryloywder a sicrwydd ynghylch rhyddhau'r lwfansau hyn.

O'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol, dywedodd 10 (15%) mai dim ond ar ôl lliniaru'r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau y dylid dod â lwfansau ychwanegol ar y farchnad. Roedd pymtheg o

ymatebwyr (23%) nad oeddent yn cytuno â'r opsiwn hwn hefyd yn ffafrio rhoi blaenoriaeth i fesurau lliniaru Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau. Argymhellodd nifer o ymatebwyr y dylid defnyddio'r lwfansau hyn yn lle hynny i sicrhau sefydlogrwydd y farchnad ac roedd un yn teimlo y gallai arwerthu'r lwfansau hyn arwain at fwy o fasnachu damcaniaethol yn y farchnad. Soniodd eraill bod angen rhagor o wybodaeth.


Cafwyd 63 o ymatebion i gwestiwn 31, ac roedd 31 ohonynt (49%) yn cytuno â'r cynnig, roedd 21 (33%) yn anghytuno hynny ac nid oedd wyth (13%) wedi ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn. Roedd y rhai oedd yn anghytuno â'r cynnig yn teimlo y byddai defnyddiau eraill yn well, fel mesurau lliniaru Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau a defnyddio mecanweithiau i sicrhau sefydlogrwydd y farchnad yn y dyfodol.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu arwerthu 53.5 miliwn o lwfansau heb eu dyrannu yn ystod 2024-2027. Rydym wedi gwrando ar farn ymgyngoreion ynghylch hylifedd tymor byr yn y farchnad a symleiddio'r newid i'r cap cyson â sero net. Drwy ryddhau lwfansau ychwanegol ymlaen llaw, byddwn yn sicrhau nad oes gostyngiad sydyn mewn lwfansau rhwng 2023 a 2024, a byddwn yn rhoi amser i'r farchnad addasu. Rydym yn credu bod hwn yn ddull cytbwys, a fydd hefyd yn galluogi lwfansau digonol i liniaru Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau rhwng 2024-2026 ar ôl addasu'r Cap Diwydiant, ac i ganiatáu i greu cronfa wrth gefn o lwfansau ar gyfer defnyddiau yn y dyfodol gan gynnwys mesurau lliniaru Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn y dyfodol (ar ôl 2026), neu i'w defnyddio mewn mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad (gweler ymateb yr Awdurdod i gwestiwn 32).

Mae'r siart isod yn dangos sut bydd lwfansau heb eu dyrannu yn newid yn ddidrafferth i'r cap sero net.

**Ffigur 1: Siart yn dangos cap cyson â Sero Net yn erbyn y sicrwydd lwfans a amcangyfrifir ac allyriadau gwirioneddol (2021 – 2023)**




Mae lwfansau o dan y cap yn cael eu dosbarthu i'r farchnad mewn ffyrdd gwahanol, felly nid yw trywydd y cap sero net yn y ddeddf yn adlewyrchiad o faint o lwfansau fyddai o reidrwydd yn cyrraedd y farchnad bob blwyddyn i gyd. Bydd union ddosbarthiad lwfansau at ddibenion gwahanol (gan gynnwys dyraniadau am ddim, cyfran o'r arwerthiant, atodiad at yr arwerthiant, ac unrhyw ffactorau sy'n sbarduno mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad) yn effeithio ar bryd mae lwfansau'n cyrraedd y farchnad yn ystod y cam hwn.

Mae Ffigur 1 yn dangos y cyflenwad o lwfansau a ddosbarthwyd dros y cyfnod drwy arwerthiant, dyraniad am ddim neu drwy'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ymgeiswyr Newydd. Mae'r llinell werdd yn dangos y cap yn y ddeddf ar gyfer y cyfnod, ac mae'r ardal las yn dangos pryd fydd y lwfansau ar gael ar y farchnad. Mae'r llinell ddotiog goch yn dangos bod allyriadau gwirioneddol yn 2021 yn is na'r cap yn y ddeddf (y llinell werdd) ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r graff hefyd yn dangos nad yw nifer o'r lwfansau o dan y cap yn y ddeddf rhwng 2021-2023 ar gael ar y farchnad eto, sef y lwfansau sydd heb eu dyrannu.

Disgwylir i'r cyflenwad o lwfansau dros 2024-2027 fod yn uwch na'r cap cyson â sero net yn y ddeddf. Dyma'r lwfansau sydd heb eu dyrannu sy'n cael eu cynnig drwy arwerthiant er mwyn symleiddio'r broses newid. Mae'r lwfansau hyn eisoes wedi cael eu creu ym mlynyddoedd blaenorol y cynllun o fewn terfynau cyffredinol y cap, ac ni fydd hyn felly'n effeithio ar gryfder yr uchelgais gyffredinol.

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y lwfansau a fydd yn cael eu cynnig drwy arwerthiant bob blwyddyn yn ystod gweddill y cyfnod. Mae'r tabl yn cynnwys arwerthiant atodol rhwng 2024 a 2027. Bydd y lwfansau hyn yn cael eu cynnig i'r farchnad o'r lwfansau sydd heb eu dyrannu.


**Ffigur 2: Tabl yn nodi cyfanswm y lwfansau ar gyfer arwerthiant dros weddill y Cam, i'r 100,000 agosaf.** [12]

| | *2024* | *2025* | *2026* | *2027* | *2028* | *2029* | *2030* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cyfran yr arwerthiant* | *45,000,000* | *41,900,000* | *41,300,000* | *36,100,000* | *26,100,000* | *24,700,000* | *23,800,000* |
| *Arwerthiant atodol* | *23,300,000* | *13,300,000* | *10,000,000* | *6,700,000* | *0* | *0* | *0* |
| *Cyfanswm y lwfansau blynyddol a arwerthwyd* | *68,200,000* | *55,200,000* | *51,300,000* | *42,700,000* | *26,100,000* | *24,700,000* | *23,800,000* |

Gan nodi pwysigrwydd sicrwydd fel y nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd calendr yr arwerthiant, a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn cyn y flwyddyn dan sylw, yn parhau i nodi cyfanswm y lwfansau sy'n cael eu cynnig mewn arwerthiant bob blwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am ddosbarthiad a defnyddiau lwfans Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gael yn ddiweddarach yn y bennod hon.

[12] Mae'r tabl hwn at ddibenion enghreifftiol. Efallai na fydd y rhifau'n cyfateb oherwydd talgrynnu.

**Ffigur 3: Siart yn dangos maint llawn yr arwerthiant blynyddol, gan gynnwys y lwfansau a arwerthwyd o'r dyraniadau am ddim ar gyfer gweithfeydd sefydlog heb eu dyrannu a'r gyfran hyblyg**




Mae Ffigur 3 yn dangos maint blynyddol yr arwerthiant ar gyfer y cam. Cyfanswm y lwfansau heb eu dyrannu a ddefnyddir i symleiddio'r newid yn nifer yr arwerthiannau yw tua 53.5 miliwn. Mae'r darlun yn dangos y bydd hwn yn newid graddol yn ymarferol, gan roi amser i gyfranogwyr a'r farchnad addasu.

# Cadw lwfansau er mwyn sefydlogi'r farchnad

## Crynodeb o'r Cynnig

Cynigiodd yr Awdurdod gadw cyfran o lwfansau heb eu dyrannu a/neu gyfran hyblyg er mwyn sefydlogi'r farchnad.

| **Cwestiwn** |
|---|
| **32) Ydych chi'n cytuno y dylai cyfran o lwfansau heb eu dyrannu a/neu gyfran hyblyg gael eu cadw at ddibenion sefydlogrwydd marchnadoedd? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 57 o ymatebion i gwestiwn 32, ac roedd 45 ohonynt (79%) yn cytuno â'r cynnig, roedd pedwar (7%) yn anghytuno â hynny ac nid oedd wyth (12%) wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig, nododd nifer y byddai'n well ganddynt gael mecanwaith awtomatig yn hytrach na mecanwaith yn ôl disgresiwn er mwyn

sefydlogi’r farchnad. Dywedodd nifer hefyd y byddai ond yn well ganddynt yr opsiwn hwn pe gellid lliniaru yn erbyn Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau.

Dywedodd y rhai a oedd yn anghytuno y dylid defnyddio lwfansau ar gyfer mesurau lliniaru’r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau neu gael eu harwerthu.

### Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod wedi penderfynu cadw 29.5 miliwn o lwfansau wrth gefn fel y gyfran hyblyg, yn amodol ar adolygiad yn nes ymlaen yn 2023. Gellir defnyddio’r lwfansau hyn ar gyfer ymyriadau sefydlogi’r farchnad a mesurau lliniaru’r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn y dyfodol (ar ôl 2026). Mae hyn tua 3% o’r cap cyson â sero net ac mae’n debyg i gyfran bresennol y cap sy’n cael ei gadw wrth gefn fel y gyfran hyblyg. Mae’r nifer hefyd yn debyg i gyfran y lwfansau y bydd Cynlluniau Masnachu Allyriadau eraill ar draws y byd yn eu rhoi o’r neilltu ar gyfer cynlluniau wrth gefn yn y dyfodol.

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dal i fod yn farchnad newydd ac mae’n bwysig cael cronfa addas o lwfansau wrth gefn i alluogi’r Awdurdod i ymyrryd i gynnal sefydlogrwydd y farchnad mewn ymateb i siociau yn y farchnad ac i gadw’r gallu i liniaru’r defnydd o Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau, os oes angen, mewn cyfnodau dyrannu yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi gwydnwch i’r Awdurdod ymateb mewn ffordd sy’n hyblyg, wedi ei thargedu ac yn amserol yn wyneb heriau yn y dyfodol.

Bydd hefyd yn cefnogi’r adolygiad parhaus o’r farchnad a fydd yn pennu’r ffordd y bydd polisïau’r farchnad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael eu cynllunio yn y dyfodol (gweler Pennod 3). Fel rhan o hyn, byddwn yn adolygu maint y gyfran hyblyg ac yn ymgynghori ar hyn erbyn diwedd 2023. Os daw tystiolaeth newydd i’r amlwg drwy’r broses hon, bydd unrhyw lwfansau sy’n cael eu hystyried yn ddiangen ar gyfer cronfa wrth gefn yn cael eu cyflwyno mewn arwerthiant, ar yr amod nad yw hyn yn tanseilio gweithrediad y cynllun. Rydym yn bwriadu cadarnhau’r dull gweithredu ar gyfer dod ag unrhyw lwfansau ychwanegol i arwerthiant yn nes ymlaen yn y cam, erbyn Gwanwyn 2024.

## Newidiadau i ddyraniadau am ddim yng nghyd-destun cap cyson â sero net

### Crynodeb o'r Cynnig

Mae’r cap diwydiant yn gosod terfyn uchaf ar nifer y dyraniadau am ddim y gellir eu rhoi ym mhob blwyddyn o’r cynllun. O dan reolau presennol y cynllun, mae’r cap diwydiant wedi ei osod ar gyfran dybiannol y DU o gap diwydiant Cynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cam IV Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE.  Mae hwn yn nifer sefydlog sy’n cyfateb i 37% o gap cyfredol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Wrth i’r cap cyffredinol dynhau i gyd-fynd â’n targed sero net, bydd llai o lwfansau ar gael bob blwyddyn yn ystod cam cyntaf Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU (2021-2030). Er mwyn osgoi unrhyw effeithiau anfwriadol ar weithrediad y farchnad, sefydlogrwydd neu hylifedd a allai godi

pe bai'r than fwyaf o lwfansau o dan y cap yn ddyraniadau am ddim, cynigiodd yr Awdurdod y dylid ailosod y cap diwydiant i ffurfio canran o'r cap cyffredinol yn hytrach na'i osod fel niferoedd sefydlog, fel o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Roedd yr Awdurdod hefyd o'r farn bod diwygio'r gyfran i fod yn gyfran is neu uwch na 37% o'r cap cyffredinol.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **4) Ydych chi'n cytuno â chynnig yr Awdurdod i ailosod y cap diwydiant, fel y'i nodir uchod? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br>**5) Ydych chi'n cytuno â'r rhesymeg a roddwyd i gefnogi penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn y dyfodol os ailosodir y cap diwydiant? (Ydw / Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, a nodwch a oes unrhyw agweddau eraill y dylem eu hystyried yn eich barn chi.**<br>**6) Oes gennych chi ffafriaeth o ran cyfran fwy tynn neu fwy llac na 37% ar gyfer y cap diwydiant? (Oes/Nac Oes) Esboniwch eich dewis.** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 91 o ymatebion, ac roedd 40 ohonynt (44%) yn cytuno â bwriad yr Awdurdod i ailosod y cap diwydiant. O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd y rhan fwyaf yn ffafrio bod cyfran y dyraniadau am ddim yn gyfran sefydlog o'r cap cyffredinol yn hytrach na nifer sefydlog; mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch hylifedd a gweithrediad y farchnad pe na bai'r cap diwydiant yn cael ei ailosod, a nododd y dylem fod yn gwneud hyn i gyd-fynd â'n targed sero net.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at gyd-fynd â chynigion yr UE a pholisïau lliniaru dadleoli carbon, i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethau'n cael eu cyflwyno rhwng costau carbon yn y DU a chostau carbon yn yr UE a allai effeithio ar weithrediad marchnadoedd trawsffiniol a rhyngwladol.

Nid oedd pedwar deg o ymatebwyr (44%) yn cytuno â'r cynnig i ailosod y cap diwydiant. Un thema allweddol oedd y dylai argaeledd dyraniadau am ddim gyd-fynd â'r dechnoleg a'r seilwaith sydd ar gael, ac y dylid eu seilio'n bennaf ar risg o ddadleoli carbon. Tynnodd eraill sylw at bryderon y gallai sectorau'r DU gael eu rhoi o dan anfantais gystadleuol, y dylai dyraniadau am ddim fod yn seiliedig ar fethodoleg o'r gwaelod i fyny ac y gallai lleihau'r cap diwydiant greu risg o golli buddsoddiadau.

Roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r cynnig yn tynnu sylw at y ffaith y dylid ystyried y risg o ddadleoli carbon a chyflwyno polisïau amgen wrth ailosod y cap diwydiant. Nododd eraill hefyd fod y ffaith nad oedd asesiad effaith wedi ei gynnal ar y cynigion i ailosod y cap diwydiant a/neu ragor o fanylion am fesurau cymorth eraill yn eu rhwystro rhag darparu ymateb llawn.

Ni ddywedodd un ar ddeg o ymatebwyr (12%) a oeddent yn cytuno neu’n anghytuno â’r cynigion i ailosod y cap diwydiant ond fe wnaethant roi barn ar y cynigion a gyflwynwyd. Yn ogystal â’r themâu o ran argaeledd technoleg, cystadleurwydd a dadleoli carbon, mynegodd rhai ymatebwyr bryder bod y cap diwydiant yn cael ei roi ar waith yn rhy gyflym. Thema allweddol arall oedd y sicrwydd a roddwyd i ddiwydiant ynghylch newidiadau i ddyraniadau am ddim, gyda rhai’n galw am ragor o eglurder ynghylch y dull gweithredu ar gyfer y fethodoleg dyraniadau am ddim.

Dywedodd eraill fod targed sero net y DU yn un o’r prif resymau dros leihau’r cap diwydiant ac y byddai gwneud hynny’n anfon neges gryfach i ddiwydiant bod yn rhaid iddynt fabwysiadu llwybr cyflymach tuag at ddatgarboneiddio.

Cafwyd 74 o ymatebion i gwestiwn pump. Nid oedd 38 (51%) ohonynt yn cytuno â’r rhesymeg a roddwyd i gefnogi’r penderfyniadau y bydd yr Awdurdod yn eu gwneud wrth ailosod y cap diwydiant. Y prif themâu oedd y dylai polisi dyraniadau am ddim fod yn seiliedig yn bennaf ar y risg o ddadleoli carbon, y dylai argaeledd lwfansau gyd-fynd â’r dechnoleg a’r seilwaith sydd ar gael, bod hylifedd a gweithrediad y farchnad yn ffactor pwysig ac na ddylai refeniw fod yn ystyriaeth.

Nododd ymatebwyr eraill y risg y gallai’r ansicrwydd ynghylch lefelau dyraniadau am ddim yn y dyfodol atal ac arwain at oedi gyda phenderfyniadau buddsoddi. Awgrymodd nifer o ymatebion hefyd y gellid neilltuo refeniw o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gefnogi datgarboneiddio ac y dylid defnyddio lwfansau heb eu dyrannu i liniaru’r defnydd o Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau.

Roedd dau ddeg pump o ymatebwyr (34%) yn cytuno â’r rhesymeg a gyflwynwyd i gefnogi penderfyniadau y bydd yr Awdurdod yn eu gwneud yn y dyfodol wrth ailosod y cap diwydiant. Roeddent yn tynnu sylw at y ffaith na fyddai’r dull ‘gwneud dim’ yn cyd-fynd â chap cyson â sero net, y byddai’n well i’r cap diwydiant fod yn gyfran o gap yn hytrach na nifer sefydlog ac y dylid cadw arwerthiannau fel y brif ffordd o ddosbarthu lwfansau.

I’r rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â’r cynigion, y themâu allweddol oedd y dylid rhoi’r newidiadau ar waith yn deg ar draws y cyfranogwyr ac y dylid eu cyfleu’n dda mewn ffordd brydlon. Roedd rhai o’r rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â’r cynigion hefyd yn cefnogi defnyddio lwfansau heb eu dyrannu i liniaru yn erbyn defnyddio Ffactor Cyfrifo ar Draws Sectorau ac y dylai dyraniadau am ddim fod yn seiliedig yn bennaf ar y risg o ddadleoli carbon, gan ystyried polisïau lliniaru amgen fel Mecanweithiau Addasu Ffin Garbon.

Roedd 63 o ymatebwyr i gwestiwn chwech, ac o’r rhai roedd pedwar (6%) yn ffafrio cyfran dynnach o gap diwydiant, 32 (51%) yn ffafrio cyfran fwy llac ac roedd chwech (10%) yn ffafrio cadw’r un gyfran. Nid fynegodd gweddill yr ymatebwyr eu ffafriaeth ar gyfer lefel y cap diwydiant.

O’r rhai a oedd yn ffafrio cap tynnach ar ddiwydiant, y prif resymau a roddwyd oedd yr angen i gyd-fynd â’r targed sero net, y posibilrwydd o leihau allyriadau ac ni fyddai dosbarthu gormod o ddyraniadau am ddim yn cymell datgarboneiddio.

O’r rhai a oedd yn ffafrio cap mwy llac ar ddiwydiant, dywedodd 18 ymatebydd (56%) y dylid rhoi blaenoriaeth i osgoi dadleoli carbon, dywedodd 12 (29%) y dylai’r cap diwydiant fod yn fwy llac i roi amser i dechnolegau datgarboneiddio fod ar gael yn ehangach, a dywedodd saith y byddai cap tynnach ar ddiwydiant yn rhoi diwydiant y DU o dan anfantais gystadleuol. Mynegodd ymatebwyr eraill bryder y gallai toriadau i ddyraniad am ddim sbarduno cynnydd mewn prisiau carbon, ysgogi damcaniaethu yn y farchnad a defnyddio cronfeydd ar gyfer prosiectau datgarboneiddio. Mynegodd rhai ymatebwyr hefyd y farn na ddylai lefel y cap diwydiant gyfyngu ar ganlyniad ail gam yr adolygiad o ddyraniadau am ddim, na ddylid lleihau dyraniadau am ddim nes y gellid rhoi mesurau lliniaru amgen ar gyfer dadleoli carbon ar waith, ac y dylid cyfrifo lefelau dyraniadau am ddim o’r gwaelod i fyny a bod yn gyson â chap diwydiant yr UE.

Roedd ymatebwyr a oedd yn ffafrio cadw’r cap diwydiant ar yr un lefel yn cyfeirio at hylifedd a gweithrediad y farchnad, dull amgen o liniaru dadleoli carbon a thryloywder polisi sy’n rhoi digon o amser i gyfranogwyr baratoi ac ymateb i newidiadau arfaethedig.

Nid fynegodd rhai ymatebwyr farn am ba lefel y dylid gosod y cap diwydiant arni ond fe wnaethant nodi y dylid ystyried fforddiadwyedd ac argaeledd technolegau datgarboneiddio, mesurau lliniaru dadleoli carbon amgen ac asesiad o effaith cyn penderfynu’n derfynol.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod wedi ymrwymo i fod o blaid ailosod y cap diwydiant yn 2024 i gyd-fynd â chyflwyno’r cap cyson â sero net, ac mae wedi penderfynu gosod y cap diwydiant ar lefel uwch, sef 40%. Rydym wedi clywed y pryderon a godwyd drwy ymatebion i’r ymgynghoriad ynghylch hylifedd a gweithrediad y farchnad pe na baem yn ailosod y gyfran o ddyraniadau am ddim. Bydd addasu lefel y cap diwydiant yn galluogi’r farchnad i weithredu’n effeithiol ac yn caniatáu lwfansau digonol i gynnal arwerthiant.

Mae’r Awdurdod wedi ystyried y ffactorau canlynol fel y nodwyd yn wreiddiol, yn ogystal ag ymatebion i’r ymgynghoriad a chyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd:

- Y flwyddyn pan fydd y cap diwydiant yn disgyn o dan lefel y dyraniadau am ddim.
- Dosbarthiad lwfansau o dan y cap, a sicrhau mai arwerthiannau yw’r brif ffordd o ddosbarthu lwfansau o hyd.
- Effeithiau ar hylifedd a achosir gan newidiadau i’r cap diwydiant a lefel absoliwt y cap.
- Y gost i Lywodraeth y DU drwy ildio refeniw drwy ryddhau dyraniadau am ddim o’i gymharu â fforddiadwyedd technolegau datgarboneiddio i gyfranogwyr.


Rydym wedi clywed pryderon gan ymatebwyr ynghylch argaeledd technolegau datgarboneiddio a risg o ddadleoli carbon, a chyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd y dylid cael digon o hyblygrwydd ar gyfer newidiadau i ddyraniadau am ddim yn y dyfodol. Bydd gosod y cap diwydiant ar y lefel uwch o 40% yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cadw hyblygrwydd a’r gallu i barhau i liniaru’r risg o ddadleoli carbon yn ystod yr ail gyfnod dyrannu (o 2026 ymlaen).  Bydd hyn yn dilyn rhoi’r newidiadau ar waith o ail gam yr adolygiad dyraniadau am ddim.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo o hyd i ddiogelu'r lefelau presennol o ddyraniadau am ddim i ddiwydiant tan 2026, yn amodol ar Newidiadau i Lefelau Gweithgarwch.  Byddwn yn defnyddio oddeutu 2.5 miliwn o lwfansau o'r gronfa wrth gefn i liniaru yn erbyn unrhyw weithrediad o ffactor cywiro ar draws sectorau rhwng 2024-2026 ar ôl addasu'r Cap Diwydiant.  Bydd hyn yn diogelu lefelau presennol y Dyraniad am Ddim ar gyfer gweddill y cyfnod dyrannu hwn.

Mae diogelu dyraniadau am ddim yn 2024-2025 yn golygu nad yw'r newid sylweddol rhwng dyraniadau am ddim hyd at 2026, a lefel y cap diwydiant ar gyfer hanner olaf y cyfnod, mor sylweddol.  Dangosir hyn yn yr ardal dywyll yn Ffigur 4 isod. Mae Ffigur 4 hefyd yn dangos bod llawer gormod o lwfansau ar hyn o bryd o dan y cap diwydiant presennol, sy'n symptom o'r ffaith fod nifer rhy hael o lwfansau ar gael ar gyfer dyrannu am ddim o'i gymharu â'r swm sydd ei angen.  Mae hyn wedi arwain at groniad o lwfansau heb eu dyrannu.

Bydd gostyngiad o 16% rhwng y dyraniad am ddim a ddarparwyd yn 2025 a'r dyraniad am ddim sydd ar gael yn 2026 (y cap diwydiant wedi ei ailosod). Ni fydd hyn o reidrwydd yn arwain at ostyngiad unffurf mewn dyraniadau am ddim ar draws pob gweithfa. Byddwn yn edrych ar y fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim fel rhan o ail gam yr adolygiad o ddyraniadau am ddim i sicrhau eu bod yn cael eu targedu'n effeithiol at y sectorau sydd fwyaf mewn perygl. Bydd penderfynu gosod y cap diwydiant ar 40% yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Awdurdod ar gyfer y penderfyniadau a wneir yn yr adolygiad hwn o'r fethodoleg dyraniadau am ddim. Mae rhagor o fanylion ar gael am hyn yn yr ymatebion i gwestiynau 7-10[13].

**Ffigur 4: Siart yn dangos y newid mewn dyraniadau am ddim yn 2026**




[13] Gweler tud. 30-33

Yn ogystal â helpu'r newid i'r cap cyson â sero net, bydd gosod y cap diwydiant ar 40% hefyd yn golygu bod cyfran uwch o lwfansau ar gael i'w cyflwyno i'r arwerthiant ac i'w cadw wrth gefn ar gyfer defnydd yn y dyfodol, drwy fod angen llai o lwfansau o gronfeydd wrth gefn i liniaru'r defnydd o Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn 2024 a 2025. Bydd hyn yn cefnogi cyfranogwyr diwydiannol ymhellach yn erbyn effeithiau tymor byr a thymor hir ar y farchnad. Mae rhagor o fanylion ar gael am hyn yn yr ymatebion i gwestiynau 30-32[14].

### Ymgynghoriad ar Ddadleoli Carbon

Mae dadleoli carbon yn golygu symud cynhyrchiant ac allyriadau cysylltiedig o un awdurdodaeth i un arall oherwydd gwahanol lefelau o ymdrech datgarboneiddio drwy brisio carbon a dylanwadu ar yr hinsawdd. Yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mae gweithredwyr sy'n cael eu hystyried yn agored i ddadleoli carbon yn cael dyraniadau am ddim i liniaru'r risg hon ar hyn o bryd.

Ar 30 Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar fynd i'r afael â'r risg o ddadleoli carbon i gefnogi datgarboneiddio. Mae'r ymgynghoriad yn edrych ar amrywiaeth o fesurau polisi posibl i liniaru'r risg o ddadleoli carbon yn y dyfodol a sicrhau bod gan ddiwydiant y Deyrnas Unedig yr amgylchedd polisi gorau posibl i ddatgarboneiddio. Mae polisïau posibl yn cynnwys mecanwaith addasu ffiniau carbon, safonau cynnyrch gorfodol, a mesurau polisi eraill i helpu i dyfu'r farchnad ar gyfer cynhyrchion carbon isel, yn ogystal ag adroddiadau ar allyriadau a allai helpu i roi'r polisïau hyn ar waith.

Byddai angen i unrhyw fesurau, os byddant yn cael eu datblygu, fod yn deg, yn dryloyw a chyfrannu at newid economaidd gwyrdd byd-eang i sero net. Byddai'n rhaid i fesurau hefyd weithio'n gydlynol gyda'n mesurau polisi presennol ar ddadleoli carbon, yn enwedig dyrannu lwfansau am ddim Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Ni waeth pa gymysgedd polisi sy'n cael ei ddatblygu, bydd Llywodraeth y DU felly'n ymgysylltu'n helaeth â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon ar bob cam i sicrhau cysondeb y fframwaith polisi ehangach.

# Lliniaru yn erbyn cymhwyso Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau

## Crynodeb o'r Cynnig

Cynigiodd yr Awdurdod ddefnyddio cyfran o lwfansau heb eu dyrannu a/neu gyfran hyblyg i liniaru yn erbyn defnyddio Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau cyn 2026. Byddai hyn yn cadw swm y dyraniad am ddim i'w ddosbarthu i weithredwyr yn 2024 a 2025, gan osgoi gostyngiadau yn y dyraniad am ddim.

[14] Gweler tud.20-23

| **Cwestiwn** |
| --- |
| **29) Ydych chi'n cytuno, pe bai'r cap diwydiant yn cael ei ailosod i lefel a fyddai'n disgyn islaw dyraniadau am ddim yn 2024 a 2025, y dylid defnyddio cyfran o lwfansau heb eu dyrannu a/neu gyfran hyblyg, fel y'i deddfir ar hyn o bryd, i liniaru rhag cymhwyso ffactor cywiro ar draws sectorau? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 65 o ymatebion i gwestiwn 29, ac roedd 48 ohonynt (74%) yn cytuno â’r cynnig. Roedd naw (14%) yn anghytuno ac ni wnaeth wyth (12%) ymateb yn uniongyrchol i’r cwestiwn.

Y themâu allweddol a roddwyd gan y rhai a oedd yn cytuno â’r cynnig oedd yr angen i liniaru’r risg o ddadleoli carbon, eisiau cadw lwfansau i liniaru unrhyw Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn y dyfodol neu gynnal lefel uwch o ddyraniadau am ddim yn ddiweddarach yn y cyfnod, a’r angen am sicrwydd ynghylch lefel y lwfansau a fyddai ar gael o 2026 ymlaen.

Mynegodd y rhai a oedd yn anghytuno â’r cynnig eu bod yn ffafrio defnyddiau eraill o lwfansau fel arwerthu i gynyddu hylifedd neu gadw lwfansau ar gyfer mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad yn y dyfodol. Dywedodd eraill y byddai cael Mecanwaith Addasu Ffin Garbon neu dargedu dyraniadau am ddim yn well na’r mecanwaith Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn y dyfodol. Dywedodd un ymatebydd y dylid dileu unrhyw lwfansau heb eu dyrannu yn lle hynny.

### Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod wedi clywed barn ymatebwyr ynghylch yr angen i liniaru’r defnydd o’r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau. Mae’r Awdurdod wedi ymrwymo o hyd i’r sefyllfa a nodir yn yr ymgynghoriad na fydd cyfranogwyr yn gweld unrhyw ostyngiad yn eu dyraniadau am ddim rhwng 2024 a 2025, yn amodol ar Reoliadau ar Newidiadau i Lefel Gweithgarwch, ac y bydd unrhyw Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau’n cael ei liniaru drwy ddefnyddio lwfansau wrth gefn. Bydd penderfyniad yr Awdurdod i osod y cap ar frig yr ystod a’r cap diwydiant ar 40% yn golygu y bydd angen llai o lwfansau o’r gronfa wrth gefn ar gyfer mesurau lliniaru’r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau nag a fyddai’n digwydd fel arall. Byddwn yn defnyddio oddeutu 2.5 miliwn o lwfansau o’r gronfa wrth gefn i liniaru yn erbyn unrhyw weithrediad o ffactor cywiro ar draws sectorau rhwng 2024-2026 ar ôl addasu’r Cap Diwydiant.

## Newidiadau i’r fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim

### Crynodeb o'r Cynnig

Lansiodd yr Awdurdod yr adolygiad o’r polisi dyraniadau am ddim gyda Chais am Dystiolaeth yn ystod gwanwyn 2021. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, bydd yr adolygiad dyraniadau am ddim yn cael ei gynnal mewn dau gam. Fel y nodir uchod, mae’r cam cyntaf yn canolbwyntio ar

ailosod y cap diwydiant, yn unol â’r newidiadau arfaethedig i gap cyffredinol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith o’r brig i lawr yn 2024, ochr yn ochr â newidiadau i gap Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Bydd ail gam yr adolygiad yn canolbwyntio ar y fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim i gyfranogwyr. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith o’r gwaelod i fyny erbyn 2026 i gyd-fynd ag ail gyfnod dyrannu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Rydym wedi ymrwymo i gadw dyraniad am ddim ar y lefelau presennol tan 2026 nes bydd yr ail gam yn cael ei roi ar waith.

Cynigiodd yr Awdurdod yr egwyddorion canlynol y byddwn yn eu defnyddio wrth wneud newidiadau yn y dyfodol:

- Egwyddor Un – Sicrhau bod Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn mynd ati’n briodol i liniaru’r risg o ddadleoli carbon a achosir gan y pris carbon y mae’n ei osod, gan sicrhau gostyngiad gwirioneddol i allyriadau byd-eang.
- Egwyddor Dau – Ystyried argaeledd a fforddiadwyedd technolegau datgarboneiddio ar gyfer sectorau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.
- Egwyddor Tri – Bydd newidiadau i bolisi Dyraniadau am Ddim yn y dyfodol yn cyd-fynd â’n targedau ehangach o ran yr hinsawdd.

Ymrwymodd yr Awdurdod i ymgynghori ar y newidiadau yn y dyfodol yn 2023.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **7) Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a amlinellir uchod, a ddefnyddir i gynnig newidiadau yn y dyfodol i'r polisi dyraniadau am ddim? (Ydw /Nac ydw) Esboniwch eich ymateb neu nodwch a oes rhai eraill yr hoffech inni eu hystyried.**<br><br>**8) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig na ddylid defnyddio ffactor cywiro ar draws sectorau i leihau dyraniadau am ddim yn gymesur ar gyfer sectorau, ond y dylid dod o hyd i ffyrdd eraill o dargedu'r lwfansau hynny'n well? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**9) Oes unrhyw elfennau penodol o gynllun dyraniadau am ddim o ran cymhwysedd, cyfrifiadau, neu reolau eraill lle hoffech weld newidiadau yn cael eu gwneud, os nad ydych eisoes wedi tynnu sylw atynt drwy eich ymateb i'r cais am dystiolaeth? (Oes / Nac oes) Esboniwch eich ymateb a sut y byddent yn gyson â'r egwyddorion rydym wedi eu cynnig.**<br><br>**10) Oes unrhyw feysydd amgen y dylem ystyried gwneud newidiadau iddynt yn eich barn chi, neu oes unrhyw fethodolegau eraill ar gyfer darparu dyraniadau am ddim yr hoffech inni eu hystyried? Nodwch y rhain ac esboniwch eich rhesymeg.** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 83 o ymatebion i gwestiwn saith, ac roedd 56 (67%) ohonynt yn cytuno â’r egwyddorion a nodwyd gennym ar gyfer gweithredu newidiadau yn y dyfodol i’r polisi dyraniadau am ddim. Nododd sawl ymatebydd y bydd yn allweddol cael rhagor o fanylion am sut yn union y bydd newidiadau’n cael eu gwneud yn y dyfodol er mwyn galluogi cyfranogwyr i baratoi’n llawn.

O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â’r egwyddorion, awgrymodd naw ohonynt (11%) y dylid diwygio egwyddor un a rhoi’r geiriau ‘yn effeithiol’ yn lle’r geiriau ‘yn briodol’.

Dywedodd dau ar bymtheg o ymatebwyr (20%) y bydd argaeledd technoleg datgarboneiddio yn amrywio’n sylweddol o fewn sectorau a rhyngddynt ac y dylid ystyried hyn yn y fethodoleg dyraniadau am ddim. Dyma oedd yr ail egwyddor fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad. Ar y llaw arall, mynegodd dau ymatebydd bryderon ynghylch yr ail egwyddor gan awgrymu y dylid ei ddileu.

Awgrymodd chwech o’r ymatebwyr (7%) y dylid dileu’r drydedd egwyddor, gyda phedwar yn mynd ymlaen i ddweud y dylid disodli’r egwyddor hon ag egwyddor arall sy’n canolbwyntio ar bolisïau ehangach i liniaru dadleoli carbon. Mynegodd tri ymatebydd bryderon y gellid defnyddio’r drydedd egwyddor i wrthod y ddwy egwyddor arall. Fel arall, awgrymodd dau ymatebydd y dylid blaenoriaethu'r drydedd egwyddor dros yr egwyddorion eraill.

Nododd wyth o’r ymatebwyr (10%) y dylid ychwanegu egwyddor arall sy’n ymwneud â datblygu polisïau lliniaru dadleoli carbon ehangach. Hefyd, awgrymodd pum ymatebydd y dylid ychwanegu egwyddor ychwanegol i ystyried prisiau carbon yn yr UE a’r economïau mawr eraill.

Cafwyd 64 ymateb i gwestiwn wyth, ac roedd 45 (70%) ohonynt yn cytuno â’r cynnig i beidio â defnyddio’r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau i leihau dyraniadau am ddim yn gymesur ar draws sectorau, a dod o hyd i ffyrdd eraill o dargedu’r lwfansau hynny’n well.

Roedd tri ar ddeg o ymatebwyr (29%) yn cytuno â’r cynnig y dylid targedu dyraniadau am ddim i’r mannau lle mae’r angen fwyaf, yn hytrach na defnyddio’r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau. Nododd un ar ddeg o ymatebwyr (24%) nad oeddynt yn credu bod y Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau yn arf effeithiol. Mynegodd chwech o ymatebwyr (13%) bryderon ynghylch y dull gweithredu o’r brig i lawr wrth osod y cap diwydiant a nodi eu bod yn ffafrio dull gweithredu o’r gwaelod i fyny yn lle hynny.

O’r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â’r cynnig, roedd pedwar (21%) yn dadlau bod y Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau’n fesur diogelu pwysig er mwyn cynnal cyfran y lwfansau allyriadau a arwerthwyd.

Cafwyd 55 o ymatebion i gwestiwn naw. Nododd tri ar ddeg o ymatebwyr (24%) fod angen ystyried argaeledd technolegau datgarboneiddio mewn datblygiadau yn y dyfodol wrth ddylunio dyraniadau am ddim.

Awgrymodd chwech o ymatebwyr (11%) y dylai’r fethodoleg ar gyfer meincnodi ac asesu dadleoli carbon barhau i adlewyrchu cynllun yr UE, ond y dylai’r asesiad fod yn seiliedig ar ddata ar lefel y DU.

O ran meincnodi, nododd saith ymatebydd y dylid seilio’r meincnod gwres ar y technolegau sydd ar gael i bawb yn hytrach na safleoedd ag amgylchiadau penodol, gyda rhai’n nodi biomas fel enghraifft o hyn. Roedd pedwar ymatebydd yn dadlau fod meincnodau’n cael eu cyfrifo ar hyn o bryd ar sail y gyfradd gwelliannau hanesyddol, a oedd yn anghynaladwy, a bod pen draw ar yr effeithlonrwydd y gellir ei gyflawni ar gyfer rhai prosesau.

Nododd nifer o ymatebwyr y dylid nodi’n glir y meini prawf ar gyfer asesu’r risg o ddadleoli carbon a’u gosod cyn cynnal unrhyw asesiad ar ddyraniadau am ddim.

Nododd ymatebwyr eraill faterion fel: ystumio posibl yn y farchnad hydrogen pan ddechreuir cynhyrchu hydrogen carbon isel, defnyddio gwres carbon isel mewn rhwydweithiau gwres, a bod gostyngiadau llinol mewn allyriadau carbon yn llai tebygol o ganlyniad i ganolbwyntio buddsoddiadau ar brosiectau datgarboneiddio mwy o faint.

Mewn ymateb i gwestiwn 9, mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu newidiadau y dylid eu gwneud i feincnodau penodol rydym wedi eu codi fel rhan o’n ffrwd waith o newidiadau cyflymach. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain ar gael yn yr ymateb i gwestiwn 11[15].

Cafwyd 39 o ymatebion i gwestiwn 10. Nododd chwech o ymatebwyr (15%) eu bod yn ffafrio gosod trywydd y cap diwydiant yn y dyfodol ar sail argaeledd technolegau datgarboneiddio.

Dywedodd pump o ymatebwyr (13%) y dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut y bydd Mecanweithiau Addasu Ffin Garbon posibl a dyraniadau am ddim yn y dyfodol yn rhyngweithio gyda cham cyfatebol o’r dyraniadau am ddim yn y sectorau sy’n dod o dan y Mecanweithiau hyn. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn ffafrio dull haenog o ymdrin â’r rhestr dadleoli carbon.

Dyma rai o’r materion eraill a nodwyd gan ymatebwyr: ceisiadau i wneud newidiadau i feincnodau a ddefnyddir yn y sector cemegau, trin gorsafoedd Gwres a Phŵer Cyfunedig mewn polisi dyraniadau am ddim, neilltuo cyllid o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gefnogi datgarboneiddio yn y sectorau dan sylw, cynnwys cael gwared â nwyon tŷ gwydr a gwrthbwyso allyriadau ar y safle yn y cynllun, a baich gweinyddol y broses dyraniadau am ddim.

## Ymateb yr Awdurdod

Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau yn y dyfodol i’r fethodoleg dyrannu am ddim cyn diwedd 2023. Nodir ein hamserlenni dangosol ar gyfer cam 2 yr adolygiad o ddyraniadau am ddim isod:

- Erbyn diwedd 2023: Ymgynghoriad ar ail gam yr adolygiad o ddyraniadau am ddim
- 2024: Ymateb y Llywodraeth ar ail gam yr ymgynghoriad ar yr adolygiad o ddyraniadau am ddim

[15] Gweler tud. 51-53

- 2024: Ymarfer Mesurau Gweithredu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU
- 2026: Rhoi newidiadau i’r fethodoleg dyraniadau am ddim ar waith yn unol â’r ail gyfnod dyrannu.

Byddwn yn defnyddio’r dystiolaeth a gasglwyd yn yr ymgynghoriad hwn a’n Cais am Dystiolaeth blaenorol, ynghyd â thrafodaethau â rhanddeiliaid yn y dyfodol, i ddatblygu ein polisïau ar gyfer ymgynghoriad adolygu cam 2. Byddwn yn gwneud y gwaith hwn ar yr un pryd ag y bydd Llywodraeth y DU yn datblygu polisïau lliniaru dadleoli carbon ychwanegol, fel Mecanweithiau Addasu Ffin Garbon neu safonau cynnyrch carbon isel.

Ar gyfer Cam 2 yr adolygiad o ddyraniadau am ddim, bydd yr Awdurdod yn edrych ar y fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim ac yn edrych ar ffyrdd y gallwn dargedu’r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon yn well. Yn unol â'r egwyddor gyntaf, fel y nodir yn yr ymgynghoriad, bydd hyn yn cynnwys edrych ar y dull presennol o lunio’r rhestr dadleoli carbon a sut mae’r rhestr hon yn cael ei defnyddio.

Drwy’r adolygiad hwn byddwn yn edrych ar y fethodoleg sydd eisoes yn bodoli ar gyfer dyraniadau am ddim, fel meincnodau, lefelau gweithgarwch hanesyddol, a newidiadau mewn lefelau gweithgarwch. Byddwn hefyd yn ystyried a ydym am gyflwyno unrhyw elfennau newydd i fethodoleg dyraniadau am ddim.

Cododd nifer o ymatebwyr i’r ymgynghoriad hwn argaeledd a hygyrchedd technoleg datgarboneiddio fel maes ffocws pwysig ar gyfer yr adolygiad. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion a gynigiwyd gennym fel rhan o’r ymgynghoriad, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i fwrw ymlaen â’r rhain. O ganlyniad, byddwn yn mynd ati i adolygu’r fethodoleg berthnasol ar gyfer dyraniadau am ddim er mwyn ystyried argaeledd a hygyrchedd technoleg datgarboneiddio ar raddfa fawr drwy gam 2 yr adolygiad o ddyraniadau am ddim.

Drwy’r adolygiad hwn, byddwn yn ceisio datblygu methodoleg dyraniadau am ddim sy’n osgoi defnyddio ffactor cywiro ar draws sectorau (CSFC) lle bo hynny’n bosibl ac yn hytrach yn dod o hyd i ffyrdd eraill o dargedu lwfansau am ddim mewn ffordd well.

# Dull eang o ymdrin â pholisïau lliniaru dadleoli carbon eraill

## Crynodeb o'r Cynnig

Bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig fel rhan o’r adolygiad hwn o ddyraniadau am ddim yn cael eu dylunio i liniaru’r risg o ddadleoli carbon a wynebir gan ddiwydiant yn y tymor byr a chanolig, ac o leiaf ar gyfer cam cyntaf Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Roeddem yn cydnabod mai’r cam cyntaf yw defnyddio diplomyddiaeth hinsawdd i annog ein partneriaid masnachu i liniaru’r newid yn yr hinsawdd yn uchelgeisiol gyda’i gilydd i leihau’r risg o ddadleoli ar draws economïau. Bydd y risg o ddadleoli carbon hefyd yn lleihau pan fydd galw am gynhyrchion gydag allyriadau isel a bydd defnyddwyr yn penderfynu gwneud dewisiadau gwyrdd. Rydym yn disgwyl y bydd y galw hwn yn cynyddu dros amser ac fel y nodir yn y Strategaeth Datgarboneiddio Diwydiannol, mae Llywodraeth y DU yn datblygu amrywiaeth o

ddulliau polisi 'o ran y galw' i gefnogi twf y farchnad ar gyfer cynnyrch ag allyriadau isel, gan gynnwys labelu allyriadau cynhyrchion a chaffael gwyrdd.

| **Cwestiwn** |
| --- |
| **12) Oes unrhyw bolisïau lliniaru dadleoli carbon eraill nad ydynt eisoes yn cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, fel y rhestrir uchod, yr hoffech dynnu ein sylw atynt? (Oes/Nac oes) Esboniwch eich ymateb.** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 64 o ymatebion i gwestiwn 12. Roedd un ar ddeg o ymatebwyr (17%) yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd ymgynghoriad ar Fecanweithiau Addasu Ffin Garbon a safonau cynhyrchion. Dywedodd naw ymatebydd (14%) yr hoffent weld Mecanwaith Addasu Ffin Garbon yn cael ei gyflwyno, a dywedodd pump yr hoffent weld safonau cynhyrchion yn cael eu cyflwyno.

Awgrymodd pedwar ymatebydd )6%) y gallai Llywodraeth y DU edrych ar reolau caffael cyhoeddus gwyrdd. Nododd nifer o ymatebwyr y bydd angen cyfuniad o bolisïau gwahanol i ddatgarboneiddio diwydiant y DU a chynnal ei allu i gystadlu ar yr un pryd. Nododd chwe ymatebydd y dylid datblygu polisïau dadleoli carbon ochr yn ochr â'r adolygiad o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Dyma rai o'r pwyntiau eraill a godwyd gan ymatebwyr: ceisio eithriad o Fecanwaith Addasu Ffin Garbon yr UE, rhoi'r gorau'n raddol i ddyraniadau am ddim, neilltuo refeniw o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, cael gwared â nwyon tŷ gwydr, treth tollau ar ôl y cam cynhyrchu, cap allyriadau dau lwybr ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â defnydd domestig a'r rhai a fwriedir ar gyfer marchnadoedd allforio, a phwysigrwydd diplomyddiaeth hinsawdd.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar amrywiaeth o ddewisiadau lliniaru dadleoli carbon, gan gynnwys a allai mesurau fel mecanwaith addasu ffin garbon a safonau cynnyrch fod yn adnoddau priodol yng nghymysgedd polisi'r DU. Byddai unrhyw fesurau'n cael eu cynllunio i weithio'n gydlynol gyda phenderfyniadau Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar ddyfodol dyraniadau am ddim, gyda'r nod o sicrhau bod risgiau dadleoli carbon yn cael eu lliniaru ar bob cam o'r newid i sero net yn y DU.

Mae rhagor o wybodaeth am Ddadleoli Carbon ar gael ar dudalen 28.

# Dosbarthu a defnyddio lwfans Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Y cap cyson â sero net yw’r nifer uchaf o lwfansau y gellir eu creu dros y cyfnod. Bydd dosbarthiad y lwfansau hyn dros y cyfnod yn pennu nifer y lwfansau a gyflwynir i gael eu harwerthu bob blwyddyn (cyfran arwerthu). Mae’r tabl isod yn nodi’r gwahanol gronfeydd a mecanweithiau yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU.


| | **Diffiniad** | **Defnyddiau ar hyn o bryd** |
|---|---|---|
| Cyfran yr Arwerthiant | Dyma nifer y lwfansau y gellir eu cynnig mewn arwerthiant yn ystod un blwyddyn o’r cynllun[16]. | I’w gynnig mewn arwerthiant ar y farchnad sylfaenol. |
| Cap y Diwydiant | Dyma gyfanswm y lwfansau sy’n cael eu cadw yn ôl i’w dosbarthu i weithredwyr sefydlog fel dyraniadau am ddim.[17] | I’w ddefnyddio fel dyraniadau am ddim sefydlog. |
| Dyraniadau am Ddim Sefydlog | Mae hyn yn cyfeirio at gyfanswm y lwfansau sy’n cael eu dosbarthu i weithredwyr sefydlog fel dyraniadau am ddim yn ystod un o flynyddoedd y cynllun ar ôl cyfrifo dyraniadau am ddim o’r gwaelod i fyny, gan roi cyfrif am unrhyw newidiadau yn lefel y gweithgarwch hanesyddol os bydd yn mynd y tu hwnt i’r trothwy. | I’w ddosbarthu i fel dyraniadau am ddim i weithredwyr sefydlog. |
| Dyraniadau am Ddim Sefydlog Heb eu Dyrannu (lwfansau heb eu dyrannu) | Mae hyn yn cyfeirio at y gwahaniaeth rhwng y cap diwydiant yn ystod unrhyw flwyddyn benodol o’r cynllun a lefel y dyraniadau am ddim sefydlog yn dilyn cyfrifiadau o’r gwaelod i fyny o ddyraniadau am ddim.<br><br>Bydd lwfansau heb eu dyrannu rhwng 2021 a 2023 yn cael eu cynnig mewn arwerthiant rhwng 2024 a 2027 (gweler tudalen 18) | Lliniaru yn erbyn defnyddio Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau.<br><br>I’w defnyddio gan y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau. |

[16] Nodir hyn yn Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021.
[17] Mae’r cap diwydiant yn cael ei ddiffinio fel X [DN Ar hyn o bryd, mae’r cap diwydiant yn cael ei ddiffinio drwy gyfeirio at y cap diwydiant a nodir yn Erthygl 16a o’r Rheoliad Dyraniadau am Ddim] yn Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021.

| | **Diffiniad** | **Defnyddiau ar hyn o bryd** |
|---|---|---|
| Dyraniadau am Ddim y Sector Hedfanaeth | Mae hyn yn cyfeirio at gyfanswm y dyraniadau am ddim a ddosberthir i weithredwyr awyrennau. Mae'r dyraniad yn seiliedig ar ddata gweithgarwch hanesyddol ac nid yw'n rhoi cyfrif am newydd-ddyfodiaid na newidiadau yn lefel y gweithgarwch. Mae ffactor gostyngiad blynyddol sy'n cyfateb i 2.2% yn cael ei gymhwyso ar gyfer hawliau dyrannu am ddim. | I'w ddosbarthu i fel dyraniadau am ddim i weithredwyr awyrennau. |
| Cyfran Hyblyg | Mae hon yn gronfa wrth gefn o lwfansau ac fe'i cyfrifir fel 3% o'r cap llawn yn ystod y cam ac yn cael ei rhannu gyda'r nifer o flynyddoedd y bydd y cynllun yn gweithredu i gyfrifo cyfran hyblyg un flwyddyn. | I liniaru yn erbyn cymhwyso Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau.<br><br>I'w defnyddio gan y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau. |
| Cronfa Wrth Gefn i Newydd-ddyfodiaid | Mae hon yn gronfa wrth gefn o lwfansau i newydd-ddyfodiaid i'r cynllun, i ddyfarnu cynnydd mewn lwfansau oherwydd Newidiadau i Lefelau Gweithgarwch, ac mae'n cyfateb i tua 2% o'r cap cyffredinol. | I'w ddefnyddio fel dyraniad am ddim ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r cynllun.<br><br>I'w ddefnyddio i ychwanegu at y dyraniad am ddim os oes angen lwfansau ychwanegol yn dilyn y broses Newidiadau i Lefel Gweithgarwch.<br><br>Gall y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gael hyd at 25% o'r lwfansau dros y cyfnod sy'n weddill yn y gronfa hon pan fydd yn cael ei roi ar waith. |
| Gweithgarwch wedi dod i ben | Mae'r rhain yn lwfansau y mae gweithredwyr wedi eu dychwelyd i'r Awdurdod, lle nad ydynt wedi eu clirio o'u | |

| | **Diffiniad** | **Defnyddiau ar hyn o bryd** |
|---|---|---|
| | cyfrif drwy eu gwerthu neu eu defnyddio i gydymffurfio ar ôl i’r gweithgarwch ddod i ben a chau cyfrif y gweithredwr. | |
| Mecanweithiau Sefydlogrwydd y Farchnad | Mae hon yn gronfa o lwfansau y gellir eu defnyddio gan Fecanweithiau Sefydlogrwydd y Farchnad. Ar ddechrau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ni chafodd unrhyw lwfansau eu cynnwys yn y cyfrif hwn. Ar hyn o bryd, yr unig ffordd y caiff lwfansau eu cynnwys yn y cyfrif hwn yw os nad yw’r lwfansau’n cael eu clirio ar ôl sawl arwerthiant a bod hynny’n arwain at drosglwyddo’r lwfansau i'r pedwar arwerthiant dilynol gan felly groesi’r trothwy. | I’w defnyddio gan y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau |

**Ffigur 5: Siart dangosol yn dangos dosbarthiad y lwfansau o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ystod un o flynyddoedd y cynllun.**




*Mae Cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth ar gyfer y cyfnod masnachu (2021-2030). Diffinnir dadansoddiad blynyddol (y "sylfaen") yn erthygl 22 i hwyluso gwahanol reolau'r Cynllun Masnachu Allyriadau sydd ar waith ar sail flynyddol o dan y Cap. Mae'r siart hon yn adlewyrchu un ffordd fewnol gyson o ddeall gwerth sylfaen "2024". Nid oes bwriad iddi adlewyrchu nifer y lwfansau a fydd ar gael ym mlwyddyn galendr 2024.

- Mae Dyraniadau Am Ddim Sefydlog, Dyraniadau Am Ddim Sefydlog Heb eu Dyrannu a Dyraniadau Am Ddim Gweithgarwch Wedi Dod i Ben i gyd yn gyson â'r Tabl Dyraniadau a Gyhoeddwyd gan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel yr oedd ar 11.05.2021
  [I weld y ffigurau diweddaraf, ewch i: *https://www.gov.uk/government/publications/uk-ets-allocation-table-for-operators-of-installations*]
- Mae Dyraniadau Am Ddim Hedfanaeth yn gyson â'r Cynllun Dyraniadau Hedfanaeth a Gyhoeddwyd gan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel yr oedd ar 28.6.2021.
  [I weld y ffigurau diweddaraf, ewch i:*https://www.gov.uk/government/publications/uk-ets-aviation-allocation-table]*
- Mae'r Gyfran Arwerthiant yn adlewyrchu'r Calendr Arwerthiant fel yr oedd ar 19.10.2021, a addaswyd i sicrhau nad yw'r hyn a drosglwyddir rhwng arwerthiannau yn cael ei gyfrif ddwywaith
  *[https://www.theice.com/emissions/auctions/uk-emission-allowances]*
- Mae ffigurau blynyddol y Gronfa Wrth Gefn i Newydd-ddyfodiaid a'r Gyfran Hyblyg Flynyddol yn werthoedd dangosol sy'n adlewyrchu 1/10 o'u gwerthoedd ar gyfer y cyfnod masnachu (2021-2030). Nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu'r niferoedd a fydd ar gael ym mlwyddyn galendr 2024.
- Mae Addasiad Allyrwyr Bach yn golygu nifer y lwfansau sy'n gysylltiedig â'r ffactor lleihau ar gyfer ysbytai ac allyrwyr bach yn unol ag erthygl 21.

I gael yr holl fanylion, edrychwch ar Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 [https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1265/contents/made]

Mae Ffigur 5 yn nodi sut y dosberthir lwfansau o dan gap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar draws gwahanol fecanweithiau. Bwriad hyn yw hwyluso'r gwaith o ddehongli ymateb y Llywodraeth, ac mae'n pwysleisio felly sut mae gwahanol fecanweithiau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn rhyngweithio o fewn y cap. Nid oes bariad iddo adlewyrchu nifer y lwfansau a fydd ar gael mewn blwyddyn galendr benodol.

# Pennod 2: Adolygiad o ddyraniadau am ddim – newidiadau technegol

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i gynigion a nodwyd ym Mhennod 2 yn yr ymgynghoriad.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu diwygio'r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch[18] i ganiatáu ailgyfrifo dewisol ar y newid mewn lefelau gweithgarwch yn 2021 gan hepgor blwyddyn COVID 2020 ar gyfer y gweithredwyr hynny sy'n gallu dangos gwahaniaethau sylweddol rhwng gostyngiadau mewn gweithgarwch ac allyriadau.

Rydym wedi penderfynu peidio â gwneud newidiadau i'r Rheoliadau Newidiadau i Lefel Gweithgarwch er mwyn ystyried gweithgarwch y rhoddwyd y gorau iddo.

Rydym wedi penderfynu peidio â diwygio'r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch i drin is-weithfeydd presennol yn yr un modd ag is-weithfeydd newydd pan fo gweithfeydd presennol yn buddsoddi er mwyn cynyddu eu gallu i gynhyrchu.

Byddwn yn dod â gwerthoedd meincnodi cyfredol i gyfraith y DU.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig i ddiwygio'r diffiniad o gynhyrchydd trydan i ystyried allforion trydan yn y cyfnod sylfaen yn unig.

Byddwn yn newid dosbarthiad cynhyrchydd trydan i eithrio gweithfeydd sydd wedi cynhyrchu trydan i'w werthu, os cafodd y trydan hwnnw ei gynhyrchu drwy orsaf ardystiedig ar gyfer Gwres a Phŵer Cyfunedig.

Byddwn yn newid deddfwriaeth i ganiatáu i gynhyrchwyr trydan nad ydynt wedi allforio gwres y gellir ei fesur a gynhyrchir drwy gyd-gynhyrchu effeithlon iawn yn ystod y cyfnod sylfaen (2019-2023) fod yn gymwys i gael lwfansau am ddim unwaith y gallant ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Byddwn yn gwneud newidiadau dros dro i'r meincnod calch ac i ddosbarthiad dadleoli carbon o'r broses gynhyrchu echdyniad brag ar gyfer y cynllun ym mlynyddoedd 2024 a 2025.

## Newidiadau technegol i ddyraniadau am ddim

Wrth ystyried newidiadau i ddyraniadau am ddim, mae'r Awdurdod yn ymwybodol o gydbwyso'r angen i roi digon o amser i weithredwyr addasu i'r newidiadau hyn, a'r angen i

[18] Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842 fel y mae'n rhan o gyfraith ddomestig.

gymryd camau ar unwaith lle byddai peidio â gwneud hynny yn cael effaith niweidiol ar weithrediad y farchnad a'i chyfranogwyr.

Amlinellodd yr Awdurdod chwe chynnig, sy'n cael effaith sylweddol yn ystod blynyddoedd cyntaf y dyraniadau lwfansau am ddim ar gyfer is-set o weithredwyr. Gellir eu cyflawni yn y tymor byr heb fod angen ailfeddwl y fethodoleg dyraniadau am ddim yn sylfaenol. Yn ychwanegol at y rhain, mae'r Bennod hon yn darparu ymateb yr Awdurdod i gynigion ychwanegol sy'n ymwneud â diwygiadau i'r meincnodau/rhestr dadleoli carbon ac i gynhyrchwyr trydan sydd ym Mhenodau 2 a 9 yr ymgynghoriad yn y drefn honno.

Ymatebwyd i'r cynnig i ddiwygio'r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch[19] oherwydd blwyddyn COVID 2020, a chwestiynau cysylltiedig 13-17, ac maent wedi cael sylw yn ymateb cychwynnol y llywodraeth[20]. Rydym wedi rhoi ein hymateb ynghylch proses Newidiadau i Lefel Gweithgarwch 2021 isod.

## Cynnig un: Diwygio'r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch oherwydd blwyddyn COVID 2020

Ar ôl ystyried y mater a'r ymatebion a ddaeth i law ymhellach, mae'r Awdurdod yn cynnig diwygio'r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch i ganiatáu'r dewis i ail-gyfrifo'r newid i lefel gweithgarwch yn 2021 gan hepgor blwyddyn COVID 2020, ar gyfer y gweithredwyr hynny sy'n gallu dangos i'r Awdurdod bod anghysondebau sylweddol rhwng y gostyngiadau mewn gweithgarwch ac allyriadau ym mlwyddyn y cynllun yn 2020 a achoswyd gan bandemig COVID-19. Er mwyn penderfynu a oes anghysondeb sylweddol, byddwn yn defnyddio lefel trothwy o 15% rhwng y gostyngiad mewn gweithgarwch a'r gostyngiad mewn allyriadau rhwng blynyddoedd y cynllun yn 2019 a 2020, fel ar gyfer proses 2022.

Mae'r Awdurdod o'r farn y bydd effaith blwyddyn COVID 2020 ar Newidiadau i Lefel Gweithgarwch 2021 yn debyg i'r effaith ar Newidiadau 2022 ac y dylid defnyddio'r un dull polisi i sicrhau bod dyraniadau am ddim yn gweithio fel y bwriadwyd i liniaru'r risg o ddadleoli carbon.

Bydd gofyn i weithredwyr gyflwyno tystiolaeth o lefelau eu gweithgarwch a'u hallyriadau cyfatebol i ddangos i'r Rheoleiddiwr perthnasol eu bod yn cyrraedd y lefel trothwy, ac mai pandemig COVID-19 achosodd yr anghysondeb rhwng allyriadau a'r gostyngiad mewn gweithgarwch. Fel sy'n ofynnol yn 2022, bydd angen i weithredwyr ddarparu data allyriadau is-weithfeydd wedi ei ddilysu fel rhan o'r dystiolaeth honno.

Mae'r Awdurdod yn diffinio trothwy fel y gwahaniaeth rhwng y gostyngiad canrannol mewn gweithgarwch a'r gostyngiad canrannol mewn allyriadau cyfatebol ar gyfer blwyddyn y cynllun yn 2020. Mae enghreifftiau lle mae'r gwahaniaeth hwn yn sylweddol yn datgelu meysydd lle nad yw'r broses Newidiadau i Lefel Gweithgarwch efallai'n gweithio fel y bwriadwyd. Yr Awdurdod sydd wedi dewis y dull trothwy, a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer 2021 yn yr un

[19] Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842 fel y mae'n rhan o gyfraith ddomestig.

[20] https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets

modd â 2022, gan ei fod yn seiliedig ar sectorau ac yn caniatáu ffordd fethodolegol o ymdrin â Newidiadau i Lefel Gweithgarwch.

Mae’r Awdurdod yn cynnig diffinio anghysondebau sylweddol yn yr un ffordd ag ar gyfer Newidiadau i Lefel Gweithgarwch 2022, drwy asesu lefel trothwy o 15% a fyddai’n cofnodi gweithfeydd a oedd yn profi lefel uchel o anghysondeb rhwng y gostyngiad mewn gweithgarwch a’r gostyngiad mewn allyriadau cyfatebol. Bydd y lefel hon yn cofnodi gweithfeydd lle bu’r gostyngiad mwyaf, ac felly’r rhai a gafodd yr effaith fwyaf, mewn gweithgarwch nad yw’n cyd-fynd â’r gostyngiad yn lefelau eu hallyriadau. Ni fydd yn cofnodi gweithfeydd sydd â llai o anghysondeb, a lle dylai’r polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch fod yn gweithio fel y bwriadwyd. Bwriad yr Awdurdod yw bod y diwygiad hwn yn delio â mater penodol o effaith COVID ar y broses Newidiadau i Lefel Gweithgarwch ac nid fel rhyddhad ehangach i weithredwyr yr effeithiwyd arnynt gan COVID.

Rydym yn cynnig y newid pellach terfynol hwn mewn perthynas â COVID oherwydd yr effeithiau na welwyd eu tebyg o’r blaen y cafodd COVID-19 ar lefelau gweithgarwch, ond nid allyriadau. Roedd yr effeithiau hyn yn fawr mewn rhai achosion ac yn cael eu teimlo gan rai gweithfeydd a oedd yn golygu nad oedd y broses Newidiadau i Lefel Gweithgarwch yn gweithio fel y bwriadwyd.

Rydym yn disgwyl y bydd y cynnig hwn yn cynnwys nifer gymharol fach o’r rhanddeiliaid yr effeithiwyd arnynt fwyaf. Byddwn yn prosesu ceisiadau cyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl a’r nod fydd cwblhau hyn cyn dosbarthu dyraniadau am ddim yn 2024 erbyn 28 Chwefror 2024.

Os byddwn yn hepgor y flwyddyn 2020 ar gyfer gweithredwyr cymwys, ar ôl ystyried yr ymatebion a gawsom, byddwn yn defnyddio 2018 a 2019 wrth gyfrifo Newidiadau i Lefel Gweithgarwch yn 2021 mewn perthynas â’r gweithredwyr sy’n gymwys am ryddhad. Dyma’r blynyddoedd agosaf i 2020 o ran adlewyrchu gweithgarwch diweddar ac allyriadau cysylltiedig, sy’n gyson â bwriad y polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch i sicrhau bod newidiadau mewn dyraniadau am ddim yn adlewyrchu gweithgarwch.

## Cynnig dau: diwygio’r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch i ystyried diffodd gweithgarwch ar gyfer cynnal a chadw neu amser segur a gynlluniwyd

### Crynodeb o'r Cynnig

O dan reolau presennol y Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch, pe bai gweithredwr yn diffodd eu gweithgarwch i wneud gwaith cynnal a chadw neu waith gwella, a bod hyn yn arwain at ostyngiad o 15% neu fwy mewn lefelau gweithgarwch cyfartalog (a gyfrifir o lefelau gweithgarwch y ddwy flynedd flaenorol) o’i gymharu â lefelau gweithgarwch hanesyddol, byddent yn gweld gostyngiad yn eu dyraniad lwfansau am ddim.

Cynigiodd yr Awdurdod i beidio â gwneud newidiadau i’r Rheoliadau Newidiadau i Lefel Gweithgarwch er mwyn ystyried diffodd gweithgarwch. Y rheswm am hyn yw na ellid fod wedi cynllunio ar gyfer pandemig COVID-19, er ei fod yn ddigwyddiad eithriadol, ac y gall gweithredwyr gynllunio ymlaen llaw ar gyfer diffodd gweithgarwch a dylid eu hannog i wneud hynny mewn ffordd mor effeithlon â phosibl. Ar ben hynny, tynnodd yr Awdurdod sylw hefyd at

y ffaith y bydd allyriadau hefyd yn gostwng yn ystod y cyfnod y rhoddir y gorau i weithgarwch, sy'n golygu y bydd gweithredwyr wedi cael mwy o ddyraniadau am ddim nag y dylent eu cael o ystyried eu hallyriadau is. Fel y bwriadwyd, bydd Newidiadau i Lefel Gweithgarwch, yn cywiro hyn drwy leihau eu dyraniad am ddim.

| **Cwestiwn** |
| --- |
| **18) Ydych chi'n cytuno na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r Rheoliad ar Newid Lefel Gweithgarwch i gyfrif am ddiffodd gweithgarwch? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

O'r 40 o ymatebwyr, roedd 29 (73%) yn cytuno na ddylid gwneud newidiadau i'r Rheoliadau Newidiadau i Lefel Gweithgarwch er mwyn ystyried diffodd gweithgarwch. Nododd ymatebwyr fod amrywiadau mewn gweithgarwch a chynnal a chadw yn rhan o weithgarwch arferol gweithredwyr diwydiannol, ac o'r herwydd maent eisoes yn cael eu hystyried drwy'r broses Newidiadau i Lefel Gweithgarwch.

Roedd deg ymatebydd (25%) yn anghytuno. Roedd yr ymatebion hyn yn nodi nad oedd bob amser cysylltiad rhwng ynni a gweithgarwch, gan y gallai cynhyrchiant fod yn aneffeithlon ar ôl diffodd gweithgarwch. Hefyd, nododd ymatebwyr y gallai'r rheolau Newidiadau i Lefel Gweithgarwch presennol fod yn rhwystr i fuddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni oherwydd colli lwfansau am ddim.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â gwneud newidiadau i'r Rheoliadau Newidiadau i Lefel Gweithgarwch er mwyn ystyried diffodd gweithgarwch. Bwriad y polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch yw sicrhau bod newidiadau mewn dyraniadau am ddim yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch, gan ystyried yr amrywiadau sy'n gallu digwydd. Mae cynnal a diffodd gweithgarwch yn rhan o weithgarwch arferol gweithredwyr diwydiannol, ac ni ddylid felly eu trin yn wahanol o ran y polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch. Mae'r Awdurdod o'r farn bod y rheolau presennol yn gyson â bwriad y polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch. Dylid annog gweithredwyr i greu cynlluniau mor effeithlon â phosibl ar gyfer eu gweithgareddau cynnal a chadw.

Fel y nodwyd yn ein hymatebion i gwestiynau 7-10, ar gyfer Cam 2 yr adolygiad o ddyraniadau am ddim, bydd yr Awdurdod yn edrych ar y fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim ac yn edrych ar ffyrdd y gall fynd ati'n well i dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch.

## Cynnig tri: Newidiadau i Lefel Gweithgarwch a thrin is-weithfeydd presennol/newydd

### Crynodeb o'r Cynnig

Cynigiodd yr Awdurdod ddiwygio’r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch i drin is-weithfa bresennol yn yr un modd ag is-weithfa newydd pan fo gweithfeydd presennol yn buddsoddi er mwyn cynyddu eu gallu i gynhyrchu. Byddai hyn yn golygu y byddai is-weithfeydd sydd eisoes yn rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU (is-weithfeydd rhannol) yn cael lefelau uwch o ddyraniadau am ddim o’r flwyddyn gyntaf y byddant yn gweithredu, ar ôl cynyddu lefelau cynhyrchu.

| **Cwestiwn** |
|---|
| **19) Ydych chi'n cytuno â'r newid arfaethedig hwn? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**20) Sut y gall gweithredwyr ddarparu tystiolaeth mai buddsoddi mewn cynyddu galluoedd cynhyrchu sy'n gyfrifol yn benodol am gynyddu eu hallbwn?** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

O’r 41 a ymatebodd i gwestiwn 19, roedd 37 (90%) yn cytuno â’r newid arfaethedig hwn. Rhai o themâu’r ymatebion hyn oedd y byddai’r cynnig yn sicrhau tegwch rhwng yr is-weithfeydd presennol a’r is-weithfeydd newydd. Mynegodd ymatebwyr hefyd y gallai’r cynnig, i ryw raddau, ddileu rhwystr rhag buddsoddi mewn cynyddu capasiti gweithfeydd presennol. Nododd nifer o ymatebwyr y gallai trin is-weithfeydd presennol yn yr un ffordd ag is-weithfeydd newydd osgoi’r cymhelliant gwrthnysig o fuddsoddi mewn safleoedd newydd dim ond er mwyn dderbyn y cynnydd yn y lwfansau am ddim yn gyflymach.

Roedd un ymatebydd (2%) yn anghytuno. Dywedodd yr ymatebydd y dylai’r gwahaniaeth rhwng newydd-ddyfodiaid a gweithfeydd presennol barhau i fod yn glir, fel sy’n cael ei ddeddfu ar hyn o bryd.

Cafwyd 31 o ymatebion i gwestiwn 20. Dywedodd llawer o’r ymatebwyr y gallent ddarparu prawf o’r Gwariant Cyfalaf perthnasol a arweiniodd at fwy o allbwn. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y ffaith bod hyn eisoes yn cael sylw fel rhan o’r cylch dilysu blynyddol presennol, a dywedodd ymatebwyr eraill y gellid ymestyn y broses ddilysu bresennol i gynnwys buddsoddiadau o’r fath. Nododd ymatebwyr hefyd y gellid dangos tystiolaeth o hyn drwy ddiweddariadau i’r drwydded nwyon tŷ gwydr.

### Ymateb yr Awdurdod

Ar ôl ymgynghori ymhellach â Rheoleiddwyr, mae’r Awdurdod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â’r newid arfaethedig oherwydd heriau sylweddol o ran gweithredu a’r rhesymeg polisi dros y gwahaniaeth rhwng is-weithfeydd newydd a rhai presennol.

Pe bai newid yn cael ei wneud i’r polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch i drin is-weithfeydd presennol yn yr un modd â rhai newydd mewn sefyllfaoedd o’r fath, byddai angen diffinio meini

prawf i bennu’r hyn a fyddai’n fuddsoddiad mewn galluoedd cynhyrchu. Byddai’n rhaid i reoleiddwyr hefyd asesu a yw’r gweithfeydd yn bodloni’r meini prawf hyn. Byddai hyn yn debyg i’r rheolau blaenorol a oedd ar waith yn ystod cam III Cynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd. Roedd y rhain yn arbennig o gymhleth a beichus i Reoleiddwyr a gweithredwyr, a dyma oedd un o’r rhesymau pam y datblygwyd y Rheoliadau Newid i Lefel Gweithgarwch. Felly, mae’r Awdurdod o’r farn y dylid osgoi cymhlethdod a baich ychwanegol yn yr amgylchiadau hyn.

Ar ben hynny, nododd yr Awdurdod feini prawf yn yr ymgynghoriad ar gyfer y cynigion newidiadau technegol sydd wedi eu cynnwys ym Mhennod 2, yn benodol nad ydynt yn galw am ailfeddwl y fethodoleg dyraniadau am ddim yn sylfaenol ac y gellir eu cyflawni yn y tymor byr. Ar ôl ymgynghori ymhellach â Rheoleiddwyr, mae’r Awdurdod wedi dod i’r casgliad nad yw’r cynnig hwn yn bodloni’r meini prawf hyn.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod y gwahaniaethir rhwng newydd-ddyfodiaid/ is-weithfeydd newydd ac is-weithfeydd presennol yn yr amgylchiadau penodol hyn. Ar ôl ystyried ac ymgynghori ymhellach â Rheoleiddwyr, mae’r Awdurdod yn credu bod rhesymeg dda dros hyn. Nid oes lefel o weithgarwch hanesyddol gan newydd-ddyfodiaid ac is-weithfeydd newydd, ac felly rhaid eu trin yn wahanol. Mae’r data hwn ar gael ar gyfer is-weithfeydd presennol, ac felly gellir cymharu gweithgarwch diweddar a gweithgarwch hanesyddol i sicrhau bod lwfansau am ddim yn adlewyrchu gweithgarwch, yn unol â bwriad y polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch. Ar ben hynny, dim ond yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o weithgarwch y bydd yr is-weithfeydd presennol a’r rhai newydd yn cael eu trin yn wahanol, sy’n gyfnod bychan iawn o’i gymharu â’r cyfnod y bu’r weithfa yn gweithredu. Mae’r Awdurdod yn cydnabod barn y cyfranogwyr y gallai’r polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch achosi heriau ac, o’r herwydd, nid yw’n diystyru’r posibilrwydd o wneud newidiadau i’r Rheoliad Newidiadau i Lefel Gweithgarwch yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn ein hymatebion i gwestiynau 7-10, ar gyfer Cam 2 yr adolygiad o ddyraniadau am ddim, bydd yr Awdurdod yn edrych ar y fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim ac edrych ar ffyrdd y gallwn fynd ati’n well i dargedu’r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon. Bydd hyn yn cynnwys adolygu’r polisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch.

## Cynnig pedwar: cynnwys gwerthoedd meincnod cyfredol yng nghyfraith y DU

### Crynodeb o'r Cynnig

Ar hyn o bryd mae Rheoliad Dyraniadau am Ddim y DU[21] yn defnyddio meincnodau Cynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd wrth gyfrifo dyraniadau am ddim yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae’r meincnodau wedi cael eu mabwysiadu o dan gyfraith yr UE ac yn gymwys yng nghyfraith y DU drwy gyfeirio at Reoliad Dyraniadau am Ddim y DU. Pe bai’r UE yn gwneud newidiadau i feincnodau yn y dyfodol, mae hyn yn golygu y byddai’r rhain yn berthnasol yn awtomatig i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

[21] Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 19 Rhagfyr 2018, gan ei fod yn rhan o gyfraith ddomestig, a ddiwygiwyd gan Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020, erthygl 30 o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 a Rhan 3 o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2022.

Cynigiom ddod â’r gwerthoedd meincnod presennol i gyfraith y DU, drwy eu cynnwys yn uniongyrchol yn neddfwriaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Bydd yr Awdurdod yn ystyried newidiadau i feincnodau fel rhan o’r adolygiad ehangach o ddyraniadau am ddim, a’r cam cyntaf i unrhyw newidiadau fyddai ymgorffori gwerthoedd meincnodau, fel y maent ar hyn o bryd, yn uniongyrchol yng nghyfraith y DU, fel bod y meincnodau hyn yn cael eu pennu mewn pryd.

| **Cwestiwn** |
| --- |
| **21) Ydych chi o blaid ein diwygiad arfaethedig? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

O’r 48 a ymatebodd i gwestiwn 21, roedd 38 (79%) yn cytuno y dylid cynnwys y gwerthoedd meincnod presennol yng nghyfraith y DU drwy eu cynnwys yn uniongyrchol yn neddfwriaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae themâu o’r ymatebion hyn yn cynnwys y byddai hyn yn caniatáu i’r Awdurdod ystyried newidiadau i feincnodau yn y dyfodol ar sail amgylchiadau sy’n benodol i’r DU, y dylid gwneud unrhyw newidiadau i feincnodau mewn ymgynghoriad â chyfranogwyr y cynllun ac y byddai angen i’r Awdurdod ystyried a allai unrhyw newidiadau i feincnodau yn y dyfodol gael effaith niweidiol ar y cyswllt â chynlluniau eraill. Nododd nifer o ymatebwyr fod disgwyl i feincnodau’r Undeb Ewropeaidd gael eu diweddaru cyn y cyfnod dyrannu nesaf, ac nad ydynt yn cynnwys data gan weithredwyr yn y DU. Nododd ymatebwyr hefyd y gallai’r ffaith bod cronfa lai o weithredwyr yn y DU arwain at broblemau wrth bennu meincnodau penodol ar gyfer y DU.

Roedd pedwar ymatebydd (8%) yn anghytuno. Dywedodd dau ymatebydd y dylid cael cydberthynas rhwng cynlluniau’r DU a chynlluniau’r UE, gan gynnwys meincnodau, gan na fyddai gwerthoedd yn cael eu diweddaru’n awtomatig o dan y cynnig.

Ni wnaeth chwech o’r ymatebwyr (13%) ymateb i’r cwestiwn yn uniongyrchol. O’r rhain, tynnodd dau ymatebydd sylw at bwysigrwydd ystyried effaith y cynnig ar gysylltu â chynlluniau eraill.

## Ymateb yr Awdurdod

Bydd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â’r newid arfaethedig i ddod â gwerthoedd meincnod cyfredol i gyfraith y DU. Bydd gwerthoedd meincnod, fel y maent ar hyn o bryd, yn cael eu hymgorffori’n uniongyrchol yng nghyfraith y DU fel eu bod yn cael eu pennu mewn pryd.

Bydd gwerthoedd meincnod yn aros yr un fath am weddill y cyfnod neilltuo presennol (2021-2025). Yr unig eithriad i hyn yw newidiadau dros dro i feincnodau penodol y cyfeirir atynt yn yr ymateb i gwestiwn 11[22].

[22] Gweler tud.51-53.

Ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf (2026-2030) ac fel rhan o gam 2 yr adolygiad o ddyraniadau am ddim, bydd yr Awdurdod yn edrych ar y fethodoleg ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim ac yn edrych ar ffyrdd o dargedu’r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon yn well[23]. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o feincnodau a ddefnyddir ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

## Cynnig pump: diwygio diffiniad cynhyrchydd trydan i ystyried allforion trydan yn y cyfnod sylfaen yn unig

### Crynodeb o'r Cynnig

Cynigiodd yr Awdurdod ddiwygio’r diffiniad o gynhyrchydd trydan i ystyried allforion trydan yn ystod y cyfnod sylfaen, yn hytrach nag allforion trydan ers 2005. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i weithredwyr newid eu statws cynhyrchydd trydan ar gyfer cyfnodau dyrannu yn y dyfodol, pe baent yn rhoi’r gorau i allforio trydan i’w werthu i drydydd partïon cyn y cyfnod sylfaen[24]. Fe wnaethom nodi na fyddai’r cynnig hwn yn berthnasol ar gyfer cyfnod dyrannu 2021-2025, gan fod yr Awdurdod eisoes wedi pennu dosbarthiad cynhyrchwyr trydan ar gyfer y cyfnod hwn yn unol â’r ddeddfwriaeth bresennol.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **22) Ydych chi o blaid ein diwygiad arfaethedig? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**23) A ddylai allforion trydan bach iawn neu unwaith yn unig gael eu hepgor o'r dosbarthiad cynhyrchydd trydan? (Dylai / Na ddylai) Esboniwch eich ymateb.** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

O’r 36 ymateb i gwestiwn 22, roedd 31 o ymatebwyr (86%) yn cytuno â’r diwygiad arfaethedig i’r diffiniad o gynhyrchydd trydan. Roedd themâu o’r ymatebion hyn yn cynnwys y byddai’r cyfnod sylfaen yn adlewyrchiad mwy cywir o weithrediadau, a bod y safleoedd diwydiannol sydd wedi buddsoddi mewn Gwres a Phŵer Cyfunedig wedi gwneud hynny i ddarparu ynni i’w safle yn y ffordd fwyaf effeithlon ac felly dylent gael yr un lefelau o lwfansau am ddim â safleoedd tebyg. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai’n rhy hwyr i newid dosbarthiad eu cynhyrchydd trydan ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf (2026-2030) gan fod y cyfnod sylfaen (2019-2023) eisoes wedi hen ddechrau. Hefyd, gofynnodd nifer o ymatebwyr i’r newid gael ei roi ar waith ar gyfer y cyfnod dyrannu presennol (2021-2025) gan na fyddai’r cynnig presennol yn cefnogi gweithredwyr sydd wedi cael eu dosbarthu’n gynhyrchwyr trydan ar hyn o bryd.

[23] Gweler yr ymatebion i gwestiynau 7-10, tud.32-35.
[24] Ar gyfer y cyfnod dyrannu 2026-2030, 2019-2023 yw’r cyfnod sylfaen.

Roedd dau ymatebydd (6%) yn anghytuno. Dywedodd un ymatebydd nad yw’r cynnig yn mynd yn ddigon pell, gan y bydd yn rhy hwyr i nifer o weithredwyr elwa gan ein bod eisoes fwy na hanner ffordd drwy gyfnod sylfaen y cyfnod dyrannu nesaf.

Ni wnaeth tri ymatebydd ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Awgrymodd un ymatebydd, lle bo cynhyrchu trydan yn ategol i brif weithgarwch y safle, na ddylid ystyried y weithfa yn gynhyrchydd trydan.

O’r 38 ymateb i gwestiwn 23, roedd 29 o ymatebwyr (76%) yn cytuno y dylid hepgor allforion trydan neu unwaith yn unig o’r dosbarthiad cynhyrchydd trydan. Rhai o themâu’r ymatebion hyn oedd na ellir cynllunio nac osgoi dadleoli trydan o bryd i’w gilydd, mai allforio trydan dros ben yw’r unig ffordd resymol o'i ddefnyddio o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae trydan yn cael ei allforio am resymau fel diogelwch a dibynadwyedd mewn rhai senarios, yn hytrach nag at y diben penodol o'i werthu. Dywedodd un ymatebydd (3%) y gall y rheolau presennol greu anghydbwysedd cystadleuol mewn sector, rhwng gweithredwyr sydd wedi eu dosbarthu’n gynhyrchwyr trydan a’r rhai nad ydynt yn perthyn i’r dosbarthiad hwnnw. Cafwyd awgrymiadau gan nifer o ymatebwyr ynghylch sut y gellid gosod y trothwy isaf ar gyfer trydan, fel trothwy o 250,000 kWH, 2% o gapasiti sydd wedi ei osod, fesul achos yn dibynnu ar gapasiti’r orsaf, neu ganran o’r trydan a gynhyrchir.

Roedd chwe ymatebydd (16%) yn anghytuno. Dywedodd dau ymatebydd fod hyd yn oed allforion trydan bach yn cystadlu â chynhyrchiant trydan yn ehangach ac y byddai perygl i’r cynnig ystumio’r farchnad bŵer.

### Ymateb yr Awdurdod

Bydd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â’r newid arfaethedig i ddiwygio diffiniad cynhyrchydd trydan i ystyried allforion trydan yn ystod y cyfnod sylfaen, yn hytrach nag allforion trydan ers 2005. Felly, yn y dyfodol, bydd y dosbarthiad cynhyrchydd trydan yn cael ei gysylltu â gweithgarwch diweddar, yn hytrach na’r holl allforion ers 2005. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i weithredwyr newid eu dosbarthiad fel cynhyrchydd trydan os ydynt wedi rhoi’r gorau i allforio trydan i drydydd partïon.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod nad yw’r cynnig hwn yn rhoi llawer o gyfle i weithredwyr newid eu dosbarthiad fel cynhyrchydd trydan ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf yn benodol, gan fod y cyfnod sylfaen eisoes wedi dechrau. O’r herwydd, ni fydd gweithredwyr sy’n gallu, fel rhan o’u cais dyrannu am ddim, darparu datganiad a thystiolaeth i’w Rheoleiddiwr perthnasol na fyddant yn parhau i gynhyrchu trydan i’w werthu, yn cael eu trin fel cynhyrchwyr trydan hyd yn oed os gwnaethant allforio rhywfaint o drydan yn ystod y cyfnod sylfaen. Gallai tystiolaeth o’r fath, er enghraifft, gynnwys bod gorsaf gynhyrchu trydan y gweithredwr wedi cael ei datgomisiynu neu nad yw wedi ei chysylltu â’r grid bellach. Os bydd y gweithredwr yn ailddechrau allforio trydan i’w werthu ar ôl hyn, bydd yn cael ei drin fel cynhyrchydd trydan a bydd ei ddyraniad am ddim yn cael ei ail-gyfrifo.

Mae’r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod rhai sefyllfaoedd lle nad yw trydan yn cael ei gynhyrchu at y prif bwrpas o’i werthu. Gallai hyn olygu bod gweithredwr sy’n gwneud allforion trydan bach iawn yn cael ei ddosbarthu’n gynhyrchydd trydan. Mae’r Awdurdod wedi

penderfynu y bydd allforion trydan bach iawn hefyd yn cael eu hepgor o’r diffiniad o gynhyrchydd trydan. Bydd “bach iawn” yn cael ei bennu drwy gymharu’r trydan sy’n cael ei allforio a’r trydan sy’n cael ei gynhyrchu yn y weithfa, a bydd trothwy o 5% yn cael ei osod. Mae hyn yn golygu na fydd gweithfeydd sy’n allforio 5% neu lai o’r trydan a gynhyrchir ganddynt yn cael eu dosbarthu’n gynhyrchydd trydan.

Dim ond ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf (2026-2030) y bydd y cynigion hyn yn cael eu defnyddio ac ni fyddant yn cael eu defnyddio ar gyfer y cyfnod dyrannu presennol (2021-2025). Y rheswm am hyn yw bod yr Awdurdod eisoes wedi pennu dosbarthiad cynhyrchwyr trydan ar gyfer y cyfnod dyrannu presennol yn unol â’r ddeddfwriaeth bresennol. Mae’r Awdurdod yn ffafrio’n gryf bod newidiadau i’r polisi dyrannu am ddim yn edrych tua’r dyfodol er mwyn rhoi sicrwydd i gyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac mai dim ond mewn rhai amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud eithriadau i hyn. Yn y Bennod hon, cynigiodd yr Awdurdod wneud newidiadau i bolisi Newidiadau i Lefel Gweithgarwch cyn y cyfnod dyrannu nesaf. Fodd bynnag, roedd hyn oherwydd effeithiau mawr pandemig COVID-19 na welwyd eu tebyg o’r blaen ac, mewn rhai achosion, oherwydd nad oedd y prosesau Newidiadau i Lefel Gweithgarwch yn gweithio fel y bwriadwyd. Rhoddodd yr Awdurdod ystyriaeth hefyd i newid rhai meincnodau a defnyddio’r rhestr dadleoli carbon cyn y cyfnod dyrannu nesaf. Fodd bynnag, roedd hyn mewn achosion penodol lle na fyddai modd i ddiwydiant eu cyflawni yng nghyd-destun y DU, gan achosi cymhellion gwrthnysig anfwriadol, neu drin cyfranogwyr yn anghyfartal y tu allan i fwriad y polisi presennol.

## Cynnig chwech: Gorsafoedd Gwres a Phŵer Cyfunedig a’r diffiniad o gynhyrchydd trydan

### Crynodeb o'r Cynnig

Cynigiodd yr Awdurdod ddau opsiwn:

**Opsiwn 1:** Cynnal y rheolau presennol sy’n ymwneud â dosbarthiad cynhyrchwyr trydan a’u defnydd mewn gorsafoedd Gwres a Phŵer Cyfunedig.

**Opsiwn 2:** Diwygio dosbarthiad cynhyrchwyr trydan i eithrio gweithfeydd sydd wedi cynhyrchu trydan i’w werthu i drydydd partïon, os cafodd y trydan hwnnw ei gynhyrchu drwy orsaf sydd wedi cael ei ardystio gan y rhaglen Sicrhau Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig, sy’n gweithredu fel rhan o weithgarwch diwydiannol gweithredwr. Ni fyddai hyn yn eithrio gweithfeydd sy’n gweithredu’n annibynnol o’r dosbarthiad hwn. Os yw gweithredwyr wedi buddsoddi mewn gweithfeydd Gwres a Phŵer Cyfunedig ar y safle a ardystiwyd gan y rhaglen Sicrhau Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig i gynhyrchu gwres a phŵer ar gyfer eu gweithgarwch diwydiannol, ac yn allforio trydan dros ben i’r grid, ni fyddem wedyn yn dosbarthu’r holl weithfa yn gynhyrchydd trydan. Fe wnaethom nodi na fyddai’r opsiwn hwn yn berthnasol ar gyfer cyfnod dyrannu 2021-2025, gan fod yr Awdurdod eisoes wedi pennu dosbarthiad cynhyrchwyr trydan ar gyfer y cyfnod hwn yn unol â’r ddeddfwriaeth bresennol.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **24) A ddylai'r rheolau presennol barhau? (Dylent / Na ddylent) Esboniwch eich ymateb. Os na ddylent, nodwch fuddiannau hynny yn eich barn chi.**<br><br>**25) A ddylid diwygio dosbarthiad cynhyrchydd trydan i hepgor gosodiadau sydd wedi cynhyrchu trydan i'w werthu i drydydd partïon, os cafodd y trydan hwnnw ei gynhyrchu drwy beiriant ardystiedig Sicrwydd Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig, yn gweithredu fel rhan o weithgarwch diwydiannol gweithredwr? (Dylid / Na ddylid) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**26) A ddylid gosod cap ar yr uchafswm trydan y gellir ei allforio fel amod i'r eithriad hwn? (Dylid / Na ddylid) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**27) Ydych chi o'r farn y bydd cynnig Opsiwn 2 yn cefnogi buddsoddiadau mewn atebion datgarboneiddio hirdymor? (Ydw / Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**28) Sut y gall gweithredwyr ddarparu tystiolaeth gadarn bod eu peiriant Gwres a Phŵer Cyfunedig ardystiedig Sicrwydd Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig yn gweithredu fel rhan o'u proses ddiwydiannol, ac nad yw'n gweithredu'n annibynnol at unig ddiben cynhyrchu trydan i'w werthu?** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

O'r 41 ymateb i gwestiwn 24, roedd chwe ymatebydd (15%) yn cytuno y dylid cadw at y rheolau presennol. Rhai o'r themâu a godwyd yn yr ymatebion hyn oedd y gallai diwygio'r rheolau arwain at ganlyniadau gwrthnysig, gan ei bod yn debygol mai bach iawn fyddai manteision trydan Gwres a Phŵer Cyfunedig nwy naturiol heb ei leihau a allforiwyd, ac y gallai newidiadau arwain at ystumio'r gystadleuaeth yn y sector cynhyrchu pŵer.

Roedd tri deg pedwar ymatebydd (83%) yn anghytuno. O'r ymatebion hyn, nodwyd y dylid annog Gwres a Phŵer Cyfunedig fel llwybr datgarboneiddio, yn enwedig Gwres a Phŵer Cyfunedig o ffynonellau carbon isel fel biomas, hydrogen ac ynni o wastraff. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai'r cynnig Opsiwn 2 ddod i rym ar unwaith, yn hytrach nag yn y cyfnod dyrannu nesaf.

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 25 yn cynnwys themâu tebyg iawn i'r rhai yng nghwestiwn 24. O'r 45 ymateb, roedd 38 ymatebydd (84%) yn cytuno â'r newid a awgrymwyd. Tynnodd ymatebwyr sylw at fanteision Gwres a Phŵer Cyfunedig, a heb welliant o'r fath gallai fod cymhelliant gwrthnysig i weithredwyr gynhyrchu trydan a pheidio â'i allforio. Roedd chwech o'r ymatebwyr (13%) yn anghytuno, gan ddweud na ddylid cymell Gwres a Phŵer Cyfunedig ymhellach.

O'r 37 ymateb i gwestiwn 26, roedd tri ymatebydd (8%) yn cytuno y dylid gosod cap ar yr uchafswm trydan y gellir ei allforio fel amod i'r eithriad hwn.

Roedd tri deg tri ymatebydd (89%) yn anghytuno. Rhai o themâu'r ymatebion hyn oedd bod y trydan sy'n cael ei gynhyrchu yn dod o'r hyn a fyddai'n wres gwastraff ac y dylid cael cymhelliant i allforio trydan gan y byddai angen ei gyflenwi mewn man arall beth bynnag. Nododd ymatebwyr hefyd y gall cynhyrchu trydan amrywio ar sail anghenion cynhyrchu a bod Gwres a Phŵer Cyfunedig yn cyfrannu at gymysgedd y grid cenedlaethol gyda ffynhonnell tanwydd nad yw'n danwydd ffosil. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at rai cymhellion gwrthnysig a allai ddeillio o osod cap, fel gweithrediad aneffeithlon Gwres a Phŵer Cyfunedig, peidio ag allforio trydan i osgoi torri'r cap pan fydd angen trydan ar y grid a chyfyngu'n artiffisial ar y llif posibl o bŵer wedi ei allforio o Wres a Phŵer Cyfunedig.

O'r 40 ymateb i gwestiwn 27, roedd 32 o ymatebwyr (80%) yn cytuno y bydd Opsiwn 2 yn cefnogi buddsoddiadau mewn atebion datgarboneiddio hirdymor. Rhai o'r themâu a godwyd yn yr ymatebion hyn oedd bod Gwres a Phŵer Cyfunedig ar hyn o bryd yn cynhyrchu trydan carbon isel y byddai angen ei ddisodli gydag atebion llai effeithlon, ac y gall Gwres a Phŵer Cyfunedig ddefnyddio tanwyddau gwahanol a bydd yn adnodd pwysig i ddangos gwerth newid tanwydd. Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai hyn yn gwella economeg buddsoddiadau mewn Gwres a Phŵer Cyfunedig ac y byddai'n annog buddsoddiadau mewn datgarboneiddio.

Roedd pedwar ymatebydd (10%) yn anghytuno. Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith y byddai Opsiwn 2 yn cymell buddsoddiad mewn Gwres a Phŵer Cyfunedig yn hytrach nag atebion hirdymor carbon is. Nododd ymatebydd arall fod Opsiwn 1 yn fwy tebygol o annog buddsoddiadau mewn datrysiadau datgarboneiddio hirdymor, gan na fyddai gweithredwyr gorsafoedd Gwres a Phŵer Cyfunedig yn gallu dibynnu ar lwfansau am ddim ac y byddent yn cael eu cymell i edrych ar opsiynau carbon isel eraill.

Cyflwynodd tri deg dau o ymatebwyr eu barn ar gwestiwn 28, gyda'r rhan fwyaf yn awgrymu y byddai'n weddol syml i ddangos hyn. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid sefydlu'r cynllun rhaglen Sicrhau Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig i wirio hyn, ac mae gwybodaeth berthnasol eisoes yn cael ei darparu. Nododd nifer o ymatebwyr y gellid ehangu'r broses ddilysu a darparu gwybodaeth ychwanegol i Reoleiddwyr.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu cyflwyno newid i'r dosbarthiad cynhyrchwyr trydan i eithrio gweithfeydd sydd wedi cynhyrchu trydan i'w werthu, os cafodd y trydan hwnnw ei gynhyrchu drwy beiriant sydd wedi cael ei ardystio gan y rhaglen Sicrhau Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig, sy'n gweithredu fel rhan o weithgarwch diwydiannol gweithredwr. Os yw gweithredwyr wedi buddsoddi mewn gweithfeydd Gwres a Phŵer Cyfunedig ar y safle a ardystiwyd gan y rhaglen Sicrhau Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig ar gyfer eu gweithgarwch diwydiannol, ac yn allforio trydan dros ben i'r grid, bydd hyn yn golygu na fydd y weithfa gyfan yn cael ei ddosbarthu'n gynhyrchydd trydan. Bydd hyn yn rhoi rhagor o anogaeth i weithredwyr sicrhau gwell effeithlonrwydd drwy ennill ardystiad rhaglen Sicrhau Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig ac mae'n gyson â chefnogaeth Llywodraeth y DU i Wres a Phŵer Cyfunedig o ansawdd da.

Ni fydd y cynnig ond yn berthnasol i Wres a Phŵer Cyfunedig sy'n gysylltiedig â gweithgarwch diwydiannol, e.e. sy'n cynhyrchu trydan i'w ddefnyddio yn y weithfa, ac nid i gynlluniau Gwres

a Phŵer Cyfunedig sy'n gweithredu'n annibynnol i gynhyrchu ac allforio pŵer. O dan y rheolau presennol, gall gweithfeydd Gwres a Phŵer Cyfunedig gael lwfansau am ddim o dan y meincnod gwres ar gyfer gwres sy'n cael ei allforio i weithfeydd nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Masnachu Allyriadau, ac ar gyfer gwres sy'n cael ei ddefnyddio yn y weithfa pan nad yw'n cael ei defnyddio i gynhyrchu trydan. Nid yw gweithredwyr sydd â Gwres a Phŵer Cyfunedig yn cael lwfansau am ddim ar gyfer cynhyrchu trydan. O'r herwydd, ni ddylai'r newid hwn arwain at ystumio'r gystadleuaeth yn y farchnad bŵer.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chynnwys cap ar allforion trydan fel amod i'r eithriad hwn. Y rheswm am hyn yw y byddai cynnwys cap yn debygol o arwain at gymhellion gwrthnysig i weithredwyr beidio ag allforio trydan i'r grid, er bod galw amdano, dim ond er mwyn osgoi torri'r cap. Ar ben hynny, fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw Gwres a Phŵer Cyfunedig yn cael lwfansau am ddim ar gyfer cynhyrchu trydan ac felly ni ddylai'r cynnig hwn arwain at ystumio'r gystadleuaeth yn y farchnad bŵer.

Dim ond ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf (2026-2030) y bydd y cynnig hwn yn cael ei ddefnyddio ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfnod dyrannu presennol (2021-2025). Y rheswm am hyn yw bod yr Awdurdod eisoes wedi pennu dosbarthiad cynhyrchwyr trydan ar gyfer y cyfnod dyrannu presennol yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol. Fel y nodwyd yng nghynnig 5, mae'r Awdurdod yn ffafrio'n gryf bod newidiadau i'r polisi dyraniadau am ddim yn edrych tua'r dyfodol er mwyn rhoi sicrwydd i gyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac mai dim ond mewn rhai amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud eithriadau i hyn.

# Cynnig: Diwygiadau i'r Meincnodau a'r Rhestr dadleoli carbon

| **Cwestiwn** |
|---|
| **11) Oes unrhyw newidiadau nad ydych eisoes wedi tynnu ein sylw atynt fel rhan o'ch ymateb i'r cais am dystiolaeth a ddylai yn eich barn chi gael eu gwneud yn gynt na'r amserlenni uchod? (Oes / Nac oes) Esboniwch eich ymateb.** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

Atebodd dau ddeg naw o ymatebwyr y cwestiwn hwn, a oedd yn gofyn am farn ynghylch a ddylid gweithredu newidiadau i feincnodau penodol neu ddefnyddio'r rhestr dadleoli carbon cyn y cyfnod dyrannu nesaf. Roedd tri ar ddeg o ymatebwyr (45%) yn awgrymu gwneud newidiadau cynnar i gyfanswm o saith meincnod penodol neu ddefnyddio'r rhestr dadleoli carbon.

Cododd dau ar bymtheg o ymatebwyr (59%) bwyntiau yn ymwneud ag amseriad a nodau ehangach newidiadau i'r fethodoleg dyraniadau am ddim. O'r rhain, gofynnodd naw ymatebydd (31%) i wneud penderfyniadau ar bob newid cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi amser a sicrwydd i'r diwydiant wrth gynllunio. Roedd chwech o ymatebwyr (21%) yn annog y dylid

cydlynu unrhyw newidiadau i ddyraniadau am ddim â mesurau lliniaru dadleoli carbon eraill, fel Mecanwaith Addasu Ffin Garbon. Nododd pum ymatebydd (17%) efallai na fydd cyfraddau atal hanesyddol yn gynaliadwy ar gyfer rhai sectorau, nac ar gyfer rhai cynhyrchion penodol, ac y dylai unrhyw newidiadau ystyried y ffaith honno. Roedd un ymatebydd (3%) yn poeni y dylid dosbarthu dyraniad am ddim yn fwy cyfartal rhwng sectorau, ac roedd un ymatebydd am weld y dyraniad am ddim yn cael ei ddiddymu cyn gynted â phosibl.

## Ymateb yr Awdurdod

Yn yr ymgynghoriad Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, dywedodd yr Awdurdod os oedd o’r farn bod problemau penodol gyda meincnodau neu ddefnydd o’r rhestr dadleoli carbon nad oedd modd i’r diwydiant eu cyflawni yng nghyd-destun y DU, meysydd o’r polisi sy’n achosi cymhellion gwrthnysig anfwriadol, neu driniaeth anghyfartal i gyfranogwyr y tu allan i fwriad y polisi presennol, yna byddai’r Awdurdod yn ceisio cyflwyno newidiadau i liniaru’r materion hyn cyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl yn dilyn ail bwynt yr ymgynghoriad a dim hwyrach na 1 Ionawr 2024.

Ar ôl ystyried y materion penodol a godwyd mewn ymateb i’r ymgynghoriad, ynghyd ag eraill a godwyd yn ystod Cais am Dystiolaeth[25] yr adolygiad o ddyraniadau am ddim yn 2021, mae’r Awdurdod wedi penderfynu gwneud newidiadau dros dro i’r meincnod calch ac i ddosbarthiad dadleoli carbon cynhyrchu deunydd brag ar gyfer blynyddoedd y cynllun yn 2024 a 2025. Mae’r penderfyniad hwn yn seiliedig ar hawliadau sylweddol a thystiolaeth gan y sectorau hyn. Bydd y newidiadau dros dro hyn yn cael eu rhoi ar waith erbyn 1 Ionawr 2024 a byddant yn effeithio ar lwfansau am ddim a ddosberthir gan y cynllun yn 2024 a 2025 yn unig (e.e. lwfansau am ddim a fydd yn cael eu dosbarthu ar/erbyn 28 Chwefror 2024 a 28 Chwefror 2025).

Ar gyfer newidiadau dros dro mewn perthynas â meincnodau, rhoddodd yr Awdurdod ystyriaeth i’r canlynol:

- Roedd honiad sylweddol a thystiolaeth nad oedd modd cyrraedd y meincnod, oherwydd bod gwerth y meincnod yn adlewyrchu technolegau, prosesau cynhyrchu, tanwyddau neu arbedion effeithlonrwydd eraill nad ydynt ar gael yn y DU.
- Roedd honiad sylweddol a thystiolaeth bod y mater wedi arwain at drin cyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn anghyfartal.
- Roedd honiad sylweddol a thystiolaeth fod y mater wedi achosi cymhellion gwrthnysig, gan fynd yn groes i fwriad polisi Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, dyraniadau am ddim a/neu feincnodau.
- Roedd y mater yn benodol i’r sector, e.e. nid oedd yn ymwneud â meincnodau lleihau allyriadau gwres, tanwydd na phrosesau, gan y byddai unrhyw newid i’r rhain yn effeithio ar nifer fawr o weithredwyr ac na ellid eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod dyrannu presennol.

---

[25] https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-call-for-evidence

Ar gyfer newidiadau dros dro mewn perthynas â'r rhestr dadleoli carbon, rhoddodd yr Awdurdod ystyriaeth i'r canlynol:

- Roedd honiad sylweddol a thystiolaeth bod y mater wedi arwain at drin cyfranogwyr yn anghyfartal.
- Roedd honiad sylweddol a thystiolaeth fod y mater wedi achosi cymhellion gwrthnysig, gan fynd yn groes i fwriad polisi presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, dyraniadau am ddim a/neu feincnodau.

Mae'r Awdurdod o'r farn bod yr honiad yn un sylweddol a bod tystiolaeth ohono os yw'n cynnwys dadl ansoddol resymol sy'n cael ei chefnogi gan ddata gwrthrychol a gwiriadwy. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys data a chyfrifiadau sy'n dangos bod gweithgarwch yn cyrraedd trothwy'r dangosydd dadleoli carbon. Ni fyddai hyn yn cynnwys dadl ansoddol yn unig ac ni fyddai unrhyw dystiolaeth ategol yn cael ei darparu i'r Awdurdod.

Yn achos y meincnod calch, roedd yr Awdurdod o'r farn bod honiad sylweddol a thystiolaeth nad oedd modd bodloni'r meincnod oherwydd bod y gwerth meincnod yn adlewyrchu'r defnydd o arbedion effeithlonrwydd penodol nad ydynt ar gael yn y DU. Cyflwynodd rhanddeiliaid honiad sylweddol bod y meincnod yn cael ei ystumio gan nifer o weithredwyr sydd â mynediad at fiomas, tanwydd nad yw ar gael yn eang yn y DU. O ganlyniad, rydym yn cynyddu gwerth y meincnod o 10% dros dro. Er y rhoddwyd ystyriaeth i nifer o opsiynau ar gyfer y cynnydd dros dro i'r meincnod, penderfynwyd bod y gwerth a ddewiswyd yn briodol yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd, heb ddyrannu gormod o lwfansau i weithfeydd perthnasol. Byddai hyn yn gynnydd bach i ddyraniad am ddim o safbwynt y cynllun, a byddai'n cael effaith ar y gweithredwyr eu hunain ar yr un pryd.

Yn achos statws dadleoli carbon cynhyrchu deunydd brag, roedd yr Awdurdod o'r farn bod honiad sylweddol a thystiolaeth bod y gweithgarwch yn cyrraedd trothwy'r dangosydd dadleoli carbon. Cyflwynodd rhanddeiliad honiad sylweddol y dylid defnyddio'r data dwysedd masnach ar gyfer cynhyrchu brag ar gyfer cynhyrchu deunydd brag, a fyddai'n golygu bod y gweithgaredd yn cyrraedd trothwy'r dangosydd dadleoli carbon. O ganlyniad, rydyn ni'n gosod y gweithgarwch fel bod dadleoli carbon yn dod i'r amlwg dros dro.

Penderfynodd yr Awdurdod beidio â gwneud newidiadau dros dro i faterion penodol eraill gyda meincnodau neu ddefnydd o'r rhestr dadleoli carbon a godwyd gan randdeiliaid, a'r prif resymau oedd diffyg tystiolaeth neu beidio â bodloni meini prawf eraill a ystyriwyd gan yr Awdurdod a restrir uchod.

Nid yw'r penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud i gyflwyno newidiadau dros dro rhwng 2024 a 2025, a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd, yn rhagfynegi newidiadau ehangach i'r fethodoleg ar gyfer dosbarthu lwfansau am ddim a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf (gweler yr ymatebion i gwestiynau 7-10). Felly, bydd yr Awdurdod yn ailasesu'r newidiadau dros dro hyn cyn y cyfnod dyrannu nesaf fel rhan o gam nesaf yr Adolygiad Dyrannu am Ddim. Yn y dyfodol, bydd materion a ystyriwyd, ond na wnaed unrhyw newid dros dro iddynt, hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno.

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr i gwestiwn 11 wedi codi neu ailadrodd pwyntiau sy’n ymwneud ag amseriad a nodau ehangach y newidiadau i’r fethodoleg dyraniadau am ddim, yn enwedig o ran amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau a chydlynu â mesurau eraill i liniaru dadleoli carbon. Rhoddir sylw i’r pwyntiau hyn uchod yn ymatebion yr Awdurdod i gwestiynau 7-10 ac i gwestiwn 12[26].

# Cynnig: Cynhyrchwyr trydan[27]

## Crynodeb o'r Cynnig

Tynnom sylw at y ffaith bod cynhyrchwyr trydan nad ydynt wedi allforio gwres mesuradwy at ddibenion system gwresogi ardal yn y “cyfnod perthnasol”, ond sy’n bwriadu gwneud hynny yn ystod blynyddoedd y cynllun yn y dyfodol, yn gymwys o dan y ddeddfwriaeth bresennol i gael dyraniadau am ddim ar ôl i hyn gael ei ddangos. Fodd bynnag, nid yw cynhyrchwyr trydan sy’n methu dangos eu bod wedi cynhyrchu gwres mesuradwy drwy gydgynhyrchu effeithlonrwydd uchel dros y “cyfnod perthnasol” yn gymwys i gael dyraniad am ddim ac nid oes unrhyw ffordd iddynt gael lwfansau am ddim yn ystod cyfnod dyrannu os gallant wedyn ddangos eu bod yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd a nodir yn Erthygl 2a o’r Rheoliad Dyraniadau am Ddim.

Gofynnom am farn yr ymatebwyr ynghylch a ddylai cynhyrchwyr trydan nad ydynt wedi allforio gwres mesuradwy a gynhyrchwyd drwy gyfuno effeithlonrwydd uchel yn y “cyfnod perthnasol”, ond sy’n dechrau gwneud hynny yn ystod blynyddoedd y cynllun, fod yn gymwys i gael dyraniad am ddim unwaith y gallant ddangos eu bod yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **174) A ddylai cynhyrchwyr trydan nad ydynt wedi allforio gwres mesuradwy wedi ei gynhyrchu drwy broses gydgynhyrchu effeithlonrwydd uchel yn y “relevant period”, ond sy'n dechrau gwneud hynny mewn blynyddoedd cynllun i ddod, fod yn gymwys am ddyraniadau am ddim unwaith y gallant ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd? (Dylai / Ni ddylai) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**175) Dros ba gyfnod y dylid asesu'r gwaith o bennu a gaiff y gwres mesuradwy ei gynhyrchu drwy broses gydgynhyrchu effeithlonrwydd uchel?** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

O’r 17 ymateb i gwestiwn 174, roedd 13 o’r ymatebwyr (76%) yn cytuno. Roedd themâu o’r ymatebion hyn yn cynnwys bod y safleoedd diwydiannol sydd wedi buddsoddi mewn Gwres a Phŵer Cyfunedig wedi gwneud hynny i ddarparu ynni i’w gweithfa yn y ffordd fwyaf effeithlon ac y dylid darparu’r un lefelau o lwfansau am ddim iddynt â safleoedd tebyg. Nododd un

[26] Gweler tud.32-36.

[27] Cafodd y cynnig hwn ei gynnwys ym Mhennod 9 yr ymgynghoriad i ddechrau. Rydym wedi’i gynnwys ym Mhennod 2 bellach gan ei fod yn ymwneud â’r polisi dyraniadau am ddim.

ymatebydd (6%) y byddai hyn yn gyson â bwriad y polisi o ddyrannu lwfansau am ddim i gynlluniau Gwres a Phŵer Cyfunedig o ansawdd da.

Roedd un ymatebydd (6%) yn anghytuno heb wneud sylw pellach.

Rhoddodd naw ymatebydd (56%) eu barn ar gwestiwn 175. Awgrymodd ymatebwyr y dylid asesu’r penderfyniad ynghylch a yw’r gwres mesuradwy’n cael ei gynhyrchu drwy gydgynhyrchu effeithlonrwydd uchel naill ai dros gyfnod o ddwy flynedd, yn y flwyddyn flaenorol lle gellid dangos hyn, neu dros chwarter blwyddyn.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod wedi penderfynu cyflwyno newid i ddeddfwriaeth i ganiatáu cynhyrchwyr trydan nad ydynt wedi allforio gwres mesuradwy wedi ei gynhyrchu drwy broses gydgynhyrchu effeithlon iawn yn y “cyfnod perthnasol”, ond sy'n dechrau gwneud hynny mewn blynyddoedd cynllun i ddod, i fod yn gymwys am lwfansau am ddim unwaith y gallant ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd cydgynhyrchu effeithlon iawn a amlinellir yn Erthygl 2a o’r Rheoliad Dyraniad am Ddim.

Bydd y penderfyniad ynghylch a yw’r gwres mesuradwy’n cael ei gynhyrchu drwy ddull cydgynhyrchu effeithlon iawn yn cael ei asesu dros y cyfnod diweddaraf o ddwy flynedd, a bydd angen cyflwyno data perthnasol i Reoleiddwyr drwy Adroddiadau Lefel Gweithgarwch, fel rhan o’r broses Newidiadau i Lefel Gweithgarwch.

# Pennod 3: Cais am Dystiolaeth ar Bolisi Marchnadoedd y Dyfodol

Mae’r bennod hon yn rhoi sylw i’n hymatebion i’r Cais am Dystiolaeth a amlinellwyd ym Mhennod 4 yn yr ymgynghoriad.

Dyma gam cyntaf dull dau gam i ddatblygu cynigion ar bolisi marchnadoedd y dyfodol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Yn dilyn y Cais hwn am Dystiolaeth, ein nod yw ymgynghori ar gynigion polisi manwl. Bydd ein gwaith datblygu polisi dros y misoedd nesaf yn ystyried dyfodol mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad, gan gynnwys Pris Cadw Arwerthiannau a’r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, ac yn ystyried rhinweddau posibl mecanwaith addasu cyflenwad, yn ogystal â gweithrediad ehangach marchnadoedd.

## Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Yn yr ymgynghoriad ar Ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, roedd Pennod 4 yn galw am dystiolaeth ynghylch ffactorau posibl sy'n sbarduno amodau marchnadoedd sy’n datblygu, amcanion ar gyfer polisi sefydlogrwydd marchnadoedd wrth i'r Cynllun ddatblygu, a gwerthusiad o fecanweithiau marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli. Roedd yr ymatebion wedi darparu llawer o ddata ac ystyriaethau i’r Awdurdod eu hadolygu fel rhan o’r dull o ddatblygu cynigion ar bolisi marchnadoedd y dyfodol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

## Camddefnyddio’r farchnad ac ymddygiad ansefydlogi

| **Cwestiwn** |
|---|
| **33) Oes gan farchnadoedd Cynllun Masnachu Allyriadau unrhyw nodweddion sy'n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg o gamddefnyddio'r farchnad na marchnadoedd ariannol eraill? (Oes/Nac Oes) Os oes, beth yw'r nodweddion hynny a pham?** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

O blith y 51 o ymatebion i gwestiwn 33, dywedodd 33 o ymatebwyr (65%) fod gan farchnadoedd Cynllun Masnachu Allyriadau nodweddion sy'n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg o gamddefnyddio'r farchnad na marchnadoedd ariannol eraill. Roedd tri ar ddeg o ymatebwyr (25%) yn anghytuno, ac nid oedd pump o’r ymatebwyr (10%) wedi ateb y cwestiwn.

Roedd hylifedd yn thema allweddol, gyda 16 o ymatebwyr (31%) yn poeni bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn anhylifol gan ei fod yn llai na marchnadoedd rhyngwladol eraill.

Soniodd pedwar ar ddeg o ymatebwyr (27%) hefyd am bryderon nad oedd angen i gyfranogwyr brynu llawer o lwfansau er mwyn i bris cyffredinol carbon gynyddu. Dywedodd chwe ymatebydd (12%) eu bod yn cael trafferth prynu lwfansau oherwydd diffyg argaeledd, ac maen nhw'n credu y gallai'r broblem hon waethygu wrth i'r cap barhau i ostwng. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr safbwyntiau mwy cadarnhaol am hylifedd. Dywedodd un ymatebydd (2%) y dylai'r cynigion ym Mhennod 4 ar Bolisi Marchnadoedd y Dyfodol gynnig mwy o hylifedd, gyda dau ymatebydd (4%) yn dweud y dylai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gyd-fynd â System Masnachu Allyriadau'r UE er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â hylifedd a maint y farchnad.

Dywedodd pymtheg o'r ymatebwyr (29%) eu bod yn credu bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn fwy sensitif i effaith diffyg cydymffurfiaeth gan fuddsoddwyr, gan y gallai damcaniaethu ymysg yr endidau hyn arwain at brisiau uchel iawn am lwfansau i endidau sydd yn cydymffurfio. Gwnaeth un ymatebydd (2%) sylw cadarnhaol am ddamcaniaethu, gan ddatgan nad oes tystiolaeth ei fod yn gyrru prisiau'r Cynllun Masnachu Allyriadau. Hefyd, mynegodd saith ymatebydd (14%) bryder y gallai endidau nad ydynt yn cydymffurfio fod yn defnyddio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i brynu lwfansau er budd ariannol heb gyfrannu at ddatgarboneiddio. Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn, mae'r Awdurdod yn nodi nad yw masnachu damcaniaethol yn gyfystyr â chamddefnyddio'r farchnad.

Roedd rhai ymatebion yn dweud bod defnyddio rheolau camddefnyddio'r farchnad yn rhoi llawer o gysur i'r cyfranogwyr, ac yn cynnwys y mesurau diogelu angenrheidiol i ganfod ac atal achosion o gamddefnyddio'r farchnad.

## Datblygiad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU dros y blynyddoedd i ddod

| **Cwestiynau** |
|---|
| **C34) Oes unrhyw beth arall yn sbarduno amodau marchnad sy'n datblygu y dylai polisi marchnadoedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU eu hystyried? (Oes/Nac Oes) Os oes, beth ydynt? Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu eich barn?**<br><br>**C35) Yn eich barn chi, pa effeithiau y gallai'r sbardunau hyn eu cael yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y blynyddoedd i ddod, yn enwedig o ran sefydlogrwydd ac uniondeb marchnadoedd? Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu eich barn?** |

### Crynodeb o'r Ymatebion

O blith y 46 ymateb i gwestiwn 34, dywedodd 39 o ymatebwyr (85%) fod ffactorau eraill sy'n sbarduno amodau marchnad sy'n datblygu y dylai polisi marchnadoedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU eu hystyried, gyda phum ymatebydd (11%) yn anghytuno.

Roedd System Masnachu Allyriadau’r UE yn thema allweddol, gydag ymatebwyr yn datgan eu barn ei bod yn bwysig bod Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU a System Masnachu Allyriadau'r UE yn dal yn debyg i’w gilydd o ran cwmpas a dyluniad y farchnad. Mynegodd ymatebwyr bryderon bod ymgyngoriadau diweddar y DU a’r UE yn dangos bod y ddau gynllun yn gallu bod yn wahanol i’w gilydd. Dywedodd mwy nag un ymatebydd fod lwfansau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn aml wedi masnachu ar bris uwch na lwfansau System Masnachu Allyriadau’r UE, ac y gallai unrhyw wahaniaeth pellach o ran pris olygu bod busnesau ym Mhrydain o dan anfantais. Mynegodd yr ymatebwyr hyn bryder hefyd y gallai gwahaniaethau mawr mewn prisiau atal y posibilrwydd o gysylltu System Masnachu Allyriadau’r UE a Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y dyfodol. Rhoddodd ymatebwyr eu barn ynghylch sut i atal y ddau gynllun rhag dilyn trywydd gwahanol i’w gilydd, gyda dau ymatebydd yn awgrymu trafodaeth agored a rheolaidd â swyddogion Ewropeaidd i sicrhau cysondeb ar ddyluniadau’r farchnad a chyflwyno mecanweithiau fel mecanweithiau addasu cyflenwad fel y gwelir yn System Masnachu Allyriadau’r UE. Ar ben hynny, soniodd 14 o ymatebwyr (30%) am y posibilrwydd o gysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU a System Masnachu Allyriadau’r UE, gan ddadlau y gallai hynny gynyddu hylifedd, sefydlogi pris carbon a lleihau’r achosion o ddadleoli carbon.

O blith y 31 ymateb i gwestiwn 35, dywedodd ymatebwyr eu bod o’r farn y gallai’r posibilrwydd o gynnwys sectorau newydd yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ynghyd â chap sy’n gostwng, gyfrannu at gynyddu pris carbon. Ar y llaw arall, dywedodd nifer o ymatebwyr y gallai cynnwys marchnadoedd newydd, fel gwaredu nwyon tŷ gwydr, fod o gymorth o ran sefydlogrwydd a hylifedd marchnadoedd oherwydd y byddai mwy yn cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

### Cysylltu Rhyngwladol:

Roedd Strategaeth Sero Net y DU, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn ailddatgan y rôl bwysig y bydd prisio carbon yn ei chwarae fel adnodd i helpu i gyflawni ein nodau uchelgeisiol ar gyfer yr hinsawdd. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod y dull prisio carbon ar ei fwyaf effeithiol pan fydd yn cael ei ddefnyddio’n eang ac ar draws ffiniau. Yn ogystal â datblygu system uchelgeisiol ar gyfer prisio carbon ar lefel ddomestig, rydym yn awyddus i gydweithio â gwledydd eraill ar fesurau prisio carbon i gefnogi mwy o uchelgais yn fyd-eang.

Fel y nodwyd ym Mhapur Gwyn Ynni Llywodraeth y DU ac yn ymgynghoriad yr Awdurdod ar Ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, rydym yn dal yn agored i’r posibilrwydd o gysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU â Chynlluniau Masnachu Allyriadau eraill yn rhyngwladol. O dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, cytunodd y DU a’r UE i gydweithredu ar brisio carbon, gan gynnwys drwy roi ystyriaeth ddifrifol i gysylltu cynlluniau prisio carbon ein gilydd.

Bydd cydweithredu a thrafodaethau ar brisio carbon, gan gynnwys drwy ystyried cysylltu cynlluniau, yn dal yn bwysig wrth i Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a’r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon ymdrechu i gyrraedd targedau uchelgeisiol ar gyfer yr hinsawdd. Rydym yn awyddus i gynyddu cydweithrediad amlochrog ar brisio carbon, a allai gynnwys cyfnewid

gwybodaeth, rhannu arferion gorau, hybu uniondeb systemau, neu drwy ddulliau mwy ymarferol o gydweithredu, fel cysylltu Cynlluniau a Systemau Masnachu Allyriadau.

# Amcanion polisi marchnadoedd wrth i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU aeddfedu

| **Cwestiynau** |
|---|
| **C36) Ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r amcanion cywir ar gyfer polisi marchnadoedd wrth i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU aeddfedu? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.** |

## Crynodeb o'r Ymatebion

O blith y 40 ymateb i gwestiwn 36, roedd 33 o ymatebwyr (83%) yn credu bod y pum amcan yn gywir. Er gwybodaeth, yr amcanion yw:

- Darparu sicrwydd hirdymor i gyfranogwyr gyda dull seiliedig ar reolau i unrhyw ymyriad gan yr Awdurdod
- Dylunio unrhyw bolisïau sefydlogrwydd marchnadoedd mewn ffordd sy'n lleihau gallu unrhyw endid i 'fanipwleiddio' y polisi
- Gwrthsefyll siociau o ran galw a/neu brisiau gormodol am i fyny neu am i lawr annisgwyl ac sy'n ansefydlogi yn y farchnad fel sy'n briodol
- Cefnogi darganfod prisiau a hylifedd ym marchnadoedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU
- Diogelu rhag camddefnyddio'r farchnad a gweithgarwch a allai ansefydlogi marchnadoedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn sylweddol

Dywedodd deuddeg ymatebydd (30%) y byddai'r amcanion yn rhoi sicrwydd hirdymor i'r farchnad, gan helpu i ysgogi buddsoddiad, sefydlogi pris carbon a gwrthsefyll y posibilrwydd o sioc yn y farchnad. Er eu bod yn cytuno â'r amcanion, nododd ymatebwyr faterion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn eu hymatebion. Dywedodd saith ymatebydd (18%) y gallai'r amcanion drosi'n ddiffyg gweithredu gan yr Awdurdod, gydag ymatebion yn cyfeirio at y diffyg gweithredu yn dilyn dau sbardun blaenorol yng nghyswllt y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau.

Roedd chwech o'r ymatebwyr (15%) yn anghytuno, gydag un ymatebydd yn argymell defnyddio pris gwaelodol oherwydd y gallai fod yn arwydd o drywydd isafbris hirdymor ar gyfer y farchnad. Dywedodd tri ymatebydd (8%) fod diffyg amcanion penodol ynghylch Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cyfrannu at gefnogi buddsoddiad a defnyddio technolegau carbon isel.

# Crynodeb o bolisïau marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU

## Pris Cadw Arwerthiannau

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **C37) Yn unol â pha amserlen y dylem ystyried tynnu'r Pris Cadw Arwerthiannau yn ôl: cyn gynted â phosibl; fel rhan o gyflwyno pecyn polisïau marchnadoedd ehangach posibl; ochr yn ochr â chyflwyno'r cap sy'n gyson â sero net; neu'n unol ag amserlen arall? Os nodwyd amserlen arall, pa amserlen? Pam yr amserlen honno?**<br><br>**C38) A ddylid cyflwyno mecanwaith arall yn lle'r Pris Cadw Arwerthiannau? (Dylid/Na Ddylid) Os dylid, pa fath o fecanwaith a ddylai gymryd ei le a pham?** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

O blith y 47 ymateb i gwestiwn 37, dywedodd 33 o ymatebwyr (70%) y dylid tynnu’r Pris Cadw Arwerthiannau yn ôl:

- Mae 22 o’r 33 ymatebydd hynny (67%) eisiau cael gwared ar y Pris Cadw Arwerthiannau cyn gynted â phosibl;
- Ni roddwyd amserlen gan chwech o’r ymatebwyr (18%);
- Mae pedwar ymatebydd (12%) eisiau cael gwared ar y Pris Cadw Arwerthiannau, ochr yn ochr â chyflwyno pecyn polisïau marchnadoedd ehangach posibl; ac
- Mae un ymatebydd (3%) eisiau cael gwared ar y Pris Cadw Arwerthiannau, ochr yn ochr â chyflwyno pecyn polisïau marchnadoedd ehangach a’r cap sy’n gyson â sero net.

Ymysg y rhai a oedd o blaid tynnu’r Pris Cadw Arwerthiannau yn ôl, un o’r themâu allweddol oedd diffyg perthnasedd y Pris Cadw Arwerthiannau. Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr fod pris carbon cyfredol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn uwch o lawer na’r Pris Cadw Arwerthiannau (£22), a’u bod o’r farn nad yw pris lwfans y DU yn debygol o fod yn agos at y Pris Cadw Arwerthiannau eto. Dywedodd un ymatebydd (2%) ei fod yn credu y dylai’r Pris Cadw Arwerthiannau gael ei ddisodli gan fecanwaith addasu cyflenwad er mwyn rheoli diffyg lwfansau a lwfansau dros ben. Roedd deg ymatebydd (21%) yn gwrthwynebu tynnu’r Pris Cadw Arwerthiannau yn ôl. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai’r Pris Cadw Arwerthiannau godi ar y cyd â’r cynnydd disgwyliedig ym mhris carbon, yn enwedig gan fod y Pris Cadw Arwerthiannau wedi cael ei gyflwyno cyn cysoni Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU â nodau sero net. Hefyd, roedd nifer o’r ymatebwyr o blaid cadw pris gwaelodol er mwyn rhoi sicrwydd i’r farchnad. Dywedodd dau ymatebydd (4%) y gellir defnyddio’r Pris Cadw Arwerthiannau i leddfu prisiau eithriadol o isel.

O blith y 59 ymateb i gwestiwn 38, roedd 38 o ymatebwyr (64%) yn credu na ddylid disodli’r Pris Cadw Arwerthiannau â mecanwaith arall. Roedd nifer o ymatebwyr o blaid cadw’r Pris

Cadw Arwerthiannau gan ei fod yn fecanwaith sy’n hawdd ei ddeall ac yn rhoi sefydlogrwydd i farchnadoedd. Galwodd nifer o ymatebwyr am i’r Awdurdod ystyried mecanweithiau a fydd yn gwneud prisiau’n llai anwadal ac yn lleihau achosion o ddadleoli carbon, yn hytrach na chanolbwyntio ar fesurau prisiau isel.

Roedd pedwar ar ddeg o’r ymatebwyr (24%) eisiau i’r Pris Cadw Arwerthiannau gael ei ddisodli, gyda nifer o ymatebwyr yn argymell cyflwyno mecanwaith addasu cyflenwad. Dywedodd ymatebwyr hefyd y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ddysgu gan System Masnachu Allyriadau’r UE gan eu bod nhw wedi cyflwyno Cronfa Wrth Gefn Sefydlogrwydd Marchnadoedd i helpu marchnadoedd i fod yn fwy sefydlog. Hefyd, dywedodd dau ymatebydd (3%) y dylai’r Pris Cadw Arwerthiannau gael ei ddisodli gan bris gwaelodol parhaus ar ffurf mecanwaith pris cadw newydd neu dreth atodol a fydd, yn ei dro, yn rhoi mwy o sicrwydd i fuddsoddwyr ac yn diogelu refeniw arwerthiannau'r Llywodraeth.

## Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau

| **Cwestiynau** |
|---|
| **C39) A yw'r trothwyon ar gyfer sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn addas at y diben o hyd? (Ydynt/Nac Ydynt) Os nad ydynt, sut y dylid eu diwygio?**<br><br>**C40) A yw'r opsiynau ymyrryd sydd ar gael i'r Awdurdod yn addas at y diben o hyd? (Ydynt/Nac Ydynt) Os nad ydynt, sut y dylid eu diwygio?**<br><br>**C41) Yn sgil sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, a oes elfennau o broses neu ddyluniad y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau y gellid eu gwella? (Oes/Nac Oes) Os oes, beth ydynt a sut y gellir eu gwella?** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

O blith y 48 ymateb i gwestiwn 39, mae 10 ymatebydd (21%) yn credu bod y trothwyon ar gyfer sbarduno’r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn dal yn addas i’r diben. Dywedodd dau ymatebydd (4%) fod y ffaith bod y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau wedi cael ei sbarduno ddwywaith yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn dangos bod y mecanwaith yn gweithio. Hefyd, nododd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau fel mecanwaith diogelu mewn ymateb i gyfnodau o brisiau anwadal iawn.

Wrth ateb cwestiwn 39, dywedodd 35 ymatebydd (73%) nad yw’r trothwyon ar gyfer sbarduno’r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn addas i’r diben. Soniodd nifer o ymatebwyr am drothwyon cymharol, gan ddadlau bod prisiau uwch ar gyfer carbon yn ei gwneud yn fwy ac yn fwy annhebygol y bydd y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn cael ei sbarduno yn y dyfodol. I gefnogi’r farn hon, dywedodd ymatebwyr na fydd pris carbon o fwy na £200 yn sbarduno’r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau mewn blynyddoedd i ddod o bosibl. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod disgresiwn yr Awdurdod yn gwneud y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn llai effeithiol, gan ddatgan eu bod yn ffafrio camau gweithredu awtomatig, diffiniedig mewn ymateb i sbardun Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau. Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu effeithiolrwydd y trothwyon Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, gan nodi penderfyniad yr Awdurdod i beidio â gweithredu ar ôl i’r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gael ei sbarduno ym

mis Rhagfyr 2021 ac ym mis Ionawr 2022. Dywedodd dau ar bymtheg o ymatebwyr (49%) nad yw trothwyon y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn rhoi cyfrif am y gwahaniaeth ym mhrisiau carbon rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ac awdurdodaethau eraill, yn enwedig System Masnachu Allyriadau’r UE.

O blith y 40 ymateb i gwestiwn 40, roedd 23 ymatebydd (58%) yn credu bod yr opsiynau ymyrryd sydd ar gael i’r Awdurdod yn dal yn addas i’r diben, gydag 16 ymatebydd (40%) yn anghytuno. Galwodd ymatebwyr yn y ddau grŵp am ymyriad awtomatig drwy ryddhau nifer cytunedig o lwfansau heb unrhyw ddisgresiwn ar ran yr Awdurdod, fel y nodir yng nghwestiwn 39. Galwodd nifer o ymatebwyr ar yr Awdurdod i egluro a chyfathrebu mwy cyn cymryd unrhyw gamau, oherwydd y gallai diffyg tryloywder greu ansicrwydd yn y farchnad.

O blith y 51 ymateb i gwestiwn 41, dywedodd 47 o ymatebwyr (92%) fod elfennau o ddyluniad neu broses y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau y gellid eu gwella. Daeth nifer o themâu allweddol i’r amlwg yn yr ymatebion, gan gynnwys y themâu sydd eisoes wedi cael eu trafod, fel disgresiwn yr Awdurdod, ymyriadau awtomatig a chynnwys gwahaniaethau rhwng prisiau carbon Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU a System Masnachu Allyriadau’r UE fel rhan o’r trothwyon. Ar ben hynny, gofynnodd 18 o ymatebwyr (35%) am fwy o dryloywder wrth i’r Awdurdod wneud penderfyniadau, gan ddadlau bod yr hyn a sbardunodd y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn y gorffennol wedi arwain at ansicrwydd. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai arweiniad clir gan yr Awdurdod ynghylch y camau y bwriedir eu cymryd yn rhoi mwy o eglurder ynghylch yr amgylchiadau lle byddai’r Awdurdod yn gweithredu. Roedd amseru’n thema gyffredin, gyda’r ymatebwyr yn dadlau bod yr Awdurdod yn cymryd gormod o amser i wneud penderfyniadau.

Dywedodd pedwar ymatebydd (8%) nad oedd modd gwneud unrhyw welliannau i ddyluniad na phroses y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, gyda dau ymatebydd yn cytuno â phenderfyniad yr Awdurdod i beidio â chymryd camau pellach ar ôl i’r Mecanwaith gael ei sbarduno yn y gorffennol.

## Proses arwerthiannau

| **Cwestiynau** |
|---|
| **42) A yw proses bresennol arwerthiannau yn dal i fod yn addas at y diben? (Ydi/Nac ydi) Os nad yw, sut y dylai gael ei ddiwygio?**<br><br>**43) A oes unrhyw fesurau eraill y dylai'r Awdurdod eu hystyried er mwyn cefnogi hylifedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ymhellach? (Oes/Nac Oes) Os oes, beth ydynt?** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

O blith y 34 ymateb i gwestiwn 42, mae 15 ymatebydd (44%) yn credu bod y broses arwerthiannau bresennol yn dal yn addas i’r diben. Serch hynny, cynigodd y grŵp hwn o ymatebwyr rywfaint o awgrymiadau i wella'r broses arwerthiannau. Roedd ymatebwyr yn dadlau bod diffyg tryloywder ynghylch methodoleg pris clirio arwerthiannau. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y gellid gwella’r broses o gymryd rhan mewn arwerthiant drwy ei gwneud yn haws i

gyfranogwyr gael mynediad at arwerthiannau. Dywedodd un ymatebydd (3%) fod yr arwerthiant yn darparu hylifedd hanfodol ac ychwanegol i’r farchnad eilaidd.

Roedd pedwar ar ddeg o’r ymatebwyr (41%) yn anghytuno, ac ni chafwyd ateb gan bedwar o’r ymatebwyr (15%). Galwodd tri ymatebydd (9%) am arwerthiannau amlach, gan eu newid o fod yn ddigwyddiad bob pythefnos i ddigwyddiad wythnosol. Yn ôl yr ymatebion hyn, mae hylifedd a lefel y masnachu yn cynyddu yn y farchnad eilaidd ar ddiwrnodau o gwmpas yr arwerthiant. Mynegodd tri ymatebydd (9%) bryder am gyfryngwyr ariannol mewn arwerthiannau yn lleihau’r cyflenwad o lwfansau sydd ar gael i endidau sy'n cydymffurfio.

O blith y 40 ymateb i gwestiwn 43, mae 34 o ymatebwyr (85%) yn credu bod mesurau eraill y dylai’r Awdurdod eu hystyried i gefnogi hylifedd ymhellach yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a dim ond pedwar ymatebydd (10%) oedd yn anghytuno.

Fel y soniwyd eisoes, roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau y byddai cysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU a System Masnachu Allyriadau’r UE yn gwella hylifedd a sefydlogrwydd marchnadoedd. Ar ben hynny, roedd chwe ymatebydd (15%) yn argymell mwy o reoleiddio a mesurau yn erbyn y rhai sydd ond yn prynu er mwyn dal gafael ar lwfansau, gan eu bod yn teimlo bod y cyfranogwyr hyn yn lleihau hylifedd Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

## Cyfrif mecanwaith sefydlogrwydd marchnadoedd

| **Cwestiwn** |
|---|
| **44) A ddylai'r Awdurdod ystyried ychwanegu lwfansau at y cyfrif mecanwaith sefydlogrwydd marchnadoedd? (Dylai/Na Ddylai) Ymhelaethwch ar eich ateb ac os gwnaethoch ateb y dylai, rhannwch eich barn ynghylch sut y dylid gwneud hynny.** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

O blith y 37 ymateb i gwestiwn 44, mae 17 o ymatebwyr (46%) yn credu y dylai’r Awdurdod ystyried ychwanegu lwfansau at y cyfrif mecanwaith sefydlogrwydd marchnadoedd. Roedd pedwar ymatebydd yn argymell bod lwfansau heb eu dyrannu mewn cyfrif mecanwaith sefydlogrwydd marchnadoedd yn cael eu rhyddhau’n awtomatig i’r farchnad pan fydd y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn cael ei sbarduno. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno, gan ddweud y dylai’r cyfrif mecanwaith sefydlogrwydd marchnadoedd weithredu fel un o blith nifer o opsiynau, gan gynnwys rhyddhau lwfans o botiau arwerthiant o’r un flwyddyn neu’r blynyddoedd i ddod, neu o’r gronfa wrth gefn i newydd-ddyfodiaid. Dywedodd pedwar ymatebydd ei bod yn bwysig gosod y cap ar lefel a fydd yn lliniaru dadleoli carbon ac yn diogelu dyraniadau am ddim i ddiwydiant, gan ei gwneud yn bosibl i lwfansau heb eu dyrannu gael eu hychwanegu’n llawn at gyfrif mecanwaith sefydlogrwydd marchnadoedd.

Roedd deuddeg o’r ymatebwyr (32%) yn anghytuno, ac ni chafwyd ateb gan wyth o’r ymatebwyr (22%). Mynegodd ymatebwyr bryderon na fyddai’r lwfansau yn cael eu defnyddio gan mai anaml y mae’r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn cael ei sbarduno, ac na chymerwyd camau pan gafodd ei sbarduno. Dywedodd tri ymatebydd (8%) y byddai’n well ganddyn nhw petai lwfansau ar gael drwy arwerthiannau er mwyn helpu gyda hylifedd a sefydlogrwydd prisiau. Cynigiodd un ymatebydd (3%) opsiynau eraill, gan ddweud mai’r gronfa wrth gefn i

newydd-ddyfodiaid neu botiau arwerthiant yn y dyfodol yw’r unig ffynonellau o ragor o lwfansau a ddylai fod ar gael. Yn olaf, roedd dau ymatebydd (5%) yn ffafrio cyflwyno mecanwaith addasu cyflenwad a oedd yn cynnwys lwfansau dros ben a lwfansau heb eu dyrannu.

## Bancio a benthyca lwfansau

| Cwestiwn |
| --- |
| **45) A yw'r polisi bancio a benthyg presennol yn dal i fod yn addas at y diben? (Ydi/Nac ydi) Os nad yw, sut y dylai gael ei ddiwygio?** |

**Crynodeb o’r Ymatebion**

O blith y 46 ymateb i gwestiwn 45, mae 27 ymatebydd (59%) yn credu bod y polisi bancio a benthyg presennol yn dal yn addas i’r diben. Dywedodd saith ymatebydd (15%) fod y polisïau hyn yn rhoi hyblygrwydd i gyfranogwyr gyflawni rhwymedigaethau cydymffurfio, ac yn helpu i esmwytho amrywiadau tymor byr mewn prisiau.

Roedd saith o’r ymatebwyr (15%) yn anghytuno, ac ni chafwyd ateb gan 12 o’r ymatebwyr (26%). Gofynnodd nifer o ymatebwyr i’r Awdurdod gadarnhau y bydd lwfansau o gam presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dal yn ddilys ar gyfer camau yn y dyfodol, gan gynnwys ar ôl 2030.

# Ymateb yr Awdurdod

Hoffem ddiolch i’r holl randdeiliaid am roi eu barn drwy’r Cais hwn am Dystiolaeth. Mae’r Awdurdod yn cydnabod y materion pwysig a godwyd, gan gynnwys eu perthynas â phenodau eraill yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd y safbwyntiau a gyflwynwyd yn y Cais hwn am Dystiolaeth yn helpu i lywio’r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer unrhyw newidiadau i bolisi marchnadoedd y dyfodol, er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas i’r diben fel rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU sy’n gyson â sero net.

Y Cais am Dystiolaeth oedd cam cyntaf dull dau gam i ddatblygu cynigion ar bolisi marchnadoedd y dyfodol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Yn dilyn y Cais am Dystiolaeth, rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu polisi marchnadoedd y dyfodol ac yn bwriadu ymgynghori ar gynigion polisi manwl maes o law. Fel y nodwyd yn y Cais am Dystiolaeth, rydym yn ystyried polisi marchnadoedd y dyfodol mewn ffordd gyfannol. Felly bydd ein gwaith datblygu polisi dros y misoedd nesaf yn ystyried dyfodol mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad, gan gynnwys Pris Cadw Arwerthiannau a’r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, ac yn ystyried rhinweddau posibl mecanwaith addasu cyflenwad, yn ogystal â gweithrediad ehangach marchnadoedd. Wrth ddatgan ein bwriad i ystyried y meysydd polisi hyn, nodwn y bydd unrhyw newidiadau a gynigir mewn ymgynghoriad yn y dyfodol yn dibynnu ar ein hasesiad o opsiynau polisi wrth ddatblygu polisi.

# Pennod 4: Hedfanaeth

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i gynigion a nodwyd ym Mhennod 5 yn yr ymgynghoriad.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu rhoi'r gorau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth erbyn 2026.

Er mwyn sicrhau bod gweithredwyr awyrennau'n gallu paratoi ar gyfer y newid, bydd yr hawl i gael dyraniadau am ddim hedfanaeth yn parhau i ostwng ar y swm sefydlog presennol o 2.2% bob blwyddyn yn 2024 a 2025, nes arwerthu'n llawn yn 2026.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â diweddaru'r fethodoleg ar gyfer dyraniadau am ddim hedfanaeth na rhoi cyfrif am newydd-ddyfodiaid yng ngoleuni'r penderfyniad i roi'r gorau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth erbyn 2026.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu gosod cap ar uchafswm nifer y dyraniadau am ddim y mae gweithredwyr awyrennau yn gymwys i'w derbyn yn ystod y cyfnod rhoi'r gorau i'r dyraniadau. O flwyddyn cynllun 2024 ymlaen, bydd hawl gweithredwr awyrennau yn cael ei chapio ar 100% o'i allyriadau wedi eu dilysu.

Byddwn yn parhau i ddatblygu cynigion ar sut mae tanwydd hedfan cynaliadwy yn cael ei drin yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac yn ystyried a ddylid dod ag effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a sut dylid gwneud hynny, a byddwn yn ymgynghori ymhellach maes o law.

Mae'r Awdurdod yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatgarboneiddio hedfanaeth mewn ffordd gost-effeithiol er mwyn cyflawni sero net erbyn 2050. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Strategaeth 'Jet Zero'[28], sy'n canolbwyntio ar ddatblygu technolegau'n gyflym mewn ffordd sy'n cynnal manteision teithiau awyr, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil datgarboneiddio. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i leihau allyriadau hedfanaeth, yn unol â'i hymrwymiad cyfreithiol i gyflawni sero net erbyn 2045. Drwy ddarparu'r fframwaith polisi cywir, bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dal yn elfen hanfodol o lwybr y sector hedfanaeth tuag at sero net.

Ers lansio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn 2021, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i adolygu'r ffordd mae'r cynllun yn ymdrin â hedfanaeth er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn dal i ddatblygu mewn ffordd sy'n cefnogi ein huchelgais sero net yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

Roedd Ymgynghoriad 'Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU' yn cynnwys nifer o elfennau o bolisi hedfanaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ac yn gofyn am farn ar bolisi dyraniadau am ddim hedfanaeth, tanwyddau hedfan cynaliadwy, effeithiau hedfanaeth ar yr

[28] https://www.gov.uk/government/publications/jet-zero-strategy-delivering-net-zero-aviation-by-2050

hinsawdd nad ydynt yn effeithiau $CO_2$, cynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir, cydweithredu rhyngwladol, ac ymweliadau safle rhithwir.

Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd yr Awdurdod ymateb cychwynnol y llywodraeth, a oedd yn cynnwys cynigion i'w rhoi ar waith erbyn 2023[29]. Yn achos hedfanaeth, roedd sôn am gynnwys hediadau o'r DU i'r Swistir yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU (cwestiynau 67-69)[30], caniatáu ymweliadau safle rhithwir ar gyfer dilyswyr hedfanaeth (cwestiwn 73) a newidiadau i sicrhau bod y meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer Tanwyddau Hedfan Cynaliadwy a hawliwyd yn dal yn ymarferol yn y tymor byr (cwestiwn 61). Mae'r cynigion hyn wedi cael eu rhoi ar waith, gyda deddfwriaeth mewn grym ers 1 Ionawr 2023.

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau ar ddyraniadau am ddim hedfanaeth, Tanwyddau Hedfan Cynaliadwy, effeithiau nad ydynt yn rhai $CO_2$ ar yr hinsawdd a chydweithredu rhyngwladol, ac mae'n egluro safbwynt yr Awdurdod ar bob un yn ei dro.

# Taflwybr Dyraniadau am Ddim

## Crynodeb o'r Cynnig

Ym mis Mehefin 2020, ymrwymodd yr Awdurdod i adolygu dull gweithredu'r DU ar gyfer dyraniadau am ddim a roddir i weithredwyr awyrennau[31]. Fel rhan o'r adolygiad, cyd-gomisiynodd Adran Drafnidiaeth ac Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU astudiaeth ymchwil economaidd allanol ar effaith prisiau carbon ar sector hedfanaeth y DU[32]. Canfu'r astudiaeth mai prin yw'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer y sector hedfanaeth o dan gwmpas presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Yn unol â hynny, cynigiodd yr Awdurdod roi'r gorau i ddyraniadau am ddim ar gyfer y sector hedfanaeth.

Yn Ymgynghoriad 'Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU', nododd yr Awdurdod dri thrywydd lle byddai'r sector hedfanaeth yn destun arwerthu llawn:

- Rhoi'r gorau iddi'n gynnar: bydd y gyfradd dyraniadau am ddim yn lleihau fel bod arwerthu llawn yn gymwys o 2026 ymlaen;
- Rhoi'r gorau iddi'n raddol: bydd y gyfradd dyraniadau am ddim yn lleihau fel bod arwerthu llawn yn gymwys erbyn 2028 ar yr hwyraf;
- Rhoi'r gorau iddi'n hwyrach: bydd y gyfradd dyraniadau am ddim yn lleihau fel bod arwerthu llawn yn gymwys o ddechrau 2031 ymlaen.

[29] https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets
[30] Ni chafodd cwestiwn 70 yn yr adran ar hediadau o'r DU i'r Swistir ei gynnwys fel rhan o ymateb cychwynnol y llywodraeth, a bydd yn cael ei ateb yma ochr yn ochr â chwestiynau am gydweithredu rhyngwladol.
[31] https://www.gov.uk/government/consultations/the-future-of-uk-carbon-pricing
[32] https://www.gov.uk/government/publications/impacts-of-carbon-pricing-on-the-uk-aviation-sector

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **46) Ydych chi'n cytuno â chasgliad yr astudiaeth mai prin yw'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer sector hedfanaeth y DU o dan gwmpas presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Ydw/Nac ydw) Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.**<br><br>**47) A oes gennych unrhyw safbwyntiau ychwanegol ar yr astudiaeth ymchwil economaidd a'i chasgliadau? (Oes/Nac oes) Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 23 o ymatebion i gwestiwn 46, ac roedd 17 (74%) ohonynt yn cytuno â chasgliad yr astudiaeth mai prin yw’r risg o ddadleoli carbon ar gyfer sector hedfanaeth y DU o dan gwmpas presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd pedwar (17%) yn anghytuno, ac nid oedd dau (9%) wedi ymateb yn uniongyrchol i’r cwestiwn. Cafwyd 16 ymateb i gwestiwn 47, a oedd yn rhoi safbwyntiau ychwanegol ar yr astudiaeth ymchwil economaidd a'i chasgliadau.

Pwysleisiodd ymatebwyr a oedd yn cytuno â chasgliad yr astudiaeth ymchwil fod y risg o ddadleoli carbon wedi bod yn is erioed ar gyfer hedfanaeth nag ar gyfer sectorau eraill, gan fod hedfanaeth yn golygu taith o un lleoliad i’r llall. Nododd tri ymatebydd (13%) astudiaethau eraill a oedd wedi dod i gasgliadau tebyg. Pwysleisiodd chwech o ymatebwyr (26%) fod casgliad yr astudiaeth yn gywir o ystyried y cysylltiad agos rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau’r UE – gan gynnwys y ddau gynllun yn cynnig rhoi’r gorau i ddyraniadau am ddim. Roedd tri ymatebydd yn cytuno â’r astudiaeth ymchwil ond yn dadlau y byddai’r risg o ddadleoli carbon yn cynyddu pe bai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gwyro oddi wrth System Masnachu Allyriadau’r UE. Nododd pum ymatebydd (22%) y berthynas rhwng dadleoli carbon a chwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. O blith y rhai, dywedodd pedwar (17%) y byddai’r risg o ddadleoli carbon yn cael ei liniaru pe bai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei ehangu i gynnwys yr holl hediadau sy’n gadael y DU. Ychwanegodd un ymatebydd mai cludwyr rhanbarthol sy’n teimlo effeithiau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fwyaf, gyda chyfran uwch o allyriadau sectoraidd heb eu cynnwys yng nghwmpas y Cynllun Masnachu Allyriadau.

Cafodd tystiolaeth feintiol ei chyflwyno gan bedwar ymatebydd (17%) a oedd yn anghytuno â chasgliadau’r astudiaeth, a oedd yn dadlau bod risgiau o ddadleoli carbon yn bodoli o dan gwmpas presennol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, yn bennaf oherwydd bod teithwyr yn newid i gyrchfannau neu ddulliau teithio eraill sydd y tu hwnt i gwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Cyflwynodd ymatebydd dystiolaeth ansoddol bellach hefyd ar y risg o newid dull teithio i ddulliau eraill sy’n defnyddio llawer o garbon. Roedd rhai o’r ymatebwyr hyn o blaid ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i gynnwys pob hediad sy’n gadael.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **48) Ydych chi'n cytuno, os mai prin yw'r risg o ddadleoli carbon a chystadleurwydd sy'n gysylltiedig â dadleoli carbon o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer y sector hedfanaeth, y dylid tynnu dyraniadau am ddim yn ôl neu roi'r gorau iddynt? (Dylai/Na Ddylai) Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.**<br><br>**49) A oes unrhyw resymau eraill dros gadw dyraniadau am ddim yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Oes/Nac oes) Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 48, ac roedd 18 (60%) ohonynt yn cytuno, os mai prin yw’r risg o ddadleoli carbon ar gyfer y sector hedfanaeth, y dylid tynnu dyraniadau am ddim yn ôl neu roi’r gorau iddynt. Roedd pump (17%) yn anghytuno, ac nid oedd saith (23%) wedi ymateb yn uniongyrchol i’r cwestiwn.

Cafwyd 22 o ymatebion i gwestiwn 49, ac awgrymodd 11 (50%) ohonynt fod rhesymau eraill dros gadw dyraniadau am ddim yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU, ac roedd 11 (50%) yn anghytuno.

O blith y rhai a oedd yn cytuno y dylai dyraniadau am ddim hedfanaeth gael eu tynnu’n ôl, roedd 10 ymatebydd (33%) yn dadlau y byddai hyn yn cefnogi amcanion datgarboneiddio’r DU ac yn cynnal egwyddor y llygrwr sy’n talu. Dywedodd ymatebwyr fod dyraniadau am ddim yn anghyson â thrywydd sero net, y gallai danseilio’r arwydd o ran pris ac y byddai’n ystumio’r farchnad pe bai’r UE yn cael gwared ar ddyraniadau am ddim. Pwysleisiodd tri ymatebydd (14%) mai diben dyraniadau am ddim yw lliniaru dadleoli carbon, ac y dylid eu tynnu’n ôl o ystyried mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd o risg o ran adleoli carbon.

O blith y rhai a oedd yn anghytuno y dylai dyraniadau am ddim hedfanaeth gael eu tynnu’n ôl, roedd tri ymatebydd (14%) yn dadlau nad prin yw’r risg o ddadleoli carbon ar gyfer sector, gan gyfeirio at bryderon tebyg ynghylch newid cyrchfan sydd wedi cael sylw mewn ymatebion cynharach.

O blith y rhai a oedd yn awgrymu bod rhesymau eraill dros gadw dyraniadau am ddim, soniodd pump (23%) am yr angen am opsiynau lleihau ymarferol eraill, a chyfeiriodd tri (14%) at effeithiau ariannol COVID-19. Roedd tri ymatebydd (14%) yn dadlau y dylai dyraniadau am ddim hedfanaeth, os am roi’r gorau iddynt, gael eu harwerthu i gefnogi hylifedd marchnadoedd. Yn olaf, roedd pedwar ymatebydd (19%) yn dadlau y dylid defnyddio dyraniadau am ddim i gefnogi cysylltedd rhanbarthol a pholisïau eraill.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **50) Rhowch eich barn ar y tri opsiwn arfaethedig ar gyfer dyraniadau am ddim hedfanaeth, yn ogystal â sut y dylid pennu'r trywydd, megis dull llinellol neu wedi ei bwysoli.** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 22 o ymatebion i gwestiwn 50, ac roedd saith (32%) ohonynt o blaid rhoi'r gorau’n gynnar i ddyraniadau am ddim hedfanaeth erbyn 2026, ar y sail mai dyma oedd yr opsiwn mwyaf uchelgeisiol o blith y rhai a gynigiwyd ac y byddai’n lliniaru’r ystumio ar gystadleuaeth sy’n gysylltiedig â’r polisi. Roedd tri ymatebydd yn dadlau y byddai rhoi’r gorau'n gynnar yn cyflymu datgarboneiddio yn y sector hedfanaeth, ac roedd dau arall yn cwestiynu pam nad ystyriwyd cael gwared arnyn nhw'n syth yn 2024. O blith y rhai a oedd yn ffafrio rhoi'r gorau iddyn nhw yn 2026, dywedodd dau ymatebydd eu bod yn ffafrio gostyngiad llinellol ar gyfer dyraniadau am ddim.

Roedd dau ymatebydd (9%) o blaid rhoi’r gorau i ddyraniadau am ddim yn raddol erbyn 2028, ar y sail y byddai hynny’n cynnal uchelgais ac yn rhoi cyfnod teg i weithredwyr awyrennau addasu.

Roedd wyth ymatebydd (36%) o blaid rhoi’r gorau i ddyraniadau am ddim yn hwyrach erbyn 2031, ar y sail y byddai’n lleihau’r risg o ddadleoli carbon a chystadleurwydd a briodolir i gwmpas presennol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, ac y byddai’n rhoi cyfle i dechnolegau fel Tanwyddau Hedfan Cynaliadwy ddatblygu. O blith y rhai a oedd yn ffafrio rhoi’r gorau i hynny o 2031 ymlaen, dywedodd tri ymatebydd (14%) eu bod yn ffafrio gostyngiad wedi ei bwysoli ar gyfer dyraniadau am ddim.

Ni ddywedodd pum ymatebydd (23%) pa un o’r opsiynau a gynigiwyd roedden nhw’n ei ffafrio. O blith y rhai, roedd dau ymatebydd yn dadlau y dylid defnyddio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer pob hediad sy’n gadael.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **51) A ddylai Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ystyried opsiynau trywydd dyraniadau am ddim a allai gynnal hawliad i ddyraniadau am ddim hedfanaeth y tu hwnt i gam cyntaf Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (2021-2030)?**<br><br>**57) Oes ffyrdd y gallem liniaru unrhyw effeithiau anfwriadol ar gysylltedd rhanbarthol, a all godi oherwydd newidiadau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth, drwy Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU neu mewn ffordd arall? (Oes/Nac Oes) Esboniwch eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.** |

## Crynodeb o’r Ymatebion


Cafwyd 21 o ymatebion i gwestiwn 51, ac roedd 14 ohonynt (67%) yn gwrthwynebu cadw dyraniadau am ddim hedfanaeth y tu hwnt i gam cyntaf Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU (2021-2030). O blith y rhai, roedd pump (24%) yn dadlau nad oes cyfiawnhad dros gynnal y polisi o ystyried mai prin yw’r risg o ddadleoli carbon. Roedd un ymatebydd yn dadlau y bydd gorfodi’r sector i arwerthu’n llawn yn cymell gweithredwyr awyrennau i lynu wrth egwyddor y llygrwr sy’n talu. Roedd cysondeb â System Masnachu Allyriadau’r UE hefyd yn cael cefnogaeth, gyda dau ymatebydd yn galw am i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU fod yr un mor uchelgeisiol â System Masnachu Allyriadau’r UE.

Roedd saith ymatebydd (33%) o blaid cadw dyraniadau am ddim y tu hwnt i gam cyntaf Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (2021-2030). Roedd ymatebwyr yn dadlau ei bod yn anodd lleihau allyriadau yn y sector hedfanaeth, ac y dylai newidiadau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth fod yn gyson ag argaeledd a fforddiadwyedd technoleg datgarboneiddio. Galwodd tri ymatebydd (14%) am neilltuo refeniw Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gefnogi arloesi ym maes datgarboneiddio.

Cafwyd 15 ymateb i gwestiwn 57, a dywedodd pedwar ymatebydd (27%) mai’r ffordd orau o gefnogi cysylltedd rhanbarthol oedd drwy fesurau polisi neu gymorthdaliadau eraill y tu hwnt i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU. O blith y rhai a oedd o blaid cynnal cysylltedd rhanbarthol drwy bolisïau eraill, roedd un yn dadlau nad yw cysylltedd rhanbarthol yn un o amcanion Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Tynnodd dau ymatebydd (13%) sylw at y Doll Teithwyr Awyr fel enghraifft o bolisi arall sydd wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol i gefnogi cysylltedd rhanbarthol. Roedd dau ymatebydd (13%) yn dadlau y gellid cynnal cysylltedd rhanbarthol drwy gefnogi dulliau teithio eraill, fel rhwydweithiau rheilffyrdd a bysiau. Dywedodd pum ymatebydd (33%) fod dyraniadau am ddim yn adnodd polisi y gellid ei ddefnyddio i gefnogi cysylltedd rhanbarthol.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod wedi penderfynu rhoi’r gorau i ddyraniadau am ddim ar gyfer y sector hedfanaeth erbyn 2026.




**Ffigur 6: Trywydd terfynol dyraniadau am ddim hedfanaeth a pharhau â'r gostyngiad presennol o 2.2%**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â chanfyddiadau'r astudiaeth ymchwil annibynnol mai prin yw'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer y sector hedfanaeth o dan gwmpas presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ymatebion a ddywedodd y dylid cadw dyraniadau am ddim am resymau eraill fel cefnogi datgarboneiddio yn y sector; ar ôl ystyried casgliad yr ymchwil economaidd annibynnol nad yw dyraniadau am ddim yn dylanwadu ar benderfyniadau lleihau ymylol gweithredwyr awyrennau, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chadw dyraniadau am ddim am resymau ar wahân i liniaru dadleoli carbon. Gellir mynd i'r afael â materion datgarboneiddio ehangach drwy ddulliau polisi eraill mwy penodol, fel buddsoddi'n uniongyrchol mewn technoleg newydd.

Rydym ni o'r farn y byddai'n anghymesur cadw polisi dyraniadau am ddim hedfanaeth i liniaru'r risg o ddadleoli carbon lle gwelir mai prin yw'r risg honno. Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr a roddodd dystiolaeth bellach. Er ein bod yn cydnabod nad oedd rhai ymatebwyr yn cytuno â chanfyddiadau'r astudiaeth ymchwil annibynnol, rydym yn glynu wrth y casgliad mai prin yw'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer y sector hedfanaeth o dan gwmpas presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Er bod risg fach iawn o ddadleoli carbon positif yn gysylltiedig â newid lleoliad a dull, mae'n cael ei gwrthbwyso gan y dystiolaeth sylweddol o ddadleoli carbon negatif yn sgil, er enghraifft, llai o alw ar deithiau cylchol[33]. Hefyd, nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai cadw dyraniadau am ddim hedfanaeth yn cyfyngu ar effeithiau honedig y risgiau hyn.

Mae'r fethodoleg bresennol ar gyfer dyraniadau am ddim hedfanaeth yn ystumio'r gystadleuaeth yn y farchnad drwy neilltuo dyraniad am ddim i rai cwmnïau awyrennau (ar sail

[33] Mae dadleoli positif yn digwydd pan fydd mecanwaith sy'n lleihau allyriadau yn y maes polisi yn arwain at fwy o allyriadau y tu allan i'r maes polisi. Mae dadleoli negatif yn digwydd pan fydd mecanwaith sy'n lleihau allyriadau o fewn y maes polisi yn arwain at lai o allyriadau y tu allan i'r maes polisi. (tud. 27 https://www.frontier-economics.com/media/5109/economic-research-on-the-impacts-of-carbon-pricing-on-the-uk-aviation-sector.pdf).

hen ddata hanesyddol o 2010 am dunnell-cilometr) mewn cymhariaeth â’u cystadleuwyr neu newydd-ddyfodiaid sy’n anghymwys. Po gynharaf y rhoddir y gorau i'r dyraniadau hyn, y cynharaf y rhoddir diwedd ar ystumio’r gystadleuaeth yn y farchnad fel hyn. Bydd marchnad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dal i weithredu drwy roi diwedd ar ystumio’r farchnad lle mai prin yw’r risg o ddadleoli carbon, a sicrhau mai arwerthiannau yw’r brif ffordd o sicrhau bod lwfansau’n cyrraedd y farchnad.

Fodd bynnag, mae angen cael cydbwysedd priodol rhwng cefnogi marchnad effeithiol ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a chynorthwyo’r diwydiant i addasu wrth i ddyraniadau am ddim hedfanaeth ddod i ben. Rydym yn cydnabod effeithiau COVID-19 ar y sector hedfanaeth a’r cynnydd disgwyliedig mewn costau gweithredu sy’n gysylltiedig â thynnu dyraniadau am ddim yn ôl. Rydym yn sylweddoli y byddai rhai ymatebwyr, am y rhesymau hyn, wedi ffafrio gostyngiad wedi ei bwysoli ar gyfer dyraniadau am ddim, neu roi’r gorau iddynt yn hwyrach. Rydym hefyd yn cydnabod ymatebion a oedd yn dweud y byddai’n well ganddynt weld dyraniadau am ddim yn dod i ben ar unwaith erbyn 2024 yng ngoleuni’r dystiolaeth am y risg o ddadleoli carbon i’r sector. Un o egwyddorion craidd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yw rhoi sicrwydd i’r rhai sy’n cymryd rhan yn y farchnad drwy sicrhau bod newidiadau’n cael eu cyhoeddi ymlaen llaw er mwyn gallu cynllunio’n ddigonol ar gyfer busnes.

Felly rydym yn cynnig proses newid gytbwys i arwerthu'n llawn erbyn 2026, lle bydd gweithredwyr awyrennau’n derbyn dyraniadau am ddim hedfanaeth y mae ganddynt hawl iddynt ar hyn o bryd ar gyfer blynyddoedd cynllun 2024 a 2025, fel y nodir yn y tabl dyraniadau hedfanaeth. Mae hyn yn golygu y bydd yr hawl i gael dyraniadau am ddim hedfanaeth yn lleihau ar sail gostyngiad blynyddol o 2.2% fel y deddfir ar hyn o bryd, nes rhoi’r gorau iddyn nhw’n llwyr yn 2026. Bydd gostyngiad wedi ei bwysoli ar gyfer dyraniadau am ddim hedfanaeth yn sicrhau bod y broses newid yn mynd rhagddi’n llyfn, drwy roi amser i weithredwyr awyrennau baratoi at arwerthu'n llawn yn 2026. Mae Atodiad 4 yr asesiad effaith ar gyfer yr ymgynghoriad yn egluro hyd a lled y dadansoddiad a’r ystyriaethau a ddefnyddiwyd wrth wneud y penderfyniad hwn.

Mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cydnabod y byddai tynnu dyraniadau am ddim hedfanaeth yn ôl yn gallu arwain at bwysau negyddol ar gyllid sector hedfanaeth domestig y DU. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y gallai’r pwysau hyn wneud i rai gweithredwyr dynnu capasiti yn ôl ar rai o’r llwybrau maen nhw’n eu gweithredu.

Rydym yn dal i ddweud yn glir bod Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn adnodd pwysig i sbarduno datgarboneiddio ar draws y sector hedfanaeth domestig a phellter byr. Yng nghyswllt rhoi'r gorau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth, rydym yn ymwybodol ei bod yn briodol ystyried yr effaith ar gysylltedd rhanbarthol ar draws y Deyrnas Unedig. Yn benodol, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd cysylltedd aer i gymunedau mewn ardaloedd anghysbell lle nad oes llawer o ffyrdd ymarferol eraill o deithio, fel cymunedau yn Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban. Yn yr ardaloedd hynny, mae cysylltedd aer yn aml yn hollbwysig er mwyn cynnal hyfywedd y cymunedau hynny. Rydym hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd teithiau awyr i gysylltu Gogledd Iwerddon â gweddill y Deyrnas Unedig, oherwydd y diffyg opsiynau sydd ar gael o ran rheilffyrdd a ffyrdd.

O ystyried effeithiau posibl rhoi'r gorau i ddyraniadau am ddim ar gyfer y sector hedfanaeth domestig, a chael gwared arnyn nhw'n llwyr yn y pen draw, mae'n briodol i'r Awdurdod asesu ac adolygu'r mater hwn ymhellach. Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i gefnogi cwmnïau awyrennau a llwybrau unigol sydd mewn perygl o ddiflannu, gan gynnal cysylltedd allweddol ar draws y Deyrnas Unedig. Os bydd angen bydd yr Awdurdod, drwy ymgynghori â'r adrannau perthnasol ar draws Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, yn sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith i atal canlyniadau negyddol ar gyfer y rhanbarthau a'r cymunedau hyn. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys esemptiadau a pholisïau y tu allan i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

# Methodoleg Dyraniadau am ddim

## Crynodeb o'r Cynnig

Lansiodd yr Awdurdod gais am dystiolaeth ar ddyraniadau am ddim Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn 2021, a ategwyd gan gyfres o ddigwyddiadau trafod â rhanddeiliaid yn y diwydiant hedfanaeth.[34] Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at nifer o faterion ac anghysonderau â'r fethodoleg bresennol ar gyfer hedfanaeth. Yn benodol, nid oedd dosbarthiad presennol lwfansau am ddim ymysg cyfranogwyr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn adlewyrchu'r gweithgarwch hedfanaeth presennol. Roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar ddiweddariad posibl i'r fethodoleg dyraniadau am ddim i sicrhau bod lwfansau'n cael eu dosbarthu'n deg ac yn gymesur i gyfranogwyr y cynllun mewn ffordd sy'n berthnasol i'w gweithgarwch yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Dywedodd yr Awdurdod y byddai unrhyw newidiadau posibl i'r fethodoleg yn cael eu cydbwyso yn erbyn hyd polisi dyraniadau am ddim hedfanaeth er mwyn lleihau'r baich gweinyddol diangen sy'n gysylltiedig ag ymarferion casglu data.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **52) A ddylai methodoleg dyraniadau am ddim hedfanaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gael ei diweddaru i ddefnyddio blwyddyn fwy diweddar? (Dylai/Na Ddylai) Os dylai, pa flwyddyn a pham? Pa mor aml y dylai data gweithgarwch hedfanaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gael eu diweddaru yn y dyfodol? Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.**<br><br>**53) Yn eich barn chi a ddylai'r meincnod hedfanaeth adlewyrchu gweithgarwch hedfanaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Dylai/Na Ddylai) Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.**<br><br>**54) Yn eich barn chi a ddylai polisi dyraniadau am ddim hedfanaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gyfrif am newidiadau mewn gweithgarwch hedfanaeth a newydd-** |

34 https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-call-for-evidence

**ddyfodiaid? (Dylai/Na Ddylai) Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.**

**55) Pa mor aml y dylai gweithredwyr awyrennau roi eu data tunnell-cilometr o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU? Fel arall, a oes ffynonellau data priodol eraill y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU eu defnyddio i fonitro gweithgarwch hedfanaeth? Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.**

**56) Sut y gallwn sicrhau bod hawliadau dyraniadau am ddim, gan gynnwys wrth bontio i arwerthu llawn, yn gymesur ac yn deg i holl weithredwyr awyrennau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?**

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 16 o ymatebion i gwestiwn 52, ac roedd 11 (69%) ohonynt yn cytuno y dylid diweddaru'r fethodoleg dyraniadau am ddim i ddefnyddio blwyddyn gweithgarwch fwy diweddar. Roedd pump (31%) yn anghytuno. Yn ôl yr ymatebwyr a oedd yn cytuno, roedd llinell sylfaen bresennol 2010 yn anghyson â’r gweithgarwch hedfanaeth presennol, ac yn ystumio’r gystadleuaeth. Roedd pedwar ymatebydd (25%) o blaid diweddaru’r fethodoleg i ddefnyddio data gweithgarwch 2019, gan mai dyna oedd y flwyddyn olaf o weithgarwch hedfanaeth heb effeithiau COVID-19. Roedd tri ymatebydd (19%) o blaid diweddaru’r fethodoleg i ddefnyddio data gweithgarwch 2023. Dywedodd dau ymatebydd (13%) y dylai unrhyw ddiweddariad i’r fethodoleg dyraniadau eithrio’n benodol y blynyddoedd y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt (2020, 2021 a 2022). Yn olaf, roedd pedwar ymatebydd (25%) o blaid diweddariadau rheolaidd i’r fethodoleg. O blith y rhai a oedd yn anghytuno â diweddaru methodoleg dyraniadau am ddim Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i flwyddyn gweithgarwch fwy diweddar, roedd tri ymatebydd (19%) yn dadlau nad oes llawer o fudd i ddiweddaru’r fethodoleg o ystyried y cynnig i roi’r gorau’n llwyr i ddyraniadau am ddim hedfanaeth. Tynnodd ymatebwyr sylw at y cymhlethdod a’r baich gweinyddol sy’n gysylltiedig â diweddaru’r fethodoleg dyraniadau am ddim.

Cafwyd 13 o ymatebion i gwestiwn 53, ac roedd naw (69%) ohonynt yn cytuno y dylai’r meincnod hedfanaeth adlewyrchu gweithgarwch Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, roedd tri (23%) yn anghytuno, a doedd un (8%) ddim wedi datgan y naill ffordd na’r llall. O blith y rhai a oedd o blaid, roedd pedwar (31%) yn argymell cysoni’r fethodoleg dyraniadau â gweithgarwch hedfan sy’n dod o dan gwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd dau ymatebydd (15%) yn cynnig y dylai’r meincnod adlewyrchu’r math o weithrediadau hedfan, gan ddadlau bod dwysedd carbon yn amrywio rhwng gwahanol fathau o weithgarwch hedfanaeth.

Cafwyd 12 o ymatebion i gwestiwn 54, ac roedd saith (75%) ohonynt o blaid rhoi cyfrif am newidiadau mewn gweithgarwch hedfanaeth a newydd-ddyfodiaid. Dywedodd tri ymatebydd (25%) y gellid rhoi cyfrif am newidiadau mewn gweithgarwch hedfanaeth a newydd-ddyfodiaid drwy ddiweddaru’r data gweithgarwch yn rheolaidd, gan nodi y byddai diweddariadau rheolaidd i’r fethodoleg yn sicrhau bod y meincnod yn dal yn gynrychiadol o weithgarwch hedfanaeth. Roedd tri ymatebydd (25%) yn dadlau y byddai rhoi cyfrif am newydd-ddyfodiaid yn lleihau'r

ystumio ar gystadleuaeth rhwng newydd-ddyfodiaid a gweithredwyr sefydledig. O blith y rhai nad oeddent yn cefnogi’r cynnig, roedd dau ymatebydd (17%) yn dadlau nad oedd angen rhoi cyfrif am newidiadau mewn gweithgarwch a newydd-ddyfodiaid oherwydd y cynnig i roi’r gorau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth.

Cafwyd 13 ymateb i gwestiwn 55, a dywedodd saith o’r ymatebwyr hynny (54%) eu bod yn ffafrio diweddaru’r data gweithgarwch yn flynyddol. Galwodd dau ymatebydd (15%) am i’r data TKM fod ar gael yn gyhoeddus er mwyn i’r wybodaeth fod yn fwy tryloyw.

Cafwyd 12 ymateb i gwestiwn 56, a dywedodd pedwar ymatebydd (33%) y byddai diweddaru’r fethodoleg i flwyddyn fwy diweddar yn sicrhau dyraniad cymesur ymysg cyfranogwyr y cynllun. Roedd tri ymatebydd (25%) yn dadlau y bydd rhoi’r gorau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth, fel y cynigiwyd, yn sicrhau cydraddoldeb. Roedd tri ymatebydd (25%) yn dadlau y dylid atal cwmnïau awyrennau rhag derbyn mwy o ddyraniadau am ddim na’u hallyriadau wedi eu dilysu. Roedd pedwar ymatebydd (33%) yn dadlau y dylai’r Awdurdod ganiatáu digon o amser i weithredwyr gynllunio ar gyfer newidiadau. Pwysleisiodd tri ymatebydd (25%) bwysigrwydd bod yn eglur wrth lunio polisïau, gan ddadlau y bydd darparu llwybr clir a rhagweladwy yn galluogi gweithredwyr i gynllunio ac osgoi sioc sydyn yn y farchnad. Dywedodd dau ymatebydd (17%) y byddai ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i gynnwys pob hediad sy’n gadael y DU yn sicrhau cydraddoldeb.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod wedi cydnabod pryder yr ymatebwyr bod dull cyfrifo presennol y fethodoleg ar gyfer dyraniadau am ddim hedfanaeth yn seiliedig ar ddata gweithgarwch 2010, sy’n anghyson â’r gweithgarwch hedfanaeth presennol ac yn ystumio’r gystadleuaeth rhwng cyfranogwyr.

Rydym wedi asesu’n ofalus y camau deddfwriaethol a gweinyddol y byddai’n rhaid eu cymryd i ddiweddaru’r fethodoleg. Byddai hyn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny: newidiadau deddfwriaethol ac ymarfer casglu data, cyn ailgyfrifo'r hawl i ddyraniadau am ddim a weinyddir gan y Rheoleiddwyr. Er bod gan rai gweithredwyr awyrennau y data perthnasol, byddai eraill yn wynebu mwy o faich gweinyddol. Byddai angen cynnal ymarfer casglu data yn y dyfodol, gyda rhybudd ymlaen llaw i sicrhau bod pob gweithredwr yn cael yr un cyfle i wneud cais am ddyraniad. Fodd bynnag, byddai hyn yn anghymesur ac yn anodd ei weithredu o ystyried hyd y cyfnod rhoi’r gorau i ddyraniadau. Hefyd, mae ailgyfrifo’r hawl i gael dyraniadau am ddim ar sail data gweithgarwch cyfredol yn debygol o arwain at newid sylweddol yn nyraniadau am ddim gweithredwyr awyrennau, a allai effeithio ar eu gallu i gynllunio a pharatoi’n ddigonol ar gyfer y newid i arwerthu'n llawn erbyn 2026. Rydym yn cydnabod bod nifer o ymatebwyr wedi dadlau yn erbyn newidiadau i’r fethodoleg yng ngoleuni’r cynnig i roi’r gorau’n llwyr i ddyraniadau am ddim hedfanaeth. Mae’r Awdurdod wedi penderfynu peidio â diweddaru'r fethodoleg ar gyfer dyraniadau am ddim hedfanaeth na rhoi cyfrif am newydd-ddyfodiaid yng ngoleuni’r penderfyniad i roi’r gorau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth erbyn 2026.

Rydym wedi ystyried gwelliannau technegol eraill y gellir eu gwneud i’r fethodoleg bresennol nes rhoi’r gorau i ddyraniadau am ddim hedfanaeth. Yn 2021, roedd lefel y dyraniadau am

ddim hedfanaeth a roddwyd i weithredwyr yn fwy na’r allyriadau wedi eu dilysu ar gyfer y sector oherwydd effeithiau COVID-19 ar weithgarwch hedfanaeth a, chyn pandemig COVID-19, o dan System Masnachu Allyriadau'r UE cafodd nifer o weithredwyr fwy o ddyraniadau am ddim hedfanaeth na’u hallyriadau wedi eu dilysu. O ganlyniad i’r uchod, ac ystyried yr ymatebion a gawsom a oedd yn galw am roi terfyn ar or-ddyrannu lwfansau am ddim hedfanaeth; mae’r Awdurdod wedi penderfynu capio cyfanswm y dyraniadau am ddim hedfanaeth y mae gweithredwyr yn gymwys i’w derbyn, ar 100% o’u hallyriadau wedi eu dilysu. Mae hyn yn sicrhau bod dyraniadau am ddim hedfanaeth yn cael eu dosbarthu’n briodol ac yn unol â'r allyriadau wedi eu dilysu ar gyfer y gweithredwyr nes bydd dyraniadau am ddim hedfanaeth yn cael eu tynnu’n ôl yn 2026. Bwriad polisi dyraniadau am ddim hedfanaeth yw lliniaru’r risg o ddadleoli carbon, ac nid bwriad y polisi oedd bod gweithredwyr awyrennau’n cael mwy o lwfansau na’u hallyriadau wedi eu dilysu. Byddai parhau i ganiatáu i rai gweithredwyr gael mwy o lwfansau na’u hallyriadau wedi eu dilysu yn anghyson ag amcan cyffredinol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i gymell datgarboneiddio a chysoni cap Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU â thrywydd sero net.

# Cais am Dystiolaeth ar Danwyddau Hedfan Cynaliadwy

## Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Tanwyddau hedfan cynaliadwy yw un o’r technolegau allweddol a nodwyd i helpu i ddatgarboneiddio’r sector hedfanaeth. Gall gweithredwyr awyrennau sy’n defnyddio tanwyddau hedfan cynaliadwy cymwys hawlio gostyngiad cyfatebol yn eu rhwymedigaethau o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Yn dilyn cam treialu adrodd ar Danwyddau Hedfan Cynaliadwy i reoleiddiwr yn y DU, bydd yr Awdurdod yn gweithio’n agos gyda Rheoleiddwyr i roi’r polisi ar waith yn llawn. Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd yr Awdurdod am farn ynghylch sut gellid rhoi cyfrif priodol yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU am ostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a gyflawnir drwy ddefnyddio tanwyddau hedfan cynaliadwy, a sut gallai polisi tanwyddau hedfan cynaliadwy Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ryngweithio â mandad arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer tanwyddau hedfan cynaliadwy[35]. Roedd yr adran hon o’r ymgynghoriad yn ymddangos ar ffurf Cais am Dystiolaeth, ac nid oedd yn cynnwys cynigion polisi. Bydd yr ymatebion yn helpu i lywio’r gwaith o ddatblygu polisïau ymhellach.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **58) Sut rydym yn sicrhau y rhoddir cyfrif am allyriadau nwyon tŷ gwydr o danwyddau hedfan cynaliadwy yn briodol o ran rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gweithredwyr awyrennau?**<br><br>**59) A ddylai lleihad mewn allyriadau a gyflawnir drwy danwyddau hedfan cynaliadwy a gyflenwir i gydymffurfio â'r mandad tanwyddau hedfan cynaliadwy arfaethedig** |

[35] https://www.gov.uk/government/consultations/pathway-to-net-zero-aviation-developing-the-uk-sustainable-aviation-fuel-mandate

**gyfrannu at leihad yn rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i weithredwyr awyrennau?**

**60) Os felly, sut y dylid adrodd ar gyflenwi tanwyddau hedfan cynaliadwy a lleihau allyriadau mewn ffordd sy'n sicrhau bod y defnydd o danwyddau hedfan cynaliadwy ond yn cael ei adrodd o dan un cynllun prisio carbon, gan leihau'r baich gweinyddol ar weithredwyr awyrennau cymaint â phosibl ar yr un pryd?**

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 46 o ymatebion i gwestiwn 58. Roedd un ar bymtheg o’r ymatebwyr (35%) yn cefnogi’r egwyddor o roi cyfrif am allyriadau nwyon tŷ gwydr yn briodol fel ffordd o hybu tanwyddau hedfan cynaliadwy sydd ag allyriadau cylch oes is. Roedd 17 o ymatebwyr (37%) hefyd o blaid y defnydd o ddadansoddiad allyriadau cylch oes, gan gynnig hefyd fethodoleg asesiad cylch oes y Cynllun Gwrthbwyso a Lleihau Carbon ar gyfer Hedfanaeth Rhyngwladol (CORSIA) fel yr adnodd mwyaf priodol ar gyfer dadansoddiad asesiad cylch oes, sy’n cyd-fynd â safonau rhyngwladol. Roedd tri ymatebydd arall o blaid cofnodi’n gywir allyriadau o danwyddau hedfan cynaliadwy a chwmnïau awyrennau fel elfen sylfaenol o rwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Fodd bynnag, mynegodd 12 ymatebydd (46%) bryderon y gallai’r broses o roi cyfrif am allyriadau i fyny’r gadwyn fod yn rhy gymhleth a beichus i weithredwyr awyrennau. Rhoddodd wyth ymatebydd (17%) sylw i’r gwahaniaeth ariannol rhwng tanwyddau hedfan cynaliadwy a cherosîn, cyn cynnig credyd dwbl a thriphlyg ar gyfer tanwyddau hedfan cynaliadwy yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU fel ateb. Yn olaf, roedd 14 o ymatebwyr (30%) yn dadlau na ddylid cynnwys gweithredwyr gweithfa sefydlog mewn rhwymedigaethau yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU wrth ddefnyddio CO2 wedi ei ddal i gynhyrchu tanwyddau synthetig, ac mai'r gweithredwyr awyrennau ddylai ysgwyddo’r cyfrifoldeb pan fydd y tanwydd dan sylw yn cael ei losgi.

Cafwyd 41 o ymatebion i gwestiwn 59, ac roedd 35 (85%) ohonynt yn cefnogi’r farn y dylai lleihad mewn allyriadau a gyflawnir drwy danwyddau hedfan cynaliadwy a gyflenwir i gydymffurfio â'r mandad tanwyddau hedfan cynaliadwy arfaethedig gyfrannu at leihad yn rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Roedd pedwar ymatebydd (10%) yn anghytuno, a chafwyd atebion aneglur gan ddau (5%). Roedd cyrff anllywodraethol a sefydliadau nid-er-elw ymysg y rhai a oedd yn anghytuno, gan resymu y byddai’r dull hwn o weithredu yn golygu bod y lleihad mewn allyriadau yn cael ei gyfrif ddwywaith. Awgrymodd naw ymatebydd (22%), gan gynnwys cwmnïau awyrennau, a ymatebodd yn gadarnhaol i’r cwestiwn hwn y byddai hyn yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu marchnadoedd tanwyddau hedfan cynaliadwy. Cyfeiriodd wyth ymatebydd (20%) at bwysigrwydd cyffredinol datgarboneiddio’r sector hedfanaeth, ac roedd pum ymatebydd arall (12%) yn dadlau y gallai unrhyw bolisi i gymell tanwyddau hedfan cynaliadwy gyfrannu at y DU yn arwain y ffordd yn y maes hwn.

Cafwyd 31 o ymatebion i gwestiwn 60. Awgrymodd pedwar ymatebydd (13%) y dylai’r DU sefydlu ei chronfa ddata ganolog ei hun (gan gynnwys cyfrifyddiaeth, cofrestrfa ac olrhain dogfennau). Awgrymodd naw ymatebydd (29%) y dylid cael cronfa ddata neu system adrodd

ryngwladol i roi cyfrif cywir am y defnydd o danwyddau hedfan cynaliadwy. Awgrymodd tri ymatebydd (10%) y dylid defnyddio tystysgrifau mandad tanwyddau hedfan cynaliadwy fel rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU i hawlio budd-daliadau lleihau allyriadau. Mynegodd tri ymatebydd (10%) y farn y dylai CO2 sydd wedi cael ei ddal i fwydo’r broses o gynhyrchu tanwyddau hedfan cynaliadwy gael ei drin fel allyriadau sero ar gyfer gweithfeydd, ac y dylid codi’r tâl allyriadau yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU ar y cwmnïau awyrennau pan fyddan nhw’n defnyddio’r tanwydd. Fodd bynnag, awgrymodd tri ymatebydd (10%) mai’r weithfa ddylai ysgwyddo cost yr allyriadau o CO2 wedi ei ddal. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cael system gofnodi glir i roi cyfrif cywir am holl allyriadau’r broses o ddal CO2 a chynhyrchu tanwyddau hedfan cynaliadwy.

## Ymateb yr Awdurdod

Mandad tanwyddau hedfan cynaliadwy fydd y prif sbardun i arbed allyriadau ar gyfer y sector hedfanaeth drwy ddefnyddio tanwyddau hedfan cynaliadwy, drwy fynnu bod o leiaf 10% (tua 1.2 miliwn tunnell) o danwydd jet yn cael ei greu o ffynonellau cynaliadwy erbyn 2030. Pan fydd y mandad yn dechrau yn 2025, bydd yn rhaid cynnwys mwy o danwyddau hedfan cynaliadwy yng nghymysgedd tanwydd jet y DU, er mwyn helpu i leihau allyriadau carbon tuag at sero net.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu cynigion ar sut dylai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU drin y defnydd o danwyddau hedfan cynaliadwy gan weithredwyr awyrennau, a bydd yn ymgynghori arnyn nhw maes o law. Er y bydd tanwyddau hedfan cynaliadwy yn dal i gael sgôr sero o dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn y tymor byr, bydd yr Awdurdod yn parhau i ystyried opsiynau eraill yn lle sgôr sero ar gyfer tanwyddau hedfan cynaliadwy yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod nad yw tanwyddau hedfan cynaliadwy yn ddi-allyriad ar hyn o bryd, er bod ganddynt botensial i fod yn ddi-allyriad yn y dyfodol. Rydym yn ystyried yr opsiwn o fynnu bod gweithredwyr awyrennau yn lleihau eu hawliadau mewn perthynas ag arbedion allyriadau cylch bywyd eu tanwyddau hedfan cynaliadwy yn hytrach na cherosin ffosil fel sy’n cael ei wneud o dan CORSIA. Byddwn yn parhau i adolygu hyn ac yn ymgynghori ar gynigion polisi cadarn.

Mae’r Awdurdod yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch sut mae’r cyflenwad o danwyddau hedfan cynaliadwy a’r lleihad mewn allyriadau yn cael eu cofnodi. Mae’r Awdurdod yn ymwybodol bod gweithredwyr awyrennau, o dan ddarpariaethau cyfredol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, wedi cael trafferth sicrhau tystiolaeth o gynaliadwyedd gan gyflenwyr y mae angen y dogfennau hyn arnynt i gael eu gwobrwyo o dan y Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy. Mae trafodaethau’n parhau rhwng Llywodraeth y DU, y Rheoleiddwyr a chynlluniau gwirfoddol ynghylch ffyrdd posibl o ddatrys y broblem hon.

# Cais am Dystiolaeth ar effeithiau ar yr hinsawdd nad ydynt yn rhai CO2

## Crynodeb o'r Cynnig

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn berthnasol i nwyon tŷ gwydr ychwanegol ar wahân i CO2 yn achos rhai sectorau. Yn achos y sector hedfanaeth, dim ond allyriadau CO2 sy'n dod o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar hyn o bryd, er bod hedfanaeth hefyd yn effeithio ar yr hinsawdd drwy allyriadau nad ydynt yn rhai CO2 a'u heffeithiau.

Deellir mai allyriadau o nitrogen ocsid ($NO_x$) a ffurfio cymylau tarth anwedd sydd â'r maint mwyaf o'r effeithiau nad ydynt yn CO2[36]. Er bod y ddealltwriaeth wyddonol o effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae sawl her o hyd o ran datblygu polisi, yn enwedig yr ansicrwydd mawr ynghylch maint yr effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 a sut i'w monitro'n effeithiol. Ar ben hynny, nid oes consensws ar hyn o bryd ynghylch metrig addas ar gyfer cymharu effaith CO2 ar yr hinsawdd ag effeithiau nad ydynt yn rhai CO2. Gall gwerthoedd y metrigau hyn hefyd amrywio dros amser a chyda gwahanol fathau o danwyddau hedfan yn y dyfodol, sy'n golygu y gallai rhai camau posibl i leihau effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 arwain at fwy o gynhesu cyffredinol.

Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd cwestiynau manwl i gasglu tystiolaeth ar ymarferoldeb a phriodoldeb ymgorffori effeithiau hedfanaeth nad ydynt yn effeithiau CO2 yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, gyda diddordeb cychwynnol mewn allyriadau $NO_x$. Rydym hefyd yn cydnabod bod mesurau amrywiol ar wahân i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU sy'n gallu targedu effeithiau nad ydynt yn rhai CO2. Roedd yr adran hon o'r ymgynghoriad yn ymddangos ar ffurf Cais am Dystiolaeth, ac nid oedd yn cynnwys cynigion polisi. Bydd yr ymatebion yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau ymhellach, a bydd ein dull gweithredu'n dal yn seiliedig ar y ddealltwriaeth wyddonol ddiweddaraf.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **62) A ddylem ystyried cynnwys effeithiau hedfanaeth nad ydynt yn rhai CO2 yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU?**<br><br>**63) Sut y gallem drin $NO_x$ yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU i adlewyrchu ei wahanol effaith ar yr hinsawdd o gymharu â CO2?**<br><br>**64) Sut y gallem fonitro allyriadau $NO_x$ awyrennau, wrth geisio lleihau'r baich gweinyddol ychwanegol ar gwmnïau hedfan?** |

[36] https://doi.org/10.1016/j.atmosenv.2020.117834 Edrychwch ar Ffigur 3. Sylwer bod graddfa'r effeithiau hyn yn amrywio'n sylweddol. Mae'r cynhesu o ôl-anwedd sirws tua dwywaith gymaint â CO2, ac mae cynhesu o NOx tua hanner CO2. Fodd bynnag, mae lefel yr hyder ar gyfer y ffigurau hyn yn 'isel', ac nid yw'r cyfrannau hyn yn sefydlog.

**65) Sut y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fynd i'r afael ag effeithiau hedfanaeth ychwanegol nad ydynt yn rhai CO2, megis ôl-anwedd sirws? Esboniwch eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.**

**66) A ddylem archwilio unrhyw fesurau prisio byrdymor eraill, megis taliadau, i gyfrif am effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 wrth ystyried ymgorffori hynny yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn llawn? Sut y gallai'r rhain weithio yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU? Esboniwch eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.**

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 38 o ymatebion i gwestiwn 62, a dywedodd 22 o’r ymatebwyr (58%) na ddylem ystyried cynnwys effeithiau hedfanaeth nad ydynt yn rhai CO2 a dywedodd 12 ymatebydd (32%), cyrff anllywodraethol gan mwyaf, y dylem ystyried cynnwys effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 gan ddadlau bod hyn yn bwysig er mwyn rhoi cyfrif am holl effaith hedfanaeth ar yr hinsawdd. Dywedodd nifer ohonynt fod effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 yn cyfrannu’n fawr at effaith hedfanaeth ar yr hinsawdd yn ôl yr hyn a ddeellir, ac felly bod angen mynd i’r afael â hyn. Roedd rhai o’r ymatebwyr hyn yn cydnabod yr ansicrwydd gwyddonol, ond yn dadlau y byddai gweithredu ‘amherffaith’ yn well na pheidio â gweithredu o gwbl.

O blith y rhai a oedd yn anghytuno roedd 16 o ymatebwyr (42%), y rhan fwyaf o’r diwydiant hedfanaeth, yn credu ei bod yn rhy gynnar i gynnwys effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU, ac yn credu bod angen cael gwell dealltwriaeth wyddonol cyn defnyddio dulliau fel prisio. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn yr ansicrwydd mawr ynghylch maint effeithiau nad ydynt yn rhai CO2, sut gallai eu heffeithiau (cynhesu yn ogystal ag oeri) newid dros amser, a’r angen am ragor o ymchwil. Roedd pryderon hefyd am gyfnewid (trade-off) yng nghyswllt CO2.

Roedd saith ymatebydd (18%) yn poeni am ba mor anodd yw monitro a mesur yn gywir effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 a chymhlethdod hynny, yn enwedig o ystyried bod eu hoes yn amrywio a dylanwad ffactorau fel amodau atmosfferig ac amser o’r dydd. Roedd wyth ymatebydd (21%) o blaid defnyddio dulliau eraill i fynd i’r afael ag effeithiau nad ydynt yn rhai CO2, fel effeithlonrwydd llwybrau hedfan, defnyddio tanwyddau hedfan cynaliadwy a thechnolegau awyrennau newydd. Roedd pedwar ymatebydd (11%) yn credu y dylai unrhyw broses i ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU er mwyn cynnwys effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 fod yn broses gyson ar draws sectorau.

Cafwyd 19 o ymatebion i gwestiwn 63. Roedd naw ymatebydd (47%) yn dadlau na ddylid cynnwys $NO_x$ yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU oherwydd ansicrwydd ynghylch ei effaith ar yr hinsawdd, a fyddai’n golygu ei bod yn anodd cyfrifo allyriadau $NO_x$ yn gywir.

Awgrymodd dau ymatebydd (22%) ddefnyddio math o ‘luosydd’ yn erbyn allyriadau CO2 yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU i roi cyfrif am $NO_x$, er enghraifft ar sail gwerthoedd newid yn y cydbwysedd ymbelydrol neu botensial cynhesu byd-eang. Fodd bynnag, roedd dau

ymatebydd arall yn gwrthwynebu’r metrigau hyn yn bendant, fel ffyrdd anghywir o bennu effaith $NO_x$ ar yr hinsawdd.

Cafwyd 15 o ymatebion i gwestiwn 64. Awgrymodd chwe ymatebydd (40%) ddulliau posibl o fonitro allyriadau $NO_x$, gan gynnwys defnyddio Model Llif Tanwydd Boeing, ffactor allyriadau sy’n gymesur â’r math o injan a faint o danwydd sy’n cael ei losgi, a’r dull a gyflwynwyd mewn adroddiad a gomisiynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd[37]. Rhybuddiodd tri ymatebydd (20%), a gyfeiriodd at ddulliau monitro posibl, rhag defnyddio’r rhain yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU oherwydd heriau o ran mesur effaith $NO_x$ ar yr hinsawdd yn gywir. Mynegodd pum ymatebydd bryderon ynghylch cywirdeb a chymhlethdod monitro allyriadau $No_x$ .

Cafwyd 17 o ymatebion i gwestiwn 65. Awgrymodd pedwar ymatebydd (24%) y dylid cyflwyno lluosydd neu ordal yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel y byddai cwmnïau awyrennau’n talu mwy neu’n ildio lwfansau ychwanegol ar sail eu hallyriadau CO2. Roedd dau ymatebydd (12%) yn gwrthwynebu defnyddio lluosydd, gan ddadlau na fyddai hyn yn mesur yn gywir effaith ôl-anwedd sirws ar yr hinsawdd. Nid oedd 11 o’r ymatebwyr (65%) o blaid defnyddio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i fynd i’r afael ag ôl-anwedd sirws. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hyn at bryderon tebyg a godwyd wrth ymateb i gwestiynau cynharach, er enghraifft diffyg sicrwydd gwyddonol ynghylch yr effaith ar yr hinsawdd a dulliau lliniaru effeithiol, y byddai dulliau eraill yn fwy effeithiol, a heriau o ran monitro ôl-anwedd sirws yn gywir. Roedd tri ymatebydd (18%) yn poeni am gyflwyno cymhellion gwrthnysig, er enghraifft drwy roi cymhelliant i gwmnïau awyrennau hedfan ar hyd llwybrau hirach gan osgoi ardaloedd sy’n llawn rhew er mwyn lleihau ôl-anwedd sirws, ac felly cynyddu’r effaith gyffredinol ar yr hinsawdd o bosibl drwy gynyddu allyriadau CO2.

Cafwyd 24 o ymatebion i gwestiwn 66, ac nid oedd 14 o’r ymatebwyr (58%) hynny o blaid ystyried mesurau prisio byrdymor fel taliadau neu luosyddion. Cyfeiriodd y rhai, ymatebwyr o’r diwydiant hedfanaeth gan mwyaf, at ddulliau eraill o fynd i’r afael ag allyriadau nad ydynt yn rhai CO2. Dywedodd pedwar ymatebydd (17%) fod safonau $NO_x$ a thaliadau $NO_x$ ar gyfer meysydd awyr eisoes yn bodoli i geisio gwella ansawdd yr aer, sy’n cael yr effaith eilaidd o reoleiddio allyriadau $NO_x$ mordeithiau. Roedd pedwar ymatebydd (17%) yn awyddus i weld dulliau eraill yn cael eu harchwilio yn lle cyflwyno tâl am effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 neu yn ychwanegol at hynny.

Roedd tri ymatebydd (13%) yn dadlau y byddai tâl neu luosydd yn aneffeithiol, ac na fyddai’n creu cymhelliant i weithredwyr leihau effeithiau nad ydynt yn rhai CO2. Roedd pum ymatebydd (21%) yn dadlau na ddylid bwrw ymlaen â mesurau prisio nes bod gwell dealltwriaeth wyddonol o effeithiau nad ydynt yn rhai CO2. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu bod angen cyllid ac ymchwil ychwanegol, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael consensws gwyddonol rhyngwladol. Roedd ymatebwyr a oedd o blaid, cyrff anllywodraethol gan mwyaf, yn dadlau y

---

[37] CE Delft et al, Lower $NO_x$ at Higher Altitudes Policies to Reduce the Climate Impact of Aviation $NO_x$ Emission, 2008
https://www.researchgate.net/publication/265493774_Lower_NO_x_at_Higher_Altitudes_Policies_to_Reduce_the_Climate_Impact_of_Aviation_NO_x_Emission

byddai cyflwyno tâl yn gweithredu egwyddor y llygrwr sy’n talu ac yn rhoi cyfrif am holl effaith y sector hedfanaeth ar yr hinsawdd.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod hedfanaeth, yn ogystal â’r cynhesu a achosir gan CO2, yn achosi effeithiau ar yr hinsawdd nad ydynt yn rhai CO2 a bod angen rhoi sylw iddynt. Mae’r Strategaeth ‘Jet Zero’[38] yn amlinellu dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth y DU o liniaru a deall yn well effeithiau nad ydynt yn rhai CO2, gan gydnabod bod tystiolaeth wyddonol ddiweddar yn awgrymu mai’r amcangyfrif gorau yw bod tua dwy ran o dair o effaith bresennol y sector hedfanaeth ar yr hinsawdd yn deillio o effeithiau nad ydynt yn rhai CO2.

Mae ymchwil a dadansoddiad a gynhaliwyd hyd yma yn awgrymu y gallai llawer o’r mesurau i ddatgarboneiddio'r sector hedfanaeth gael effaith gadarnhaol hefyd ar leihau effeithiau nad ydynt yn rhai CO2. Pwysleisiodd y Strategaeth y bydd Llywodraeth y DU, pan fydd tystiolaeth i’r gwrthwyneb, yn ystyried yn ofalus yr effaith gyffredinol ar yr hinsawdd ac yn addasu ein polisi yn ôl yr angen.

Mae’r ansicrwydd gwyddonol presennol ynghylch maint effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 a’r diffyg consensws ynghylch dulliau monitro effeithiol yn creu heriau o ran prisio allyriadau nad ydynt yn rhai CO2 drwy fecanweithiau fel Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd egwyddor y llygrwr sy’n talu, a’n nod yw dechrau prisio effeithiau hedfanaeth ar yr hinsawdd nad ydynt yn effeithiau CO2 cyn gynted ag y daw dealltwriaeth wyddonol a chonsensws ynghylch methodoleg yn ddigon clir i gefnogi hyn. Byddwn yn parhau i ystyried ymarferoldeb cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU effeithiau hedfanaeth nad ydynt yn effeithiau CO2, yn ogystal â mesurau prisio eraill fel taliadau unigol, neu luosydd yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Byddai dull effeithiol o fonitro effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 yn rhan allweddol o fecanwaith prisio effeithiol. Fel y nodwyd yn y cais am dystiolaeth, mae heriau o ran amcangyfrif allyriadau $NO_x$ hedfan llawn yn gywir. Byddai angen metrig cywir cyfatebol i CO2 hefyd i brisio effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 ochr yn ochr â rhai CO2 yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU, gan osgoi cymhellion gwrthnysig a’r perygl o gynhesu-net cyffredinol, ac nid oes consensws gwyddonol ar hyn o bryd ynghylch y metrig cywir i’w ddefnyddio.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithio gyda diwydiannau a’r byd academaidd i edrych ar ffordd o amcangyfrif a thracio effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 sy’n deillio o ddiwydiant hedfanaeth y DU. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgymryd â rhaglen ymchwil i gefnogi’r ymrwymiad hwn. Drwy’r rhaglen, byddwn yn ceisio gwella’r ddealltwriaeth wyddonol o effeithiau hedfanaeth ar yr hinsawdd nad ydynt yn effeithiau CO2. Rydym hefyd yn ceisio ymchwilio i ddulliau o fonitro a modelu’r effeithiau nad ydynt yn gysylltiedig â CO2 hyn a gwerthuso addasrwydd metrigau trosi eraill sy’n gyfatebol i CO2 fel sail i ddatblygu polisi yn y dyfodol.

[38] https://www.gov.uk/government/publications/jet-zero-strategy-delivering-net-zero-aviation-by-2050

Gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU chwarae rhan arwyddocaol yn y broses o ddeall yn well effeithiau nad ydynt yn rhai CO2 a rhoi cyfrif am hynny, er enghraifft drwy gyflwyno system fonitro ac adrodd, a byddwn yn edrych ymhellach ar ymarferoldeb hyn fel cam cychwynnol tuag at brisio effeithiau nad ydynt yn rhai CO2. Byddai'r Awdurdod yn cynnal ymarfer ymgynghori cyn dod ag effeithiau hedfanaeth nad ydynt yn rhai CO2 o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

# Cais am Dystiolaeth ar Gydweithredu Rhyngwladol, gan gynnwys Hediadau o'r DU i'r Swistir

## Crynodeb o'r Cynnig

Mae cwestiynau 67 i 69 ynghylch hediadau o'r DU i'r Swistir wedi cael sylw yn ymateb cychwynnol yr Awdurdod[39]. Ym mis Tachwedd 2022, llofnododd y DU Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a oedd yn nodi bwriad y DU i gynnwys, mor gynhwysfawr â phosibl, hediadau o'r DU i'r Swistir yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU erbyn 1 Ionawr 2023[40]. Mae deddfwriaeth ar waith i ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys hediadau o Brydain Fawr i'r Swistir, gyda'r bwriad o gynnwys hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir ar y cyfle cyntaf posibl. Mae'r ymatebion i'r cwestiwn sydd ar ôl am hediadau o'r DU i'r Swistir (cwestiwn 70) yn cael eu crynhoi isod. Roedd y Cais am Dystiolaeth yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid ystyried ceisio cael cytundeb i ehangu cwmpas daearyddol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU heb gysylltu cytundebau ar gyfer hediadau eraill sy'n gadael tir mawr y DU nad ydynt yn dod o dan gynlluniau prisio carbon.

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gynllun prisio carbon annibynnol ar hyn o bryd. Ond, gan y bydd gan lawer o weithredwyr awyrennau rwymedigaethau o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ogystal â chynlluniau eraill, mae'r gweithredwyr hynny'n cael eu rheoleiddio ar wahân, sy'n cynyddu eu baich gweinyddol a chydymffurfio. Ceisiodd yr Awdurdod gasglu tystiolaeth ynghylch cydymffurfiaeth â nifer o gynlluniau i helpu i lywio'r gwaith ymgysylltu rhyngwladol a'r cydweithredu posibl ar nodweddion gweithredol y cynllun (cwestiynau 71-72).

| **Cwestiynau** |
|---|
| **70) Oes unrhyw hediadau eraill sy'n gadael tir mawr y DU nas cwmpesir gan gynlluniau prisio carbon y dylem geisio cytundeb yn eu cylch â'r wladwriaeth neu'r diriogaeth sy'n gyrchfan i'w cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Dylai/Na Ddylai) Ymhelaethwch ar eich ymateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd.** |

[39] https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets
[40] https://www.gov.uk/government/publications/coverage-of-aviation-in-the-uk-and-swiss-emissions-trading-schemes-memorandum-of-understanding#:~:text=This%20MoU%20states%20the%20UK's,on%20participating%20in%20the%20scheme.

**71) Yn eich barn chi pa feysydd o gydweithredu rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a chynlluniau masnachu allyriadau eraill, megis System Masnachu Allyriadau'r UE, ddylai gael eu blaenoriaethu ar gyfer hedfanaeth?**

**72) Sut y gall nodweddion gweithredol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gael eu symleiddio ar gyfer gweithredwyr awyrennau drwy gydweithredu â chynlluniau eraill?**

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 15 ymateb i gwestiwn 70, ac roedd 10 o’r ymatebwyr (67%) yn cytuno bod hediadau’n gadael tir mawr y DU nad ydynt yn dod o dan gynlluniau prisio carbon a fyddai’n gallu cael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Roedd pump (33%) yn anghytuno. O blith y rhai a oedd yn cytuno, roedd naw o’r ymatebwyr (60%) yn dadlau y dylid ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys pob hediad sy’n gadael y DU. Y prif reswm a roddwyd oedd nad oedd y cynllun prisio carbon byd-eang ar gyfer hedfanaeth – CORSIA, sy’n cynnwys hediadau rhyngwladol – yn ddigon effeithiol. Roedd ymatebwyr yn poeni am effeithiau ystumio rhwng gweithredwyr awyrennau sydd o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a gweithredwyr awyrennau nad ydynt o fewn cwmpas y Cynllun hwnnw. O blith y pump a oedd yn anghytuno, dywedodd dau (13%) fod CORSIA eisoes yn cynnwys hediadau rhyngwladol, gan ddadlau fod hyn yn ddigonol. Dywedodd un ymatebydd (7%) nad yw hediadau rhwng y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron a Thiriogaethau Tramor yn dod o dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU na CORSIA ar hyn o bryd. Roedden nhw’n dadlau y dylai allyriadau o’r hediadau hyn ddod o fewn cwmpas un o’r cynlluniau.

Cafwyd 20 ymateb i gwestiwn 71, ac roedd saith o’r ymatebwyr (35%) o blaid cysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau’r UE. Roedd y manteision a nodwyd yn cynnwys gwella hylifedd, cysoni’r prisiau carbon perthnasol a lleihau’r baich gweinyddol ar weithredwyr awyrennau. Roedd pedwar ymatebydd (25%) o blaid cadw cysondeb ac aliniad rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau’r UE, o ran cyfeiriad polisi a gweithredu’r cynlluniau. Roedd y manteision a nodwyd yn cynnwys osgoi ystumio’r gystadleuaeth, dadleoli carbon, a baich gweinyddol ychwanegol.  Dangosodd tri ymatebydd (15%) gefnogaeth i ddull gweithredu ‘siop un stop’ ar gyfer gweithredwyr awyrennau, lle byddent yn adrodd i un awdurdod ac yn cyflwyno un adroddiad allyriadau ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau’r UE er mwyn lleihau eu baich gweinyddol. Hefyd, gwnaeth saith ymatebydd (35%) sylwadau ar sut byddai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn rhyngweithio â CORSIA, a sut roedd hyn yn cymharu â dull gweithredu’r UE. Roedd tri (15%) yn dadlau na ddylai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fod yn berthnasol i unrhyw hediadau rhyngwladol, ond roedd un yn cynnig y dylid ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys pob hediad sy’n gadael y DU. Yn olaf, roedd tri ymatebydd (15%) yn dadlau y dylid defnyddio refeniw Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i ariannu mecanwaith cefnogi prisiau ar gyfer tanwyddau hedfan cynaliadwy. Codwyd hyn yng nghyd-destun cynigion System Masnachu Allyriadau’r UE i ehangu Cronfa Arloesi’r UE a defnyddio refeniw i gefnogi ‘Contractau ar gyfer Gwahaniaeth’, a’r angen am ymrwymiad tebyg yn y DU.

Cafwyd 12 o ymatebion i gwestiwn 72. Dangosodd pedwar ymatebydd (33%) gefnogaeth i ddull gweithredu ‘siop un stop’ ar gyfer gweithredwyr awyrennau. Gwnaeth tri ymatebydd (25%) sylwadau ar y rhyngweithio rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a CORSIA. Mynegodd tri ymatebydd (25%) gefnogaeth i gysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau’r UE. Roedd dau ymatebydd (17%) yn dadlau na ddylai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fod yn berthnasol i hediadau rhyngwladol. Cynigiodd ymatebydd arall y dylid ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys pob hediad sy’n gadael y DU a didynnu costau CORSIA.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu rhyngwladol i fynd i’r afael ag allyriadau sy’n deillio o hedfanaeth rhyngwladol, ac ymrwymiad y DU i weithredu CORSIA. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod rhai ymatebwyr o’r farn y dylai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fod yn berthnasol i bob hediad sy’n gadael. Mae’r rhan fwyaf o hediadau rhyngwladol sy’n gadael y DU yn dod o dan CORSIA, ac mae’r DU yn dal i chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith y Sefydliad Hedfanaeth Sifil Rhyngwladol (ICAO) drwy drafodaethau ynghylch camau gweithredu byd-eang uchelgeisiol i fynd i’r afael ag allyriadau hedfanaeth rhyngwladol. Yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol Llywodraeth y DU ar weithredu CORSIA yn y DU yn 2021 a chanlyniad Cynulliad diweddar ICAO, mae Llywodraeth y DU yn ystyried yn ofalus y dull rhyngweithio rhwng CORSIA a Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar hediadau sydd o fewn cwmpas y ddau gynllun,[41] a bydd yn ymgynghori eto ar ein dull rhyngweithio maes o law.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod nad yw hediadau rhwng y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron a Thiriogaethau Tramor (ac eithrio Gibraltar) yn dod o dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU a/neu CORSIA ar hyn o bryd. At ddibenion Confensiwn Chicago, mae Tiriogaethau Dibynnol y Goron a Thiriogaethau Tramor Prydain yn cael eu trin fel eu bod yn rhan o’r DU. Am y rheswm hwn, mae hediadau rhwng y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron a holl Diriogaethau Tramor y DU yn cael eu hystyried yn hediadau domestig o dan CORSIA, ac nid ydynt yn rhwym wrth ofynion gwrthbwyso na monitro, adrodd a dilysu. Byddai unrhyw newid yn y dyfodol i’r ffordd mae’r hediadau hyn yn cael eu trin o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod y dull prisio carbon ar ei fwyaf effeithiol pan fydd yn cael ei ddefnyddio’n eang ac ar draws ffiniau. Yn ogystal â datblygu system uchelgeisiol ar gyfer prisio carbon ar lefel ddomestig, rydym yn awyddus i gydweithio â gwledydd eraill ar fesurau prisio carbon i gefnogi mwy o uchelgais yn fyd-eang. O dan delerau’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, cytunodd y DU a’r UE i gydweithredu ar brisio carbon, gan gynnwys drwy roi ystyriaeth ddifrifol i gysylltu cynlluniau prisio carbon ein gilydd. Bydd cydweithredu a thrafodaethau ar brisio carbon, gan gynnwys drwy ystyried cysylltu cynlluniau, yn dal yn bwysig wrth i’r naill ochr a’r llall ymdrechu i gyrraedd targedau uchelgeisiol ar gyfer yr hinsawdd.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod gweithredwyr awyrennau yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn wynebu mwy o faich gweinyddol na gweithfeydd sefydlog, gan eu bod yn

[41] https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-the-carbon-offsetting-and-reduction-scheme-for-international-aviation/implementing-the-carbon-offsetting-and-reduction-scheme-for-international-aviation-corsia

aml yn cymryd rhan mewn mwy nag un cynllun. Mae’r Awdurdod hefyd wedi nodi gwerth gweithredu dull ‘siop un stop’ ar gyfer monitro ac adrodd ar allyriadau er mwyn lleihau’r baich gweinyddol ar weithredwyr awyrennau sy’n cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU ac yn System Masnachu Allyriadau’r UE. Bydd yr Awdurdod yn ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i roi’r dull gweithredu ar waith, gan nodi y byddai dull gweithredu o’r fath yn gofyn am ymrwymiad a chydweithrediad y naill ochr a’r llall.

At ei gilydd, rydym yn awyddus i gynyddu cydweithrediad amlochrog ar brisio carbon, a allai gynnwys cyfnewid gwybodaeth, rhannu arferion gorau, hybu uniondeb systemau, neu drwy ystyried y ddadl dros ddulliau mwy ymarferol o gydweithredu, fel cysylltu Cynlluniau Masnachu Allyriadau ag awdurdodaethau eraill.

# Pennod 5: Ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU o fewn y sectorau sydd dan sylw

Mae’r bennod hon yn rhoi sylw i gynigion a nodwyd ym Mhennod 6 yn yr ymgynghoriad.

Byddwn yn cynnwys carbon deuocsid (CO2) wedi ei awyru o’r sector olew a nwy i fyny’r gadwyn yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Ni fydd yr Awdurdod yn newid y trothwyon 20 megawatt thermol (MWth) a 3MWth ar hyn o bryd. Byddwn yn ymgynghori eto os bydd unrhyw newidiadau’n cael eu hystyried, a byddwn yn rhoi digon o rybudd i’r diwydiant cyn gwneud unrhyw newidiadau i’r trothwyon.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rheoleiddio allweddol i ddod o hyd i’r ffordd orau o integreiddio dulliau cludo heblaw am biblinellau (NPT) yn fframwaith presennol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Byddwn yn ymgynghori eto ar ddyluniad y polisi llawn ar gyfer meini prawf cynaliadwyedd biomas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl – cyn diwedd 2023 yw’r nod.

## Olew a Nwy i Fyny’r Gadwyn – Awyru a Ffaglu

### Crynodeb o'r Cynnig

Roeddem wedi ystyried newidiadau i gwmpas allyriadau o’r sector olew a nwy i fyny’r gadwyn. Roedd yr adran hon yn cynnwys ymgynghoriad ar gynnwys awyru CO2, Cais am Dystiolaeth ar gynnwys allyriadau methan, a Chais am Dystiolaeth ar Fonitro, Adrodd a Dilysu (MRV) yng nghyswllt gweddill allyriadau nwyon tŷ gwydr y sector, sef allyriadau ocsid nitrus (N2O) ac allyriadau o brosesau nad ydynt yn hylosgi.

### Awyru CO2

#### Crynodeb o'r Cynnig

Roeddem ni’n cynnig bod rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn cael eu hysgwyddo gan weithredwr y weithfa sy’n allyrru CO2 wedi ei awyru, yn unol â’r ddeddfwriaeth bresennol. Nid oeddem yn cynnig dyrannu unrhyw lwfansau am ddim ar gyfer awyru CO2.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **74) Ydych chi'n cytuno â chynnwys CO2 wedi ei awyru o olew a nwy uwch yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac â'r dull a amlinellir uchod ynghylch Monitro,** |

**Adrodd a Dilysu, gosod mesuryddion, pwynt rhwymedigaeth, ac amseriadau? (Ydw/Nac Ydw) Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb lle bo modd.**

**75) Pa drothwy y dylid ei bennu ar gyfer CO2 o awyru, os o gwbl? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb lle bo modd.**

**76) Sut y byddai cynnwys CO2 o awyru yn cymell newid ymddygiad a/neu ddatgarboneiddio? Er enghraifft, a fyddai'n cymell gwell dyluniad, defnyddio Casglu a Storio Carbon (CCS) neu ddulliau eraill o leihau carbon? Esboniwch eich ymateb.**

**77) Sut y byddai cynnwys CO2 o awyru yn rhyngweithio â pholisïau a rheoliadau sy'n bodoli eisoes ac a gyhoeddwyd (gan gynnwys unrhyw bolisïau perthnasol nad ydynt yn ymwneud â datgarboneiddio)?**

**78) A yw cynnwys CO2 o awyru yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn debygol o effeithio ar y sector? (Ydi/Nac Ydi) Os ydyw, sut y byddai'n effeithio ar y sector? Er enghraifft, a allai datgomisiynu cynnar neu sicrwydd cyflenwad fod yn bryderon? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.**

**79) Pa sectorau masnach eraill, os o gwbl, sy'n awyru CO2? Beth yw'r nifer tebygol o osodiadau a graddau'r allyriadau? A ddylai'r cynigion hyn fod yn gymwys i'r sectorau hyn? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.**

### Crynodeb o'r Ymatebion

Cawsom 31 ymateb i gwestiwn 74, a oedd yn gofyn i'r ymgyngoreion a oedden nhw'n cytuno i awyru CO2 o olew a nwy i fyny'r gadwyn gael ei gynnwys yng nghwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd 19 o ymatebwyr (61%) yn cytuno â chynnwys awyru CO2, ac roedd saith (23%) yn gwrthwynebu'r cynigion. Cyfeiriodd y rhai a gymeradwyodd y cynigion at amrywiaeth o fanteision i ehangu'r cynllun, a oedd yn cynnwys cynyddu faint o allyriadau sy'n cael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mwy o hylifedd oherwydd bod mwy yn cymryd rhan yn y farchnad, a mwy o gymhelliant i fabwysiadu technolegau ac atebion llai dwys o ran carbon. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion yn mynegi pryder y byddai'r cynigion yn gwneud sector olew a nwy y DU yn llai cystadleuol oherwydd byddai'n fwy agored i'r pris carbon, yn arwain at gynnydd mewn costau ynni a fyddai'n diferu i lawr i ddefnyddwyr, ac anawsterau wrth osod systemau digonol ar gyfer monitro, adrodd a dilysu.

Hefyd, nododd ymatebwyr nifer o elfennau y dylai'r Awdurdod eu hystyried cyn gweithredu ei bolisi. Roedd hyn yn cynnwys galwadau am gynnal asesiad effaith ar effaith y cynigion ar brosiectau Môr y Gogledd a gomisiynwyd yn ddiweddar, cynhyrchu domestig a gweithfeydd ar ddiwedd eu hoes, ystyried pa drothwyon y dylid eu mabwysiadu, ac awgrymiadau y dylai cynigion polisi gynnwys methan hefyd.

Cawsom wyth ymateb i gwestiwn 75 ynghylch trothwyon ar gyfer awyru CO2. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys dod ag o leiaf 80% o allyriadau o awyru o fewn cwmpas y cynllun, a throthwy de minimis.

Cawsom 15 ymateb i gwestiwn 76. Nid oedd pum ymatebydd (33%) yn argyhoeddedig y byddai'r polisi'n arwain at newid ymddygiad, roedd chwech (40%) yn credu y byddai'r polisi'n cymell gwyro tuag at ddatgarboneiddio, ac roedd pedwar (27%) naill ai'n niwtral neu heb ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Dywedodd y rhai a oedd o'r farn y gallai'r polisi arwain at newid ymddygiad fod manteision o wella technoleg lleihau allyriadau, a dylunio neu ddefnyddio Dal a Storio Carbon. Roedd y rhai a oedd yn credu na fyddai unrhyw newid mewn ymddygiad yn dadlau bod yr allyriadau CO2 o awyru yn rhy fach i newid ymddygiad, bod technoleg lleihau yn rhy gostus, ac y gallai cynnwys CO2 wedi ei awyru danseilio mentrau lleihau allyriadau er budd technolegau mesur cywir.

Cawsom naw o ymatebion i gwestiwn 77. Awgrymodd dau ymatebydd (22%) y byddai pris lwfansau'r DU yn cynyddu pe bai allyriadau o awyru yn cael eu cynnwys, heb addasu cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd ymatebion eraill yn awgrymu y byddai cynnwys awyru CO2 yn cyd-fynd â thargedau sero net y DU.

Cawsom wyth ymateb i gwestiwn 78, a oedd yn gofyn sut byddai'r newid polisi hwn yn effeithio ar y sector olew a nwy i fyny'r gadwyn, ac roedd 50% o'r atebion yn cyfeirio at ddatgomisiynu cyfleusterau olew a nwy. Dywedodd tri ymatebydd (38%) y byddai Costau Gweithredu (OPEX) yn cynyddu pe bai awyru CO2 yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac y byddai cyflwyno systemau monitro, adrodd a dilysu ychwanegol yn arwain at ychwanegu costau ychwanegol i fusnesau. Mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch cyfleusterau olew a nwy ar ddiwedd eu hoes, y byddai'n rhaid eu datgomisiynu'n gynnar o bosibl oherwydd costau uwch. Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen i wneud gwaith dadansoddi i ddeall y ddatgomisiynu'n gynnar gyfleusterau olew a nwy sydd ar ddiwedd eu hoes o ganlyniad i gynnwys awyru CO2. Dywedodd ymatebwyr eraill y byddai datgomisiynu cynharach yn ddatblygiad cadarnhaol gan y byddai'n arwain at ostyngiad cyflymach mewn allyriadau CO2, neu fod hynny'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar y sector olew a nwy oherwydd mai nifer bach o allyriadau sy'n gysylltiedig ag awyru.

Roedd y cwestiwn olaf, 79, a oedd yn gofyn pa sectorau masnach eraill a allai awyru CO2, hefyd yn gofyn nifer o gwestiynau dilynol fel beth yw graddau posibl yr allyriadau awyru sydd heb eu cynnwys, ac a ddylid cynnwys yr allyriadau hynny hefyd yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Cafwyd 11 ymateb. Dywedodd dau ymatebydd (18%) fod awyru yn arfer cyffredin yn y sectorau niwclear, gwasanaethau dŵr, tirlenwi a chemegol. Roedd dau ymatebydd (18%) o blaid ehangu'r hyn sy'n cael ei gynnwys, gan ddweud y byddai mynd ati'n eang i gynnwys awyru CO2 yn gwella hylifedd marchnad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac roedd dau ymatebydd arall yn benodol i'r sector ac yn gwrthwynebu cynnwys awyru yn y sectorau niwclear a thirlenwi.

## Ymateb yr Awdurdod

Yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid a Rheoleiddwyr, rydym yn cael ar ddeall mai allyriadau proses yw'r rhan fwyaf o allyriadau sy'n cael eu hawyru mewn gweithfeydd olew a nwy i fyny'r gadwyn. Yn yr ymgynghoriad, roedd tabl 6.1 yn dangos y byddai'r polisi hwn yn dod â llai na 0.01MtCO2 o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys dim ond y CO2 sy'n rhan gynhenid o'r nwy naturiol sy'n cael ei awyru o weithfa. Fodd

bynnag, bydd cynnwys allyriadau proses wedi eu hawyru yn golygu bod y rhan fwyaf o allyriadau CO2 wedi ei awyru yn cael eu cynnwys, yn unol â'r bwriad gwreiddiol, ac yn dod â chyfanswm o oddeutu 0.4MtCO2 o allyriadau yn rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Bydd yr Awdurdod yn cynnwys allyriadau proses o awyru CO2 o'r sector olew a nwy i fyny'r gadwyn yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Bydd yn rhaid i unrhyw allyriadau CO2 sy'n cyfateb i'r meini prawf a nodir yn y paragraffau isod gael eu cynnwys drwy brynu ac ildio lwfansau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU:

Mae 'allyriadau proses' yn golygu unrhyw fath o broses stripio carbon deuocsid (enw arall am hyn yw 'puro nwy') yn y sector olew a nwy i fyny'r gadwyn. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny: unedau amin, unedau glycol, prosesau selecsol, unedau amsugno, unedau tynnu nwy asid, technoleg pilenni, a dulliau cryogenig.

Bwriedir i'r ddau baragraff isod fod yn arweiniad clir ar ein dealltwriaeth ni o 'allyriadau proses', ac felly'r mathau o brosesau a fydd yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU:

> Mae 'allyriadau proses' yn golygu unrhyw broses, drwy unrhyw fath o dechnoleg, sy'n tynnu carbon deuocsid o'r olew neu'r nwy, ac yna'n ei ryddhau i'r atmosffer naill ai drwy fent neu ffagl heb ei thanio. Ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw garbon deuocsid sy'n cael ei allyrru drwy ffagl heb ei thanio sydd heb ddod drwy'r prosesau stripio carbon deuocsid.
>
> Mae'r 'sector olew a nwy i fyny'r gadwyn' yn cyfeirio at unrhyw weithfeydd ar y tir neu ar y môr sy'n cynhyrchu neu'n echdynnu olew neu nwy naturiol o'r tir neu wely'r môr, neu derfynellau prosesu olew crai a therfynellau nwy.

Rydym yn ymwybodol nad oes cyfiawnhad bob amser dros osod mesuryddion at ddibenion monitro, adrodd a dilysu oherwydd dadansoddiad cost a budd, ymarferoldeb technegol neu, yn syml, oherwydd nad oes modd gwneud hynny ar unwaith oherwydd amserlenni diffodd gweithfeydd. Rydym yn cydnabod bod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi'r pryderon hyn wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Wrth ddylunio gofynion monitro, adrodd a dilysu ar gyfer y polisi hwn, byddwn felly'n ystyried cynnwys methodolegau monitro eraill, fel amcangyfrifon a modelu.

Y trothwy ar gyfer cynnwys gweithfa ym mhrif Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer y polisi hwn fydd 1,000 o dunelli o CO2 y flwyddyn. Rhaid i unrhyw weithfa – ni waeth a yw eisoes yn rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU oherwydd gweithgareddau eraill (fel hylosgi) – sy'n awyru allyriadau proses uwchlaw'r lefel hon gael trwydded gymeradwy Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a bydd yn rhaid iddi brynu ac ildio lwfansau'r DU ar gyfer yr holl allyriadau proses CO2 sydd wedi ei awyru.

Byddai rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer yr allyriadau hyn yn cael eu hysgwyddo gan weithredwr y weithfa sy'n allyrru'r CO2 wedi ei awyru. Pan fydd awyru'n digwydd mewn terfynell prosesu olew crai neu derfynell nwy, gweithredwr y derfynell fyddai'n ysgwyddo'r rhwymedigaeth.

Ni fyddwn yn dyrannu am ddim unrhyw lwfansau’r DU ar gyfer awyru CO2, oherwydd mae’n debygol mai ychydig iawn o effaith ariannol fydd ar y sector, ac nid ydym yn rhag-weld y bydd y polisi hwn yn arwain at ddadleoli carbon.

Ni fyddwn yn addasu’r cap yn 2025 i roi cyfrif am yr allyriadau yn y polisi hwn. Fel y nodwyd uchod, mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU wedi ymgynghori ar gysoni cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU â thrywydd sero net, ac mae wedi cytuno i osod y cap ar frig yr ystod gyson â sero net yr ymgynghorwyd arni. Byddai cynyddu’r cap i gynnwys nifer bach o allyriadau er mwyn rhoi cyfrif am y CO2 wedi ei awyru o'r sector olew a nwy i fyny’r gadwyn yn mynd â’r cap y tu hwnt i’r ystod yr ymgynghorwyd arni. Felly, nid ydym yn bwriadu addasu’r cap ymhellach i roi cyfrif am CO2 wedi ei awyru gan ein bod eisoes yn bwriadu deddfu i gysoni’r cap â thrywydd cyson â sero net yn 2024.

Rydym yn cydnabod bod rhoi digon o rybudd i’r diwydiant baratoi ar gyfer newidiadau i rwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn werthfawr, ac felly byddwn yn cyflwyno’r rhwymedigaeth hon o 1 Ionawr 2025 ymlaen. Bydd angen adrodd ar allyriadau ar gyfer 2025 ac ildio lwfansau erbyn mis Ebrill 2026.

## Cais am Dystiolaeth ar Fethan

### Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Gwnaethom gais am dystiolaeth ar syniadau polisi cynnar ynghylch cynnwys allyriadau methan o’r sector olew a nwy i fyny’r gadwyn yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Roeddem yn cynnig y byddai rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn cael eu hysgwyddo gan weithredwr y weithfa sy’n allyrru methan wedi ei awyru, yn unol â Gorchymyn presennol Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 (“Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU”). Dywedom hefyd y bydd angen gosod trothwy isaf o bosibl ar gyfer adrodd ar fethan wedi ei awyru.  Byddai’r trothwy yn pennu pa weithfeydd a faint o allyriadau fyddai’n dod o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Roeddem hefyd yn cynnig y gellid cyflwyno’r newidiadau hyn o fis Ionawr 2026 ymlaen, gyda data monitro, adrodd a dilysu yn cael ei gyflwyno yn yr un cyfnod â’r ceisiadau ar gyfer yr ail gyfnod o ddyraniadau am ddim (canol 2024) sy’n cynnwys data sylfaenol o gyfnod 2019-2023. Fodd bynnag, roeddem wedi dweud y byddwn yn ail-ymgynghori cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol, a dim ond am dystiolaeth a barn y diwydiant yr oeddem wedi gofyn y tro hwn.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **80) Ydych chi'n cytuno â'r ffynonellau o fethan o olew a nwy uwch o awyru, ffaglu oer, slip methan, allyriadau sy'n dianc, ac allyriadau proses eraill? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**81) Sut y gellid gwneud gwaith Monitro, Adrodd a Dilysu cywir ar allyriadau methan o'r ffynonellau a nodir uchod? Yn arbennig, sut y gallai slip methan ac allyriadau sy'n dianc gael eu mesur neu eu hamcangyfrif yn gywir?** |

**82) Ydych chi'n cytuno y gallai'r Cynllun Gweithredu ar Fethan gael ei ddefnyddio i gefnogi a darparu data ar gyfer Monitro, Adrodd a Dilysu? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**

**83) Sut y dylai allyriadau methan gael eu trosi'n CO2 gan ddefnyddio safon gyffredin neu ddull arall? Yn eich ymateb, ystyriwch Botensial Cynhesu Byd-eang ac oes atmosfferig.**

**84) Ydych chi'n cytuno â'r dull a amlinellir uchod, o ran pwynt rhwymedigaeth ac amseriadau? (Ydw/Nac Ydw) Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.**

**85) Pa drothwy, os o gwbl, sy'n addas ar gyfer cynnwys methan o olew a nwy uwch yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU? Esboniwch eich ymateb.**

**86) Sut y byddai cynnwys methan o allyriadau olew a nwy uwch yn cymell newid ymddygiad a/neu ddatgarboneiddio?**

**87) Pa sectorau masnach eraill, os o gwbl, sy'n awyru methan? Beth yw'r nifer tebygol o osodiadau a maint allyriadau? A ddylai'r cynigion hyn fod yn gymwys i'r sectorau hyn? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.**

### Crynodeb o’r Ymatebion

Roedd 10 (53%) o’r 19 o ymatebwyr i gwestiwn 80 yn cytuno â’r ffynonellau methan a nodwyd, sef awyru, ffaglu oer, slip methan, allyriadau sy'n dianc, ac allyriadau proses eraill. Hefyd, nododd pedwar ymatebydd (21%) ffynonellau eraill o fethan y dylid eu hystyried.

Mynegodd pedwar ymatebydd (21%) eu gwrthwynebiad i gynnwys ffynonellau methan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU drwy nodi bodolaeth y Cynllun Gweithredu ar Fethan a’r risg o drosglwyddo costau i ddefnyddwyr. Hefyd, roedd ymatebwyr eraill yn dadlau y dylai CO2 barhau’n brif ffocws i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU er mwyn osgoi rhoi baich rheoleiddio ychwanegol ar weithredwyr nad yw eu cystadleuwyr rhyngwladol yn gorfod cydymffurfio ag ef o bosibl.

Wrth ymateb i gwestiwn 81, awgrymodd 10 o’r 14 ymatebydd (71%) y gellid defnyddio’r methodolegau monitro a’r prosesau monitro, adrodd a dilysu presennol i wahanol raddau. Awgrymodd pedwar ymatebydd (29%) nad oes modd mesur allyriadau methan gan ddefnyddio'r systemau monitro presennol, naill ai oherwydd ei bod yn anodd mesur yr allyriadau’n gywir neu oherwydd y byddai’n costio gormod i osod y dechnoleg angenrheidiol. Awgrymodd ymatebwyr eraill fod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn anaddas, ac y gallai ymyriadau sy’n llai dibynnol ar ddata fod yn fwy priodol.

Roedd chwech o bob 10 ymatebydd (60%) yn cytuno â chwestiwn 82, a oedd yn gofyn a oedd ymgyngoreion yn cytuno y gellid defnyddio’r Cynllun Gweithredu ar Fethan i gefnogi a darparu data at ddibenion monitro, adrodd a dilysu.

Wrth ymateb i gwestiwn 83, roedd 10 o blith 19 ymatebydd (53%) o blaid defnyddio Potensial Cynhesu Byd-eang i drosi allyriadau methan i'r hyn sy'n cyfateb iddo o ran CO2, ac awgrymodd dau ymatebydd nad oedd trosi i CO2 yn gwbl angenrheidiol, ac y gellid defnyddio mecanwaith prisio ar wahân ar gyfer allyriadau methan yn lle hynny.

Roedd cwestiwn 84 yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â’r dull a amlinellwyd o ran pwynt rhwymedigaeth ac amseriadau, a chafwyd 14 ymateb. Roedd wyth ymatebydd yn cytuno (57%), pedwar yn anghytuno (29%), a dau yn niwtral (14%). O blith y rhai a oedd yn anghytuno, roedd (14%) yn dadlau bod y polisi’n cael ei gyflwyno’n rhy fuan a mynegwyd pryder na fyddai dyddiadau gorfodi 2024 a 2026 yn rhoi digon o amser iddynt addasu nac i ddilysu data. Roedd ymatebwyr eraill yn annog mwy o weithredu a fyddai’n lleihau allyriadau’n gyflymach na'r Cynllun Gweithredu ar Fethan, yn gofyn am eglurder neu ragor o wybodaeth ynghylch y diffiniad o fethan wedi ei awyru, ac yn mynegi dewisiadau o ran defnyddio ffactorau allyriadau y mae’r diwydiant wedi cytuno arnynt.

O blith y naw ymateb i gwestiwn 85, a oedd yn gofyn am awgrymiadau am drothwy addas ar gyfer cynnwys methan o'r sector olew a nwy i fyny’r gadwyn, dim ond pump (56%) oedd yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys 1,000 o dunelli y flwyddyn, y dylid gosod y trothwy mor isel ag sy’n ymarferol bosibl, neu y dylai’r trothwy gynnwys o leiaf 80% o’r allyriadau.

Cawsom 13 ymateb i gwestiwn 86. Dywedodd wyth ymatebydd (62%) y byddai cynnwys methan o allyriadau olew a nwy i fyny’r gadwyn yn cymell newid ymddygiad a datgarboneiddio, oherwydd y cymhelliad ariannol i leihau allyriadau methan. Byddai hyn yn arwain at welliannau mewn technoleg, rheolaethau methan, ac arferion rheoli allyriadau.

Awgrymodd tri ymatebydd (23%) y byddai cynnwys methan o allyriadau olew a nwy i fyny’r gadwyn yn arwain at ychydig iawn o newid. Roedd eu rhesymeg yn amrywio ond yn cynnwys y dadleuon bod Strategaeth Awdurdod Pontio Môr y Gogledd (NSTA) (a oedd yn arfer cael ei alw'n Awdurdod Olew a Nwy (OGA)) eisoes yn sbarduno newid, y byddai’r lefel fach o allyriadau yn ei gwneud yn anodd cyfiawnhau unrhyw fuddsoddiad, ac y byddai cynnwys methan o allyriadau olew a nwy i fyny’r gadwyn yn arwain at ddatgomisiynu cyfleusterau olew a nwy yn unig, ac felly at broblemau o ran sicrwydd y cyflenwad.

Roedd tri is-gwestiwn i gwestiwn 87, ac felly daeth amrywiaeth o ymatebion i law. Cafwyd 11 ymateb. Dywedodd pedwar ymatebydd (36%) fod awyru methan yn arfer cyffredin ym myd amaeth, mewn prosesau hylosgi, wrth drin gwastraff biolegol, ac ym maes gweithgynhyrchu cemegol.

O blith y sylwadau cyffredinol a ddaeth i law ar gyfer y cwestiwn hwn, dywedodd pum ymatebydd (45%) bod rhaid i unrhyw broses i ehangu’r cwmpas arwain at gynnydd cymesur yn y trywydd a’r cap allyriadau cyffredinol.

## Ymateb yr Awdurdod

Byddai cynnwys mwy o’r sector olew a nwy i fyny’r gadwyn yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn sbardun ychwanegol i leihau nwyon tŷ gwydr ar draws y diwydiant, yn

enwedig yn achos allyriadau methan, o ystyried y Potensial uchel o safbwynt Cynhesu Byd-eang mewn cymhariaeth â CO2.

Fel Cais am Dystiolaeth, roeddem yn awyddus i gael barn rhanddeiliaid ar ymarferoldeb ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys allyriadau methan o sectorau olew a nwy i fyny'r gadwyn a sectorau masnach eraill, ac i glywed sut gallai ehangu o'r fath weithio gyda pholisïau cyfredol neu arfaethedig yn y maes hwn neu effeithio arnynt, fel y Cynllun Gweithredu ar Fethan.

Rydym yn cydnabod y gallai ehangu i nwyon tŷ gwydr newydd fod yn ddatblygiad cymhleth, ac yn cydnabod yn llwyr yr ymatebion hynny a oedd yn galw arnom i ystyried ymhellach ffynonellau o allyriadau methan, yn ogystal â'r rhai a ofynnodd am ddiffiniad cliriach o awyru methan.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi hwn ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau maes o law. Rydym yn falch o gydweithio â'r holl randdeiliaid a derbyn eu mewnbwn, ac yn eu hannog i ymgysylltu pan fyddwn yn ymgynghori ymhellach.

## Cais am Dystiolaeth ar awyru a ffaglu am resymau diogelwch

### Crynodeb o'r Cais am Dystiolaeth

O dan reolau cyfredol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mae lwfansau am ddim yn cael eu dyrannu ar gyfer ffaglu am resymau diogelwch. Gofynnwyd am dystiolaeth ynghylch sut dylid diffinio awyru methan a ffaglu am resymau diogelwch at ddibenion dyraniadau am ddim, er mwyn sicrhau mai dim ond ffaglu ac awyru sy'n angenrheidiol am resymau diogelwch sy'n derbyn dyraniadau am ddim. Byddai hyn yn sicrhau nad oes cymhelliant ar gyfer ymddygiad anniogel, ac yn osgoi cymhellion gwrthnysig i ffaglu er mwyn cael dyraniad am ddim.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **88) A oes angen rhywfaint o ffaglu oer ac awyru am resymau diogelwch? (Oes/Nac Oes) Os oes, sut y gallem nodi'r ffaglu oer ac awyru methan sy'n digwydd am resymau diogelwch yn wahanol i ffaglu oer ac awyru fel mater o drefn? Er enghraifft, a ddylai fod yn gyson â'r Categorïau o Ffaglu ac Awyru a ddiffinnir gan yr Awdurdod Olew a Nwy?**<br><br>**89) A ddylid dyrannu lwfansau am ddim ar gyfer ffaglu oer ac awyru methan diogelwch? (Dylid/Na ddylid) Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.**<br><br>**90) Sut y dylai ffaglu diogelwch gael ei ddehongli at ddibenion dyraniadau am ddim?** |

### Crynodeb o'r Ymatebion

Cawsom 17 ymateb i gwestiwn 88. Dywedodd chwech o'r ymatebwyr (35%) fod awyru a ffaglu oer yn angenrheidiol am resymau diogelwch. Roedd pum ymatebydd (29%) yn honni bod awyru a ffaglu methan eisoes wedi lleihau oherwydd costau uchel nwy. Awgrymodd dau ymatebydd (12%) y gallem ddefnyddio diffiniadau Banc y Byd, neu NSTA, i wahaniaethu

rhwng ffaglu am resymau diogelwch a ffaglu oer. O blith gweddill yr ymatebion, cynigiodd tri ymatebydd wybodaeth a oedd yn benodol i sector neu safle, ar gyfer petrocemegau, y system drawsyrru genedlaethol, ac olew a nwy ar y môr.

Cawsom 17 ymateb i gwestiwn 89. Atebodd chwe ymatebydd drwy ddweud y ‘dylid’ (35%), dywedodd pedwar ‘na ddylid’ (24%), a doedd saith (41%) ddim wedi ateb elfen ‘dylid/na ddylid’ y cwestiwn.  Pwysleisiodd tri ymatebydd yr angen am ddyraniadau am ddim at ddibenion diogelwch.

Fodd bynnag, dywedodd ymatebwyr eraill nad yw lwfansau am ddim yn cael eu darparu ar gyfer awyru a ffaglu oer arferol at ddibenion diogelwch mewn sectorau eraill, ac felly na ddylid eu rhoi i’r sector olew a nwy. Roedd pryderon hefyd y gallai rhoi lwfansau am ddim ar gyfer olew a nwy leihau’r nifer sydd ar gael i sectorau eraill, gan gynyddu’r siawns o ddadleoli carbon.

Roedd dau ymatebydd (12%) yn cytuno â rhoi lwfansau am ddim ar gyfer awyru a ffaglu oer am resymau diogelwch, ond gan ychwanegu y dylid cadarnhau’r rhesymau diogelwch neu y dylid lleihau’r dyraniadau am ddim dros amser er mwyn cymell dulliau mwy arloesol o ddelio ag allyriadau lle bo hynny’n briodol.

Er bod 11 o ymatebion wedi dod i law ar gyfer cwestiwn 90, ychydig iawn atebodd y cwestiwn. Dywedodd un ymatebydd (9%) y dylai ffaglu am resymau diogelwch gael ei ddiffinio fel gwaith cynnal a chadw neu argyfwng, fel cael gwared ar wasgedd neu ollwng ar raddfa fawr. Dywedodd ymatebydd arall (9%) y dylai diffiniadau fod yn gyson â diffiniadau Banc y Byd ac NSTA o ffaglu diogelwch, ffaglu arferol, a ffaglu anarferol.

### Ymateb yr Awdurdod

Er bod yr Awdurdod eisiau sicrhau nad ydym yn creu cymhelliant gwrthnysig i allyrru methan drwy ffaglu ac awyru ar gyfer gweithrediadau diogel os oes opsiynau eraill, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd awyru a ffaglu am resymau diogelwch.

Rydym yn cydnabod hefyd yr angen am ddiffiniadau clir o ffaglu, awyru a ffaglu oer at ddibenion diogelwch, a’r angen i feithrin gwell dealltwriaeth o’r gwahaniaethau rhwng awyru a ffaglu arferol, ac awyru a ffaglu am resymau diogelwch. Rydym yn cydnabod y fantais glir o ystyried sut mae diffiniadau o’r fath yn cyd-fynd â phrosesau rheoleiddio presennol y diwydiant ar gyfer cydsynio ac adrodd ar ffaglu ac awyru.

Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau ar y cam hwn, ond byddwn yn adolygu’r polisi hwn yn y misoedd nesaf ac yn ail-ymgynghori maes o law.

## Cais am Dystiolaeth ar gyfer allyriadau olew a nwy i fyny’r gadwyn sy'n weddill

### Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Gofynnwyd am dystiolaeth ynghylch ymarferoldeb mesur ac archwilio’n ddibynadwy yr allyriadau o brosesau nad ydynt yn hylosgi a $N_2O$. Eglurwyd y byddai angen datblygu dulliau monitro, adrodd a dilysu ar gyfer prosesau nad ydynt yn hylosgi, ac y byddai angen ystyried yr

ymdrech sydd ei hangen. Yn achos N2O, er bod y nwy a ddefnyddir ar gyfer tanwyddau a ffaglu yn cael ei fesur, a'n bod yn gwybod beth yw cyfansoddiad nwy o ran cynnwys nitrogen, roeddem yn cydnabod bod heriau’n parhau o ran pennu faint yn union o N2O sy’n cael ei allyrru o ganlyniad i hylosgi.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **91) Ydych chi'n cytuno â'r ffynonellau sy'n weddill o allyriadau olew a nwy uwch fel prosesau nad ydynt yn hylosgi (allyriadau proses, storio terfynellau olew/nwy, llwytho olew) ac fel N2O (o hylosgi, prosesau nad ydynt yn hylosgi, a ffaglu)? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**92) Sut y gallai'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a nodir uchod gael eu mesur yn gywir? Sut y gellid eu Monitro, Adrodd a Dilysu?** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd naw ymateb i gwestiwn 91. Roedd pump (56%) yn cytuno â’r ffynonellau a enwyd, ac un yn anghytuno. Roedd tri ymatebydd (33%) yn gweld y cwestiwn hwn fel cyfle i wrthwynebu ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i gynnwys y ffynonellau sy’n weddill o allyriadau olew a nwy i fyny’r gadwyn.

Roedd ymatebion eraill yn datgan eu cefnogaeth i leihau’r allyriadau sy’n weddill o’r sector olew a nwy, eu gwrthwynebiad i ddod â nwyon wedi eu fflworeiddio i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU, a phryderon ynghylch y rhwymedigaethau a roddir ar burfeydd olew.

Cawsom wyth ymateb i gwestiwn 92. Dywedodd un ymatebydd (13%) fod prosesau monitro, adrodd a dilysu y nwyon sy’n weddill yn dal yn eu dyddiau cynnar. Ategwyd hynny gan ymatebydd arall (13%), a ddywedodd y gallai amcangyfrif sy’n seiliedig ar ymchwil academaidd fod yn opsiwn synhwyrol os nad oes gwybodaeth gywir am fonitro, adrodd a dilysu. Dywedodd ymatebwyr eraill hefyd y gellid amcangyfrif allyriadau drwy gyfrifiadau diofyn sylfaenol, mesuriadau neu samplu cyfnodol, neu amcangyfrifon peirianyddol.

Dywedodd un ymatebydd (13%) fod N2O yn cael ei fesur yn gywir gyda monitorau allyriadau parhaus ar draws y sector hylosgi, ac y gellid eu defnyddio mewn sectorau eraill sydd ag amodau rhyddhau addas.

## Ymateb yr Awdurdod

Rydym yn deall bod y rhan fwyaf o allyriadau CO2 o brosesau nad ydynt yn hylosgi yn allyriadau proses uniongyrchol sy’n cael eu rhyddhau i’r atmosffer drwy fentiau neu ffaglau heb eu tanio, a’u bod felly’n cael eu cynnwys yn sgil cynnwys CO2 wedi ei awyru fel y nodwyd uchod. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod ffynonellau eraill o allyriadau CO2 o’r sector nad ydynt yn dod o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ar hyn o bryd.

Mae’r Awdurdod yn deall y gallai’r allyriadau hyn fod yn fach iawn, ac felly y gallai fod yn anodd eu monitro, adrodd arnynt a'u dilysu. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i’r ffynonellau hyn ac yn

asesu nid yn unig ymarferoldeb dod â’r allyriadau hyn o fewn cwmpas y Cynllun, ond hefyd a fyddai'r costau monitro, adrodd a dilysu yn gymesur â nifer yr allyriadau, eu baich rheoleiddio, a’u pris carbon posibl. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau ar hyn o bryd, ond byddwn yn adolygu’r polisi hwn yn y misoedd nesaf ac yn ailymgynghori maes o law.

Yn yr un modd ag allyriadau methan, rydym yn cydnabod y Potensial uchel o safbwynt Cynhesu Byd-eang yn achos N2O wrth gymharu â CO2. Wrth ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys nwyon tŷ gwydr eraill yn y sector hwn, dylid gwneud hynny mewn ffordd ystyriol ac ar sail tystiolaeth i sicrhau bod y cynllun cyffredinol yn gadarn. Felly, rydym yn awyddus i feithrin gwell dealltwriaeth o'r ffynonellau o N2O o’r sector olew a nwy i fyny’r gadwyn.

Rydym yn nodi’r llond dwrn o ymatebwyr a ddywedodd, er bod y broses monitro, adrodd a dilysu ar gyfer nwyon tŷ gwydr ar wahân i CO2 yn dal yn ei dyddiau cynnar, y gellid gwneud hynny drwy gyfrifiadau, amcangyfrifon a samplu. Nodwn hefyd fod allyriadau N2O eisoes yn rhan o gwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU os ydyn nhw’n cael eu hallyrru o ganlyniad i gynhyrchu caprolactam, asid nitrig, asid adipig, glyocsal ac asid glyocsylig. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau ar y cam hwn, ond byddwn yn adolygu’r polisi hwn yn y misoedd nesaf ac yn ail-ymgynghori maes o law.

# Dal Defnyddio a Storio Carbon, a Chludo

## Crynodeb o'r Cynnig

Yn ogystal â chaniatáu i CO2 gael ei gludo drwy biblinellau, cynigiodd yr Awdurdod bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei ehangu i ganiatáu i CO2 gael ei gludo drwy ddulliau heblaw am biblinellau (ee, ar longau, trenau a ffyrdd) drwy eu cynnwys fel gweithgaredd a reoleiddir.

Drwy reoleiddio dulliau cludo heblaw am biblinellau, bydd gweithredwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael tynnu carbon pan fydd CO2 wedi cael ei storio’n barhaol mewn safle storio daearegol.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **93) Ydych chi'n cytuno â'r Cynnig y dylai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ehangu i ganiatáu cludo CO2 mewn ffyrdd eraill nad yw'n biblinell (e.e. morgludo, rheilffordd a ffordd)? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**94) Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i awgrymu sut y gall ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys mathau eraill o gludo CO2 effeithio ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ehangach neu feysydd polisi eraill Llywodraethau'r DU, naill ai'n gadarnhaol neu'n andwyol? Er enghraifft ystyried effaith allyriadau a gynhyrchir gan y math o gludiant a ddewisir. (Oes/Nac oes) Esboniwch eich ymateb.** |

**95) Pa strategaethau lliniaru, os o gwbl, a ddylai gael eu cymhwyso yn eich barn chi mewn perthynas ag allyriadau $CO_2$ sy'n gysylltiedig â'r holl fathau o gludo $CO_2$ ar gyfer Dal Defnyddio a Storio Carbon (ee. allyriadau llong gargo neu'r rhai sy'n gysylltiedig â gweithredu piblinellau)? Er enghraifft, gallai strategaeth liniaru gynnwys y gofyniad i'r math o gludiant a ddewisir lynu wrth safonau allyriadau, meini prawf cyfran net o allyriadau (ar ôl tynnu allyriadau o gludiant) neu feini prawf cludiant tebyg.**

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 65 o ymatebion i gwestiwn 93, gyda phob un o’r ymatebwyr yn cymeradwyo’r cynnig i ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i gydnabod dulliau o gludo $CO_2$ heblaw am biblinellau (NPT), fel llongau, trenau a ffyrdd. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi’r cynigion am ddau reswm. Yn gyntaf, dywedodd ymatebwyr fod ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys dulliau cludo heblaw am biblinellau yn hanfodol ar gyfer safleoedd ar wasgar gan nad oes ganddyn nhw fynediad at biblinellau, a bydd dulliau cludo heblaw am biblinellau yn sicrhau tegwch yn y diwydiant drwy alluogi gweithredwyr sy’n defnyddio dulliau cludo heblaw am biblinellau i dynnu carbon. Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai galluogi dulliau cludo heblaw am biblinellau yn golygu mwy o waith Dal, Defnyddio a Storio Carbon ar draws y diwydiant, ac y byddai hefyd yn sbarduno gwaith pellach i ddatblygu technoleg Dal, Defnyddio a Storio Carbon ac yn cyfrannu at ddatgarboneiddio.

Wrth ateb cwestiwn 94, roedd ymatebwyr yn cydnabod y byddai dulliau cludo heblaw am biblinellau yn effeithio ar Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU a meysydd polisi ehangach y tu hwnt i'r Cynllun hwnnw. O blith 65 o ymatebwyr, dywedodd tua hanner ohonynt y bydd cydnabod dulliau cludo heblaw am biblinellau yn helpu i ddatblygu’n ehangach dechnolegau a pholisïau Dal, Defnyddio a Storio Carbon, yn cynnig cyfleoedd gwych i ddiwydiant ddatgarboneiddio, ac yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu prosiectau Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr y tu hwnt i glystyrau diwydiannol. Dywedodd llawer o ymatebwyr y bydd dulliau cludo heblaw am biblinellau yn hanfodol ar gyfer datgarboneiddio safleoedd biomas a chyfleusterau Ynni o Wastraff, gan fod y Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi argymell targed i bob safle biomas ac Ynni o Wastraff ystyried opsiynau Dal a Storio Carbon erbyn y 2030au i sicrhau eu bod yn dal yn cyd-fynd ag uchelgeisiau sero net y DU. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon mai dim ond safleoedd biomas a chyfleusterau Ynni o Wastraff gyda thechnegau Dal a Storio Carbon wedi eu gosod fyddai’n cael eu hystyried yn opsiynau ymarferol ar gyfer dosbarthu pŵer a buddsoddiad yn y dyfodol. Ar ben hynny, awgrymodd 31 o ymatebwyr (48%) y byddai cydnabod dulliau cludo heblaw am biblinellau yn gallu helpu i ddatgarboneiddio dulliau cludo heblaw am biblinellau yn y tymor hir drwy, er enghraifft, hybu’r broses o ddatblygu a defnyddio dulliau morgludo nad ydynt yn allyrru carbon a newid tanwydd.

Mewn perthynas â chwestiwn 95, dywedodd 35 (83%) na ddylai’r Awdurdod ddefnyddio unrhyw strategaethau lliniaru mewn perthynas ag allyriadau $CO_2$ sy’n gysylltiedig â phob math o ddulliau cludo $CO_2$ at ddibenion dal a storio carbon. Pwysleisiodd ymatebwyr nad cyfrifoldeb yr Awdurdod oedd gosod strategaethau lliniaru y dylai Adrannau Eraill y Llywodraeth neu ysgogiadau polisi eraill fod yn gyfrifol amdanynt er mwyn lliniaru allyriadau cludo. Roedd rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at bolisïau presennol fel y Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant

Adnewyddadwy, neu wedi awgrymu cysoni â meini prawf cynaliadwy a sefydledig presennol cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy a Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy.

Dywedodd ymatebwyr hefyd fod perygl i’r Awdurdod gyfrif ddwywaith neu greu fframwaith cosbau dwbl a chreu cymhlethdod ychwanegol pe bai strategaethau lliniaru ychwanegol yn cael eu cyflwyno. Ar ben hynny, dywedodd ymatebwyr nad oedd angen strategaethau lliniaru ychwanegol oherwydd bod allyriadau trafnidiaeth eisoes yn gostwng, ac y byddan nhw'n parhau i ostwng wrth i’r defnydd o danwyddau adnewyddadwy gynyddu ac wrth i dechnolegau newydd gael eu datblygu ymhellach. Awgrymodd pedwar ymatebydd (9%) y dylai’r Awdurdod ystyried opsiynau i liniaru allyriadau sy’n deillio o ddulliau cludo heblaw am biblinellau. Daeth yr ymatebion hyn yn bennaf gan Gyrff Anllywodraethol neu wasanaethau ymgynghori, ac roedden nhw’n cynnwys cynigion am ddull gweithredu net, gosod safonau allyriadau ar gyfer dulliau cludo heblaw am biblinellau, neu gynnwys allyriadau cludo cyffredinol yng nghyfrifiad cyffredinol CO2 wedi ei storio.

Darparodd rhai ymatebwyr ddata ar allyriadau cludo. Dywedodd un ymatebydd y byddai allyriadau o daith gron gan gerbyd nwyddau trwm sy’n defnyddio diesel yn cynrychioli tua 1-3% o’r CO2 sy’n cael ei gludo, gan ddibynnu ar y pellter a deithiwyd. Cyfeiriodd ymatebydd arall at ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Diogelu Ffynonellau Ynni a Sero Net ac a gynhaliwyd gan Element Energy, sy’n awgrymu y gallai allyriadau morgludo ar gyfer Dal a Storio Carbon gynrychioli tua 2% o’r CO2 sy’n cael ei gario[42].

Nododd ymatebwyr hefyd feysydd polisi lle dylai’r Awdurdod fod yn fwy eglur, neu feysydd lle dylid ystyried datblygu polisi ymhellach. Dywedodd ugain y cant o’r ymatebwyr ar draws pob sector eu bod yn dymuno i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU gydnabod gwahanol ffyrdd o ddefnyddio CO2 ar wahân i’w storio’n barhaol mewn safle storio daearegol. Soniodd ymatebwyr yn y sector Bwyd a Diod am CO2 gradd bwyd, tra soniodd ymatebwyr o’r sectorau Cemegau a Chynhyrchion Mwynol am y broses o fwyneiddio a mewngapsiwleiddio, ac am ffyrdd eraill posibl o ddefnyddio CO2 mewn economi gylchol. Hefyd, dywedodd rhai ymatebwyr fod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn un o blith nifer o rwystrau rheoleiddiol sy’n atal CO2 rhag cael ei storio a’i gludo ar draws ffiniau.

## Ymateb yr Awdurdod

Rydym yn croesawu’r gefnogaeth i’r cynnig i gydnabod NPT i gludo CO2. Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid rheoleiddio allweddol i ddod o hyd i’r ffordd orau o integreiddio dulliau cludo heblaw am biblinellau yn fframwaith presennol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Y bwriad a’r nod fydd galluogi cyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, sy’n defnyddio dulliau cludo heblaw am biblinellau at ddibenion storio CO2, i dynnu carbon. Fel y dywedodd ymatebwyr, bydd cydnabod dulliau cludo heblaw am biblinellau yn hollbwysig er mwyn annog mwy o ddefnydd o dechnolegau dal carbon y tu hwnt i’r clystyrau diwydiannol, ac i sbarduno rhagor o ddatgarboneiddio diwydiannol.

42 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/761762/BEIS_Shipping_CO2.pdf

Mae’r Awdurdod yn nodi bod y rhan fwyaf (91%) o’r ymatebwyr wedi dweud nad ydynt yn credu y dylai’r Awdurdod gyflwyno strategaethau lliniaru ychwanegol i fynd i’r afael ag allyriadau CO2 sy’n deillio o ddulliau cludo heblaw am biblinellau. Fodd bynnag, er mwyn darparu cymhelliant cadarn o ran pris carbon, mae’r Awdurdod yn credu y dylai allyriadau sy’n digwydd yn sgil cludo CO2 – fel allyriadau sy’n deillio o longau, rheilffyrdd a ffyrdd ac o gywasgu CO2 – fod yn rhwym wrth safonau allyriadau tebyg i ddulliau cludo drwy biblinellau. Mae perygl y byddai peidio â gwneud hynny’n creu cymhellion gwrthnysig i gludo CO2 gan ddiystyru’r CO2 sy’n cael ei allyrru gan y dull cludo ei hun, ac felly ni waeth a oes unrhyw arbediad CO2 net ai peidio. Y cam nesaf y mae’r Awdurdod wedi cytuno arno yw y bydd yn ystyried opsiynau ynghylch sut gellir ymdrin ag allyriadau dulliau cludo heblaw am biblinellau wrth eu cynnwys drwy fodel rheoleiddio priodol, gyda’r nod o roi’r polisi ar waith erbyn canol y 2020au.

Rydym yn nodi’r pryderon a gyflwynwyd gan y diwydiant ynghylch y rhwystrau rheoleiddiol presennol mewn perthynas â throsglwyddo CO2 ar draws ffiniau, ac rydym yn cydnabod bod dadl gref dros ganiatáu i CO2 gael ei storio a’i gludo’n rhyngwladol, a chefnogi twf technoleg Dal a Storio Carbon er mwyn cyrraedd sero net. Felly, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu’r fframweithiau rheoleiddio priodol i gefnogi datblygiad dulliau cludo heblaw am biblinellau ac ymdrechion datgarboneiddio rhanbarthol yn y DU a chyda phartneriaid rhyngwladol. Rydym hefyd yn cydnabod sylwadau’r ymatebwyr ynghylch ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gydnabod gwahanol ffyrdd o ddefnyddio CO2 y tu hwnt i’w storio’n barhaol mewn safle storio daearegol. Bydd yr Awdurdod yn cydweithio â’r diwydiant er mwyn deall yn well pa fathau o ffyrdd o ddefnyddio carbon allai fod yn briodol i’w cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU; mae hyn yn dibynnu’n bennaf ar sicrhau nad yw carbon yn cael ei allyrru yn ddiweddarach ac, os bydd yn cael ei allyrru, bod y carbon yn cael ei gofnodi’n llawn.

# Biomas

## Crynodeb o'r Cynnig

Yn yr ymgynghoriad, bu’r Awdurdod yn ymgynghori ar gynigion i ddefnyddio meini prawf cynaliadwyedd newydd ar gyfer tanwyddau biomas sy’n cael eu hylosgi yn holl weithfeydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Gan mai dim ond i fiohylifau y mae’r meini prawf cynaliadwyedd presennol yn berthnasol, roeddem wedi datgan ein bwriad i weithredu meini prawf a oedd yn cynnwys pob math o fiomas (solet, nwyol a hylif). Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithfeydd gadarnhau a yw pob math o fiomas sy’n cael ei hylosgi yn cyrraedd safon newydd ar gyfer cynaliadwyedd, rhoi gwybod am unrhyw allyriadau, a phrynu ac ildio lwfansau ar gyfer allyriadau biomas nad ydynt yn bodloni’r meini prawf hyn. Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ynghylch pa feini prawf i’w cymhwyso, ynteu a ddylid datblygu meini prawf penodol ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Cynigiodd yr Awdurdod bod rhaid i weithfeydd ac unedau hylosgi sy’n cynhyrchu ynni (pŵer, gwres ac ati) drwy hylosgi biomas yn unig sicrhau eu bod ond yn llosgi biomas sy’n bodloni’r

meini prawf cynaliadwyedd perthnasol er mwyn cael eu hesemptio o Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Fe wnaethom hefyd wahodd safbwyntiau ar y berthynas rhwng Ysbytai ac Allyrwyr Bach a'r meini prawf cynaliadwyedd a gynigiwyd ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Awgrymodd yr Awdurdod ein bod yn mynnu bod y meini prawf cynaliadwyedd yn berthnasol i Ysbytai ac Allyrwyr Bach at ddibenion (a) asesu cymhwysedd i fod yn Ysbyty neu’n Allyrrydd Bach yn yr ail gyfnod dyrannu, (b) cyfrifo targedau allyriadau ac (c) penderfynu a yw allyriadau adroddadwy gweithfa yn fwy na’r targedau allyriadau. Dim ond i fiomas sy’n bodloni’r meini prawf cynaliadwyedd y byddai ffactor allyriadau o sero yn berthnasol. Roeddem ni’n cynnig bod y newid hwn yn dod i rym o ddechrau’r ail gyfnod dyrannu ymlaen.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **96) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ein bod yn gweithredu meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer biomas solet, hylif a nwyol ar gyfer gosodiadau? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**97) Pa feini prawf cynaliadwyedd y dylai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU eu cymhwyso at fiomas solet, hylif a nwyol (y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Contractau Gwahaniaeth ac ati), ac a fyddai unrhyw werth mewn datblygu meini prawf sy'n benodol i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU? Esboniwch eich rhesymeg.**<br><br>**98) Beth yw eich barn ynghylch y cynnig, er mwyn i osodiadau ac unedau hylosgi sydd ond yn llosgi biomas gael eu hesemptio o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, y dylai gweithredwyr ond defnyddio biomas cynaliadwy?**<br><br>**99) Beth yw eich barn ynghylch yr awgrym, o ddechrau'r ail gyfnod dyrannu yn y cynllun Ysbytai ac Allyrwyr Bach, y caiff meini prawf cynaliadwyedd eu cymhwyso at fiomas at ddiben asesu cymhwysedd, wrth gyfrifo targed allyriadau ar gyfer y gosodiad ac wrth bennu a yw allyriadau adroddadwy gosodiad yn fwy na'r targed allyriadau?**<br><br>**100) Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ynghylch sut y gall cymhwyso meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer biomas solet a nwyol yn y DU fel y'i cynigir effeithio ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU a/neu feysydd polisi eraill? (Oes/Nac Oes) Os oes, rhowch cymaint o fanylion â phosibl.**<br><br>**101) Wrth fynd ymlaen, a oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried yn eich barn chi o ran biomas yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU?** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

O blith y 66 o ymatebion a gawsom i gwestiwn 96, roedd 59 o ymatebwyr (89%) yn cytuno â’r cynnig i weithredu meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer biomas solet, hylif a nwyol ar gyfer gweithfeydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd 46 o ymatebwyr (70%) yn cydnabod yn

benodol bod angen meini prawf cynhwysfawr ar gyfer pob math o fiomas i sicrhau bod porthiannau wedi cael eu caffael yn gynaliadwy.

Cawsom 53 ymateb i'r cwestiwn ynghylch pa feini prawf cynaliadwyedd y dylem eu gweithredu. Dyma'r pedwar awgrym a grybwyllwyd amlaf: meini prawf cynaliadwyedd newydd ar gyfer gweithredwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (10 ymatebydd, 19%); cysoni neu ddefnyddio meini prawf y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (10 ymatebydd, 19%); egwyddorion neu feini prawf cynaliadwyedd unedig neu gyson ar draws y DU (11 ymatebydd, 21%); a chais ehangach i ddefnyddio meini prawf cynaliadwyedd sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, heb ddweud pa feini prawf sydd eisoes yn bodoli y dylid eu defnyddio (16 o ymatebwyr, 30%).

Roedd 37 o blith 54 o ymatebwyr (69%) yn cytuno â'r cynnig yng nghwestiwn 98 i esemptio dim ond gweithfeydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU sydd ond yn llosgi biomas sy'n bodloni ein meini prawf cynaliadwyedd, gan gyfeirio at effeithiau negyddol biomas anghynaladwy (y dylid annog pobl i beidio â'i ddefnyddio), natur carbon niwtral biomas cynaliadwy, a phwysigrwydd defnyddio dim ond biomas cynaliadwy ar gyfer ynni. Roedd ymatebion eraill yn tynnu sylw at gefnogaeth i esemptio allyriadau o wastraff pren a phryderon ynghylch hynny, ac yn cynnwys galwadau i'r meini prawf beidio â bod yn fwy llym na'r Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (UE) 2018/2001[43] (REDII), fel nad yw safleoedd y DU o dan anfantais gystadleuol wrth gymharu â'u safleoedd cyfatebol yn yr UE. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai meini prawf ehangach Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gynnwys meini prawf ar fioamrywiaeth a choedwigaeth.

O blith y 26 o ymatebwyr i gwestiwn 99, roedd 18 (69%) yn cytuno â'r awgrymiadau ynghylch meini prawf cynaliadwyedd a chynllun Ysbytai ac Allyrwyr Bach. Gwnaed amrywiaeth o sylwadau eraill, gan gynnwys ceisiadau am ddadansoddiad pellach o gadwyni cyflenwi biomas, a phwysigrwydd egluro pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio gyntaf, cyn mynd i'r afael â rhyngweithiadau gyda'r Ysbytai ac Allyrwyr Bach.

Cawsom 25 ymateb i gwestiwn 100, ond dim ond wyth ymatebydd (32%) ddywedodd fod ganddyn nhw dystiolaeth ynghylch effaith bosibl meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer biomas solet a nwyol ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU neu feysydd polisi eraill. Roedd chwech o'r ymatebwyr (24%) yn cytuno y dylid cael cysondeb rhwng y meini prawf cynaliadwyedd presennol a'r mecanweithiau adrodd a ddefnyddir ym meysydd polisi eraill y DU, a'r rhai i'w rhoi ar waith yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Byddai hyn yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar weithredwyr, ac yn sicrhau dull cyson o ymdrin â chynaliadwyedd ar draws economi'r DU.

Cawsom 40 ymateb i gwestiwn 101. Oherwydd natur eang y cwestiwn, cawsom amrywiaeth eang o ymatebion. Gofynnodd 10 ymatebydd (25%) i ni ystyried y gwaith hwn ochr yn ochr â gwahanol bolisïau eraill, sef y Strategaeth Biomas; y penodau eraill yn yr ymgynghoriad ar wastraff, trothwyon, a Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr; a thargedau eraill ar gyfer lleihau nwyon tŷ

[43] Cyfarwyddeb (UE) 2018/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 11 Rhagfyr 2018 ynghylch hybu'r defnydd o ynni o ffynonellau adnewyddadwy (ail-lunio).

gwydr sy’n seiliedig ar natur. Nodwyd yn glir y dylid ceisio cael dull cyson ar gyfer meini prawf cynaliadwyedd ar draws fframweithiau polisi.

Gofynnodd wyth ymatebydd (20%) am system ardystio neu gredyd ar gyfer biomethan, bioCO2, biodanwyddau neu hydrogen carbon isel. Dywedwyd y gallai systemau o’r fath sicrhau arbedion o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr heb achosi newid mawr, yn ogystal â helpu gwahanol safleoedd i roi’r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil ac i droi at opsiynau eraill carbon isel.

## Ymateb yr Awdurdod

Rydym yn falch o gael cefnogaeth y rhan fwyaf o’r ymatebwyr i weithredu meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer biomas solet a nwyol. Ein nod yw gweithredu meini prawf sy’n cyd-fynd â meysydd polisi eraill y DU, fel polisi cynaliadwyedd biomas yn y sectorau gwres a phŵer.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu meini prawf cynaliadwyedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, gan fod y meini prawf a ddefnyddir ym mholisïau eraill y DU yn cael eu haddasu ar gyfer y sectorau penodol y maent yn berthnasol iddynt. Felly, fel polisi traws-sector, byddai angen i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU gael ei feini prawf cynaliadwyedd ei hun. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cysoni meini prawf cynaliadwyedd Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, cymaint ag y bo modd, â’r meini prawf a ddefnyddir mewn meysydd polisi eraill er mwyn sicrhau dull unedig i ymdrin â biomas ar draws sectorau a pholisïau.

Mae meini prawf cynaliadwyedd Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn bwysig er mwyn datgarboneiddio’n effeithiol, gan y byddant yn rhoi cymhelliad ariannol i weithredwyr sicrhau bod pob math o fiomas (solet, hylif a nwyol) sy’n cael ei hylosgi yng ngweithfeydd Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn glynu wrth safon gyffredin ar gynaliadwyedd. Felly, dylai unrhyw fathau anghynaladwy o fiomas nad ydynt yn bodloni’r meini prawf fod yn agored i bris carbon.

Ar ôl ystyried yr amrywiaeth eang o ymatebion i’n hymgynghoriad, rydym ni o’r farn bod effeithiau y dylai’r Awdurdod eu hasesu ymhellach cyn y gellir gweithredu’r meini prawf cynaliadwyedd. Mae’r effeithiau hyn yn ymwneud yn bennaf â’r canlyniadau gweithredol ac ariannol i weithredwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU o ganlyniad i weithredu meini prawf cynaliadwyedd ar gyfer tanwyddau biomas nwyol a solet.

Rydym yn cydnabod bod llawer o ymatebwyr eisiau i feini prawf Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU fod yn gydradd â’r meini prawf cynaliadwyedd eraill a ddefnyddir ar draws economi’r DU, ac â’r meini prawf sy’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn System Masnachu Allyriadau’r UE er mwyn lleihau unrhyw anfanteision cystadleuol posibl rhwng gweithredwyr yn y DU ac yn yr UE.

Felly, mae’r Awdurdod yn bwriadu cysoni meini prawf cynaliadwyedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU â’r meini prawf a ddefnyddir ar hyn o bryd yn REDII. Bydd hyn yn cysoni meini prawf cynaliadwyedd Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU â’r meini prawf cynaliadwyedd a ddefnyddir ym mholisïau eraill y DU, fel y Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy a’r Cynllun Cymorth ar gyfer Nwyon Gwyrdd, sy’n golygu y bydd diwydiannau perthnasol yn y DU eisoes yn weddol gyfarwydd â’r meini prawf rydym yn bwriadu eu gweithredu.

Er na fydd unrhyw newidiadau’n cael eu gwneud i’r maes polisi hwn ar hyn o bryd, ein nod yw ymgynghori eto ar gynllun llawn y polisi ar gyfer meini prawf cynaliadwyedd biomas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU cyn diwedd 2023. Rydym yn awyddus i egluro i’r farchnad ein bwriad i gysoni meini prawf cynaliadwyedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU â’r meini prawf a ddefnyddir ym mholisïau eraill y DU, ond rydym hefyd yn dymuno ymgynghori eto cyn penderfynu’n derfynol ar gynllun y polisi a'r manylion ynghylch sut byddai hyn yn gweithio’n ymarferol. Bydd ymgynghoriad arall yn ein galluogi ni i ddeall ac ystyried yn well yr effeithiau posibl ar y farchnad. Rydym hefyd eisiau i weithredwyr fod yn ymwybodol mai 2025 fyddai’r dyddiad dechrau cynharaf ar gyfer gweithredu’r meini prawf newydd.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am gynllun ardystio biomethan cydnaws â Chynllun Masnachu Allyriadau’r DU a fyddai’n esemptio allyriadau biomethan sy’n bodloni safonau cynaliadwyedd penodol. Rydym yn cydnabod y rôl y bydd biomethan yn ei chwarae o ran cyflawni sero net. Er bod cynlluniau cymorth eraill ar gael gan y llywodraeth ar gyfer biomethan, rydym yn cydnabod sut gall Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU gefnogi’r gwaith o ddatblygu technolegau carbon isel fel rhan o becyn o fesurau i leihau allyriadau. Byddwn yn ystyried y berthynas rhwng biomethan a Chynllun Masnachu Allyriadau’r DU, ac rydym yn disgwyl y byddwn yn amlinellu rhagor o fanylion maes o law.

# Cais am Dystiolaeth ar gyfer trothwy 20MWth a throthwy cydgrynhoi 3MWth

## Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Gofynnodd yr Awdurdod am dystiolaeth ynghylch a yw’r trothwyon 20MWth a 3MWth presennol yn achosi effeithiau niweidiol.

| Cwestiynau |
|---|
| **102) A oes gennych ddata ar nifer, graddau a/neu lefel allyriadau gosodiadau na chânt eu monitro ar hyn o bryd o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU oherwydd y ddau drothwy? (Oes/Nac Oes) Os oes, rhowch y dystiolaeth hon lle bo modd.**<br><br>**103) A oes gennych ddata ar gostau lleihau gosodiadau sy'n talu'r pris carbon a'r rhai nad ydynt yn ei dalu (h.y., yn esempt, allyrwyr bach iawn, ysbytai ac allyrwyr bach)? (Oes/Nac Oes) Os oes, rhowch y dystiolaeth hon lle bo modd.**<br><br>**104) A oes gennych ddata ar gostau cydymffurfio gosodiadau, a chostau cydymffurfio tebygol y rhai sydd y tu allan i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU (h.y., yn esempt, allyrwyr bach iawn, ysbytai ac allyrwyr bach)? (Oes/Nac Oes) Os oes, rhowch y dystiolaeth hon lle bo modd.**<br><br>**105) A oes gennych dystiolaeth o wyrdroi marchnadoedd perthnasol wedi ei achosi gan y trothwy 20MWth (e.e. ar ffurf gosodiadau llai sy'n ymuno â'r farchnad fwyfwy)? (Oes/Nac Oes) Os oes, rhowch y dystiolaeth hon lle bo modd.** |

**106) A oes gennych dystiolaeth o ryngweithio niweidiol lefel bresennol trothwyon â pholisïau eraill Llywodraeth y DU neu weinyddiaethau datganoledig (e.e., â Chymorth Pris Carbon)? (Oes/Nac Oes)**

**107) Ydych chi'n credu bod tystiolaeth arall a ddylai gael ei hystyried wrth ystyried lleihau'r trothwy 20MWth? (Ydw/Nac Ydw) Os felly, darparwch hi.**

**108) Ydych chi'n credu bod achos dros leihau'r trothwy 20MWth fel bod mwy o weithredwyr unedau hylosgi o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Ydw/Nac Ydw) Os ydych, nodwch pam?**

**109) A oes gennych dystiolaeth o achosion niweidiol o wyrdroi marchnadoedd perthnasol wedi ei achosi gan y trothwy 3MWth ar gyfer cyfrifo cyfanswm mewnbwn thermol? (Oes/Nac Oes) Os oes, rhowch y dystiolaeth hon lle bo modd.**

**110) Ydych chi'n credu bod achos dros ddileu'r trothwy 3MWth fel bod mwy o weithredwyr unedau hylosgi o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Ydw/Nac Ydw) Os ydych, nodwch pam?**

**111) Ydych chi'n credu bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn bolisi priodol i sicrhau bod cynhyrchwyr pŵer bach yn datgarboneiddio yn unol â Net Sero? (Ydw/Nac Ydw) Os ydych, nodwch pam. Os nad ydych, pa bolisïau eraill a allai fod yn well yn eich barn chi?**

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cawsom ymatebion gan 62 o sefydliadau mewn ymateb i’r Cais am Dystiolaeth. Cafwyd llawer iawn o ddata ansoddol gan ymatebwyr, ac er y gwnaed ymdrech i gyfrannu rhywfaint o ddata meintiol, roedd y data hwn yn brin ar y cyfan ac yn gyfyngedig i ymatebwyr yn y sector pŵer. Roedd yr ymatebion yn amrywio’n sylweddol ar draws sectorau, gan gynnwys y rhai a oedd o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ac nad oeddent o fewn ei gwmpas. Mae’r ymatebion amrywiol yn dangos nad oes consensws ar draws y diwydiant ynghylch a ddylid addasu’r trothwyon, na chonsensws ynghylch sut mae’r trothwyon yn effeithio ar wahanol sectorau. Wrth drafod a darparu tystiolaeth ar y trothwyon presennol, cyfeiriodd ymatebwyr at nifer o feysydd polisi eraill y gallai newidiadau i’r trothwy effeithio arnynt. Roedd ymatebwyr hefyd yn cynnig cipolwg defnyddiol ar ffynonellau data posibl ac elfennau eraill y dylai’r Awdurdod eu hystyried wrth adolygu’r trothwyon mewnbwn thermol.

Mae’n amlwg bod y trothwyon yn effeithio ar sectorau sy’n dod o dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU mewn gwahanol ffyrdd, bod blaenoriaethau pob sector yn wahanol a bod gwahaniaethau hefyd o fewn y sectorau eu hunain. Roedd ymatebwyr yn y sector Cynhyrchion Mwynol wedi canolbwyntio ar y baich anghymesur y mae Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn ei roi ar safleoedd asffalt lle mae’r costau cydymffurfio 6925% yn uwch nag ar gyfer safle sment mae’n debyg. Awgrymodd ymatebwyr yn y sector hwn hefyd y dylai’r Awdurdod roi ystyriaeth arbennig i nodweddion cynhyrchu wrth ystyried newidiadau i drothwyon. Awgrymodd ymatebwyr ar draws y sectorau Cynhyrchion Mwynol, Cerameg ac Ynni o Wastraff y dylid

disodli’r trothwy mewnbwn â throthwy sy’n seiliedig ar allyriadau, ac y dylid ystyried hyblygrwydd sectoraidd lle mae gwahanol drothwyon yn berthnasol i wahanol sectorau.

Roedd cryn anghytuno ymysg ymatebwyr yn y sectorau Ynni a Phŵer. Roedd rhai’n dadlau bod y dystiolaeth orau bod y trothwyon 20MWth a 3MWth yn arwain at ddarnio ac yn ystumio’r farchnad i’w gweld mewn arwerthiannau Marchnad Capasiti. Darparodd ymatebwyr dystiolaeth o arwerthiannau a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o’r Cytundebau Capasiti ar gyfer safleoedd nwy sy’n cystadlu yn y farchnad <50MWth yn cael eu dyfarnu i weithfeydd <8MWth, sy’n cynnig mantais gystadleuol i weithfeydd <8MWth dros weithfeydd mwy sy’n cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Darparwyd tystiolaeth feintiol ddefnyddiol gan un ymatebydd yn dangos sut y gallai gwahanol drothwyon effeithio ar ba blanhigion sy’n cael eu hanfon o farchnadoedd pŵer yn y DU.

Cyflwynwyd tystiolaeth wrthgyferbyniol gan ymatebwyr eraill sy’n gweithredu yn y sector hwn a oedd yn awgrymu, er bod gan gynhyrchwyr nwy llai o faint fantais gystadleuol yn y Farchnad Capasiti oherwydd nad oes rhaid iddyn nhw dalu pris carbon, y gallai’r effaith fod yn fach wrth gymharu â’r lefelau cymharol a gynhyrchir. Ar ben hynny, dadleuwyd hefyd y gallai fod yn fanteisiol bod safleoedd bach o'r fath ddim yn cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU – er enghraifft, gallu generaduron nwy bach i newid i bŵer hydrogen yn gyflymach na generaduron mawr, a’u bod yn gallu darparu trydan am gost is i’r defnyddiwr.

Mae ymatebwyr sy’n gweithredu yn y maes Gwres a Phŵer Cyfunedig a Rhwydweithiau Gwresogi yn cydnabod y byddai nifer sylweddol o rwydweithiau gwres a Gwres a Phŵer Cyfunedig yn dod o dan y cynllun pe bai trothwyon yn cael eu gostwng. Tynnodd ymatebwyr sylw at bryderon ynghylch costau uwch i ddefnyddwyr os bydd rhwydweithiau gwresogi sy’n gysylltiedig â safleoedd Ynni o Wastraff a Gwres a Phŵer Cyfunedig yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Awgrymodd ymatebwyr y dylai rhwydweithiau gwresogi gael dyraniadau am ddim neu gael eu hesemptio o dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU, a bod risg y byddan nhw o dan anfantais gystadleuol wrth gymharu â rhwydweithiau cyfatebol yn yr UE. Roedd pryder hefyd ynghylch diffyg llwybrau clir at ddatgarboneiddio. Er enghraifft, dywedodd ymatebwyr mai Dal a Storio Carbon yw’r llwybr tebygol ar gyfer Ynni o Wastraff a hydrogen a biodanwyddau o ran Gwres a Phŵer Cyfunedig, ond nad oes strategaethau gweithredu clir o hyd ar gyfer Dal a Storio Carbon a hydrogen y tu hwnt i’r ddau glwstwr diwydiannol, a bod y polisi biodanwyddau yn dal yn ansicr oherwydd yr oedi cyn cyhoeddi Strategaeth Biomas Llywodraeth y DU. Hefyd, dywedodd ymatebwyr fod gan rwydweithiau gwresogi lwybrau priodol yn barod at ddatgarboneiddio, er enghraifft drwy ‘Green Heat Networks Fund’ a ‘Heat Networks Zoning’.

Mae ymatebwyr yn y sector Gwastraff wedi awgrymu bod angen adolygu’r trothwyon o bosibl, gan fod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ceisio integreiddio’r sector erbyn 2028. Awgrymodd un ymatebydd ei bod yn bosibl, os bydd llosgyddion yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU o dan y trothwy 20MWth presennol, y bydd y capasiti’n debygol o gael ei ddarnio yn y dyfodol ac y bydd rhai safleoedd presennol – er bod y niferoedd yn fach – yn dod o dan y trothwy. Enghraifft arall o ystumio posibl yw os bydd safleoedd sydd o dan y trothwy yn hylosgi gwastraff gyda dwysedd carbon ffosil uwch.

Yn y cyfamser, mae ymatebwyr yn y sectorau Bwyd a Diod, Amaethyddiaeth a Chemegau wedi awgrymu y dylai gweithredwyr sydd â gweithfeydd a fyddai'n gymwys ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn sgil trothwy is gael yr opsiwn i optio allan o'r cynllun, ar yr amod eu bod yn cymryd rhan yn y cynllun Cytundebau Newid Hinsawdd. Maen nhw'n dadlau y gallai Cytundebau Newid Hinsawdd fod yn ffordd well i safleoedd bach yn y sector hwn ddatgarboneiddio a defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod yn sylweddoli bod adolygu'r trothwyon 20MWth a 3MWth yn fater dadleuol, ac rydym yn cydnabod pryderon ynghylch yr effaith y gallai newidiadau posibl i'r trothwyon ei chael ar draws y diwydiant. Ar sail y dystiolaeth ansoddol a gyflwynwyd gan ymatebwyr, mae'r Awdurdod yn fodlon â'i ragdybiaeth y dylid adolygu'r trothwyon hylosgi presennol a bod effaith y trothwyon hyn ar draws sectorau yn amrywio. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y gallai'r farchnad gael ei hystumio mewn rhai sectorau oherwydd deinameg arall yn y farchnad, lle mai dim ond un ffactor yw'r trothwyon hylosgi o bosibl.

Mae'r Awdurdod yn credu y dylai gweithfeydd o'r un natur sy'n gweithredu yn yr un sector ac yn cystadlu yn yr un farchnad fod yn talu'r un pris yn y pen draw am eu hallyriadau. Felly, bydd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â'i adolygiad o'r trothwyon. Bydd hyn yn cynnwys comisiynu astudiaeth gyda chyflenwyr allanol i gasglu mwy o ddata meintiol ar safleoedd hylosgi sydd o dan y trothwyon. Bydd y data'n rhan hanfodol o'r broses o lunio asesiad o effeithiau gwahanol drothwyon. Er mai pryderon ynghylch ystumio'r farchnad sydd, yn bennaf, wedi ysgogi penderfyniad yr Awdurdod i lansio adolygiad o'r trothwyon, mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod angen adolygiad i fynd i'r afael â materion a chwestiynau polisi ehangach eraill. Mae hyn yn ymwneud ag integreiddio'r sector gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU[44] er enghraifft, ac a yw'r trothwyon presennol yn briodol ar gyfer y sector hwn.

Hefyd, mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan ymatebwyr yn dangos y bydd adolygiad o'r trothwyon hylosgi yn cynnwys elfennau sy'n rhyngweithio â llawer o feysydd polisi eraill, fel adolygiad o gynlluniau optio allan syml Ysbytai ac Allyrwyr Bach ac Allyrwyr Bach Iawn, ac adolygiad parhaus y Llywodraeth o Gytundebau Newid Hinsawdd.

Rydym hefyd yn cydnabod dymuniad y diwydiant i'r Awdurdod gasglu mwy o ddata meintiol a gwella'r sylfaen dystiolaeth ynghylch sut mae'r trothwyon presennol yn ystumio'r farchnad. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd o dan yr ymgynghoriad hwn, nid yw'r Awdurdod yn bwriadu symud ymlaen i lunio cynigion polisi. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y sylfaen dystiolaeth bresennol yn annigonol, ac mae'n cydnabod y risgiau a'r heriau sy'n wynebu busnesau ar draws y diwydiant os bydd y trothwyon yn cael eu newid heb ddigon o dystiolaeth nac ymgynghori â'r diwydiant. Os bydd unrhyw newidiadau i'r trothwyon yn cael eu hystyried, bydd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad cyhoeddus arall ac yn rhoi digon o rybudd i'r diwydiant cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r trothwyon.

[44] Gweler tud. 114-131

# Pennod 6: Ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i sectorau newydd

Mae’r bennod hon yn rhoi sylw i gynigion a nodwyd ym Mhennod 7 yn yr ymgynghoriad.

Bydd yr Awdurdod yn ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i gynnwys y sector morwrol domestig yn seiliedig ar weithgarwch llongau. Rydym yn bwriadu rhoi’r ehangu hwn ar waith o 2026 ymlaen ac rydym yn bwriadu rhoi’r cynllun ar waith i longau dros 5000 Tunelledd Gros fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad. Rydym yn bwriadu cymhwyso’r cynllun i’r endid sy’n gyfrifol am gydymffurfiaeth llong â’r Cod Rheoli Diogelwch Rhyngwladol (ISM), ac i eithrio gweithgarwch anfasnachol y Llywodraeth.

Rydym yn bwriadu y bydd gofynion monitro, adrodd a dilysu yn parhau ar y cyfan yn unol â’r prosesau presennol, er mwyn sicrhau parhad lle bo hynny’n bosibl i’r llongau hynny sydd eisoes yn brofiadol o ran cydymffurfio â rheoliadau monitro, adrodd a dilysu.

Byddwn yn ceisio nodi manylion ychwanegol ac yn ceisio ymgynghori ar agweddau allweddol ar y cynllun, gan gynnwys gweithredu, datgarboneiddio ac effeithiau dosbarthiadol, a gofynion a phrosesau monitro, adrodd a dilysu, yn nes ymlaen yn 2023.

Mae’r Awdurdod yn bwriadu cynnwys Ynni o Wastraff a llosgi gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU o 2028 ymlaen. Ein nod yw ymgynghori ar oblygiadau’r sefyllfa hon erbyn diwedd 2023. Mae’r Awdurdod yn bwriadu cynnwys triniaeth thermol uwch (ATT), technoleg trosi uwch (ACT) a thechnolegau gwastraff uwch cysylltiedig eraill (gan gynnwys cyfleusterau gwastraff i danwydd) yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae’r Awdurdod yn bwriadu gosod y pwynt rhwymedigaeth ar gyfer monitro, adrodd a dilysu o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar weithredwyr llosgi gwastraff a chyfleusterau ynni o wastraff.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ymhellach ar gynigion manylach ar gyfer monitro, adrodd a dilysu.

Rydym yn bwriadu rhoi cyfnod o ddwy flynedd ar waith o 2026-2028, cyn bod yn agored i'r costau llawn.

Byddwn yn addasu’r cap i ystyried ychwanegu ynni o wastraff a llosgi gwastraff/morwrol at Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Bydd unrhyw gynnydd i’r cap yn cadw’r un uchelgais o ran gostyngiadau allyriadau gofynnol â’r cap Sero Net arfaethedig ar gyfer y sector masnachu presennol, a bydd y cap yn dal i leihau yn unol â llwybrau allyriadau sectoraidd y Strategaeth Sero Net.

# Ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i'r Sector Morwrol Domestig

Yn yr ymgynghoriad ynghylch Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, buom yn ymgynghori ar ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys allyriadau o'r sector morwrol domestig. Roedd hyn yn dilyn ymrwymiad i edrych ar ehangu prisiau carbon yn Ymateb y Llywodraeth i 'Ddyfodol Prisio Carbon yn y DU'[45], a hefyd ymrwymiad i edrych ar ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i sectorau sydd wedi eu datguddio yn Strategaeth Sero Net Llywodraeth y DU[46].

Fe wnaethom amlinellu y gallai cynnwys Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU oresgyn rhwystr allweddol rhag datgarboneiddio'r sector, sef nad yw costau tanwyddau morwrol yn adlewyrchu eu costau amgylcheddol ar hyn o bryd. Gallai cynnwys Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gryfhau'r cymhelliant i fabwysiadu tanwyddau carbon isel, a chefnogi'r defnydd o dechnolegau sy'n defnyddio tanwydd yn effeithlon, a chyflwyno arferion gweithredu mwy effeithlon.

Fe wnaethom nodi tri opsiwn ar gyfer ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys allyriadau o'r sector morwrol domestig. Drwy'r ymgynghoriad, fe wnaethom ni ofyn am safbwyntiau ar yr opsiynau arfaethedig hyn i'w cynnwys; monitro, adrodd a dilysu allyriadau; cwmpas y cynllun; yn ogystal â datgarboneiddio ac effeithiau dosbarthiadol. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, gofynnodd yr Awdurdod am farn y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar ein cynigion ar gyfer datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Cyflwynodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei ymateb ar 11 Hydref 2022[47].

Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu y byddwn yn ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys allyriadau o'r sector morwrol domestig. Rydym yn bwriadu cymhwyso'r cynllun ar sail gweithgareddau i longau 5000GT ac uwch yn teithio ar lwybrau domestig. Rydym yn bwriadu cymhwyso'r cynllun i'r endid sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth llong â'r Cod Rheoli Diogelwch Rhyngwladol (ISM), ac i eithrio gweithgarwch anfasnachol y Llywodraeth. Ein nod yw ymgynghori eto ar weithredu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer y sector morwrol domestig yn nes ymlaen yn 2023.

## Opsiwn Gweithredu

### Crynodeb o'r Cynigion

Yn yr ymgynghoriad, amlinellodd yr Awdurdod opsiwn arweiniol ar gyfer ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys y sector morwrol domestig a oedd yn seiliedig ar weithgarwch llongau. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr morwrol fonitro eu hallyriadau o deithiau cymwys, adrodd am eu hallyriadau o'r teithiau hyn ac ildio digon o

[45] https://www.gov.uk/government/consultations/the-future-of-uk-carbon-pricing
[46] https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy
[47] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. (2022) Llythyr: Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU Ar gael yn https://www.theccc.org.uk/publication/letter-development-of-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets/ Llythyr gan yr Arglwydd Deben, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, at Graham Stuart AS, Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, gan roi copi i'r Gweinidogion portffolio yn y llywodraethau datganoledig, Hydref 2022, Llundain.

lwfansau i dalu am eu hallyriadau. Fe wnaethom ddweud y byddai'r opsiwn arweiniol hwn yn berthnasol i deithiau domestig yn unig, a fyddai'n cael eu diffinio fel taith yn dechrau ac yn gorffen mewn porthladd yn y Deyrnas Unedig. Byddai'r opsiwn arweiniol hwn hefyd yn gosod y rhwymedigaeth i gydymffurfio â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar weithredwr y llong neu berchennog y llong. Gofynnodd yr Awdurdod hefyd am farn ynghylch y pwynt rhwymedigaeth penodol, sef a ddylid cymhwyso'r gofyniad i adrodd ar allyriadau llongau ac ildio lwfansau gofynnol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i berchnogion llongau neu weithredwyr llongau, er enghraifft.

Fe wnaethom ni hefyd ofyn am farn ar ddau opsiwn arall. Yn gyntaf, dull tanwydd a gyflenwir, a fyddai'n golygu bod rhwymedigaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei rhoi ar gyflenwyr tanwydd morwrol a fyddai'n gorfod monitro, adrodd a dilysu allyriadau sy'n deillio o'u gwerthiant tanwydd, ac ildio lwfansau i dalu am hyn. Dull hybrid oedd yr ail opsiwn arall, a byddai rhai llongau'n cael eu gorfodi ar sail gweithgarwch, ac eraill yn dod o dan y dull tanwydd a gyflenwir.

Roedd yr Awdurdod yn cynnig mai gweithgarwch llongau oedd yr opsiwn arweiniol oherwydd roeddem o'r farn fod risg is o faniwpleiddio neu osgoi'r system, sef rhywbeth yr oeddem wedi gofyn amdano fel rhan o'r ymgynghoriad. Roeddem hefyd o'r farn ei fod yn fwy amgylcheddol gadarn na'r opsiwn tanwydd a gyflenwir, a'i fod yn symlach na'r opsiwn hybrid.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **C113) Ydych chi'n cytuno mai ein prif opsiwn i ehangu masnachu allyriadau i forwriaeth ddomestig yn seiliedig ar weithgarwch llongau yw'r un mwyaf priodol? (Ydw/Nac Ydw) Esboniwch eich ymateb gan ystyried:**<br>• **A ydych yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o daith ddomestig, ac a yw'n creu unrhyw fylchau y mae angen mynd i'r afael â nhw.**<br>• **A ddylai'r cynllun fod yn gymwys i berchenogion llongau neu weithredwyr llongau.**<br>**C116) Yn eich barn chi, pa mor fawr yw'r risg o fanipwleiddio'r system/diffyg cydymffurfio o dan y prif opsiwn? Yn eich ymateb ystyriwch:**<br>• **Sut y gellid hepgor y risg honno o'r system.**<br>• **A yw'r risg yn is o dan y naill opsiwn amgen neu'r llall.**<br>**C118) Ydych chi'n ffafrio un o'r opsiynau amgen? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb. Byddai'n arbennig o ddefnyddiol i ddeall:**<br>• **Ar gyfer y dull tanwydd a gyflenwyd, a yw gofynion Monitro, Adrodd a Dilysu yn bosibl ac yn ymarferol o fewn prosesau a chasglu data presennol.** |

- **Ar gyfer y dull hybrid, sut y byddai'r rhaniad rhwng y ddau ddull yn cael ei bennu, a sut y gellid dylunio mecanwaith i osgoi 'codi ddwywaith' am allyriadau.**

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cawsom 28 ymateb i gwestiwn 113, gyda 23 o ymatebwyr (82%) yn cefnogi'r dull gweithredu ar gyfer gweithgarwch llongau. Roedd pum ymatebydd (18%) yn anghytuno â'r dull gweithredu, ond o'r rhain roedd tri (11%) yn cefnogi cynhwysiant ar sail gweithgarwch llongau ond roeddent eisiau gweld teithiau rhyngwladol yn cael eu cynnwys hefyd.

Gofynnwyd am ragor o fanylion am yr atebion i gwestiynau 113, ac fe wnaeth 24 o ymatebwyr ddarparu hyn.

### Diffiniad o daith ddomestig

Dywedodd pedwar ymateb (14%) nad yw'r diffiniad arfaethedig o bosibl yn ystyried teithiau i leoliadau ar y môr sy'n aml yn dychwelyd i'r un porthladd. Roedd tri ymateb (11%) yn cefnogi cynnwys teithiau 'un-porthladd' ac yn awgrymu y dylid diwygio'r diffiniad i sicrhau hyn. Dywedodd un ymateb (4%) hefyd nad oedd yr ymgynghoriad yn glir ynghylch a fyddai'r cynllun yn cynnwys allyriadau wrth angorfa neu wrth angor.

Ni ofynnwyd cwestiwn gennym ynghylch cynnwys teithiau rhyngwladol, ond soniwyd am hyn mewn sawl ymateb. Cyfeiriodd wyth ymatebydd (29%) at ddarpariaethau rhwng y DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r holl deithiau rhyngwladol. O'r rhain, roedd saith (25%) yn cefnogi rhai mathau o ddarpariaeth ryngwladol. Yn ogystal â hyn, roedd chwe ymatebydd (21%) yn galw ar y DU i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â chynigion Morwrol System Masnachu Allyriadau'r UE, yn enwedig o ran darpariaeth teithiau rhyngwladol. Trafodir hyn yn fanylach isod.

### Pwynt Rhwymedigaeth

Mynegodd tri ymatebydd (11%) gefnogaeth i bwynt rhwymedigaeth a oedd yn berthnasol i berchnogion llongau. Mynegodd pedwar ymatebydd (14%) gefnogaeth i bwynt rhwymedigaeth a oedd yn berthnasol i weithredwyr llongau, gyda dau (7%) o'r ymatebwyr hyn yn tynnu sylw at gyfrifoldeb y gweithredwr am benderfyniadau sy'n effeithio ar allyriadau llongau, ac roedd dau (7%) o'r ymatebwyr hyn yn rhagweld y byddai hyn yn arwain at fwy o alw am longau mwy effeithlon.

Galwodd wyth ymatebydd (29%) am bwynt rhwymedigaeth a oedd yn berthnasol naill ai i berchennog neu reolwr y llong, neu i'r parti sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth y llong â'r Cod Rheoli Rhyngwladol ar gyfer Gweithredu Llongau'n Ddiogel ac Atal Llygredd (Cod yr ISM)[48].

[48] Cafodd y Cod ISM ei fabwysiadu gan y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol gyda'r bwriad o ddarparu safon orfodol, ryngwladol ar gyfer rheoli a gweithredu llongau'n ddiogel ac ar gyfer atal llygredd. Mae'r Cod yn ei gwneud yn

Galwodd chwech (21%) o'r ymatebwyr hyn am i'r cynllun gynnwys mecanwaith i alluogi'r parti dan rwymedigaeth i adennill oddi wrth y gweithredwr masnachol gostau cydymffurfio â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mewn achosion pan fo'r ddau barti hynny'n wahanol.

### Manipwleiddio neu beidio â chydymffurfio

Roedd cwestiwn 116 yn holi am y risg o fanipwleiddo neu beidio â chydymffurfio â'r cynllun o dan yr opsiwn arweiniol, a daeth 14 o ymatebion i law. Roedd chwech o'r ymatebwyr (43%) o'r farn fod y risg hon yn isel. Roedd pedwar ymatebydd (29%) o'r farn fod y risg hon yn isel oherwydd y bwriad i ehangu System Masnachu Allyriadau'r UE i gynnwys y sector morwrol domestig, ac awgrymodd dau (14%) y byddai'r risg yn isel gyda dilysu data cadarn.

Roedd chwech o ymatebwyr (43%) o'r farn y gallai trothwy o 5000GT gynyddu'r risg o fanipwleiddio oherwydd llongau sy'n 'curo'r rheolau', sef llongau sydd wedi eu dylunio i fod fymryn yn is na'r trothwy cydymffurfio er mwyn osgoi cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth. Roedd tri ymateb (21%) yn poeni am y risg o lwybrau manipwleiddio er mwyn osgoi'r diffiniad o daith ddomestig gymwys. Roedd nifer o'r ymatebion hefyd yn sôn bod y risg o fanipwleiddio yn sylweddol uwch o dan ddull tanwydd a gyflenwir. Cafwyd galwadau hefyd i ymgysylltu ymhellach i ddeall a lliniaru'r risgiau, yn enwedig edrych ar lwybrau blaenorol i dynnu sylw at y risg o ailgyfeirio neu atal mewn gwledydd eraill er mwyn osgoi gwneud taith sy'n gymwys ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

### Ffafrio opsiynau eraill

Roedd cwestiwn 118 yn ymdrin â'r pwnc hwn, a daeth 19 o ymatebion i law. O'r rhain, dywedodd 18 ymatebydd (95%) nad oeddent yn ffafrio un o'r opsiynau eraill. Rhoddodd 16 o ymatebwyr (84%) ragor o fanylion am eu rhesymau.

Cyfeiriodd deg ymatebydd (53%) at y risg uwch o fanipwleiddio neu beidio â chydymffurfio o dan ddulliau eraill, a soniodd tri (16%) am fwy o risg o ddadleoli carbon. Ar ben hynny, soniodd wyth (42%) am anymarferoldeb i weithredwyr, a soniodd tri ymatebydd (16%) am ddarpariaeth allyriadau is fel rheswm dros beidio â chefnogi un o'r opsiynau eraill.

Nid oedd dau ymateb pellach (11%) yn mynegi ffafriaeth i'r naill opsiwn arall na'r llall ond roeddent yn nodi y gallai'r dull hybrid hyd yn oed ymestyn y ddarpariaeth i longau llai na 400GT ar sail tanwydd a gyflenwir, gan fod y risg o brynu tanwydd dramor yn isel iawn ar gyfer y mathau hyn o longau sy'n llai o faint.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'n amlwg fod cynnwys y sector morwrol domestig yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei gefnogi gan randdeiliaid, bod cefnogaeth eang i'r dull gweithgarwch llongau a'i fod yn cael ei ffafrio dros y ddau opsiwn arall. Rhannwyd y safbwyntiau hyn gan gyfranogwyr o gymdeithasau masnach,

ofynnol i berchennog y llong, neu unrhyw barti arall sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r llong ac am gydymffurfio â'r Cod, roi System Rheoli Diogelwch orfodol ar waith ar gyfer y llong honno er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir gan y Cod.

cyrff anllywodraethol, cyflenwyr ynni a diwydiant. Am y rheswm hwn, bydd yr Awdurdod yn ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i gynnwys y sector morwrol domestig yn seiliedig ar weithgarwch llongau. Rydym yn bwriadu ehangu hyn o 2026 ymlaen, sef dechrau ail hanner cam cyntaf Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU a bydd yn rhoi cyfle i’r sector baratoi ar gyfer y cynllun.

Byddwn yn addasu’r cap i ystyried sectorau newydd sy’n cael eu hychwanegu at Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU mewn ffordd sy’n gyson â chyflawni sero net, ein Cyllidebau Carbon a thargedau hinsawdd eraill, fel ein Cyfraniad a Bennir yn Genedlaethol. O ystyried sut mae cynlluniau cap a masnach yn gweithio, byddai’r addasiad hwn yn ychwanegu lwfansau at y cap cyfan ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ac ni fyddai’n benodol ar gyfer y sector morwrol; y farchnad sy’n pennu’r sectorau y mae’r allyriadau’n digwydd ynddynt mewn gwirionedd. Byddai ein hamcangyfrifon presennol o allyriadau i’w cynnwys o'r sector morwrol domestig yn y flwyddyn gyntaf o’u cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU (2026) yn cyfateb i tua 2 filiwn o lwfansau’r DU, gyda symiau’n gostwng bob blwyddyn ar gyfer gweddill y cyfnod, sy’n gyson â chyflawni’r targedau uchod. Cyn gwneud penderfyniad polisi terfynol, byddwn yn ystyried diweddariadau perthnasol i asesiadau o gyflymder y gostyngiadau mewn allyriadau sydd eu hangen ar draws gwahanol rannau o’r economi i gyflawni targedau hinsawdd ar draws economi’r DU ers cyhoeddi’r Strategaeth Sero Net, ynghyd â diweddariadau perthnasol i lwybr datgarboneiddio’r sector, gan gynnwys, er enghraifft, y diweddariad i’r Cynllun Morol Glân. Byddwn hefyd yn cael cyngor am ddal a storio carbon ac yn ceisio ymgynghori ar y sail hon yn nes ymlaen yn 2023, a byddwn yn amlinellu’r penderfyniad terfynol ar ôl ystyried yr ymatebion hyn.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod hefyd yr ymatebion a gafwyd ynghylch diffyg cydymffurfio a manipwleiddio’r system. Byddwn yn nodi rhagor o fanylion ac yn ceisio ymgynghori ar sut byddwn yn mynd i’r afael â hyn, gan gynnwys mecanweithiau i orfodi cydymffurfiaeth yn nes ymlaen yn 2023.

### Diffiniad o daith ddomestig

Buom yn ystyried yr wybodaeth a ddaeth i law ar y diffiniad o daith ddomestig, ac rydym yn cadarnhau y bydd y diffiniad hwn yn cynnwys y teithiau hynny sy’n dechrau ac yn gorffen yn yr un porthladd yn y DU, yn ogystal â’r rhai sy’n mynd o un porthladd yn y DU i borthladd arall yn y DU. Rydym hefyd yn cydnabod adborth gan randdeiliaid ynghylch cynnwys allyriadau wrth angorfa neu wrth angor, a’r effaith fanteisiol y byddai hyn yn ei chael ar annog pobl i ddefnyddio pŵer y glannau, fel un elfen o ddull ehangach o ddatgarboneiddio porthladdoedd y DU. Rydym yn bwriadu cynnwys allyriadau yn y môr ac wrth angorfa ym mhorthladdoedd y DU neu wrth angor o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Byddwn yn ceisio ymgynghori’n llawn ar ddiffiniad cynhwysfawr o daith ddomestig gymwys yn nes ymlaen yn 2023.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod yr ymatebion a gafwyd ynghylch cynnwys teithiau rhyngwladol yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn enwedig i sicrhau cysondeb ag unrhyw gynlluniau a gyflwynir gan awdurdodaethau eraill. O ystyried pwysigrwydd cyflawni mesur polisi sy’n berthnasol yn fyd-eang i leihau allyriadau o longau rhyngwladol, rydym yn llwyr gefnogi gwaith

y Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO) i gyflawni hyn ac rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion yno. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau cynlluniau rhyngwladol, gan gynnwys rhai o awdurdodaethau eraill, a byddwn yn nodi rhagor o wybodaeth yn unol â hynny.

[Mae’r Awdurdod yn ymwybodol fod yr UE yn bwriadu ehangu System Masnachu Allyriadau'r UE i gynnwys allyriadau morwrol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer teithiau sy’n dechrau neu’n gorffen y tu allan i’r UE. Rydym yn deall y gallai eu cynnig olygu y byddai llongau sy’n teithio rhwng Gweriniaeth Iwerddon a’r Deyrnas Unedig yn destun darpariaeth allyriadau o 50% o dan System Masnachu Allyriadau'r UE[49]. Gallai ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i’r sector morwrol domestig greu anghysondeb posibl yn y ddarpariaeth allyriadau ar lwybrau rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Phrydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Tynnwyd sylw at yr anghysondeb hwn drwy’r broses ymgynghori hefyd, ac mae manylion amdano yn y crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn 123.

Rydym yn bwriadu lleihau rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU y mae llongau sy’n teithio rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn ddarostyngedig iddynt, er mwyn sicrhau cyfwerthedd rhwymedigaeth prisio carbon ar lwybrau rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Phrydain Fawr, a Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Byddai hyn yn golygu mai dim ond 50% o’u rhwymedigaeth prisio carbon o dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU sy’n berthnasol i allyriadau llongau, a hynny er mwyn ymdrin yn gyfatebol â llongau sy’n teithio rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Phrydain Fawr. Mae’r sefyllfa hon yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad pellach, gan gynnwys ar y gwahanol fecanweithiau y gellid eu defnyddio i sicrhau cywerthedd, y bwriadwn ymgynghori arnynt yn nes ymlaen yn 2023.

### Pwynt Rhwymedigaeth

Mae’r Awdurdod yn bwriadu cymhwyso’r pwynt rhwymedigaeth i berchennog y llong, neu i ba barti bynnag sydd wedi ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros weithredu’r llong a’r dyletswyddau a osodir gan y Cod ISM.

Mae’r Awdurdod o’r farn fod y dull hwn yn gydnaws â’r rhan fwyaf o’r ymatebion i’r ymgynghoriad. Yn gyntaf, bydd yn golygu, pan fo hynny’n berthnasol, y bydd y parti sydd â’r cyfrifoldeb presennol dros gydymffurfio â gofynion monitro, adrodd a dilysu yn cadw’r cyfrifoldeb hwn at ddibenion Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Yn ail, bydd y dull hwn yn cysoni’r cyfrifoldeb am gydymffurfio â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU â rheoliadau perthnasol y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol (IMO), fel y System Casglu Data Defnyddio Olew Tanwydd.

Mae’r Awdurdod hefyd yn cydnabod nad y parti sy’n gyfrifol am gydymffurfio â’r Cod ISM yw’r parti sy’n gyfrifol ym mhob achos am y penderfyniadau sy’n effeithio ar ddwysedd nwyon tŷ gwydr allyriadau’r llong (e.e. dewis tanwydd, llwybr, cargo, a chyflymder). I gydnabod yr adborth a gafwyd, er mwyn parchu egwyddor mai’r llygrwr sy’n talu, ac er mwyn cymell

[49]CYFARWYDDEB (UE) 2023/959 SENEDD EWROP A'R CYNGOR dyddiedig 10 Mai 2023 yn diwygio Cyfarwyddeb 2003/87/EC sy'n sefydlu system ar gyfer masnachu lwfans allyriadau nwyon tŷ gwydr o fewn yr Undeb a Phenderfyniad (UE) 2015/1814 ynghylch sefydlu a gweithredu cronfa wrth gefn sefydlogrwydd marchnadoedd ar gyfer system masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr yr Undeb https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32023L0959&qid=1684312437556

gweithrediad mwy effeithlon a defnyddio llongau mwy effeithlon, mae’r Awdurdod yn bwriadu archwilio gallu’r parti dan rwymedigaeth i adennill costau cydymffurfio gan y gweithredwr masnachol, a’i nod yw ymgynghori ar hyn yn nes ymlaen yn 2023.

## Cwmpas y Polisi

### Crynodeb o'r Cynigion

Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd yr Awdurdod y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn berthnasol i longau dros 5000GT. Y rheswm am hyn yw bod rheoliadau monitro, adrodd a dilysu yn y DU[50] eisoes yn berthnasol i longau sy’n ymgymryd â gweithgareddau penodol ac sy’n gweithredu ar lwybrau penodol os ydynt dros y trothwy hwn. Byddai hyn o fudd o ran cofnodi’r llongau mwyaf y gallai eu gweithredwyr fod yn brofiadol ac sydd eisoes yn gallu casglu ac adrodd ar ddata allyriadau at ddibenion monitro, adrodd a dilysu.

Ar ben hynny, dywedodd yr Awdurdod nad ydym yn bwriadu i weithgarwch morwrol anfasnachol y Llywodraeth fod o fewn cwmpas y cynllun yn dilyn y dull a ddefnyddir fel arfer o dan Ddeddf Llongau Masnach 1995[51]. Fe wnaethom geisio barn hefyd ynghylch a ddylid cael unrhyw eithriadau penodol i gymhwyso masnachu allyriadau i’r sector morwrol domestig.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **C114) Ydych chi'n cytuno â'r trothwy arfaethedig ar gyfer y prif opsiwn o 5000GT? (Ydw/Nac Ydw) Esboniwch eich ymateb gan ystyried:**<br>• **A oes trothwy de minimis o fewn hyn, yn seiliedig ar allyriadau neu nifer y teithiau, er enghraifft.**<br>• **Pa drothwyon eraill y gellid eu defnyddio yn lle hynny, neu yn y dyfodol.**<br>**C117) Yn eich barn chi a ddylai fod unrhyw esemptiadau penodol i gymhwyso masnachu allyriadau at forwriaeth ddomestig? (Dylai/Na Ddylai) Esboniwch eich ymateb gan gynnwys pa esemptiadau, os o gwbl, a ddylai fod.** |

### Crynodeb o’r Ymatebion

O’r 20 ymateb a gafwyd ar gyfer cwestiwn 114, roedd naw ymatebydd (45%) yn cytuno â’r trothwy arfaethedig o 5000GT ar gyfer yr opsiwn arweiniol. Roedd pump o’r ymatebwyr (25%) yn cytuno mai 5000GT yw’r trothwy presennol ar gyfer dulliau monitro, adrodd a dilysu’r DU, dulliau monitro, adrodd a dilysu’r UE ac IMO DCS. Roedd tri o’r ymatebwyr (15%) o’r farn y

[50] Ers 1 Ionawr 2018, roedd llongau mawr a oedd yn galw mewn porthladd yn yr UE/Ardal Economaidd Ewrop yn ddarostyngedig i drefn monitro, adrodd a dilysu yr UE. Cafodd rheoliad yr UE a oedd wedi sefydlu’r drefn Ewropeaidd (Rheoliad (UE) 2015/757) ei ategu yng nghyfraith ddomestig y DU gan Ddeddf Llongau Masnach (Monitro, Adrodd a Gwirio Allyriadau Carbon Deuocsid) a Rheoliadau Rheoli Cyflwr Porthladdoedd (Diwygio) 2017 (OS 2017/825) a’i chadw o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, yn amodol ar ddiwygiadau yr oedd eu hangen i’w wneud yn ymarferol yng nghyd-destun y DU yn unig.
[51] Deddf Llongau Masnach 1995 - https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/21/contents

byddai’r trothwy uwch hwn yn osgoi baich gweinyddol ar longau llai o faint. Roedd dau ymatebydd (10%) yn cefnogi 5000GT fel trothwy cychwynnol i’w ostwng yn y dyfodol.

Nid oedd deg o’r ymatebwyr (50%) yn cytuno â’r trothwy arfaethedig o 5000GT. Roedd wyth ymatebydd (40%) yn credu y byddai trothwy is yn arwain at fwy o ddarpariaeth llongau ac allyriadau. Roedd chwe ymatebydd (30%) o blaid trothwy o 400GT. Roedd chwech o ymatebwyr (30%) yn rhagweld newidiadau posibl i’r IMO DCS yn y dyfodol, neu i ddulliau monitro, adrodd a dilysu’r UE ar ôl ehangu System Masnachu Allyriadau'r UE i’r sector morwrol, ac y byddai trothwy is yn cyd-fynd â newidiadau yn y dyfodol. Tynnodd pum ymatebydd (25%) sylw at risg o fanipwleiddio’r system gyda throthwy o 5000GT.

O’r 20 ymateb a gafwyd ar gyfer cwestiwn 117, roedd wyth ymatebydd (40%) yn credu na ddylid cael unrhyw eithriadau, ac eithrio’r rhai a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Galwodd pedwar o ymatebwyr (20%) am eithriadau, ac roedd y rhain yn cynnwys y sectorau neu’r sefydliadau canlynol:

- Gwasanaethau hanfodol i gymunedau ar ynysoedd
- Sector pysgota
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Badau Achub
- Llusgrwydo

Cafwyd galwadau hefyd gan ddau ymatebydd (10%) yr un am eithrio llongau sydd â phŵer wedi ei osod o dan 130kW a llongau sy’n cynnal gweithgarwch allyriadau negyddol neu ddal carbon.

### Ymateb yr Awdurdod

Ar sail adborth gan randdeiliaid, mae’r Awdurdod yn bwriadu cymhwyso Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i longau dros 5000GT fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad. Rydym yn credu mai’r trothwy hwn yw’r un mwyaf priodol o ystyried ei fod yn cyd-fynd â’r trothwy a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau presennol ar gyfer dulliau monitro, adrodd a dilysu'r DU. Mae hyn yn golygu bod llawer o longau dros y trothwy hwn eisoes wedi eu paratoi ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata allyriadau, a fydd o bosibl yn arwain at drosglwyddiad symlach i’r cynllun ar gyfer llawer o weithredwyr. Mantais y trothwy hwn hefyd yw osgoi’r baich gweinyddol ar longau llai o faint a chychod ysgafnach, a oedd yn thema allweddol yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad.

Mae Ffigur 7 yn amcangyfrif yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector morwrol domestig y DU yn 2019 ar gyfer llongau 5000GT ac uwch, a chyfran cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector morwrol domestig y DU a gynrychiolir gan hyn. Mae hefyd yn cymharu’r amcangyfrifon hyn â’r amcangyfrifon cyfatebol ar gyfer llongau dros 400GT ac uwch. Rydym yn cydnabod bod hanner yr ymatebwyr wedi galw am drothwy is na 5000GT i ddal llongau llai, gyda rhai rhanddeiliaid yn dweud yn benodol bod 400GT yn well. Gan gydnabod yr awydd hwn am

drothwy is, byddwn yn parhau i adolygu'r trothwy, er mwyn deall yn well beth yw effeithiau gostwng y trothwy ar weithredwyr.

Mae'r Awdurdod yn bwriadu eithrio gweithgarwch morol anfasnachol y Llywodraeth yn dilyn y dull a ddefnyddir fel arfer o dan Ddeddf Llongau Masnach 1995. Fodd bynnag, mae'n dal yn ofynnol i'r llongau hyn ddatgarboneiddio eu gweithrediadau yn unol ag ymrwymiadau sero net y DU. Er enghraifft, roedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi Dull Gweithredu Strategol ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd, sy'n nodi'r uchelgais, yr egwyddorion a'r dulliau sydd eu hangen ar Amddiffyn y DU i ateb yr her newid yn yr hinsawdd, yn unol ag ymrwymiadau sero net y DU. Ein nod yw ymgynghori a nodi rhagor o fanylion am hyn yn nes ymlaen yn 2023.

**Ffigur 7: Amcangyfrif o allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector morwrol domestig y DU yn 2019[52]**

| | Amcangyfrif o allyriadau nwyon tŷ gwydr[53] | % o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr morwrol domestig y DU |
|---|---|---|
| **Llongau 5000GT ac uwch** | 2.4 $MtCO_2e$ | 39% |
| **Llongau 400GT ac uwch** | 4.6 $MtCO_2e$ | 76% |

## Monitro, Adrodd a Dilysu

### Crynodeb o'r Cynigion

Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn cynnig y byddai allyriadau'n cael eu cyfrifo ar sail faint o danwydd sy'n cael ei ddefnyddio wedi ei luosi â dwysedd carbon y tanwydd hwnnw, fel a ganlyn:

*Faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr y mae'n rhaid i chi fod yn atebol amdanynt = faint o danwydd sy'n cael ei ddefnyddio ar daith gymwys x dwysedd carbon y math o danwydd (faint o $CO_2e$ yn ôl pwysau a ollyngir fesul uned o danwydd morol a ddefnyddir)*

52 Dadansoddiad yr Adran Diogelwch Ynni Sero Net (DESNZ) o ddata'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (NAEI), 2022. Mae rhagor o fanylion am restr allyriadau llongau NAEI ar gael yn https://naei.beis.gov.uk/reports/reports?report_id=950. Lle na chofnodwyd y tunelli gros yn y data ar gyfer llongau arfordirol a chychod pysgota sy'n sail i stocrestr allyriadau llongau NAEI, mae Ricardo Energy & Environment wedi amcangyfrif hyn ar sail hyd cyffredinol y llongau.

53 Er mwyn symleiddio'r dybiaeth, mae'r amcangyfrifon hyn yn tybio bod yr holl ddyfrffyrdd mewndirol a chychod hamdden o dan 400GT. Bu hyn yn angenrheidiol oherwydd cyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael ar dunelledd gros y llongau hyn. Byddem yn croesawu unrhyw ddata ar hyn, a allai alluogi'r amcangyfrifon hyn i gael eu gwella.

Fe wnaethom gynnig y byddai ffactorau trosi adrodd ar nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU[54] yn cyfrannu at y dwysedd carbon, gan gydnabod y gallai fod angen adlewyrchu’r cyfuniadau tanwydd morol presennol neu danwyddau newydd, ac roeddem yn awyddus i gael barn ar hyn.

Roeddem hefyd yn awyddus i ddeall a fyddai cynigion monitro, adrodd a dilysu, yn enwedig y rhai a amlinellir o dan yr opsiwn arweiniol o ddull gweithredu sy’n seiliedig ar weithgareddau, yn bosibl ac yn ymarferol o fewn y prosesau presennol. Yn benodol, fe wnaethom amlinellu bod deddfwriaeth eisoes ar waith (monitro, adrodd a dilysu'r DU) ar gyfer monitro, adrodd a dilysu allyriadau $CO_2$ o longau. Roedd hyn yn berthnasol i longau dros 5000GT sy’n gwneud rhai gweithgareddau ac yn gweithredu ar lwybrau penodol.

Fe wnaethom nodi y gallai fod angen diwygio’r dull presennol o adrodd ar allyriadau er mwyn bodloni gofynion y cynnig hwn, gan gynnwys y mathau, y trothwyon a’r llwybrau llongau perthnasol.

| Cwestiynau |
| --- |
| **C112) Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ar gyfer cyfrifo allyriadau, yn seiliedig ar y swm o danwydd wedi ei luosi â'r dwysedd carbon yn unol â ffactorau trosi adrodd nwy tŷ gwydr diweddaraf Llywodraeth y DU? (Ydw/Nac Ydw) Esboniwch eich ymateb gan ystyried:**<br>• **A oes angen datblygu ffactorau trosi ar gyfer tanwyddau morol ychwanegol**<br>• **Pa ystyriaeth y mae angen ei rhoi i danwyddau cyfun, neu danwyddau adnewyddadwy a rhannol adnewyddadwy.**<br><br>**C115) A fyddai modd gosod gofynion monitro, cofnodi a dilysu ar sail gweithgarwch, ac a fyddai'n ymarferol, o fewn prosesau a chasglu data presennol? (Byddai/Na Fyddai) Esboniwch eich ymateb gan ystyried a fyddai angen prosesau ychwanegol er mwyn nodi teithiau domestig.** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

O’r 32 o ymatebion a gafwyd i gwestiwn 112, roedd 28 o ymatebion (88%) o blaid y dull gweithredu arfaethedig.

Cyfeiriodd dau ar bymtheg o ymatebwyr (53%) at yr angen i ddatblygu ffactorau trosi ar gyfer tanwyddau morol ychwanegol. Galwodd saith ymatebydd (22%) am alinio rhyngwladol ynghylch y ffactorau trosi a ddefnyddir gan y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol, ac roedd pump (16%) o’r ymatebwyr eraill o blaid defnyddio’r fethodoleg Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy (RFTO)[55]. O ran ffactorau trosi ar gyfer tanwyddau cyfunol, adnewyddadwy a

[54] Gweler ffactorau trosi diweddaraf a dogfen fethodoleg llywodraeth y DU https://www.gov.uk/measuring-and-reporting-environmental-impacts-guidance-for-businesses

[55] O dan y Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy, rhaid i gyflenwyr biodanwyddau cludiant yn y DU allu dangos bod canran o’r tanwydd hwnnw’n dod o ffynonellau adnewyddadwy a chynaliadwy.

rhannol adnewyddadwy, galwodd tri ymatebydd (9%) am ystyriaethau ynghylch tarddiad a chynaliadwyedd.

Ar gyfer cwestiwn 115, roedd 14 (70%) o’r 20 ymatebydd yn cytuno y byddai cymhwyso gofynion monitro, adrodd a dilysu ar sail gweithgaredd yn bosibl ac yn ymarferol o fewn y prosesau a’r dulliau casglu data presennol. Mynegodd naw ymatebydd (45%) hyder yn ymarferoldeb monitro, adrodd a dilysu ar sail cydymffurfiad presennol neu hanesyddol y gweithredwyr perthnasol â dulliau monitro, adrodd a dilysu'r DU a/neu’r UE.

Roedd pryderon ynghylch y gofyniad i fonitro, adrodd a dilysu yn ymwneud yn bennaf â’r baich gweinyddol. Dywedodd tri ymatebydd (15%) y byddai gwahanu allyriadau teithiau domestig yn arwain at faich gweinyddol sylweddol, a mynegodd dau ymatebydd (10%) bryder penodol am weithredwyr longau llai o faint.

Roedd pryderon penodol is-sector hefyd ynghylch ymarferoldeb monitro, adrodd a dilysu ar gyfer llongau gwasanaeth ar y môr gan dri ymatebydd (15%), ac ar gyfer llongau llusgrwydo gan ddau ymatebydd (10%).

### Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod yn croesawu’r ymatebion defnyddiol i’r ymgynghoriad. Mae’n ddefnyddiol clywed bod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr o’r farn bod gofynion monitro, adrodd a dilysu ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ymarferol o dan y prosesau presennol, ond rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd.

Mae'r Awdurdod yn bwriadu y bydd gofynion monitro, adrodd a dilysu yn parhau ar y cyfan yn unol â’r prosesau presennol, er mwyn sicrhau parhad lle bo hynny’n bosibl i’r llongau hynny sydd eisoes yn brofiadol o ran cydymffurfio â rheoliadau monitro, adrodd a dilysu. Rydym wedi barnu bod digon o amser cyn gweithredu ar gyfer llongau o’r math nad ydynt yn destun rheoliadau monitro, adrodd a dilysu ar hyn o bryd, fel llongau gwasanaeth ar y môr, i wneud y paratoadau angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaethau monitro, adrodd a dilysu o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU . Ein nod yw ymgynghori a nodi rhagor o fanylion am y prosesau monitro, adrodd a dilysu yn nes ymlaen yn 2023.

## Datgarboneiddio ac Effeithiau Dosbarthiadol

### Crynodeb o'r Cynigion

Yn yr ymgynghoriad, dywedodd yr Awdurdod fod datgarboneiddio trafnidiaeth ddomestig yn gam allweddol tuag at gyflawni ein hymrwymiadau cenedlaethol i sero net. Fe wnaethom nodi mai un o’r prif rwystrau rhag datgarboneiddio gweithgareddau morgludiant yw nad yw pris tanwydd yn adlewyrchu ei effaith amgylcheddol ar hyn o bryd.

Gan ddefnyddio ymchwil flaenorol[56], fe wnaethom dynnu sylw at y cyfraniad effeithiol y gallai pris carbon ei wneud o ran annog buddsoddiad mewn opsiynau amgen carbon isel yn y sector morwrol. Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cydnabod y rhwystrau ychwanegol i

[56] Cwblhawyd ar gyfer Cynllun Morol Glân 2019 - https://www.gov.uk/government/publications/clean-maritime-plan-maritime-2050-environment-route-map

ddatgarboneiddio sy’n wynebu’r sector, sy’n galw am becyn ehangach o ymyriadau gan Lywodraeth y DU. Rydym wedi ymdrechu i gadw golwg ar y rhain.

Gofynnodd yr Awdurdod am farn ar sut y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU effeithio ar ddatgarboneiddio ar draws y sector morwrol domestig. Fe wnaethom ofyn am farn ar rwystrau posibl eraill rhag datgarboneiddio, ac yn enwedig sut gallai hyn fod yn wahanol ar draws yr amrywiaeth o gyfranogwyr yn y sector. Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ynghylch sut gallai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ryngweithio â pholisïau presennol neu arfaethedig eraill yn y sector morwrol.

Fe wnaethom bwysleisio ein hymrwymiad i sicrhau nad yw’r polisi hwn yn cael effaith ormodol ar rai rhannau o gymdeithas nag eraill, gan nodi natur amrywiol gwasanaethau morgludiant sy’n amrywio o gludo cargo a chludo teithwyr; i ddarparu gwasanaethau eraill fel tyrbinau gwynt ar y môr; ymysg gweithgareddau eraill.

Gofynnwyd am farn ynghylch sut gallai’r polisi effeithio ar wahanol randdeiliaid yn y sector, gan roi ffocws penodol ar wasanaethau fferi yn y DU. Roeddem hefyd wedi gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid i ddeall amrywiaeth yr effeithiau y gallai’r cynllun eu cael ar fentrau bach, canolig a mawr, yn ogystal â sut gellid teimlo’r effeithiau hyn yn rhanbarthol.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **C119) Yn eich barn chi a fydd darparu prisiau carbon yn llywio datgarboneiddio yn y sector morwrol domestig fel yr amlinellir uchod? (Bydd/Na fydd) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**C120) Heblaw am y ffaith nad yw carbon wedi ei brisio'n llawn yn y farchnad, pa fethiannau a rhwystrau eraill o ran y farchnad a geir a pha bolisïau fyddai eu hangen i gefnogi Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i ddatgarboneiddio morwriaeth ddomestig? Yn eich ymateb, ystyriwch sut y gall hyn newid dros amser.**<br><br>**C121) Sut y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ryngweithio â pholisïau sy'n bodoli eisoes ac sydd yn yr arfaeth yn y sector morwrol, gan gynnwys unrhyw bolisïau perthnasol lle na cheir datgarboneiddio?**<br><br>**C122) Sut y byddai cymhwyso Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU at y sector morwrol domestig yn effeithio ar gyfranogwyr (gan gynnwys perchenogion llongau, gweithredwyr llongau, cyflenwyr tanwydd) a defnyddwyr? Yn eich ymateb, rhowch dystiolaeth lle bo modd ac ystyriwch:**<br><br>• **Gweithredwyr bach a chanolig**<br>• **Cymunedau ynys**<br>• **Effeithiau ar gystadleurwydd a risgiau dadleoli carbon** |

- **Effaith datgarboneiddio ar gyfer gwahanol fathau o longau ac is-sectorau morwrol**

**C123) Ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau eraill, yn rhai dosbarthiadol neu fel arall, yn deillio o'r cynnig hwn, nas cwmpesir gan gwestiynau eraill? (Ydw/Nac Ydw) Esboniwch eich ymateb gan gynnwys sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.**

## Crynodeb o'r Ymatebion

O'r 25 o ymatebwyr i gwestiwn 119, roedd 18 (72%) yn cytuno y byddai prisio carbon, i raddau mwy neu lai, yn sbarduno datgarboneiddio'r sector morwrol domestig. Roedd pump o'r ymatebwyr (20%) yn rhagweld gwelliannau yn effeithlonrwydd gweithredol llongau.

Fodd bynnag, roedd llawer a ymatebodd yn gadarnhaol wedi gwneud hynny gyda chafeatau sylweddol. Roedd wyth o ymatebion (32%) yn galw am ailgylchu refeniw i gefnogi datgarboneiddio'r sector morwrol domestig. Dywedodd chwech o ymatebion (24%) fod potensial datgarboneiddio yn dal yn gyfyngedig nes bydd tanwyddau/technolegau glanach ar gael yn fwy am brisiau cystadleuol. Roedd pump o'r ymatebion (20%) yn nodi bod y potensial o ran datgarboneiddio yn dal yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau cost neu beirianegol ôl-osod llongau presennol.

Ar ben hynny, yn ei ymateb i gynigion yn yr ymgynghoriad hwn, nododd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yr effaith bosibl y gallai'r polisi ei chael ar ddatgarboneiddio, gan ddatgan 'mae achos cryf dros gynnwys morgludiant domestig yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, o ystyried y cymhellion gwan presennol i ddatgarboneiddio'r sector'[57].

Cafwyd 21 o ymatebion i gwestiwn 120. Soniodd rhai rhanddeiliaid am fethiannau yn y farchnad a rhwystrau rhag datgarboneiddio. Dywedodd deg o'r ymatebwyr (48%) nad oedd tanwyddau/technolegau glanach ar gael. Cyfeiriodd un ar ddeg o'r ymatebwyr (52%) at y gost o fabwysiadu technolegau/tanwydd glanach.

Cawsom ymatebion hefyd ynghylch polisïau eraill i gefnogi datgarboneiddio. Galwodd tri ar ddeg o ymatebwyr (62%) am ddatblygu, dangos a graddio technolegau/tanwydd glanach. Galwodd pedwar o ymatebwyr (19%) am barodrwydd ar ochr y porthladd (e.e. sicrhau bod seilwaith angenrheidiol ar waith ar draws porthladdoedd). Galwodd pedwar o ymatebwyr (19%) am gymorth ariannol ar gyfer y rhai sy'n symud am y tro cyntaf.

Cawsom 17 ymateb i gwestiwn 121. Mae deg o ymatebion (59%) yn cyd-fynd â'r Sefydliad Morwrol Rhyngwladol a/neu adolygiad o'r defnydd o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar ôl i'r Sefydliad Morwrol Rhyngwladol gyflwyno mecanwaith sy'n seiliedig ar y farchnad. Roedd yr ymatebwyr hyn yn awgrymu y byddai hyn yn sicrhau tegwch heb unrhyw gymhlethdod diangen i ofynion adrodd na chyfrif allyriadau ddwywaith.

[57] Ibid. Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. (2022) Llythyr: Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Nododd tri o'r ymatebwyr (18%) y dylid cynnwys allyriadau rhyngwladol er mwyn i’r DU gyflawni ei Chyfraniadau a Bennir yn Genedlaethol (NDC) o dan Gytundeb Paris neu Ddatganiad Clydebank ar gyfer Coridorau Morgludiant Gwyrdd.

Cawsom 18 ymateb i gwestiwn 122. O ran effaith Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ar gostau gweithredu i gyfranogwyr, dywedodd pedwar ymatebydd (22%) (tri sefydliad anllywodraethol ac un busnes mawr) nad oedd unrhyw gynnydd yn debygol o fod yn sylweddol.

Cyfeiriodd pedwar ymatebydd (22%) at effaith negyddol ar gystadleurwydd y rhai sy’n cludo cynhyrchion mwynol yn y DU, yn hytrach na’u bod yn dod i mewn i’r DU o dramor. Dywedodd tri ymatebydd (17%) o sefydliadau anllywodraethol mai ychydig iawn o effaith y mae astudiaethau’n ei chael ar gystadleurwydd.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am weithredwyr llai o faint, fel costau uwch a baich gweinyddol, yn ogystal â nodi eu cyfalaf llai i ariannu datgarboneiddio a’u cysylltiad ag anwadalrwydd posibl o ran prisiau carbon. Yn yr un modd, dywedodd dau ymatebydd (11%) fod llongau sy’n gweithredu masnach arfordirol yn hŷn, gyda llai o opsiynau lleihau a gorsymiau llai.

Yn olaf, cawsom 16 ymateb gan randdeiliaid i gwestiwn 123, a oedd yn gofyn yn fwy cyffredinol am unrhyw effeithiau ychwanegol ar y polisi. Mynegodd saith ymatebydd (44%) bryder am newid moddol sy’n deillio o weithredu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i’r sector morwrol domestig (er enghraifft, i drafnidiaeth ar y ffyrdd neu ar y rheilffyrdd), ac mae hyn yn arwain o bosibl at fwy o allyriadau. Nododd tri (19%) o’r ymatebwyr hyn nad yw’r mathau hyn o drafnidiaeth yn debygol o gael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU fel rhan o’r cynigion presennol i ehangu cwmpas.

Tynnodd un ymatebydd (6%) sylw at y risg o ail-lwybro llongau gyrru i mewn ac allan drwy Weriniaeth Iwerddon, ac roedd un (6%) yn galw am gynnal asesiad effaith oherwydd y ddibyniaeth ar gludo nwyddau ar y môr i symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Mynegodd dau ymatebydd (13%) bryder ynghylch pasio’r costau cydymffurfio ymlaen i ddefnyddwyr, a soniodd dau ymatebydd (13%) am gostau uwch gwasanaethau fferi achub i gymunedau ynysoedd. Dywedodd tri (19%) ymatebydd arall y dylai’r effaith ar ddefnyddwyr fod yn fach iawn gan fod y pris carbon o fewn gwasgariad prisiau tanwydd.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod yn parhau i weld cynnwys y sector morwrol domestig yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU fel sbardun effeithiol ar gyfer datgarboneiddio’r sector.

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Drafnidiaeth[58] wedi cadarnhau nad yw pris tanwydd morol confensiynol yn adlewyrchu ei gost amgylcheddol yn gywir ar hyn o bryd, a bod y

[58] Frontier Economics, UMAS, E4tech a CE Delft (2019) *Reducing the Maritime Sector’s Contribution to Climate Change and Air Pollution: Identification of Market Failures and other Barriers to the Commercial Deployment of*

methiant hwn yn y farchnad ymysg y risgiau effaith uchaf i’r nod datgarboneiddio. Mae’r ymchwil hwn[59] yn dangos y byddai arwydd pris yn sbardun effeithiol iawn ar gyfer newid yn y sector morwrol domestig. Mae astudiaethau diweddar eraill[60] hefyd yn nodi’r cyfraniad pwysig y gallai prisio carbon a mesurau sy’n seiliedig ar y farchnad ei wneud o ran pontio’r bwlch rhwng technolegau confensiynol ac opsiynau eraill dim allyriadau.

Cafodd yr Awdurdod fewnbwn ar y rhwystrau ychwanegol ac amrywiol i ddatgarboneiddio. Rydym yn cydnabod bod Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn un rhan o gymysgedd polisi ehangach sy’n angenrheidiol i fynd i’r afael â datgarboneiddio morol. Cynhaliodd yr Adran Drafnidiaeth ymgynghoriad yn ddiweddar ar Bennu’r Llwybr at Sero Net[61] a oedd yn ceisio archwilio’r opsiynau ar gyfer mynd i’r afael â’r rhwystrau hyn gyda rhanddeiliaid. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ym mis Hydref 2022, a bydd yr ymatebion i hyn yn sail i’r Cynllun Morol Glân diweddaraf, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023. Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio ar draws Llywodraethau a chyda rhanddeiliaid i sicrhau methodoleg gydlynol ar draws y system ar gyfer datgarboneiddio morol, a byddai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn rhan hanfodol o hynny.

Rydym yn cydnabod yr adborth defnyddiol a gawsom i’n cwestiwn agored ar effeithiau polisi dosbarthu. Rydym wedi nodi natur eang ac amrywiol yr ymatebion hyn ac, ar adegau, roedd anghytundeb rhwng ymatebwyr, yn enwedig ynghylch yr effaith ar gystadleurwydd busnesau ar draws y sector. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro effaith y polisi ar gystadleurwydd yn y sector ynghyd ag effeithiau posibl eraill y gellid eu teimlo ar draws yr ystod eang o ddiwydiannau yn y sector morwrol domestig.

Rydym yn cydnabod pryderon a godwyd ynghylch yr effaith y gallai’r polisi ei chael ar longau sy’n ymgymryd â gweithgareddau hanfodol penodol a byddwn yn parhau i archwilio hyn, ynghyd ag effeithiau posibl eraill ar ddefnyddwyr, drwy gydol ein datblygiad polisi. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad yw’r polisi’n arwain at effeithio’n ormodol ar rannau o gymdeithas, nag ar ranbarthau penodol o’r DU, a bod natur amrywiol y diwydiannau morwrol yn cael ei hystyried.

---

*Emission Reduction Options.* Adroddiad ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth. Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/815671/identification-market-failures-other-barriers-of-commercial-deployment-of-emission-reduction-options.pdf.

[59] Frontier Economics, UMAS, CE Delft ac E4tech (2019) *Reducing the Maritime Sector’s Contribution to Climate Change and Air Pollution: Scenario Analysis: Take-up of Emissions Reduction Options and their Impacts on Emissions and Costs. Adroddiad ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth.* Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/816018/scenario-analysis-take-up-of-emissions-reduction-options-impacts-on-emissions-costs.pdf

[60] Gweler Baresic, D., Rojon, I., Shaw, A., Rehmatulla, N. (2022) *Closing the Gap: An Overview of the Policy Options to Close the Competitiveness Gap and Enable an Equitable Zero-Emission Fuel Transition in Shipping.* Paratowyd gan UMAS, Ionawr 2022, Llundain - Ar gael yn https://www.globalmaritimeforum.org/content/2021/12/Closing-the-Gap_Getting-to-Zero-Coalition-report.pdf a, Marine Capital, Lloyd’s Register, UMAS. (2022) *UK Domestic Shipping Mobilising Investment in Net Zero.* Astudiaeth a noddwyd ar y cyd gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Tachwedd 2022, Llundain – Ar gael yn https://maritime.lr.org/l/941163/2022-11-30/5yv5t/941163/1669801621zvSdKYcO/UK_Domestic_Shipping_Mobilising_Investment_in_Net_Zero.pdf

[61] https://www.gov.uk/government/consultations/domestic-maritime-decarbonisation-the-course-to-net-zero-emissions

Rydym hefyd yn ddiolchgar am y dystiolaeth a roddwyd am ddadleoli carbon a newid moddol. Byddwn yn ystyried hyn wrth i ni ddatblygu’r polisi ymhellach a byddwn yn ceisio nodi manylion ychwanegol mewn ymgynghoriad pellach yn nes ymlaen yn 2023.

# Lleihau allyriadau o wastraff – Cais am Dystiolaeth ar ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys llosgi gwastraff ac ynni o wastraff

Yn yr ymgynghoriad ar Ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, fe wnaethom gyhoeddi Cais am Dystiolaeth ar ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i’r sector gwastraff. Yn benodol, roeddem yn cynnig cynnwys ynni o wastraff a llosgi gwastraff heb adfer dim ynni. Roedd hyn yn dilyn ymrwymiadau yn Ymateb y Llywodraeth i ‘Ddyfodol Prisio Carbon yn y DU’[62] i edrych ar ehangu prisiau carbon, ac yn Strategaeth Sero Net Llywodraeth y DU, i edrych ar ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i sectorau nad ydynt o fewn y cwmpas, yn ogystal ag adroddiad cynnydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd 2021 a oedd yn pwysleisio bod angen i’r Llywodraeth “fynd i’r afael ar fyrder â’r cynnydd mewn allyriadau yn deillio o, a’r defnydd o, Ynni o Wastraff” [63].

Fe wnaethom nodi sut y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU helpu i leihau allyriadau o wastraff. Roedd hyn yn cynnwys annog adfer gwastraff gweddilliol mewn ffordd sy’n lleihau allyriadau carbon, yn ogystal â darparu cymhellion i fuddsoddi mewn prosesau a thechnolegau sy’n cael gwared â phlastig ffosil yn y ffrwd gwastraff gweddilliol, a dal a storio carbon.

Roedd y Cais am Dystiolaeth yn ymdrin ag amseru a chwmpas ehangu, sut gellid mesur allyriadau, a beth fyddai effeithiau posibl y polisi.

## Amseru

### Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Yn y Cais am Dystiolaeth, roeddem yn cynnig ystyried ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i losgi gwastraff ac ynni o wastraff erbyn canol y 2020au. Roedd hyn ar y sail y byddai hyn yn cyd-fynd â diwygiadau ehangach i bolisïau adnoddau a gwastraff yn ddiweddarach y degawd hwn ac y byddai’n helpu i gyflawni targed Llywodraeth y DU i haneru sgil-gynhyrchion gwastraff gweddilliol (ac eithrio gwastraff mwynau mawr) ar sail cilogram y pen erbyn 2042 o lefelau 2019[64], targed Dim Ailgylchu Llywodraeth Cymru ar gyfer dim gwastraff gweddilliol nad yw wedi ei ailgylchu erbyn 2050[65], targed Llywodraeth yr Alban i leihau sgil-gynhyrchion gwastraff 15% ac ailgylchu 70% o’r holl wastraff a gynhyrchir o gymharu â lefelau 2011 erbyn

[62] https://www.gov.uk/government/consultations/the-future-of-uk-carbon-pricing
[63] Adroddiad Cynnydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i'r Senedd 2021 https://www.theccc.org.uk/publication/2021-progress-report-to-parliament/
[64]Targedau Amgylchedd sy’n rhwymo’n gyfreithiol Llywodraeth y DU wedi’u Gosod 2022 https://www.gov.uk/government/news/new-legally-binding-environment-targets-set-out
[65] Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu 2021, https://www.llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu-0

2025[66], a gwaith Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i leihau sgil-gynhyrchion gwastraff a symud adnoddau’n uwch i fyny’r hierarchaeth gwastraff.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **124) Ydych chi'n cytuno â'r amseru arfaethedig ar gyfer pryd y gallai llosgi gwastraff ac ynni o wastraff gael eu cyflwyno i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Ydw/Nac ydw)**<br><br>**125) Ar gyfer gweithredwyr llosgyddion gwastraff, peiriannau ynni o wastraff, ac awdurdodau lleol, amlinellwch y camau y bydd angen i chi eu cymryd, a'r amser fydd ei angen i baratoi i ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i losgi gwastraff ac ynni o wastraff.** |

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 63 o ymatebion i gwestiwn 124, ac roedd 25 o’r ymatebwyr (40%) yn cytuno â’r amserlen arfaethedig ar gyfer cynnwys ynni o wastraff a llosgi gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Rhoddodd 112 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn, gyda rhai ohonynt yn galw am gynnig amseru mwy penodol, gyda 10 (9%) yn galw am weithredu cyn 2028, 18 (16%) yn dweud y dylai fod yn ystod 2028, a naw (8%) ar ôl 2028. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd sicrhau bod cynhwysiant yn gyson â pholisïau gwastraff eraill, gan gynnwys gwaharddiadau tirlenwi, cyflwyno dal a storio carbon, a’r polisïau yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff[67]. Roedd y rhan fwyaf o’r Awdurdodau Lleol a ymatebodd yn anghytuno â’r amseru arfaethedig, ond awgrymodd nifer y gallai cyflwyno rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn raddol helpu i fynd i’r afael â rhai o’u pryderon. Dywedodd chwech o’r ymatebwyr (5%), y rhan fwyaf ohonynt yn awdurdodau lleol, na ddylid cynnwys gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU o gwbl.

Cafwyd 75 o ymatebion i gwestiwn 125. Dywedodd pedwar ar hugain o ymatebwyr (32%) nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ddweud pa gamau y byddai angen eu cymryd cyn gweithredu – roedd hyn yn cynnwys bron i hanner yr awdurdodau lleol a ymatebodd i’r cwestiwn. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr y byddai angen ail-negodi contractau rhwng gweithredwyr ac awdurdodau lleol. Dywedodd un ar hugain (28%) y byddai angen amser i ddeall effeithiau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, dywedodd 15 (20%) y byddai angen amser i gaffael gwasanaethau (e.e. ar gyfer cyngor cyfreithiol), a dywedodd 21 (28%) y byddai angen amser i adeiladu seilwaith newydd (fel gosod offer monitro newydd) a chytuno ar ddull gweithredu ar gyfer monitro, adrodd a dilysu rhwng y gweithredwr a’r Awdurdod Lleol.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a godwyd gyda’r amseroedd arfaethedig ac yn cytuno ag ymatebwyr bod angen digon o rybudd cyn cynnwys rhannau o’r sector gwastraff yng

[66] Llywodraeth yr Alban Managing Waste 2022 https://www.gov.scot/policies/managing-waste/
[67] Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr https://www.gov.uk/government/publications/resources-and-waste-strategy-for-england

Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, er mwyn i weithredwyr a'u cwsmeriaid allu paratoi ar gyfer gweithredu.

Rydym hefyd yn nodi bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, mewn llythyr diweddar gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd at y Gweinidog Graham Stuart, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ynni a'r Hinsawdd ar y pryd, a gopïwyd i Weinidogion portffolio'r llywodraethau datganoledig, wedi galw ar yr Awdurdod i ddangos y bydd yn cynnwys ynni o wastraff a llosgi gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU "cyn gynted â phosibl" ac yn ei weithredu yn y degawd hwn[68].

Felly, rydym yn bwriadu cynnwys ynni o wastraff a llosgi gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU o 2028 ymlaen. Bydd hyn yn rhoi cyfnod o bum mlynedd i'r sector a'i gwsmeriaid baratoi ar gyfer gweithredu. Rydym yn bwriadu cynnwys cyfnod cyflwyno o ddwy flynedd, rhwng 2026-2028, pan fydd rhaid i weithfeydd fonitro eu hallyriadau, ond byddwn yn ymgynghori ar hyn ymhellach (gweler ein hymateb i gwestiwn 141 i gael rhagor o fanylion). Mae'r Awdurdod yn bwriadu ymgynghori'n nes ymlaen erbyn diwedd 2023 ar fanylion y gweithredu.

Mae'r Awdurdod yn nodi sylwadau rhanddeiliaid ar amseriad ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ochr yn ochr â pholisïau gwastraff eraill. Drwy weithredu yn 2028, bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei ehangu i wastraff:

- Sawl blwyddyn ar ôl rhoi polisïau'r strategaeth Mwy nag Ailgylchu ar waith yng Nghymru,
- Ar ôl cyflwyno'r Cynlluniau Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) ym mhob un o bedair gwlad y DU,
- Ar ôl cyflwyno polisïau ailgylchu perthnasol ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys casgliadau cyson yn Lloegr,
- Ar ôl i reoliadau busnes, cyhoeddus a'r trydydd sector dod i rym yng Nghymru,
- Ar ôl cyflwyno unrhyw gyfyngiadau pellach ar wastraff i safleoedd tirlenwi ledled y DU, gan gynnwys y gwaharddiad ar dirlenwi gwastraff trefol bioddiraddiadwy yn yr Alban.

Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gweithredu yn hwyrach na 2028: mae'r dyddiad hwn yn cydbwyso'r angen i roi digon o rybudd i randdeiliaid a'r angen i ddatgarboneiddio'r sector gwastraff cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn addasu'r cap i ystyried sectorau newydd sy'n cael eu hychwanegu at Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU mewn ffordd sy'n gyson â chyflawni sero net, ein Cyllidebau Carbon a thargedau hinsawdd eraill, fel ein Cyfraniad a Bennir yn Genedlaethol. O ystyried sut mae cynlluniau cap a masnach yn gweithio, byddai'r addasiad hwn yn ychwanegu lwfansau at y cap cyfan ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ac ni fyddai'n benodol ar gyfer y sector gwastraff; y farchnad sy'n pennu'r sectorau y mae'r allyriadau'n digwydd ynddynt mewn gwirionedd. Byddai ein hamcangyfrif presennol o allyriadau i'w cynnwys o'r sector gwastraff yn

[68] Llythyr ar Ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd at y Gweinidog Graham Stuart yn 2022 https://www.theccc.org.uk/publication/letter-development-of-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets/

y flwyddyn gyntaf o’u cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn cyfateb i tua saith miliwn o lwfansau’r DU ar gyfer gwastraff yn 2028, gyda symiau’n gostwng bob blwyddyn ar gyfer gweddill y cyfnod, sy’n gyson â chyflawni’r targedau uchod. Cyn gwneud penderfyniad polisi terfynol, byddwn yn ystyried diweddariadau perthnasol i asesiad Llywodraeth y DU o gyflymder y gostyngiadau mewn allyriadau sydd eu hangen ar draws gwahanol rannau o’r economi i gyflawni targedau hinsawdd ar draws economi’r DU ers cyhoeddi’r Strategaeth Sero Net. Byddwn hefyd yn cael cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ac yn ceisio ymgynghori ar y sail hon yn nes ymlaen yn 2023, a byddwn yn amlinellu’r penderfyniad terfynol ar ôl ystyried yr ymatebion hyn.

## Pwynt Rhwymedigaeth

### Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Roeddem yn cynnig y dylai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU gynnwys llosgi deunydd ffosil gan bob llosgydd gwastraff. Mae hyn yn golygu y byddai rhwymedigaeth Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ar gyfer monitro, adrodd a dilysu allyriadau yn cael ei rhoi ar bob gweithredwr llosgydd gwastraff. Ar gyfer ynni o wastraff, byddai hyn yn cynnwys llosgi confensiynol, triniaeth thermol uwch (ATT) a thechnoleg trosi uwch (ACT). Nodwyd hefyd y bydd angen ystyried sefyllfaoedd lle mai llosgi yw’r opsiwn gorau a’r unig opsiwn cyfreithiol (e.e. rhai mathau penodol o wastraff gofal iechyd).

| Cwestiynau |
|---|
| **126) Ydych chi'n cytuno y dylai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gael ei ehangu i gynnwys llosgi gwastraff ac ynni o wastraff? (Ydw/Nac Ydw) Amlinellwch eich rhesymau, gan gynnwys opsiynau amgen ar gyfer datgarboneiddio'r sector y tu hwnt i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.**<br><br>**127) Ydych chi'n cytuno y dylai pob math o losgydd gwastraff gael ei gynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Ydw/Nac Ydw) Os ydych yn credu y dylai rhai gweithgareddau llosgi fod yn esempt, e.e. llosgi gwastraff peryglus neu wastraff gofal iechyd penodol, rhowch fanylion a nodwch pa ffrwd wastraff.**<br><br>**128) Ydych chi'n credu y dylai triniaeth thermol uwch gael ei gynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Ydw/Nac Ydw) Pa heriau allai godi yn sgil cynnwys triniaeth thermol uwch, os o gwbl, sy'n wahanol i beiriannau llosgi gwastraff confensiynol?**<br><br>**129) Ydych chi'n cytuno y dylai'r rhwymedigaeth pwynt Monitro, Adrodd a Dilysu ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gael ei gosod ar weithredwyr llosgyddion gwastraff a pheiriannau ynni o wastraff? (Ydw/Nac Ydw) Amlinellwch eich rhesymau mor fanwl â phosibl a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn.**<br><br>**130) Os caiff y rhwymedigaeth pwynt Monitro, Adrodd a Dilysu ei gosod ar weithredwyr peiriannau gwastraff, a ddylai cwmnïau/gweithredwyr gwastraff neu gwsmeriaid (naill ai Awdurdodau Lleol neu gwsmeriaid masnachol a diwydiannol) fod yn gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau cydymffurfio? (Dylai/Na ddylai) Amlinellwch eich rhesymau mor fanwl â phosibl a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn.**<br><br>**131) Ydych chi'n credu y dylai'r cynlluniau Allyrwyr Bach a Bach Iawn sydd ar gael ar hyn o bryd i gyfranogwyr cymwys Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU hefyd fod ar gael i** |

**losgyddion gwastraff a pheiriannau ynni o wastraff? (Ydw/Nac Ydw) Rhowch fanylion gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, a yw eich sefydliad yn debygol o fod yn gymwys am y cynlluniau hyn yn seiliedig ar reolau presennol.**

## Crynodeb o’r Ymatebion

Cafwyd 104 o ymatebion i gwestiwn 126, ac roedd 83 o’r ymatebwyr (80%) yn cytuno y dylid ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys llosgi gwastraff ac ynni o wastraff. Roedd 125 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ar y cwestiwn, gyda llawer ohonynt wedi amodi eu cefnogaeth i ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, gan gynnwys 59 (47%) a fynegodd bryder y byddai ehangu yn arwain at ganlyniadau anfwriadol (e.e. beichiau cost i awdurdodau lleol a dadleoli carbon o allforion gwastraff) ac na ddylid ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU oni bai fod y risgiau’n gyfyngedig. Roedd hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a grwpiau o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn. Dywedodd hanner cant (40%) y dylid ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU dim ond os yw’n cyd-fynd â pholisïau eraill fel y rhai a amlinellir yn Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Defra a'r model busnes Dal Carbon Diwydiannol (ICC) ar gyfer Gwastraff. Dywedodd tri deg dau (26%) fod eu cefnogaeth i ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dibynnu ar amseriad y gweithredu, gyda’r rhan fwyaf ohonynt yn awdurdodau lleol ac yn grwpiau o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dywedodd 34 (27%) y byddai ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i losgi gwastraff ac ynni o wastraff yn sbarduno datgarboneiddio ac yn hanfodol i ddatgarboneiddio’r sector, a dywedodd 20 (16%) y dylid defnyddio polisïau sy’n targedu gwastraff ymhellach i fyny yn lle hynny.

Cafwyd 87 o ymatebion i gwestiwn 127, ac roedd 49 o’r ymatebwyr (56%) yn anghytuno y dylid cytuno pob math o losgyddion gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd 101 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ar y cwestiwn, a dywedodd 38 o’r ymatebwyr (38%) y dylid eithrio gwastraff clinigol a dywedodd 23 (23%) y dylid eithrio gwastraff peryglus a gwastraff sy’n cynnwys llygryddion organig parhaus. Dywedodd ugain (20%) y dylid eithrio allyrwyr bach, gyda’r rhan fwyaf ohonynt yn awdurdodau lleol ac yn grwpiau o awdurdodau lleol, a’r rheswm yn bennaf yw costau anghymesur datgarboneiddio o’i gymharu â refeniw. Ar y llaw arall, o’r rhai a oedd yn cytuno, dywedodd wyth (8%) y byddai gwneud hynny’n sicrhau tegwch.

Cafwyd 81 o ymatebion i gwestiwn 128, ac roedd 65 o’r ymatebwyr (80%) yn cytuno y dylid cynnwys ATT yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd 95 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ar y cwestiwn, gyda 27 (28%) yn dweud y byddai hyn yn sicrhau tegwch, a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o gwmnïau rheoli gwastraff a gweithredwyr ynni o wastraff a ymatebodd i’r cwestiwn. Dywedodd deunaw (19%) fod ATT yn cynhyrchu allyriadau ar lefel debyg i losgi ac felly na ddylid eu trin yn wahanol o gwbl. Dywedodd pedwar ar ddeg (15%) nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw orsafoedd ATT masnachol sydd ar waith ar hyn o bryd. Ar y llaw arall, dywedodd saith (7%) y byddai cynnwys ATT yn cyfyngu ar y datblygiadau yn y dechnoleg hon a fydd yn bwysig i lwybrau datgarboneiddio sectorau eraill.

Cafwyd 91 o ymatebion i gwestiwn 129, ac roedd 89 o’r ymatebwyr (98%) yn cytuno y dylid gosod pwynt rhwymedigaeth monitro, adrodd a dilysu ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r

DU ar weithredwyr peiriannau gwastraff. Cafwyd sylwadau gan 95 o ymatebwyr ar y cwestiwn, gyda 37 (39%) yn nodi bod gan weithredwyr yr arbenigedd a'r offer angenrheidiol ar gyfer monitro, adrodd a dilysu'n gywir. Dywedodd dau ddeg pedwar (25%) fod gan weithredwyr rwymedigaethau monitro/adrodd allyriadau presennol o dan ofynion trwyddedu.

Cafwyd 67 o ymatebion i gwestiwn 130, ac roedd 41 o'r ymatebwyr (61%) yn cytuno os rhoddir pwynt rhwymedigaeth monitro, adrodd a dilysu ar weithredwyr safleoedd gwastraff, fe ddylent felly fod yn gyfrifol am fodloni ymrwymiadau cydymffurfio. Roedd 94 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ar y cwestiwn, gyda 18 (19%) yn nodi bod gan weithredwyr yr arbenigedd a'r offer sydd eu hangen ar gyfer monitro, adrodd a dilysu'n gywir, a dywedodd 19 (20%) fod gofynion trwyddedu presennol ar gael i weithredwyr i fonitro ac adrodd ar eu hallyriadau.

Cafwyd 81 o ymatebion i gwestiwn 131, ac roedd 58 o'r ymatebwyr (72%) yn cytuno y dylid ehangu cynlluniau Allyrwyr Bach a Bach Iawn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fod ar gael hefyd i losgyddion gwastraff a pheiriannau ynni o wastraff. Roedd 86 o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ar y cwestiwn, gyda 22 (26%) yn dweud y byddai cost datgarboneiddio fel cyfran o refeniw yn rhy uchel ar gyfer safleoedd llai o faint. Dywedodd naw (10%) y byddai gwneud hynny'n sicrhau cysondeb â sectorau eraill sy'n dod o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Ar y llaw arall, dywedodd 19 o ymatebwyr (22%) a oedd yn anghytuno â darparu'r cynllun ar gyfer peiriannau llosgi gwastraff ac ynni o wastraff y byddai gwneud hynny'n arwain at faes chwarae anwastad i gyfranogwyr yn y sector gwastraff. Roedd hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o gwmnïau rheoli gwastraff a ymatebodd.

## Ymateb yr Awdurdod

Byddwn yn bwrw ymlaen ag ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys llosgi gwastraff ac ynni o wastraff. Nododd yr Awdurdod y gefnogaeth gref i ehangu ymysg ymatebwyr, er bod hyn yn aml yn dibynnu ar yr angen i ystyried yr amseriad yn ofalus, cysoni â pholisïau gwastraff eraill, ac osgoi'r posibilrwydd o ganlyniadau anfwriadol i'r hierarchaeth gwastraff.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch cynnwys llosgi gwastraff peryglus a gwastraff gofal iechyd yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn enwedig lle mae gofyniad cyfreithiol i losgi'r gwastraff hwn. Rydym yn deall bod y deunydd hwn yn aml yn cael ei losgi mewn cyfleusterau arbenigol llai o faint, a allai fod yn llai tebygol o ddatgarboneiddio neu a allai gael eu heffeithio'n anghymesur gan feichiau cydymffurfio neu fonitro, adrodd a dilysu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Rydym yn deall, fodd bynnag, y gall rhywfaint o wastraff peryglus a gofal iechyd, yn enwedig gwastraff sy'n cynnwys POPs, gael ei losgi mewn safleoedd ynni o wastraff confensiynol yn hytrach na chyfleusterau arbenigol. Rydym hefyd yn nodi bod allyriadau sy'n deillio o losgi gwastraff clinigol a pheryglus yn 4% o gyfanswm allyriadau'r gwastraff sy'n cael ei losgi ac ynni o wastraff yn y DU[69]. Nid ydym yn bwriadu eithrio gwastraff peryglus o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried ymhellach unrhyw risgiau y gallai hyn eu hachosi, fel dadleoli carbon (allforio

[69] Allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU 2020: Ffigyrau Terfynol – Set ddata Allyriadau gan Ddefnyddwyr. Cyfrifwyd drwy rannu allyriadau llosgi ar gyfer Gwastraff Biolegol, Gwastraff Clinigol a Gwastraff Cemegol yn 2020 wrth allyriadau llosgi ar gyfer Gwastraff Solet Trefol, Gwastraff Biolegol, Gwastraff Clinigol a Gwastraff Cemegol. https://www.gov.uk/government/statistics/final-uk-greenhouse-gas-emissions-national-statistics-1990-to-2020

gwastraff) neu fwy o droseddau gwastraff, a byddwn yn ceisio ymgynghori ar opsiynau lliniaru posibl erbyn diwedd 2023 os bydd angen. Yn yr un modd, nid ydym yn bwriadu eithrio gwastraff clinigol, ac rydym yn nodi, ar sail cyfleusterau gweithredol presennol a’u hallyriadau, y byddai’r holl gyfleusterau gwastraff clinigol arbenigol yn is na’r trothwyon allyrwyr bach arfaethedig ar gyfer gwastraff (gweler yr adran isod ar fonitro, adrodd a dilysu). Byddwn yn ystyried goblygiadau’r sefyllfa hon ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â’r effeithiau cost ar wasanaethau iechyd yn y DU, a byddwn yn ceisio ymgynghori arnynt erbyn diwedd 2023 os bydd angen.

Rydym yn cydnabod y technolegau a’r cynnyrch amrywiol y gellir eu defnyddio i gynhyrchu ynni o wastraff. Er enghraifft, mae rhai technolegau’n gallu troi gwastraff yn danwydd. Mewn rhai achosion, gall y cynhyrchion hyn gyfrannu at leihau allyriadau mewn sectorau eraill. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw ehangu ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU i losgi gwastraff ac ynni o wastraff yn cynnal tegwch ar draws gwahanol dechnolegau, er mwyn sicrhau bod elfennau ffosil yn cael eu tynnu o’r ffrwd gwastraff gweddilliol. Mae’r Awdurdod yn bwriadu cynnwys ATT, ACT a thechnolegau gwastraff uwch cysylltiedig eraill (gan gynnwys cyfleusterau gwastraff i danwydd) yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Fodd bynnag, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i bennu sut bydd allyriadau o’r cyfleusterau hyn yn cael eu cyfrif o dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Mae’r Awdurdod yn bwriadu gosod y pwynt rhwymedigaeth ar gyfer monitro, adrodd a dilysu o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar weithredwyr llosgi gwastraff a chyfleusterau ynni o wastraff. Rydym yn rhannu barn ymatebwyr fod gweithredwyr mewn sefyllfa well i gyflawni rhwymedigaethau i fonitro, adrodd a dilysu. Y cyfleusterau yw’r ffynhonnell uniongyrchol o allyriadau ac mae gweithredwyr eisoes yn rhwym wrth ofynion sydd eisoes yn bodoli i fonitro rhai allyriadau, yn unol â rheoliadau trwyddedu amgylcheddol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. O ganlyniad, bydd gan weithredwyr eisoes rywfaint o arbenigedd a mwy o’r offer sydd ei angen i fonitro, adrodd a dilysu.

Os gosodir rhwymedigaethau monitro, adrodd a dilysu ar weithredwyr llosgi gwastraff a chyfleusterau ynni o wastraff, yna dylai rhwymedigaethau cydymffurfio eistedd gyda’r un parti, gan mai lefel yr allyriadau mesuredig fydd yn pennu nifer y lwfansau y mae angen eu prynu a’u hildio. Ar ben hynny, nododd ymatebwyr fod rhwymedigaethau cydymffurfio ehangach, fel cael trwyddedau amgylcheddol, eisoes yn rhan o’r cytundebau contract rhwng gweithredwyr a’u cwsmeriaid, ac rydym yn rhannu’r dybiaeth y byddai cydymffurfio â Chynllun Masnachu Allyriadau’r Du yn rhan o hyn.

Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr y dylai'r darpariaethau ar gyfer Ysbytai ac Allyrwyr Bach a Allyrwyr Bach Iawn sydd ar gael ar hyn o bryd i gyfranogwyr cymwys Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fod ar gael hefyd i losgyddion gwastraff a pheiriannau ynni o wastraff. Mae’r Awdurdod yn cytuno â rhanddeiliaid y dylid eithrio rhai allyrwyr bach rhag cymryd rhan lawn yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. O ran darpariaethau Ysbytai ac Allyrwyr Bach, mae’r Awdurdod yn bwriadu defnyddio trothwy presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r y DU sy’n cyfateb i neu’n llai na 25,000 tunnell o CO2e y flwyddyn. Byddai’r trothwy hwn yn berthnasol i allyriadau ffosil yn unig. Nid ydym yn bwriadu defnyddio trothwy presennol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU sef mewnbwn thermol 35MW, ar y sail y bydd mewnbwn thermol cyfleuster yn

dibynnu ar gynnwys heterogenaidd eu gwastraff. Mae angen rhagor o waith i ddeall y rhyngweithio ag opsiynau monitro, adrodd a dilysu, unrhyw oblygiadau niweidiol i’r sefyllfa hon a sut i’w lliniaru, fel unrhyw oblygiadau o ran dadleoli carbon neu’r risg y bydd gweithredwyr yn adeiladu cyfleusterau llai i osgoi Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Ein nod yw ymgynghori ar y risgiau hynny hon erbyn diwedd 2023. Bydd y trothwy presennol ar gyfer allyrwyr bach iawn (llai na 2,500 tunnell o CO2e) yn dal yn berthnasol, felly gallai cyfranogwyr yn y sector gwastraff o dan y trothwy hwn optio allan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Mae ymateb yr Awdurdod i’r Cais am Dystiolaeth ar drothwy isaf 20MWth ar gyfer cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU i’w weld ym Mhennod 5.

## Monitro, Adrodd a Dilysu allyriadau

### Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Roeddem yn cynnig y byddai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn berthnasol i brosesu gwastraff ffosil yn unig. Byddai hyn yn golygu mai dim ond ar gyfer eu hallyriadau ffosil y byddai’n rhaid i gyfranogwyr ildio lwfansau’r DU, yn unol â safonau’r Comisiwn ar amcangyfrif effaith llosgi gwastraff ar yr hinsawdd[70]. Roeddem wedi cynnig dau opsiwn ar gyfer pennu rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU ar gyfer pob cyfleuster, drwy amcangyfrif cynnwys ffosil y gwastraff sy’n cael ei drin neu ei losgi:

- Opsiwn A: Monitro peiriannau unigol, a fyddai’n gofyn am gyfleusterau unigol i bennu cymhareb y CO2 ffosil a biogenig sy’n cael ei allyrru o’u cyfleuster. Gallai hyn ddefnyddio’r dull radiocarbon (C-14) neu’r “dull cydbwysedd”.
- Opsiwn B: Dull ffactor allyriadau, a fyddai’n defnyddio amcangyfrif o gyfansoddiad y gwastraff, a fyddai wedyn yn cael ei ddefnyddio gydag allyriadau CO2 pob cyfleuster i bennu faint o CO2 ffosil sy’n cael ei allyrru.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **132) Yn eich barn chi pa gynnig Monitro, Adrodd a Dilysu a ddylai gael ei roi ar waith er mwyn pennu rhwymedigaeth Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer llosgyddion gwastraff a pheiriannau ynni o wastraff?**<br><br>**i) Os mai Opsiwn A ydyw, rhannwch eich barn am ba ddulliau y gellid eu defnyddio, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am natur ymarferol eu rhoi ar waith a'r costau tebygol.**<br><br>**ii) Os mai Opsiwn B ydyw, rhannwch eich barn am sut y dylid cyfrifo'r ffactorau allyriadau hyn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am natur ymarferol ei roi ar waith a'r costau tebygol.**<br><br>**Yn eich ymateb, amlinellwch pa mor aml y dylai allyriadau ffosil gael eu monitro o dan y ddau opsiwn ac ystyriwch a oes opsiynau addas eraill o ran Monitro, Adrodd a Dilysu nad ydym wedi eu nodi.** |

[70] Safonau’r IPCC ar Amcangyfrif Effeithiau Llosgi Gwastraff ar yr Hinsawdd https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/03/5_Waste-1.pdf

**133) Yn eich barn chi, a yw un o'r opsiynau Monitro, Adrodd a Dilysu a gynigir yn fwy tebygol o arwain at gymhellion gwrthnysig (e.e. tirlenwi mwy o wastraff) neu at ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad i gymhwyso Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU at losgi gwastraff ac ynni o wastraff? Ystyriwch wahanol senarios a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn lle bo modd.**

**134) Yn eich barn chi a ddylai unrhyw nwyon tŷ gwydr ychwanegol, heblaw am CO2, a gaiff eu hallyrru gan beiriannau ynni o wastraff neu losgyddion, gael eu cwmpasu gan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Dylent/Na Ddylent) Os dylent, rhowch fanylion am y nwyon a sut y gallai weithio'n ymarferol.**

### Crynodeb o’r ymatebion

Cafwyd 88 o ymatebion i gwestiwn 132. Roedd tri deg pump o ymatebwyr (40%) o blaid Opsiwn A. Nododd tri deg un o ymatebwyr (35%) mai dyma’r dull mwyaf cywir. Awgrymodd naw ymatebydd (10%), gan gynnwys y rhan fwyaf o gwmnïau rheoli gwastraff, y gallai mwy o gywirdeb wrth bennu allyriadau ffosil gymell mwy o weithredu i leihau cynnwys ffosil mewn ffrydiau gwastraff gweddilliol. Dywedodd deuddeg o ymatebwyr (14%) fod Opsiwn A yn ddrutach. Roedd un ar ddeg o ymatebwyr (13%) o blaid Opsiwn B, gyda 10 o ymatebwyr (11%) yn dweud mai dyma’r dull rhataf a symlaf. Roedd deg ymatebydd (11%), gyda hanner ohonynt yn gwmnïau rheoli gwastraff, yn cefnogi caniatáu hybrid o’r ddwy fethodoleg, a oedd fel arfer yn cynnwys gosod ffactor allyriadau diofyn rhanbarthol neu genedlaethol a oedd yn fwriadol uwch na’r cyfartaledd, neu ganiatáu i gyfleusterau ddefnyddio dulliau monitro peiriannau unigol. Dywedodd pymtheg o ymatebwyr (17%), y rhan fwyaf ohonynt yn awdurdodau lleol, fod angen i unrhyw ddull monitro, adrodd a dilysu a ddewisir fynd ati’n effeithiol ystyried amgylchiadau lleol y cyfleuster Ynni o Wastraff a’r gwastraff a gyflenwir iddo. Roedd saith ar hugain o ymatebwyr (31%), y rhan fwyaf ohonynt yn awdurdodau lleol neu’r grwpiau o awdurdodau lleol, heb roi barn nac wedi dweud nad oedd digon o wybodaeth i roi barn wybodus.

Cafwyd 78 o ymatebion i gwestiwn 133. Roedd pedwar deg wyth o ymatebion (62%) wedi cyfeirio at y risg o ddargyfeirio gwastraff i safleoedd tirlenwi. Dywedodd tri ar hugain o ymatebwyr (29%) y gallai defnyddio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer llosgi gwastraff ac ynni o wastraff gynyddu faint o wastraff sy’n cael ei allforio fel tanwydd sy’n deillio o sbwriel. Fodd bynnag, roedd y cymhellion gwrthnysig a nodwyd yn yr ymatebion hyn yn tueddu i ymwneud ag ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i’r sector, yn hytrach nag o ganlyniad i un o’r opsiynau arfaethedig ar gyfer monitro, adrodd a dilysu. O ran Opsiwn B, nododd saith ymatebydd (9%), y rhan fwyaf ohonynt yn gwmnïau rheoli gwastraff, y gallai hyn arwain at awdurdodau lleol yn tan-adfer neu’n or-adfer costau gan weithredwyr Awdurdodau Lleol, a dywedodd naw (12%) na fyddai cymhelliant i leihau cynnwys ffosil yn eu ffrydiau gwastraff. Mynegodd pedwar ar hugain (31%) o ymatebwyr bryderon ynghylch costau ychwanegol a beichiau gweinyddol monitro, adrodd a dilysu, ac roedd y rhan fwyaf o’r rhain yn ymwneud ag Opsiwn A. Dywedodd dau ar hugain o ymatebwyr (27%), yn bennaf o awdurdodau lleol a grwpiau o awdurdodau lleol, nad oedd canlyniadau anfwriadol i’w rhagweld neu fel arall nad oedd yn glir, a bod angen rhagor o wybodaeth.

Cafwyd 60 o ymatebion i'r elfen ‘Dylent/Na ddylent’ i gwestiwn 134, a dywedodd 36 o’r ymatebwyr (60%) na ddylai nwyon tŷ gwydr nad ydynt yn CO2 ac a ollyngir gan losgyddion gwastraff a pheiriannau ynni o wastraff gael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Cafwyd sylwadau gan 77 o ymatebwyr ar y cwestiwn, gyda 27 (35%) yn dweud y dylid mynd i’r afael ag allyriadau nad ydynt yn $CO_2$ drwy ddulliau eraill, a thynnodd 23 o ymatebwyr (30%) sylw at y ffaith mai CO2 oedd y prif nwy tŷ gwydr a oedd yn cael ei ryddhau o gyfleusterau ac mae dyna ffocws Strategaeth Sero Net Llywodraeth y DU. Dywedodd chwe ymatebydd (8%) y dylid cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr nad ydynt yn CO2 yn y sector pan fydd sectorau eraill sy’n rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn dechrau eu cynnwys.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod yn cydnabod yr adborth cymysg ar fonitro, adrodd a dilysu, ac rydym wedi ymrwymo i archwilio’r opsiynau hyn yn fanylach, gan gynnwys cywirdeb, costau paratoi a gweithredu, amlder samplu, capasiti, dulliau cyfrifo posibl ar gyfer ffactorau allyriadau, a dewisiadau eraill. Byddwn hefyd yn edrych yn fanylach ar ba mor berthnasol yw gofynion monitro cyfredol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar gyfer biomas[71] a pha mor addas ydynt ar gyfer gwastraff gweddilliol. Ein nod yw ymgynghori erbyn diwedd 2023 ar gynigion manylach ar gyfer monitro, adrodd a dilysu.

Mae’r Contract Dal Carbon Diwydiannol ar gyfer Gwastraff[72] yn ei gwneud yn ofynnol i allyrwyr sy’n dal contract ddefnyddio’r dull C-14 i bennu eu hallyriadau CO2 ffosiliau. Mae Llywodraeth y DU a’r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod y penderfyniadau a wneir ar fonitro, adrodd a dilysu ar gyfer model busnes Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a Dal Carbon Diwydiannol ar gyfer Gwastraff yn cyd-fynd â’i gilydd er mwyn osgoi beichiau ychwanegol.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd dosrannu cynnwys ffosil yn gywir rhwng gwahanol gyflenwyr gwastraff mewn cyfleusterau sy’n derbyn gwastraff o sawl ffynhonnell, er mwyn adlewyrchu ymdrechion ailgylchu. Byddai hyn yn annog ac yn gwobrwyo gostyngiadau yng nghynnwys ffosil gwastraff gweddilliol.

CO2 yw’r prif nwy tŷ gwydr a gwmpesir gan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU, er bod allyriadau eraill hefyd yn cael eu cynnwys ar gyfer gweithgareddau penodol. Rydym yn ymwybodol bod cyfleusterau llosgi gwastraff ac ynni o wastraff yn allyrru llygryddion eraill yn ogystal â CO2, ond rydym yn nodi’r adborth gan randdeiliaid bod y rhain eisoes yn cael eu rheoleiddio ac y dylai polisïau eraill fynd i’r afael â nhw. Mae’r Awdurdod yn bwriadu ymdrin ag allyriadau CO2 ffosiliau wrth ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i losgi gwastraff ac ynni o wastraff. Fodd bynnag, mae’n bosibl y byddwn yn edrych ar fynd i’r afael â nwyon tŷ gwydr eraill yn y dyfodol, fel methan, pe bai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei ehangu i’r sector gwastraff ehangach.

---

[71] Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: monitro ac adrodd ynghylch biomas mewn gweithfeydd (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1033859/uk-ets-monitoring-reporting-biomass-installations.pdf)

[72] Amrywio’r contract ‘generig’ ar gyfer Dal Carbon Diwydiannol ar gyfer y sector rheoli gwastraff, o ystyried y gwahaniaethau sydd rhwng y sector rheoli gwastraff a sectorau diwydiannol eraill a gefnogir drwy’r model busnes dal carbon diwydiannol.

## Effeithiau dosbarthiadol a’r farchnad

### Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Roeddem wedi gofyn am ragor o fanylion am yr effeithiau posibl ar yr hierarchaeth gwastraff ac i ba raddau y gallai gweithredwyr cyfleusterau drosglwyddo unrhyw gostau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i’w cwsmeriaid.

| Cwestiynau |
|---|
| **135) Sut y byddai cymhwyso Cynllun Masnachu Allyriadau at losgi gwastraff ac ynni o wastraff yn effeithio ar randdeiliaid (gan gynnwys gweithredwyr llosgyddion gwastraff, gweithredwyr peiriannau ynni o wastraff, awdurdodau lleol, defnyddwyr a chwsmeriaid)?**<br><br>**136) A allai cyflwyno pris carbon gymell gweithredwyr gwastraff a/neu awdurdodau lleol i wella eu gweithrediadau neu eu prosesau er mwyn lleihau faint o wastraff ffosil a gaiff ei losgi? (Gallai/Na allai) Amlinellwch eich rhesymau mor fanwl â phosibl a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn.**<br><br>**137) A allai cyflwyno pris carbon gymell awdurdodau lleol i gefnogi aelwydydd i wella arferion ailgylchu? (Gallai/Na allai) Amlinellwch eich rhesymau mor fanwl â phosibl a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn.**<br><br>**138) A oes cyfle (yn y tymor canolig i'r hirdymor) i'r pris carbon gymell gweithredwyr gwastraff a/neu awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn seilwaith dal a storio carbon, er mwyn lleihau allyriadau carbon ffosil? (Oes/Nac oes) Amlinellwch eich rhesymau mor fanwl â phosibl a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn.**<br><br>**139) Os caiff y pris carbon ei gymhwyso at weithredwyr gwastraff, a fydd gweithredwyr gwastraff yn gallu trosglwyddo eu costau i gwsmeriaid (gan gynnwys awdurdodau lleol)? (Byddant/Na Fyddant) Esboniwch mewn cymaint o fanylder â phosibl pam, sut, ac i ba raddau y gall hyn ddigwydd neu na all ddigwydd.**<br><br>**140) Ar gyfer peiriannau y mae awdurdodau lleol yn berchen arnynt, ai awdurdodau unedol ac awdurdodau gwaredu gwastraff fyddai'r unig awdurdodau a oedd yn agored i'r pris carbon - os yw gweithredwyr gwastraff yn trosglwyddo costau? (Ie/Na) Esboniwch mewn cymaint o fanylder â phosibl a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn.**<br><br>**141) Ydych chi'n credu y dylai'r llywodraeth ystyried cyflwyno rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau i'r sector fesul cam dros amser? (Ydw/Nac Ydw) Os ydych, amlinellwch pam, sut ac i ba raddau y gellid darparu opsiynau cyflwyno fesul cam.**<br><br>**142) A fyddai gweithredwyr llosgyddion/peiriannau ynni o wastraff yn destun effeithiau cystadleurwydd dramor a'r risg o ddadleoli carbon, petai'r pris carbon yn gymwys iddynt? (Byddai/Na fyddai) Esboniwch mewn cymaint o fanylder â phosibl a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn.**<br><br>**143) Ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau dosbarthiadol eraill (gan gynnwys effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol ehangach) yn deillio o'r cynnig hwn? (Ydw/Nac Ydw) A oes gennych farn ynghylch sut y gallai'r llywodraeth fynd i'r afael â'r pryderon hyn?** |

## Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 89 o ymatebion i gwestiwn 135. Dywedodd chwe deg o ymatebwyr (67%) y byddai costau cydymffurfio â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn debygol o gael eu trosglwyddo i ryw raddau, a oedd yn cynnwys llawer o awdurdodau lleol a gweithredwyr rheoli gwastraff. Dywedodd tri deg un (35%) ei bod yn debygol y byddai llosgi gwastraff a chynnydd yn ffioedd clwydi ynni o wastraff, gan gynnwys y rhan fwyaf o weithredwyr rheoli gwastraff a ymatebodd i'r cwestiwn. Dywedodd deuddeg (13%) y gallai'r codiadau hyn arwain at golli incwm trydydd parti, a allai yn ei dro arwain at ragor o gynnydd yn y ffioedd clwydi. Mynegodd 18 o ymatebwyr (20%), y rhan fwyaf ohonynt yn awdurdodau lleol, bryderon am gostau'n cael eu gosod arnynt oherwydd gallai hyn leihau'r ddarpariaeth gwasanaethau mewn mannau eraill. Awgrymodd dau ddeg pump o ymatebwyr (28%) y byddai costau'n cael eu trosglwyddo i aelwydydd neu ddefnyddwyr yn y pen draw, gyda 14 (16%) yn dweud y byddai'n rhaid cynyddu'r dreth gyngor. Dywedodd un ar hugain o ymatebwyr (24%), y rhan fwyaf ohonynt yn awdurdodau lleol, y dylai cynhyrchwyr fod yn ysgwyddo costau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Cafwyd 77 o ymatebion i gwestiwn 136, a dywedodd 65 ohonynt (84%) y gallai cyflwyno pris carbon gymell gweithredwyr gwastraff a/neu awdurdodau lleol i leihau faint o danwydd ffosil sy'n cael ei losgi. Roedd 89 o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ar y cwestiwn, gyda 35 o ymatebwyr (39%) yn dweud y gallai prisiau carbon ysgogi buddsoddiad neu newid mewn ymddygiad a fydd yn arwain at ddatgarboneiddio. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am seilwaith gwell, gyda 25 (28%) yn dweud bod angen seilwaith ailgylchu gwell, 22 (25%) yn dweud bod dal a storio carbon yn dibynnu ar gymorth gan y llywodraeth a 19 (21%) yn dweud bod angen seilwaith rhwydwaith ac allforio gwres. Dywedodd ugain o ymatebwyr (22%) fod angen marchnadoedd eilaidd mwy datblygedig ar gyfer deunyddiau wedi eu hailgylchu, a dywedodd 10 (11%) nad yw rhai deunyddiau sy'n cael eu hailgylchu o ansawdd digon uchel neu eu bod wedi eu halogi ormod ar gyfer y marchnadoedd presennol. Nododd 19 o ymatebwyr (21%) y dylai cynhyrchwyr ysgwyddo costau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Soniodd rhanddeiliaid hefyd nad oes gan weithredwyr ac Awdurdodau Lleol lawer o reolaeth dros y gwastraff (a chynnwys ffosil y gwastraff hwnnw) y maent yn ei gael.

Cafwyd 74 o ymatebion i gwestiwn 137, ac atebodd 53 (71%) ohonynt y gallai cyflwyno pris carbon gymell pobl i ailgylchu'n well mewn cartrefi. Cafwyd sylwadau gan 77 o ymatebwyr ar y cwestiwn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn Awdurdodau Lleol, a 38 (49%) yn nodi y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU arwain at newid ymddygiad ar gyfer Awdurdodau Lleol a dywedodd 15 (19%) y gellid cyflawni hyn ar gyfer aelwydydd hefyd. Awgrymodd ymatebwyr hefyd ffyrdd eraill o wella arferion ailgylchu cartrefi, gyda 25 (32%) yn dweud y byddai ymgyrchoedd ymgysylltu ac addysgu yn helpu, ond dywedodd 23 ymatebydd (30%) y byddai angen cymorth gan y llywodraeth i gefnogi'r mathau hyn o weithgareddau oherwydd y pwysau ariannol ar awdurdodau lleol. Awgrymodd 17 o ymatebwyr (22%) y gellid neilltuo rhywfaint o'r refeniw a gynhyrchir gan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gefnogi hyn. Dywedodd tri deg un o ymatebwyr (40%) mai'r diwygiadau gwastraff eraill sy'n digwydd dros y 2020au, fel y rhai a nodir yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff, ddylai fod yn flaenoriaeth.

Cafwyd 69 o ymatebion i gwestiwn 138, ac roedd 51 o’r ymatebwyr (74%) yn cytuno y gallai pris carbon gymell buddsoddiad yn y seilwaith dal a storio carbon. Cafwyd 83 o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn, ac o’r rhain, roedd 31 (37%) yn gadarnhaol am Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn gweithredu fel cymhelliant i fuddsoddi mewn dal a storio carbon, a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol, gweithredwyr rheoli gwastraff a chymdeithasau masnach. Soniodd pedwar deg saith o ymatebwyr (57%) am gost defnyddio dulliau dal a storio carbon, ac y byddai angen cymorth gan y llywodraeth arno. Dywedodd wyth ar hugain (34%) ei bod yn anodd gosod y tu allan i glystyrau, a dywedodd 24 (29%) nad oedd y dechnoleg yn aeddfed eto. Nododd 17 o ymatebwyr (20%) fod defnyddio lleoli dulliau dal a storio carbon yn addas ar gyfer cyfleusterau â chontractau hirach ac felly cyfnodau ad-dalu hwy, a soniodd 14 (17%) fod lleoli yn ataliol ar sail oedran, a’i bod yn anodd eu lleoli ar gyfleusterau hŷn. Dywedodd pedwar ar ddeg o ymatebwyr (17%), y rhan fwyaf ohonynt yn weithredwyr gwastraff neu gymdeithasau masnach, fod angen buddsoddiad gan y Llywodraeth i ddatblygu’r seilwaith a’r datrysiadau cludo a storio cywir. Awgrymodd naw ymatebydd (11%) y gallai refeniw allyriadau negyddol gefnogi cymhellion i fuddsoddi mewn dal a storio carbon. Dywedodd deg ymatebydd (12%), gweithredwyr rheoli gwastraff yn bennaf yng nghyd-destun lleoli dulliau dal a storio carbon, fod angen defnyddio neu ddadlwytho’r carbon a gasglwyd er mwyn hwyluso’r broses o’i ddefnyddio.

Cafwyd 69 ymateb i gwestiwn 139, a dywedodd 67 o’r ymatebwyr (97%) y byddai gweithredwyr gwastraff yn gallu pasio cost y pris carbon ymlaen i’w cwsmeriaid. Cafwyd 83 o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn, gyda 62 o ymatebwyr (75%) yn nodi y byddai trosglwyddo costau rhwng gweithredwyr a chyflenwyr yn digwydd a 55 (66%) yn crybwyll cymalau Newid Cymwys yn y Gyfraith (CFiL) mewn contractau. Codwyd hyn gan y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol, grwpiau o awdurdodau lleol a gweithredwyr rheoli gwastraff a ymatebodd i’r cwestiwn. Fodd bynnag, dywedodd 12 ymatebydd (14%) nad oedd yn sicr y byddai’r holl gostau’n cael eu pasio ymlaen, gyda 15 (18%) yn dweud y byddai’n dibynnu ar sefyllfa’r contract a 10 (12%) yn awgrymu y dylai’r Llywodraeth gyflwyno canllawiau ar y mater hwn. Nid awgrymodd yr un Awdurdod Lleol na ellid trosglwyddo’r costau i gyd – daeth yr ymatebion hyn i gyd gan gwmnïau rheoli gwastraff, cyfleusterau ynni o wastraff a chymdeithasau masnach. Dywedodd deuddeg ymateb (14%) ei bod yn debygol y byddai ffioedd clwydi mewn cyfleusterau yn cynyddu o ganlyniad. Tynnodd dau ar hugain o ymatebwyr (27%) sylw at y ffaith petai costau’n cael eu trosglwyddo, bod angen mecanwaith i ganiatáu ar gyfer dosrannu’r union gostau rhwng nifer o gyflenwyr gwastraff. Dywedodd deg ymatebydd (12%) y dylai Beichiau Newydd fod yn gymwys neu y dylai’r Llywodraeth ddarparu cyllid i dalu am y costau uwch.

Cafwyd 54 o ymatebion i'r elfen ‘Oes/Nac oes’ i gwestiwn 140, a dywedodd 48 o’r ymatebwyr (89%) am safleoedd sy’n eiddo i’r Awdurdod Lleol nad awdurdodau unedol ac awdurdodau gwaredu gwastraff fyddai’r unig awdurdodau sy’n agored i gostau trosglwyddo costau’r pris carbon. Cafwyd sylwadau gan 65 o ymatebwyr ar y cwestiwn, gyda 27 (42%) yn dweud y gallai awdurdodau casglu gwastraff wynebu costau carbon. Roedd pedwar ymateb ar ddeg (22%) yn sôn am y costau y byddai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn eu golygu i drydydd partïon a’r sector masnachol a diwydiannol.

Cafwyd 83 ymateb i elfen ‘Ydw/Nac ydw’ i gwestiwn 141, ac roedd 63 o’r ymatebwyr (76%) yn cytuno y dylai’r Llywodraeth ystyried cyflwyno rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn raddol i’r sector gwastraff dros amser, gan gynnwys pob Awdurdod Lleol a ymatebodd. Roedd 92 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau gyda’u safbwyntiau ar y cwestiwn, a dywedodd 37 (40%) ohonynt y gallai camau graddol wella dealltwriaeth o Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU a chaniatáu amser i awdurdodau lleol a gweithredwyr addasu cyn wynebu'r costau llawn. Dywedodd tri deg dau o ymatebwyr (35%) y gallai cyflwyno’r cynllun fesul cam helpu i gysoni Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU â pholisïau gwastraff eraill. Soniodd ymatebwyr am sawl opsiwn ar gyfer cyflwyno fesul cam – cyfnod monitro, adrodd a dilysu yn unig, cyflwyno dyrannu lwfansau am ddim fesul cam o’r system wastraff (e.e. dechrau gydag ynni o wastraff a llosgi gwastraff, ac ehangu i ailgylchu yn y dyfodol), cyflwyno fesul cam o gysylltiad â phris carbon a chyflwyno fesul cyfleuster (e.e. cynnwys cyfleusterau mwy newydd yn gynharach na rhai hŷn). O’r rhai a oedd yn anghytuno â chyflwyno’n raddol, roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai’n gohirio effaith cynnwys y sector yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Cafwyd 70 o ymatebion i’r elfen ‘Byddent/Na fyddent’ i gwestiwn 142, a dywedodd 63 o’r ymatebwyr (90%) y byddai pris carbon yn golygu bod gweithredwyr peiriannau’n wynebu effeithiau cystadleurwydd dramor a risg o ddadleoli carbon. Cafwyd sylwadau gan 81 o ymatebwyr ar y cwestiwn, gyda 68 (84%) yn dweud y gallai allforion gwastraff gynyddu. Dywedodd naw (11%) y gallai cyfraddau tirlenwi gynyddu. Dywedodd tri deg tri (41%) y dylid rhoi treth ar allforion gwastraff os caiff pris carbon ei osod yn ddomestig. Dywedodd naw ymatebydd (11%) y dylid gosod gwaharddiad ar allforio gwastraff cyn pris carbon, a dywedodd dau yr un peth am dirlenwi. Dywedodd un ar bymtheg o ymatebwyr (20%) y dylid ymestyn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys allforion, a dywedodd wyth (10%) yr un peth am dirlenwi.

Cafwyd 64 ymateb i’r elfen ‘Ydw/Nac ydw’ i gwestiwn 143, a dywedodd 49 o’r ymatebwyr (77%) y gallai effeithiau dosbarthiadol eraill ddeillio o ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd 67 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ar y cwestiwn, gyda 26 ohonynt (39%) a 29 (43%) yn y drefn honno yn mynegi’r risg o ddargyfeirio gwastraff i safleoedd tirlenwi ac i danwydd sy’n deillio o sbwriel (RDF) neu danwydd soled wedi ei adfer (SRF). Soniodd pymtheg o ymatebwyr (22%) am y risg o gynyddu’r cymhellion ar gyfer troseddau gwastraff. Dywedodd pymtheg o ymatebwyr (22%) y gallai costau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gael eu trosglwyddo i aelwydydd neu ddefnyddwyr.

### Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod yn cydnabod yr adborth eang gan randdeiliaid ar yr effeithiau y gallai’r polisi eu cael.

Credwn y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU hwyluso gostyngiadau mewn allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd safleoedd ynni o wastraff. Gellid cyflawni hyn drwy gymell lefelau uwch o ailgylchu, didoli gwastraff cymysg i gael gwared â chynnwys ffosil o wastraff gweddilliol, a dal a storio carbon. Gallai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU hefyd gymell dadlwytho gwres, a fyddai’n gwneud y cyfleuster yn fwy effeithlon, yn dibynnu ar ddyluniad

terfynol y polisi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y rhwystrau rhag rhai o'r opsiynau datgarboneiddio hyn a godwyd gan randdeiliaid, fel y gost a'r anawsterau seilwaith ar gyfer dal a storio carbon a dadlwytho gwres, ynghyd ag anaeddfedrwydd technolegol cymharol dulliau ailgylchu cemegol.

Mae polisïau eraill ar gael, sy'n cefnogi defnyddio rhai o'r opsiynau datgarboneiddio hyn ac sy'n ceisio goresgyn rhwystrau penodol, a fyddai'n cefnogi amcanion Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr anawsterau o ran defnyddio dulliau dal a storio carbon ar gyfer y rhai y tu allan i'r clystyrau dal a storio carbon ond rydym yn nodi bod y model busnes dal carbon diwydiannol ar gyfer Gwastraff sydd gan Lywodraeth y DU yn darparu cymorth i allyrwyr rheoli gwastraff ddatgarboneiddio drwy gymorth refeniw parhaus ac, ar gyfer prosiectau cychwynnol yn unig, grant cyfalaf a ariennir gan Gronfa Seilwaith Dal a Storio Carbon hyd at, ond heb gynnwys, 50% o gyfanswm y costau cyfalaf.

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau rhag datblygu rhwydweithiau gwresogi, mae polisïau ar barthau rhwydweithiau gwres, datblygu fframwaith rheoleiddio a marchnad a chyllid cefnogi ar gyfer rhwydweithiau gwres ar fin cael eu rhoi ar waith ledled y DU. Os yw gwres yn fater datganoledig, megis yn yr Alban, bydd y polisïau a'r cyllid yn benodol i'r llywodraeth ddatganoledig honno. Gallai'r rhain helpu i gefnogi'r gwres sy'n cael ei gymryd o gyfleusterau ynni o wastraff.

Soniodd rhanddeiliaid yn aml am bwysigrwydd dull economi gylchol, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo atal gwastraff ac ailddefnyddio yn ogystal ag ailgylchu. Pwysleisiwyd hefyd bod angen newid ymddygiad ar lefel aelwydydd a chynhyrchwyr er mwyn datgarboneiddio'r sector. Rydym yn cydnabod bod angen polisïau ychwanegol i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU i hwyluso hyn, fel y rhai sydd wedi eu nodi yn Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Llywodraeth y DU, strategaeth Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru[73], Strategaeth Rheoli Gwastraff Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon[74], Ymgynghoriad Map Llwybr Economi Gylchol Llywodraeth yr Alban[75], ac mae hyn yn cael ei drafod yn ein hymateb i gwestiwn 144.

Mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu'n gryf y bydd rhywfaint o drosglwyddo costau rhwng gweithredwyr llosgyddion a chyfleusterau ynni o wastraff a'u cwsmeriaid oherwydd cymalau Newid Cymwys yn y Gyfraith mewn contractau. Rydym yn deall y gallai hyn godi costau gwaredu gwastraff, yn enwedig ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i archwilio'r effeithiau cost hyn yn fanylach cyn sefydlu'r union ddyluniad polisi ar gyfer sut y bydd ynni o wastraff yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac rydym yn nodi bod Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran

[73] Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu 2021, https://www.llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu-0
[74] Strategaeth Rheoli Gwastraff Gogledd Iwerddon 2022 https://www.daera-ni.gov.uk/articles/waste-management-strategy
[75] Ymgynghoriad ar Fap Llwybr Economi Gylchol Llywodraeth yr Alban 2022 https://consult.gov.scot/environment-forestry/scotlands-circular-economy-routemap/

Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon wedi ymrwymo i gefnogi cynghorau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel[76].

Rydym yn deall hefyd fod cyfleoedd datgarboneiddio i'w cael yn y sector rheoli gwastraff y gall amrywiaeth eang o gyfranogwyr eu gwireddu. Mae hyn yn golygu, os bydd costau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael eu hysgwyddo gan un grŵp yn benodol, efallai na fydd ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cyflawni ei amcanion yn llawn. Felly, mae’r Awdurdod wedi ymrwymo i archwilio mecanweithiau gwahanol ar gyfer dosbarthu costau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn deg, er enghraifft drwy gysylltu ag EPR.

Rydym yn cytuno ag ymatebwyr y gallai cyflwyno rhwymedigaethau Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i’r sector yn raddol dros amser helpu awdurdodau lleol a gweithredwyr i ddeall Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn well, paratoi ar gyfer costau llawn a rheoli’r gwaith o weithredu allyriadau ochr yn ochr â pholisïau gwastraff eraill.

Mae’r Awdurdod wedi ystyried yr opsiynau gwahanol a argymhellwyd gan yr ymatebwyr ar gyfer cyflwyno hyn. Rydym yn bwriadu gweithredu cyfnod o ddwy flynedd lle bydd gweithredwyr yn monitro, adrodd a dilysu eu hallyriadau o 2026-2028, cyn wynebu’r costau llawn. Bydd hyn yn galluogi gweithredwyr a’u cwsmeriaid i ddeall yn well sut mae cylch adrodd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gweithio, ac i ddeall yr effeithiau cost posibl i gwsmeriaid. Byddwn yn cynnig sut bydd y cyfnod hwn yn gweithio, gan gynnwys y gofynion penodol ar weithredwyr ac eraill, yn yr ymgynghoriad dilynol.

Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu bod cost dod i gysylltiad â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn raddol dros amser e.e. talu dim ond 20% o’r pris carbon yn y flwyddyn gyntaf, 40% yn yr ail flwyddyn ac ati. Er y gallai hyn leihau’r risg wynebu pris carbon uchel yn sydyn, mecanwaith marchnad yw Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, felly gall y pris carbon amrywio. Felly, nid yw’r dull hwn o reidrwydd yn gwarantu cynnydd graddol mewn prisiau.

Roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi awgrymu cyflwyno dyraniadau am ddim fesul cam. Fodd bynnag, defnyddir dyrannu lwfansau am ddim i liniaru’r risg o ddadleoli carbon ac nid yw’n briodol ei ddefnyddio fel mecanwaith ar gyfer cyflwyno fesul cam. Fel y nodir isod, byddwn yn gwneud rhagor o waith ar risgiau dadleoli carbon (allforion gwastraff) ac opsiynau lliniaru, os bydd angen. Mae Pennod 2 o’r Ymateb hwn gan y Llywodraeth hefyd yn cynnwys manylion am ddiwygio dyrannu am ddim.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai’n haws iddynt ddatgarboneiddio fesul cyfleuster, gan ddechrau gyda chyfleusterau newydd yn gyntaf ar y sail y byddai’n haws iddyn nhw ddatgarboneiddio. Er ein bod yn cydnabod bod cyfleusterau mwy newydd yn fwy tebygol o allu gosod dulliau dal a storio carbon, fel y nodwyd yn flaenorol, mae polisïau’n dod i rym i annog datgarboneiddio ar draws y system (gan gynnwys cynhyrchwyr a dinasyddion, yn ogystal â

[76] Yn Natganiad yr Hydref 2022 darparodd Llywodraeth y DU fynediad at hyd at £2.8 biliwn ychwanegol i awdurdodau lleol yn Lloegr ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, rhyddhau a gwasanaethau eraill yn 2023-24, gan gynyddu i £4.7 biliwn yn 2024-25.

gweithredwyr cyfleusterau). Ar sail hynny, nid ydym yn bwriadu cyflwyno yn ôl oedran y cyfleuster.

Yn olaf, roedd nifer fach o ymatebwyr yn argymell cyflwyno fesul rhan o'r sector gwastraff, e.e. dechrau gydag ynni o wastraff a llosgi gwastraff, ac yna cynnwys tirlenwi, ailgylchu a/neu ddŵr gwastraff yn y dyfodol. Fel y nodir yn ymateb yr Awdurdod i gwestiwn 146, nid ydym yn cynnig cynnwys sectorau y tu hwnt i ynni o wastraff a llosgi gwastraff ar hyn o bryd, ond bydd Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn parhau i edrych ar ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i rannau eraill o'r sector gwastraff yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn nodi'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch dadleoli carbon o allforio gwastraff a'r risg o gymell anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi. Ymchwilir i raddfa'r risgiau hyn, ac os bydd angen, byddwn yn datblygu opsiynau lliniaru, gan ystyried y rhai a nodwyd gan ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth. Rydym hefyd yn nodi bod Defra yn bwriadu ymgynghori yn 2023 ar weithredu gwaharddiad ar allforio gwastraff plastig nad yw'n OECD, a fydd yn lliniaru yn erbyn y risg o allforio gwastraff. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i fonitro'r gwaith o ddatblygu cynigion Senedd yr UE i ymestyn System Masnachu Allyriadau'r UE i gyfleusterau llosgi gwastraff ac ynni o wastraff fel rhan o'u pecyn Fit for 55, a byddwn yn ystyried effeithiau dilynol ar allforio gwastraff.

Mae rhanddeiliaid hefyd wedi mynegi pryderon y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cynyddu cymhelliant troseddau gwastraff, yn ogystal ag effeithio ar gynhyrchu ynni domestig. Rydym yn cydnabod y pryderon hyn a byddwn yn eu hystyried wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

## Rhyngweithio â pholisïau arfaethedig a pholisïau sy'n bodoli eisoes

### Crynodeb o'r Cais am Dystiolaeth

Fe wnaethom amlinellu polisïau eraill, y rhai sydd ar waith ac wedi eu cynllunio, a fyddai'n helpu i ddatgarboneiddio'r sector gwastraff. Yn benodol, roeddem wedi amlinellu sut mae dal a storio carbon yn debygol o chwarae rhan bwysig o ran helpu i gyrraedd targedau hinsawdd uchelgeisiol, ond y gallai mabwysiadu'r dechnoleg hon fod yn fwy heriol i orsafoedd gwastraff sydd y tu allan i glystyrau diwydiannol a seilwaith cludo a storio arfaethedig ar gyfer dal a storio carbon. Nododd yr Awdurdod hefyd y polisïau sydd ar waith ledled y DU i gynyddu ailgylchu a lleihau faint o wastraff gweddilliol sy'n cael ei anfon i gael ei drin.

| Cwestiynau |
|---|
| **144) Pa bolisïau ychwanegol y byddai eu hangen i gefnogi Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i ddatgarboneiddio llosgi gwastraff ac ynni o wastraff? Sut y byddai hyn yn newid dros amser? Sut byddai hyn yn newid dros amser?**<br><br>**145) Sut y byddai ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i losgi gwastraff ac ynni o wastraff yn rhyngweithio â pholisïau sy'n bodoli eisoes ac sydd yn yr arfaeth o ran llosgi gwastraff, ynni o wastraff, a rheoli gwastraff yn ehangach, yn ogystal ag unrhyw bolisïau perthnasol eraill nad ydynt yn rhai datgarboneiddio?** |

**146) A oes rhannau eraill o'r system rheoli gwastraff a ddylai gael eu cynnwys yng nghwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU? Er enghraifft, tirlenwi neu ddŵr gwastraff. (Oes/Nac Oes) Esboniwch mewn cymaint o fanylder â phosibl a rhowch dystiolaeth i ategu eich barn.**

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 82 ymateb i gwestiwn 144, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn awgrymu polisïau ychwanegol a allai ategu ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i wastraff. Roedd hyn yn cynnwys 33 o ymatebwyr (40%) a oedd yn galw am bolisïau ychwanegol ymhellach i fyny i leihau gwastraff gweddilliol sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a llosgi gwastraff. Dywedodd un ar ddeg o ymatebwyr (13%) y dylai'r Llywodraeth gynyddu uchelgais polisïau gwastraff presennol, gan gynnwys polisïau'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff. Roedd tri deg ymateb (37%) yn galw am ddatblygu a chymell seilwaith ynni o wastraff ymhellach, fel CCS, gan y Llywodraeth, a dywedodd naw (11%) y dylai'r Llywodraeth gefnogi mwy o ddulliau cyflenwi gwres. Roedd ymatebion eraill yn awgrymu polisïau a allai helpu i leihau cymhellion gwrthnysig pe bai gwastraff yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Dywedodd pedwar ar hugain o ymatebwyr (29%) y dylid cyflwyno Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ochr yn ochr â mecanwaith i gyfyngu ar allforion RDF, a dywedodd 21 (26%) y dylid cynnwys rhagor o anghymhellion ar gyfer tirlenwi. Roedd yr ymatebion eraill yn canolbwyntio ar gysoni ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i wastraff â pholisïau presennol, gan gynnwys 22 (27%) a oedd yn cyfeirio at bolisïau'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff, a 14 (17%) a ddywedodd y dylai'r gweithredu gyd-fynd â gwaharddiadau tirlenwi arfaethedig ledled y DU.

Cafwyd 73 o ymatebion i gwestiwn 145. Roedd pedwar deg pedwar o ymatebwyr (60%), 30 ohonynt yn awdurdodau lleol ac yn grwpiau o awdurdodau lleol, yn cytuno y gallai ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i losgi gwastraff ac ynni o wastraff ryngweithio â pholisïau presennol ac arfaethedig, yn enwedig polisïau'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff. Dywedodd un ar hugain (29%) y dylai ehangu gyd-fynd ag unrhyw waharddiadau tirlenwi, dywedodd naw (12%) y dylai gyd-fynd ag unrhyw ddiwygiadau i'r dreth tirlenwi a dywedodd 11 (15%) y dylai gyd-fynd â rhagor o gefnogaeth i ddal a storio carbon. Dywedodd chwe ymatebydd (8%) y dylai ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i wastraff gael ei ategu gan gymorth ar gyfer gwastraff i danwydd. Galwodd 17 (23%) am bolisïau ychwanegol ymhellach i fyny i gefnogi datgarboneiddio'r sector.

Cafwyd 80 o ymatebion i gwestiwn 146, ac roedd 65 (81%) o'r rhain yn cytuno bod rhannau eraill o'r system rheoli gwastraff y dylid eu cynnwys yng nghwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Cafwyd sylwadau gan 80 o ymatebwyr ar y cwestiwn, a dywedodd 27 (34%) y dylid cynnwys tirlenwi o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac roedd naw ymatebydd (11%) yn gwrthwynebu ei gynnwys, ac roedd wyth ymatebydd (10%) yn galw am ddefnyddio mecanwaith amgen ar gyfer tirlenwi. Dywedodd 14 o ymatebwyr (18%) y dylid cynnwys allforion RDF yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac roedd tri ymatebydd (4%) yn gwrthwynebu ei gynnwys. Dywedodd un ar bymtheg o ymatebwyr (20%) y dylid cynnwys yr holl gyfleusterau gwastraff gweddilliol, a dywedodd naw ymatebydd (11%) fod angen cynnwys rhannau eraill o'r sector rheoli gwastraff er mwyn sicrhau tegwch.

### Ymateb yr Awdurdod

Er bod Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn gallu chwarae rhan bwysig yn cefnogi’r sector gwastraff i ddatgarboneiddio, mae’r Awdurdod yn cytuno y bydd angen i bolisïau eraill sy’n dod i rym rhwng nawr a 2028 weithio ochr yn ochr ag ehangu cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno CCS, polisïau ymhellach i fyny fel y rhai yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff yn Lloegr, Strategaeth Mwy nag Ailgylchu yng Nghymru, Strategaeth Rheoli Gwastraff yng Ngogledd Iwerddon, Ymgynghoriad ar y Map Economi Gylchol yn yr Alban, Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a rhagor o gyfyngiadau ar wastraff i safleoedd tirlenwi. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd angen datblygu polisïau ychwanegol o bosibl i gefnogi hyn ac i sicrhau bod y polisi cyffredinol yn gydlynol. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU i wastraff yn ategu’r gwaith o gyflawni polisïau arfaethedig ac unrhyw bolisïau ychwanegol, yn ogystal â datgarboneiddio’r sector gwastraff yn gyffredinol.

Rydym yn nodi’r meysydd lle mae ymatebwyr yn dweud bod angen rhagor o gefnogaeth gan y llywodraeth, fel cymorth ychwanegol i ddal a storio carbon, a rhagor o bolisïau ymhellach i fyny.

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd mynd i’r afael â dadleoli carbon o allforio gwastraff a’r risg o wastraff ychwanegol yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, mewn ymateb i gwestiynau 144 a 145. Gweler ymateb yr Awdurdod i gwestiwn 142 sy’n ymdrin â’r mater hwn.

Mae’r Awdurdod yn nodi’r galwadau i gynnwys rhannau eraill o’r sector rheoli gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU, yn ogystal â’r angen i sicrhau tegwch gan barchu’r hierarchaeth gwastraff ar yr un pryd. Er nad ydym yn cynnig cynnwys rhannau eraill o’r sector gwastraff ar hyn o bryd, bydd yr Awdurdod yn edrych ar effeithiau posibl cynnwys rhannau eraill o’r sector rheoli gwastraff yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn y dyfodol.

# Pennod 7: Cais am dystiolaeth ar waredu nwyon tŷ gwydr ac amaethyddiaeth ac allyriadau defnydd tir

Mae’r bennod hon yn rhoi sylw i gynigion a nodwyd ym Mhennod 8 yn yr ymgynghoriad.

**Mae’r Awdurdod yn credu bod y Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn farchnad hirdymor ar gyfer Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr. Rydym yn bwriadu cynnwys technolegau Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu peirianyddu yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU, yn amodol ar ymgynghori pellach; bod trefn fonitro, adrodd a dilysu gadarn ar waith; a rheoli effeithiau ehangach.**

Mae’r Awdurdod yn credu y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU hefyd gynnig marchnad hirdymor briodol ar gyfer technolegau Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr o ansawdd uchel sy’n seiliedig ar natur, yn amodol ar wneud rhagor o waith i ystyried yr amrywiaeth o faterion posibl a gyflwynir drwy’r Cais am Dystiolaeth a chan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ynghylch sefydlogrwydd, costau ac effeithiau ehangach o ran rheoli tir. Bydd yr Awdurdod yn anelu at gynnal ymgynghoriad pellach ar gynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn 2023.

Bydd pob aelod o’r Awdurdod yn defnyddio canfyddiadau’r Cais am Dystiolaeth i nodi ac ystyried yr holl opsiynau ar gyfer gwella dulliau Monitro, Adrodd a Dilysu fel ffordd werthfawr o helpu’r sector amaethyddiaeth a defnydd tir i ddatgarboneiddio. Nid yw’r Awdurdod yn bwriadu ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys amaethyddiaeth ar hyn o bryd.

## Cais am dystiolaeth ar rôl Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel marchnad hirdymor ar gyfer technolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr

### Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Roedd y Cais am Dystiolaeth yn archwilio rôl Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel marchnad hirdymor ar gyfer technolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr[77]. Edrychodd yr Awdurdod ar fanteision posibl cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU; yr ystyriaethau allweddol ar gyfer dylunio polisi; yr amrywiaeth o feini prawf cysylltiedig ar gyfer

[77] Mae Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr yn derm sy’n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio dulliau o gael gwared ar nwyon tŷ gwydr o’r atmosffer. Mae amrywiaeth eang o ddulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr sy’n perthyn yn fras i ddau gategori: dulliau biolegol neu seiliedig ar natur fel coedwigo, neu ddulliau wedi’u peirianyddu fel Dal a Storio Carbon yn Uniongyrchol o’r Aer (DACCS).

cyfranogiad yn y farchnad; a gwahanol ffyrdd o integreiddio a chyflwyno gwaredu nwyon tŷ gwydr i’r farchnad dros amser.

Mae’r adran nesaf yn crynhoi’r safbwyntiau a nodwyd o’r Cais am Dystiolaeth ac mae’r adran ganlynol yn nodi safbwynt yr Awdurdod ar rôl Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU fel marchnad hirdymor ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr a’r camau nesaf.

## Rôl Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU

| **Cwestiynau** |
|---|
| **147) Ydych chi'n credu y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fod yn farchnad hirdymor briodol ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr? (Ydw/Nac Ydw) Esboniwch pam, gan danlinellu'r buddiannau a'r risgiau lle bo modd.** |

Cafwyd 98 o ymatebion i gwestiwn 147. Roedd saith deg wyth o’r ymatebwyr (80%) yn cytuno y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fod yn farchnad hirdymor briodol ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr, gyda 33 ohonynt yn cytuno ar sail nifer o amodau.  Roedd naw ymatebydd (9%) yn anghytuno bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn farchnad hirdymor briodol. Nid oedd un ar ddeg o’r ymatebion (11%) yn cytuno nac yn anghytuno’n uniongyrchol, ond roeddent yn amlinellu ystyriaethau allweddol o blaid ac yn erbyn y cwestiwn.

**Cefnogi’r defnydd o waredu nwyon tŷ gwydr:** dywedodd llawer o ymatebion a oedd yn cytuno y byddai cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn sefydlu’r galw ac yn cymell mwy o ddefnydd o ddulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr. Roeddent yn awgrymu y byddai cynnwys Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn darparu arwydd marchnad i ysgogi buddsoddiad mewn prosiectau gwaredu nwyon tŷ gwydr, cefnogi lleihau costau dros amser ac ysgogi cystadleuaeth rhwng y technolegau. Fe wnaeth ymatebwyr hefyd dynnu sylw hefyd at y ffaith y byddai egwyddor y llygrwr sy’n talu yn cael ei chynnal drwy gynnwys nwyon tŷ gwydr mewn cynllun sy’n cynnwys rhai o’r sectorau anoddaf i leihau eu hallyriadau, fel diwydiannau a hedfanaeth sy’n defnyddio mwy o ynni. Awgrymodd yr ymateb hefyd y byddai cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr mewn marchnad gydymffurfio bresennol a chredadwy yn helpu i roi hyder i brosiectau gwaredu nwyon tŷ gwydr.

Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebion a oedd yn cytuno â’r cwestiwn yn gwneud hynny ar sail gwahanol amodau. Roedd y rhain yn cynnwys:

**Dewis technoleg:** Roedd nifer fawr o ymatebion yn dadlau mai dim ond gwaredu â storfeydd parhaol y dylid eu cynnwys. Mynegodd eraill bryderon y gallai gwaredu nwyon tŷ gwydr o ansawdd isel, neu weithredu gwael, danseilio hygrededd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Cyfeiriodd rhai at y tebygolrwydd o ddigwyddiadau gwrthdroi, lle mae carbon yn cael ei ailryddhau, fel ffactor pwysig wrth ystyried cynhwysiant. Roedd nifer fawr o ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyd-fanteision ac yn dadlau y gallai cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr sy’n seiliedig ar natur yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU fanteisio ar y rhain.

**Monitro, Adrodd a Dilysu:** roedd nifer o ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd monitro, adrodd a dilysu. Roedd rhai yn dadlau bod y gallu i feintioli meintiau yn haws ar gyfer Bio-ynni gyda Dal a Storio Carbon (BECCS) a Dal a Storio Carbon yn Uniongyrchol o'r Aer (DACCS) yn eu gwneud yn fwy ffafriol o’u cymharu â’r niferoedd a allai fod yn fawr ac anhysbys o atebion yn seiliedig ar natur. Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd rhai at anhawster monitro, adrodd a dilysu ar gyfer atebion yn seiliedig ar natur.

**Polisïau ategol:** nododd rhai nad yw gwaredu nwyon tŷ gwydr yn grŵp unffurf, gan ddadlau bod gwahanol atebion ar wahanol gamau o ran parodrwydd masnachol a thechnolegol ac felly bod angen gwahanol fathau o gymhellion ariannol arnynt. Cyfeiriodd nifer o ymatebion at yr angen am bolisïau eraill i gefnogi defnyddio dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr cyn neu ochr yn ochr ag integreiddio’r farchnad, fel drwy fodelau busnes a chymorth refeniw.

Roedd yr ymatebion hefyd yn canolbwyntio ar themâu ehangach, gan gynnwys:

**Effaith ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU:** cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at wella hylifedd ym marchnad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU o ganlyniad i gynhwysiant gwaredu nwyon tŷ gwydr. Dadleuodd nifer y gallai fod angen ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys sectorau newydd a fydd yn debygol o fod angen gwaredu nwyon tŷ gwydr yn y dyfodol. Dadleuodd un y dylai’r nifer sy’n manteisio ar waredu nwyon tŷ gwydr fod yn gyfyngedig yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU i sicrhau bod capasiti gwaredu nwyon tŷ gwydr ar gael i’r rhai sydd y tu allan i’w gwmpas. Dadleuodd nifer y dylai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU fod yn farchnad negyddol net yn y dyfodol.

**Rhyngweithio â marchnadoedd carbon gwirfoddol:** roedd yr ymatebwyr hefyd yn edrych ar y rhyngweithio rhwng integreiddio Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU a marchnadoedd carbon gwirfoddol. Dadleuodd sawl ymateb y byddai monitro, adrodd a dilysu mewn marchnad gydymffurfio fel Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn gwella safonau marchnadoedd carbon gwirfoddol. Awgrymodd eraill y dylai prosiectau nwyon tŷ gwydr allu gwerthu mewn marchnadoedd gwirfoddol a marchnadoedd cydymffurfio, ar yr amod nad yw allyriadau wedi eu hatafaelu yn cael eu cyfrif ddwywaith. Ar ben hynny, nododd nifer o ymatebwyr fod codau carbon gwirfoddol ar gyfer coetiroedd a mawn eisoes yn bodoli yn y DU ac y gallent felly fod yn addas iawn i’w cynnwys.

**Anghytuno â’r cwestiwn:** Roedd rhai’n dadlau y byddai cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yn ei gwneud hi’n anodd cynnal y cymhelliant i ddatgarboneiddio – bod masnachu mewn marchnad fel Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn galw am unffunudrwydd, a byddai cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr felly’n golygu cyfnewid lleihau â gwaredu. Roedd ymatebion o’r fath yn dadlau y dylid ystyried lleihau a gwaredu fel pethau sy’n cyd-fynd â’i gilydd ac nid fel cyfnewidiadau. Yn yr un modd, roedd eraill yn dadlau nad yw carbon biogenig sy’n cael ei amsugno gan ecosystemau naturiol (gwaredu nwyon tŷ gwydr yn seiliedig ar natur) yn cyfateb i’r carbon sy’n cael ei ryddhau drwy losgi tanwyddau ffosil, gan fod amserlenni symud o’r fath yn wahanol iawn o’i gymharu â lleihau allyriadau yn awr. Roedd un yn nodi’r risg na fyddai gwaredu nwyon tŷ gwydr yn cyflawni yn unol â’r disgwyl o ran faint o garbon sy’n cael ei waredu, ac felly gallai cynhwysiant danseilio Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

**Yn ogystal, gofynnodd yr Awdurdod am gyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd:** Roedd y Pwyllgor yn argymell 'yn yr hirdymor, wrth i ni fynd i'r afael â sero net, y byddai'n ddoeth cynnwys nwyon wedi eu gwaredu'n beirianyddol (e.e. y rhai sy'n seiliedig ar ddal a storio carbon) yng Nghynllun Masnach Allyriadau'r DU, fel bod cyfranogwyr sydd â'r allyriadau sy'n weddill yn talu am waredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu i gydbwyso'r rhain.' Ar ben hynny, cynghorodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn erbyn cynnwys symudiadau yn seiliedig ar natur. Y rheswm am hyn oedd bod 'storio carbon mewn sinciau naturiol yn bwysig ond heb y sicrwydd o sefydlogrwydd sydd ei angen ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU' ac oherwydd y gwahaniaeth rhwng disgwyliadau presennol prisiau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y dyfodol a chost coedwigaeth.[78]

| Cwestiynau |
| --- |
| **148) Sut y gallai dyluniad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gael ei addasu i gynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr wrth barhau â'r cymhelliant i ddatgarboneiddio ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Masnachu Allyriadau?** |

Cafwyd 59 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r cynigion wedi cael eu grwpio'n themâu cyffredin.

**Rheoli'r cyflenwad o nwyon sy'n cael eu gwaredu:** roedd nifer fawr o'r ymatebion yn cynnig enghreifftiau o sut gallai'r Awdurdod reoli'r cyflenwad o gredydau gwaredu nwyon tŷ gwydr i farchnad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, er mwyn cynnal cymhelliant i ddatgarboneiddio. Roedd hyn yn cynnwys rheoli lwfansau'n rhagweithiol ar gyfer digwyddiadau cyflenwi a galw allweddol, fel prosiectau gwaredu nwyon tŷ gwydr mawr yn dod ar-lein. Dadleuodd eraill y dylai'r Awdurdod gyfyngu ar faint o waredu nwyon tŷ gwydr y gall cyfranogwyr eu defnyddio, neu gadw credydau gwaredu nwyon tŷ gwydr ar gyfer mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad. Roedd cynigion eraill yn cynnwys lleihau cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU wrth i gredydau gwaredu nwyon tŷ gwydr ddod i'r farchnad, gan ddefnyddio credydau i ddisodli dyrannu am ddim neu ganiatáu prosiectau domestig i mewn i'r farchnad yn unig. Cynigiodd nifer o ymatebwyr ffyrdd o brisio uned gwaredu nwyon tŷ gwydr: er enghraifft, dylai fod yn werth llai na lwfans allyriadau neu drwy ostwng nifer y gwaredu nwyon tŷ gwydr a gyflwynwyd i'r farchnad ar sail eu sefydlogrwydd.

**Integreiddio fesul cam:** Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig gwahanu'r gwaredu nwyon tŷ gwydr a marchnadoedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i ddechrau, fel rhan o ddull o integreiddio fesul cam, oherwydd byddai marchnad ar wahân yn caniatáu mwy o drosolwg a thryloywder gan y llywodraeth o fuddsoddiadau gwaredu carbon gwirfoddol, hyrwyddo mwy o gysondeb mewn monitro, adrodd a dilysu ar draws prosiectau, a galluogi monitro ac asesu mwy cynhwysfawr o lefel gyffredinol y gwaredu sy'n cael ei gyflawni. Ar ben hynny, awgrymodd ymatebwyr y gellid integreiddio marchnadoedd pan fydd hyder a mesurau diogelu digonol i sicrhau na fydd cynnwys allyriadau negyddol yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn

[78] Llythyr y Pwyllgor Newid Hinsawdd: Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU - https://www.theccc.org.uk/publication/letter-development-of-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets/

annog diffyg cymhelliant i leihau allyriadau. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau dros gael marchnadoedd ar wahân yn barhaol ar gyfer lleihau a gwaredu nwyon i osgoi gorliwio cyfraniad disgwyliedig allyriadau negyddol yn y dyfodol mewn modelau hinsawdd. Ar ben hynny, roeddent yn dadlau y byddai marchnadoedd ar wahân yn osgoi amharu ar raddfa a chyflymder y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni allyriadau negyddol.

**Rheoli’r defnydd o gredydau:** Fe wnaeth nifer o ymatebwyr awgrymu cyflwyno meini prawf sectoraidd ar gyfer lleihau allyriadau neu’r gofyniad am strategaeth lleihau allyriadau addas cyn cael mynediad i waredu nwyon tŷ gwydr yn y farchnad. Awgrymodd eraill y dylid cyfyngu’r defnydd o waredu nwyon tŷ gwydr at ddibenion cydymffurfio â Chynllun Masnachu Allyriadau’r DU i sectorau penodol. Roedd nifer o ymatebion yn cynnig y dylid annog neu ofyn i gyfranogwyr feddu ar bortffolio o waredu nwyon tŷ gwydr, gan ddynodi pa gyfran o hyn fyddai yn seiliedig ar natur ac wedi ei beirianyddu.

**Diffinio credyd:** awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y gallai’r Awdurdod gynnal y cymhelliant i ddatgarboneiddio drwy’r diffiniad o’r hyn sy’n cael ei ystyried yn gredyd gwaredu nwy tŷ gwydr. Roedd hyn yn cynnwys cynigion i osod trothwy ar gyfer cynhwysiant ar sail sefydlogrwydd, er bod un ymatebydd wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai hyn arwain at risg o ddim digon o gymhelliant i arloesi uwchlaw’r trothwy hwnnw. Cynigiodd un ymatebydd mai dim ond ar ôl i’r storio ddigwydd y dylid rhoi unedau gwaredu nwyon tŷ gwydr i gyfranogwyr.

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau na ddylai’r Awdurdod boeni am ddiogelu’r cymhelliant i ddatgarboneiddio gan fod gwaredu nwyon tŷ gwydr mor gostus. Roeddent yn dadlau, wrth i’r cap ddisgyn dros amser, y bydd cyfranogwyr wedyn yn cael eu cymell i waredu nwyon tŷ gwydr. Yn yr un modd, nododd eraill y byddai cyfranogwyr yn ceisio datgarboneiddio’n fwy llawn cyn gwaredu nwyon tŷ gwydr, oherwydd costau uchel gwaredu’n barhaol. Awgrymodd un ymatebydd y gall y llywodraeth reoli cyflymder datblygu gwaredu’n barhaol drwy’r broses modelau busnes ac felly nid oes angen poeni am ddarparu gormod o unedau gwaredu nwyon tŷ gwydr.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd osgoi ‘atal lliniaru’, lle mae gostyngiadau mewn allyriadau’n cael eu hosgoi neu eu gohirio wrth gyflwyno mesurau newydd fel gwaredu nwyon tŷ gwydr. Dadleuodd un, pe bai cyfranogwyr yn cael bancio a benthyca credydau nwyon tŷ gwydr fel y gallant ar hyn o bryd gyda lwfansau allyriadau, y byddai hyn yn caniatáu iddynt allyrru mwy yn y cyfnod masnachu presennol, gan gloi’r sectorau hyn o bosibl i lwybr carbon uchel ar sail y dybiaeth y bydd darpariaeth gwaredu nwyon tŷ gwydr yn lliniaru hyn. Tynnwyd sylw at y ffaith, os na fydd gwaredu nwyon tŷ gwydr yn cyflawni yn ôl y disgwyl, y bydd hyn yn peryglu targedau sero net.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **149) I ba raddau y gallai arwydd pris Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gymell datblygu'r ystod lawn o ddulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu a seiliedig ar natur, o ystyried y gwahaniaethau disgwyliedig yng nghostau'r prosiect?** |

Cafwyd 66 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dadleuodd nifer fawr o ymatebwyr y byddai signal pris Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn debygol o gymell yr atebion gwaredu nwyon tŷ gwydr rhataf ar draul rhai mwy costus. Roedd llawer o’r rhain yn cyfeirio at ragor o gefnogaeth i dechnolegau sy’n ddrud ar hyn o bryd i’w gwneud yn gystadleuol o ran cost yn y dyfodol; yn yr un modd, roedd eraill yn awgrymu y byddai’r signal pris yn cymell pobl i’w defnyddio ar ôl i’r costau ddod i lawr ar gyfer atebion wedi eu peirianyddu. Roedd nifer yn dadlau na fyddai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU byth yn debygol o ddarparu’r signal pris cywir sy’n angenrheidiol er mwyn gwaredu'n barhaol, ac awgrymodd un y byddai dibynnu ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar ei ben ei hun yn fwy tebygol o arwain at brinder gwaredu. Ar y llaw arall, roedd un ymatebydd yn dadlau bod angen y signal pris yn awr i gymell penderfyniadau buddsoddi ar gyfer gwaredu cynhyrchion wedi eu peirianyddu.

Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai’r Awdurdod fabwysiadu dull sy’n niwtral o ran technoleg os yw’n cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Roeddent yn dadlau y byddai hyn yn sicrhau bod y graddau mwyaf priodol yn cael eu datblygu yn unol â sbardunwyr y farchnad, gyda rhai’n dadlau na fyddai hyn yn arwain at ormod o ddibynnu ar lond llaw o dechnolegau. Yn yr un modd, cynigiodd nifer o ymatebwyr y gallai’r llywodraeth ddefnyddio refeniw a godwyd o gyflwyno gwaredu nwyon tŷ gwydr i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU i gaffael portffolio o waredu nwyon tŷ gwydr ar draws amrywiaeth o ddiwydiannau.

| Cwestiynau |
| --- |
| **150) Pa effeithiau neu gyfleoedd a allai godi i farchnadoedd carbon gwirfoddol y DU, petai dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr yn cael eu cynnwys mewn marchnad gydymffurfio fel Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU? Er enghraifft, pa effeithiau, neu gyfleoedd, allai fod i gynlluniau marchnadoedd carbon gwirfoddol fel y Cod Carbon Coetiroedd?**<br><br>**151) Pa effeithiau neu gyfleoedd a allai godi i'r marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gwasanaethau ecosystem ehangach (e.e. bioamrywiaeth, rheoli llifogydd, ansawdd dŵr) petai dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr yn cael eu cynnwys mewn marchnad gydymffurfio fel Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU?** |

Ar gyfer cwestiwn 150 cafwyd 52 o ymatebion ac ar gyfer cwestiwn 151 cafwyd 29 o ymatebion.

Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn dadlau y byddai cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr mewn marchnad gydymffurfio fel Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn cael effaith gadarnhaol ar farchnadoedd carbon gwirfoddol. Dadleuodd llawer y gallai datblygu safonau monitro, adrodd a dilysu cadarn, gyda chefnogaeth y Llywodraeth, arwain at fabwysiadu a chraffu gwell ar safonau mewn marchnadoedd carbon gwirfoddol. Roedd eraill yn dadlau, gydag integreiddio, y byddai Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU a farchnadoedd carbon gwirfoddol yn gweld mwy o fuddsoddiad a sicrwydd hirdymor, cynnydd yn y galw a gostyngiadau mewn costau, yn ogystal â mwy o gystadleurwydd.

O ran gwasanaethau ecosystem, roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau y gallai integreiddio i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ddarparu gwerth economaidd a helpu i ddatblygu marchnad ehangach. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y gallai ffermwyr elwa pe bai gwasanaethau ecosystemau yn cael eu darparu a'u gwobrwyo drwy daliadau amgylcheddol. Fodd bynnag, awgrymodd un ymatebydd, os yw'r prisiau ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn uchel, y gallai fod yn anffafriol i ddatblygu marchnad gwasanaethau ecosystemau os nad oes angen incwm ychwanegol o wasanaethau eraill. Fe wnaethant gyfeirio at y Cod Carbon Coetiroedd, sy'n darparu llawer o wasanaethau ecosystemau eraill y tu hwnt i gael gwaredu carbon, fel bioamrywiaeth, rheoli llifogydd, ansawdd dŵr, ansawdd aer, a hamdden a llesiant. Yn yr un modd, awgrymodd un ymatebydd arall na fyddai prisio gwaredu nwyon tŷ gwydr sy'n seiliedig ar garbon, lle gallai cyd-fanteision eraill fodoli, yn arwain at ganlyniadau y mae'r DU yn eu dymuno.

Cafwyd nifer o ymatebion a oedd yn tynnu sylw at effeithiau negyddol posibl. Dadleuodd nifer y gallai cynhwysiant arwain at ostyngiad mewn gweithgarwch marchnadoedd carbon gwirfoddol a newid cydbwysedd gwaredu nwyon tŷ gwydr, gan arwain at gynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr o ansawdd uwch yn unig mewn marchnadoedd cydymffurfio a gwaredu nwyon tŷ gwydr o ansawdd is mewn marchnadoedd carbon gwirfoddol. Roedd ymatebion eraill yn mynegi pryderon y gallai cyflwyno a datblygu marchnadoedd carbon gwirfoddol gael ei danseilio ac roedd un ymatebydd yn dadlau y gallai cynhwysiant arwain at ddarnio'r safonau presennol.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **152) A oes unrhyw effeithiau, cyfyngiadau neu ganlyniadau anfwriadol y mae angen eu rheoli os ymgorfforir dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr o fewn Cynllun Masnachu Allyriadau?** |

Cafwyd 57 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dadleuodd nifer fawr o ymatebwyr y bydd angen trefn monitro, adrodd a dilysu gadarn i integreiddio gwaredu nwyon tŷ gwydr i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roedd llawer o'r ymatebion yn codi'r mater o effeithiau ar reoli tir a allai godi yn sgil cynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, fel y posibilrwydd o newid defnydd tir hirdymor i effeithio ar gynhyrchu bwyd yn y DU. Roedd eraill yn canolbwyntio ar ddatblygu economaidd-gymdeithasol, fel prisiau tir uwch a'r effaith ar gymunedau lleol. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu mesurau i wrthweithio'r effeithiau hyn, fel dim ond caniatáu prosiectau ar dir a brynwyd cyn dyddiad penodol, gosod meini prawf gwerth net ar gyfer tirfeddianwyr, neu greu fframwaith defnydd tir cynhwysfawr ar sail ofodol. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r sector ffermio yn dadlau nad oes digon o gapasiti gwaredu ar atebion sy'n seiliedig ar natur i'w defnyddio gan sectorau eraill y tu hwnt i'r allyriadau gweddilliol o amaethyddiaeth.

## Datblygu fframwaith o feini prawf cymhwysedd ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

| **Cwestiynau** |
|---|
| **153) A oes gofynion cymhwysedd eraill y dylem eu hystyried yn eich barn chi, a beth ydynt?** |

Yn y Cais am Dystiolaeth, roeddem wedi ystyried gwahanol ofynion cymhwysedd ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr mewn marchnad ddomestig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Trefn gadarn ar gyfer monitro, adrodd a dilysu allyriadau.
- Sicrhau bod y carbon sy’n cael ei waredu o’r atmosffer yn barhaol neu y bwriedir iddo fod yn barhaol. Ar gyfer dulliau fel gwaredu nwyon tŷ gwydr sy’n seiliedig ar natur a allai fod dros dro, bydd angen ystyried trefniadau i leihau’r risg a gwneud iawn yn ddigonol am unrhyw ailryddhau carbon yn ôl i’r atmosffer.
- Hawliau eiddo clir ar gyfer unrhyw gredydau gwaredu nwyon tŷ gwydr neu lwfansau yn y farchnad, i sicrhau bod atebolrwydd yn cael ei sefydlu a’i gynnal, gan gynnwys os bydd carbon yn cael ei ailryddhau yn ôl i’r atmosffer.

Cafwyd 51 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd rhai ymatebwyr o’r farn bod meini prawf ychwanegol y tu hwnt i’r rhai a nodwyd uchod yn barod.

Roedd rhai ymatebion yn nodi’r egwyddorion y dylai’r Awdurdod gadw atynt. Er enghraifft, roedd nifer yn dadlau y dylai cymhwysedd fod yn eang ac yn niwtral o ran technoleg. Cyfeiriodd dau ymateb (4%) hefyd at yr egwyddorion presennol sydd wedi cael eu datblygu, fel y Gynghrair Ryngwladol ar gyfer Lleihau Carbon ac Egwyddorion Lleihau Carbon Rhydychen. Yn yr un modd â’r ymatebion i gwestiwn 148, cynigiodd nifer o ymatebwyr ofynion cymhwysedd ar gyfer cyfranogwyr o ran bod rhaid iddynt ddangos lleihau a datgarboneiddio cyn gallu prynu dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **154) Pa feini prawf Monitro, Adrodd a Dilysu y mae angen eu hystyried ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr a pha gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod fframwaith o feini prawf cadarn, cost-effeithiol, a graddadwy?<br><br>a) Ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr seiliedig ar natur?<br>b) Ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu?** |

Cafwyd 47 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer fawr o ymatebion a oedd yn ymwneud â gwaredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu a rhai sy’n seiliedig ar natur yn ymdrin â’r meini prawf penodol canlynol:

- Pan fydd y gwaredu wedi dechrau ac wedi gorffen a bydd y swm a chyfradd y CO2 wedi ei waredu
- Hyd, sefydlogrwydd a dull meintoli’r storfa
- Allyriadau cylch bywyd drwy ddal, prosesu, cludo a storio, a gollyngiadau posibl yn y gadwyn gwerth ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr
- Llinell sylfaen CO2 y caiff y prosiect ei fesur yn ei erbyn
- Cynlluniau mesur a monitro ar gyfer storio, gan gynnwys amlder a sut y gallent newid dros amser
- Cyfrif ddwywaith
- Effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol
- Parodrwydd technegol, ymarferoldeb economaidd a’r potensial ar gyfer defnyddio ar raddfa fawr
- Ychwanegedd

Roedd llawer o’r ymatebion yn awgrymu defnyddio methodolegau presennol ar gyfer monitro, adrodd a dilysu, fel y rhai a nodir yn y broses modelau busnes ar gyfer technolegau gwahanol, safonau rhyngwladol presennol neu’r rhai o farchnadoedd carbon gwirfoddol, ac ystyried Safon Coedwigaeth y DU a Chod Carbon Coetiroedd ar gyfer coedwigo. Yn yr un modd, awgrymodd nifer y bydd angen amrywiaeth o ddulliau monitro, adrodd a dilysu ar gyfer cywirdeb ar draws gwahanol atebion gwaredu nwyon tŷ gwydr ac y bydd yn debygol y bydd rhaid i fonitro, adrodd a dilysu esblygu dros amser. Roedd llawer o ymatebion yn galw am fabwysiadu rheoleiddiwr neu gorff ardystio monitro, adrodd a dilysu annibynnol, yn ogystal â defnyddio cyrff dilysu trydydd parti annibynnol sydd wedi eu hachredu gan Wasanaeth Achredu’r DU.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **155) Ar gyfer dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr lle mae risg y caiff carbon ei ailryddhau i'r atmosffer, oes unrhyw atebion posibl y dylem eu hystyried sy'n galluogi cyfranogiad yn y farchnad?**<br><br>**156) Beth yw'r heriau o ran integreiddio dulliau gwaredu nad ydynt yn barhaol ochr yn ochr â dulliau sy'n barhaol yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU a sut y gellir goresgyn y rhain?** |

Cafwyd 43 ymateb i gwestiynau 155, a 36 o ymatebion i gwestiwn 156.

Awgrymodd cyfran fawr o’r ymatebwyr y dylid ychwanegu gostyngiad pris i gyfrif am lefelau sefydlogrwydd neu drwy bwysoli credydau ar sail y risg o wrthdroi. Roedd eraill yn cynnig gostyngiad ar sail maint yn seiliedig ar lefelau sefydlogrwydd. Dadleuodd un ymatebydd na ddylid cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr sydd â risg uchel o ailryddhau, ac awgrymodd eraill osod trothwy, er enghraifft 30 neu 50 mlynedd o storio. Roedd y cynigion eraill yn cynnwys cyfrifo sawl tunnell y flwyddyn, rhoi credydau amser penodol ar gyfer datrysiadau nad ydynt yn

rhai parhaol, neu gronfa byffer o gredydau i’w rhoi o’r neilltu i gyfrif am y risg o ailryddhau neu fethiant y prosiect.

Ar y llaw arall, dadleuodd un ymatebydd na ddylid rhoi gostyngiad gan ei fod yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud os bydd ailryddhau, o ystyried bod diffyg cydymffurfio eisoes wedi ei gynnwys yn y pris. Yn fwy cyffredinol, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr her gyffredinol o integreiddio gwaredu parhaol a gwaredu nad yw’n barhaol, gyda dau ymatebydd yn mynegi pryder y gallai ddibrisio pris Lwfans y DU. Cafwyd nifer o ymatebion hefyd i gwestiwn 154 a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sefydlogrwydd, gan ddadlau na ddylid cynnwys gwaredu nad yw’n barhaol neu waredu ‘dros dro’.

| **Cwestiynau** |
| --- |
| **157) Pwy ddylai fod yn berchen ar hawliau lwfans neu gredyd gwaredu nwyon tŷ gwydr posibl mewn marchnad bosibl yn y dyfodol - y prynwr, neu'r gwerthwr?** |

Cafwyd 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Cynigiodd 18 o ymatebwyr (55%) y dylai perchnogaeth credydau gwaredu nwyon tŷ gwydr fod yn nwylo gwerthwr neu gynhyrchydd y credydau hynny tan y man gwerthu, ac ar y pwynt hwnnw byddent yn trosglwyddo i’r prynwr. Dywedodd chwe ymatebydd arall (18%) yn syml y dylai’r sawl sy’n prynu credydau feddu ar yr hawliau.

Roedd nifer o’r ymatebwyr yn cwestiynu pwy ddylai fod yn atebol am storio allyriadau hyd yn oed os yw’r hawliau’n cael eu trosglwyddo wrth brynu credydau gwaredu nwyon tŷ gwydr. Awgrymodd un ymatebydd (3%), pan fydd dadleoli’n digwydd, y dylid gorfodi prynwr y credyd gwaredu nwyon tŷ gwydr i brynu lwfansau ychwanegol i wneud iawn am hynny. Awgrymodd nifer o ymatebwyr a oedd hefyd yn cefnogi trosglwyddo perchnogaeth i’r prynwr y dylai’r cyfrifoldeb dros gyflawni’r gwaredu a’r dadleoli aros gyda’r gweithredwr gwaredu nwyon tŷ gwydr. Roedd llawer yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i’r rhai sy’n gyfrifol am ddadleoli carbon brynu lwfans allyriadau pe bai’n digwydd. Roedd dau ymatebydd yn dadlau, hyd yn oed pe bai hawliau’n cael eu trosglwyddo yn y man gwerthu, y byddai gan y cyflenwr ddyletswydd dan gontract i gyflawni’r gwaredu.

Roedd pum ymatebydd (15%) yn dadlau y dylai’r hawliau aros gyda chynhyrchydd neu werthwr y credyd gwaredu nwyon tŷ gwydr. Dadleuodd un ymatebydd (3%) y dylai fod ganddynt y gallu o hyd i werthu hawliau i endid arall drwy werthu cynnyrch gwaredu nwyon tŷ gwydr. Awgrymodd rhai ymatebwyr ddulliau o brydlesu; er enghraifft, awgrymodd un y gellid prydlesu’r hawliau gwaredu nwyon tŷ gwydr i’r prynwr drwy’r farchnad, ond y dylai'r berchnogaeth aros gyda’r cynhyrchydd, ac awgrymodd un arall fecanwaith tebyg lle mae’r prynwr yn rhentu’r lwfans am gyfnod penodol. Tynnodd un ymatebydd (3%) sylw at bwysigrwydd olrhain y broses o drosglwyddo perchnogaeth drwy gofrestrfa, er mwyn caniatáu trywydd archwilio priodol, symleiddio’r lwfansau a sicrhau nad ydynt yn cael eu cyfrif ddwywaith.

| Cwestiynau |
| --- |
| **158) Beth y gallwn ei ddysgu o wledydd eraill ynghylch perchenogaeth ac atebolrwydd o ran gwaredu nwyon tŷ gwydr?** |

Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at fentrau Ewropeaidd, fel gwarant y farchnad tarddiad sy’n olrhain trosglwyddo ardystiad, y gwersi a ddysgwyd o gynnwys hydrofflworocarbonau yn yr UE a’r gwaith sy’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar safonau monitro, adrodd a dilysu ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr. Tynnodd eraill sylw at Fwrdd Adnoddau Awyr Califfornia a Phrotocolau Dal a Storio Carbon, yn ogystal â Safon Tanwydd Carbon Isel Califfornia. Roedd rhai hefyd yn canolbwyntio ar farchnadoedd carbon gwirfoddol, er enghraifft sut mae pryniannau’n cael eu trafod drwy Microsoft, Stripe ac Apple, yn ogystal â Menter Uniondeb y Marchnadoedd Carbon Gwirfoddol.

## Dyluniadau marchnad posibl

| Cwestiynau |
| --- |
| **159) A ddylai dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr gael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU neu a fyddai'n well sefydlu marchnad ar wahân, ond cysylltiedig, ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr?** |

Cafwyd 55 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd dau ddeg chwech o ymatebion (47%) yn cefnogi cyflwyno marchnad gwaredu nwyon tŷ gwydr ar wahân a fyddai’n gysylltiedig â Chynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Roedd naw ymateb (16%) yn cefnogi sefydlu marchnad ar wahân a fyddai’n integreiddio’n llawn yn y pen draw â Chynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Roedd pedwar ar bymtheg o ymatebwyr (35%) yn cefnogi integreiddio gwaredu nwyon tŷ gwydr yn llawn i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU, er bod llawer yn dadlau y byddai’r gefnogaeth hon yn dibynnu ar ddyluniad y cynllun, y broses o fonitro, adrodd a dilysu, a’r mathau o waredu nwyon tŷ gwydr a fyddai’n cael eu cynnwys.

Roedd nifer yn dadlau dros farchnad ar wahân ar gyfer mathau penodol o waredu nwyon tŷ gwydr, er enghraifft, ar gyfer y rhai sy’n cynnig storio nad yw’n barhaol neu’r rhai sydd â threfniadau monitro, adrodd a dilysu mwy cymhleth. Roedd rhai ymatebion yn cynnig y gallai marchnad garbon wirfoddol weithredu fel marchnad gwaredu nwyon tŷ gwydr ar wahân. Roedd rhai ymatebion yn mynegi ansicrwydd ynghylch beth fyddai manteision marchnad ar wahân, er enghraifft o ble y byddai’r galw’n dod neu werth cymhlethdod ychwanegol. Cafwyd nifer fach o ymatebion a oedd yn gwrthod y cynnig y dylid cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU neu mewn marchnad gysylltiedig.

| Cwestiynau |
| --- |
| **160) A oes dyluniadau neu gynigion eraill ar gyfer y farchnad y dylem eu hystyried o ran defnyddio dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr yn yr hirdymor a fyddai'n well o ran eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU?** |

Cafwyd 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer o ymatebion yn dadlau y byddai angen mesurau cymorth byrdymor ar gyfer rhai mathau o waredu nwyon tŷ gwydr, gyda rhai’n awgrymu y byddai hyn yn berthnasol p’un a ydynt wedi eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU ai peidio. Roedd opsiynau eraill a godwyd yn cynnwys cymorth Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, tariffau, ymrwymiadau marchnad uwch, gostwng trethi, cynlluniau rhwymedigaethau a marchnadoedd carbon gwirfoddol presennol. Awgrymodd nifer o ymatebion y bydd angen ystyried sut y byddai sectorau y tu allan i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn defnyddio credydau gwaredu nwyon tŷ gwydr pe baent yn cael eu hintegreiddio i’r cynllun.

Roedd nifer fach o ymatebion nad oeddent yn credu y dylai gwaredu nwyon tŷ gwydr gael eu hintegreiddio i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU, gydag un yn dadlau bod angen mwy o gyllid ymchwil a datblygu ar gyfer atebion wedi eu peirianyddu, a bod angen fframwaith rheoleiddio cyffredin i oruchwylio marchnadoedd sy’n seiliedig ar natur ar wahân.

## Cyflwyno gwaredu nwyon tŷ gwydr i farchnad

| Cwestiynau |
| --- |
| **161) Sut a phryd y gallai dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr cymwys gael eu cyflwyno i farchnad megis Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fesul cam?**<br><br>**162) A ddylai unrhyw ddulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr gael eu hystyried i'w cynnwys yn gynharach mewn marchnad nag eraill? Pam y dylem ystyried y rhain?**<br><br>**163) A ddylem dreialu dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr cymwys mewn marchnad neu gynllun cyn eu hintegreiddio'n llawn mewn marchnad bresennol megis Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU? Sut a phryd y gallai hyn ddigwydd?** |

Cafwyd 45 o ymatebion i gwestiwn 161, 31 o ymatebion i gwestiwn 162 a 33 i gwestiwn 163.

Ar gyfer ymatebion yn ymwneud â sut a phryd y gellid cyflwyno gwaredu nwyon tŷ gwydr yn raddol i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU, awgrymodd cyfran fawr y gellid eu rhoi ar waith rhwng 2024 a 2026. Y rhesymau a roddwyd oedd: alinio â chwblhau prosiect dal a storio carbon y DU, cysoni â newidiadau ehangach Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, ac alinio â modelau busnes. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod cynhwysiant yn gysylltiedig â datblygiadau ehangach, fel y rhwydwaith cludo a storio, dyddiadau lansio prosiectau gwaredu nwyon tŷ gwydr a monitro, adrodd a dilysu gwaredu nwyon tŷ gwydr. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylid eu rhoi ar waith o 2030 ymlaen.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ystyried gwaredu nwyon wedi eu peirianyddu i'w cynnwys yn gynnar oherwydd eu cyfraniad pwysig at gyllidebau carbon. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod gwaredu nwyon tŷ gwydr sy'n seiliedig ar natur yn barod ar gyfer y farchnad ac felly y dylid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn gynnar. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid ystyried cynnwys yn gynnar unrhyw waredu nwyon tŷ gwydr sy'n bodloni safonau monitro, adrodd a dilysu addas. Nid oedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys unrhyw waredu nwyon tŷ gwydr yn gynharach.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn dadlau na ddylid cynnal treialon, gan awgrymu y gellid defnyddio'r marchnadoedd presennol i fabwysiadu safonau byd-eang a dysgu'r arferion gorau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai treialon yn ddefnyddiol, gyda rhai'n dadlau dros gael cyfnod prawf cyn gynted â phosibl neu dreialon yn seiliedig ar y math o dechnoleg a'u parodrwydd i integreiddio. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y byddai marchnad ar wahân ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU, i bob pwrpas, yn gweithredu fel treial ac y dylid mynd ar ei drywydd.

## Ffynonellau a thystiolaeth arall

| **Cwestiynau** |
|---|
| **164) Oes unrhyw ffynonellau perthnasol o dystiolaeth ac arbenigedd y dylem eu defnyddio er mwyn helpu i lywio ein meddylfryd?** |

Cafwyd 11 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nodwyd y mentrau canlynol: Adroddiad Oxera ar 'Ddyluniad y farchnad ar gyfer allyriadau negyddol yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU', Egwyddorion Gwrthbwyso Rhydychen, Menter Uniondeb y Marchnadoedd Carbon Gwirfoddol, adroddiadau gan y Gynghrair ar gyfer Allyriadau Negyddol, a Menter Cylchoedd Carbon Cynaliadwy y Comisiwn Ewropeaidd.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r cyflwyniadau a gawsom wedi bod yn werthfawr wrth helpu i lywio dull gweithredu'r Awdurdod at bolisi Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a'r polisi ar gyfer Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr. Mae'r Awdurdod yn dymuno diolch i'r holl unigolion a sefydliadau a roddodd o'u hamser i ymateb.

### Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel marchnad hirdymor ar gyfer Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr

Mae'r Awdurdod yn credu bod y Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn farchnad hirdymor ar gyfer Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr. Byddwn ond yn cynnwys dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr fydd yn bodloni'r safonau cadarn sydd wedi eu pennu gan yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn bwriadu cynnwys technolegau Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu peirianyddu yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn amodol ar ymgynghori pellach; bod trefn fonitro, adrodd a dilysu gadarn ar waith; a rheoli effeithiau ehangach. Wrth i waredu

nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu ddechrau cael eu defnyddio, bydd cael eu cynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cymell buddsoddiad mewn gwaredu nwyon tŷ gwydr, yn darparu ffynhonnell o alw am waredu nwyon tŷ gwydr o sectorau sy'n llygru ac yn diogelu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU at y dyfodol, felly mae'n parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni sero net.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd atebion sy'n seiliedig ar natur o ran cyflawni a chynnal sero net. Mae'r Awdurdod yn credu y gallai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gynnig marchnad hirdymor briodol ar gyfer technolegau Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar natur, yn amodol ar wneud rhagor o waith i ystyried yr amrywiaeth o faterion posibl a gyflwynir drwy'r Cais am Dystiolaeth a chan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ynghylch sefydlogrwydd, costau ac effeithiau ehangach o ran rheoli tir. Mae gan y DU eisoes safonau carbon gwirfoddol o ansawdd uchel, sydd wedi eu cymeradwyo gan y llywodraeth, ar gyfer symudiadau sy'n seiliedig ar natur, fel y Cod Carbon Coetiroedd sydd â meini prawf cadarn ar gyfer ychwanegedd a mecanweithiau i leihau'r risg o wrthdroi. Byddwn yn edrych ar botensial y fframweithiau cadarn hyn sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol i ddarparu sylfaen ar gyfer dod ag atebion sy'n seiliedig ar natur i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y dyfodol.

Y prif ddull o gyflawni sero net fydd datgarboneiddio, ac mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn darparu fframwaith seiliedig ar y farchnad i annog hyn i ddigwydd yn gost-effeithiol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cyrraedd sero net heb waredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu a rhai sy'n seiliedig ar natur – bydd angen iddynt ddileu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n weddill o sectorau nad ydynt yn gallu datgarboneiddio'n llawn ac felly byddant yn chwarae rhan bwysig o ran cyrraedd targedau allyriadau ar draws y pedair llywodraeth. Mae gan lywodraethau ledled y DU rôl glir i'w chwarae o ran gwaredu nwyon tŷ gwydr yn gyfrifol i gyflawni sero net. Bydd y rôl hon yn newid dros amser wrth i'r sector aeddfedu ac wrth i waredu nwyon tŷ gwydr sefydlu ei hun fwy. Un o'r rhwystrau sylfaenol sy'n atal defnyddio dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr yw'r diffyg galw a phris y gellir ei ragweld ac sydd wedi ei sefydlu ar gyfer gwaredu wedi ei beirianyddu ac sy'n seiliedig ar natur. Mae absenoldeb ffrwd refeniw y gellir ei ragweld yn gwanhau'r achos buddsoddi ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr, yn enwedig ar gyfer technolegau lle gallai cyfalaf uchel, ymchwil a datblygu, a chostau gweithredol fod yn rhwystr rhag eu defnyddio.

Gellir goresgyn y rhwystr hwn drwy ddarparu marchnad gystadleuol ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr lle mae gan lygrwyr bolisi neu gymhelliad ariannol cryf i fuddsoddi mewn gwaredu nwyon tŷ gwydr i wneud iawn am yr allyriadau sy'n weddill. Gellid cyflawni hyn drwy gynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, sydd yn y bôn yn caniatáu i sectorau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ddefnyddio allyriadau negyddol a gynhyrchir gan ddatblygwyr gwaredu nwyon tŷ gwydr er mwyn cydymffurfio. Gallai hyn hefyd ein symud yn nes at fframwaith marchnad integredig lle gall busnesau wneud dewisiadau darbodus effeithlon rhwng talu i allyrru, talu i gael gwared ar allyriadau, neu fuddsoddi i leihau allyriadau. Gallai fframwaith o'r fath gynnal sero net – neu negyddol net – ar ôl 2050 ar yr un pryd â galluogi twf.

Ni fydd marchnad ar ei phen ei hun yn ddigon i oresgyn y rhwystrau sy'n wynebu defnyddio dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr. Yn y byrdymor, mae rôl hefyd i Lywodraeth y DU o ran darparu cymorth arbenigol i brosiectau cychwynnol i leihau risg penderfyniadau buddsoddi a

darparu sicrwydd refeniw i ddatblygwyr technoleg. Archwiliodd Llywodraeth y DU sut gellir defnyddio'r cymhellion a'r safonau cywir i hybu twf gwaredu nwyon tŷ gwydr drwy'r ymgynghoriadau Modelau Busnes Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Peirianyddu a Bio-ynni Pŵer gyda Dal a Storio Carbon (BECCS) yn 2022. Bydd dyluniad y modelau busnes hyn yn ceisio lliniaru rhwystrau ariannol i waredu nwyon tŷ gwydr a chefnogi twf y sector ar y cyflymder a'r raddfa angenrheidiol i gyflawni uchelgais y Strategaeth Sero Net. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei huchelgais i drosglwyddo'r cymorth hwn i farchnad gystadleuol hirdymor, ac mae potensial i'r mecanweithiau cynnar hyn sy'n seiliedig ar gontractau gael eu cyfuno ag integreiddio gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Bydd angen cydbwyso manteision llawn dull seiliedig ar y farchnad â'r angen i ddarparu cymorth pwrpasol i sicrhau bod defnyddio dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr yn cael eu defnyddio'n ddigonol i gyrraedd ein targedau hinsawdd.

Ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr sy'n seiliedig ar natur, lansiodd Llywodraeth y DU y Gronfa Natur ar gyfer Hinsawdd yn 2021, gan ddarparu dros £760 miliwn tuag at greu a rheoli coetiroedd ac adfer mawndiroedd. Mae wedi lansio partneriaethau preifat-cyhoeddus arloesol fel y Gronfa Fawr ar gyfer Natur, rhaglenni sgiliau a hyfforddiant ar gyfer creu swyddi newydd, a sefydlu cronfeydd arloesi. Roedd Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi ei Fframwaith Marchnadoedd Natur ym mis Mawrth 2023 sy'n nodi cynlluniau i hwyluso'r gwaith o ehangu marchnadoedd uniondeb uchel ar gyfer gwasanaethau ecosystemau, gan gynnwys gwaredu carbon sy'n seiliedig ar natur. Lansiodd Llywodraeth y DU hefyd Y Gronfa Parodrwydd i Fuddsoddi yn yr Amgylchedd Naturiol[79] (NEIRF) yn 2021 i gefnogi arloesi a datblygu piblinellau ar gyfer marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau, gan gynnwys lliniaru'r hinsawdd.

Yng Nghymru, mae £32 miliwn wedi cael ei ymrwymo i ddau Grant Creu Coetiroedd newydd i ariannu ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i greu coetiroedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda thirfeddianwyr i greu Coedwig Genedlaethol Cymru. Y llynedd, argymhellodd gweithgor cyllid coetiroedd ddulliau o sicrhau buddsoddiad mewn creu coetiroedd heb amharu'n negyddol ar gymunedau presennol. Mae'r Rhaglen Gweithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP) yn ariannu'r gwaith o adfer mawndiroedd ledled Cymru ac mae wedi buddsoddi dros £5 miliwn hyd yma ac wedi adfer 1,600 hectar. Ym mis Hydref 2022, fel rhan o'r Adolygiad Manwl o Fioamrywiaeth, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y byddai'r Rhaglen Gweithredu Genedlaethol yn cynyddu'r gwaith adfer o darged o 600 hectar y flwyddyn i 1800 hectar y flwyddyn erbyn 2030, er mwyn cyflawni ymrwymiadau sero net Cymru ar gyfer mawndiroedd.

Yn yr Alban, roedd Rhaglen Lywodraethu 2020-2021 yn yr Alban wedi dyrannu £100 miliwn yn ychwanegol i Goedwigaeth yr Alban i gynyddu'r gwaith plannu newydd, ynghyd â £30 miliwn i Goedwigaeth a Thir yr Alban i ehangu coedwigoedd a thir cenedlaethol yr Alban 18,000 hectar ychwanegol y flwyddyn erbyn 2024-2025. Dyrannwyd £20 miliwn arall i gynyddu stociau meithrinfeydd planhigion ymhellach.

[79] https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-grant-from-the-natural-environment-investment-readiness-fund/how-to-apply-for-a-natural-environment-investment-readiness-fund-grant

Yng Ngogledd Iwerddon, mae’r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) wedi ymrwymo i sefydlu 9,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030 drwy’r rhaglen ‘Forests for Our Future’. Nod strategaeth goedwigaeth gyfredol Gogledd Iwerddon yw sicrhau bod coedwigoedd yn gorchuddio 12% o Ogledd Iwerddon erbyn 2050 ac mae’n targedu tir sy’n cael ei reoli gan unigolion, busnesau, elusennau a chynghorau preifat. Mae Strategaeth Mawndiroedd Gogledd Iwerddon yn bolisi drafft gydag uchelgeisiau cadwraeth ac adfer ar gyfer mawndiroedd yng Ngogledd Iwerddon. Gweledigaeth y Strategaeth yw bod cynefinoedd mawndiroedd yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu gwarchod, eu gwella a’u rheoli’n gynaliadwy ar gyfer bywyd gwyllt, pobl a’r hinsawdd.

## Ystyriaethau allweddol ar gyfer dylunio polisi

Mae manteision posibl cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn dibynnu’n fawr ar ddylunio a gweithredu gofalus. Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn adnodd allweddol ar gyfer cyflawni sero net – byddai angen rheoli cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr yn ofalus er mwyn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr a chynnal gweithrediad effeithiol y farchnad ac uniondeb cyffredinol y cynllun.

Isod, rydym yn nodi’r prif ystyriaethau ar gyfer y maes hwn a sut mae’r Awdurdod yn bwriadu mynd i’r afael â’r cwestiynau hyn drwy waith pellach ar ddyluniad, technoleg ac amseru’r farchnad. Bydd y rhain yn sail i unrhyw benderfyniad a wneir gan yr Awdurdod yn y maes hwn.

### Dylunio’r farchnad

Er mwyn integreiddio nwyon tŷ gwydr ym marchnad Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, bydd yr Awdurdod yn ystyried sut i greu uned farchnatadwy newydd ar gyfer allyriadau negyddol. Rhoddir ystyriaeth bellach i greu’r lwfans neu’r credyd gwaredu nwyon tŷ gwydr a sut y bydd yn cynrychioli gwaredu carbon deuocsid (CO2) (neu’r hyn sy’n cyfateb i nwyon tŷ gwydr eraill) o’r atmosffer, gan ystyried pa mor barhaol yw’r carbon sy’n cael ei storio. Bydd yr Awdurdod yn ystyried sut y bydd cyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn gallu prynu, masnachu ac ildio’r rhain i fodloni eu rhwymedigaeth gydymffurfio flynyddol fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd gyda lwfansau allyriadau. Bydd lwfans gwaredu nwyon tŷ gwydr credadwy sydd wedi ei ddylunio’n dda a’i gyflwyno’n ofalus i’r farchnad yn sicrhau bod uniondeb amgylcheddol Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU a hyder y farchnad yn cael ei gynnal.

Er mwyn creu’r nwydd marchnatadwy newydd hwn, byddai angen i’r Awdurdod osod gofynion cymhwysedd y farchnad ar gyfer prosiectau gwaredu nwyon tŷ gwydr. Byddai hyn o leiaf yn golygu nodi gofynion monitro, adrodd a dilysu cadarn er mwyn gallu mesur allyriadau negyddol, gan ystyried pa mor barhaol yw’r gwaredu, egluro’r hawliau a’r rhwymedigaethau a ddaw yn sgil masnachu lwfans gwaredu nwyon tŷ gwydr a chwmpas daearyddol prosiectau posibl. Byddai’r gofynion hyn yn rhoi hyder yn y farchnad, gan sicrhau mai dim ond diswyddiadau parhaol a chadarn o ansawdd uchel sy’n cael eu caniatáu yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Neges allweddol o’r ymatebion i’r Cais am Dystiolaeth oedd cysoni’r gofynion hyn â’r arferion gorau presennol o gynlluniau eraill, a’r gwaith y mae Llywodraeth y DU eisoes yn ei wneud fel rhan o’i chefnogaeth i fodelau busnes gwaredu nwyon tŷ gwydr.

Ar ôl diffinio lwfans gwaredu nwyon tŷ gwydr, bydd rhaid i’r Awdurdod wedyn ystyried sut mae’n cael ei integreiddio i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU dros amser. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion i’r Cais am Dystiolaeth yn ffafrio creu cysylltiad rhwng gwaredu nwyon tŷ gwydr a marchnadoedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, neu integreiddio llawn o’r cychwyn, yn hytrach na marchnad gwbl ar wahân. Bydd y llwybr a ddilynwn yn dibynnu ar ymgynghori pellach, gan ystyried cost a phroffil defnyddio dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr dros amser, y goblygiadau i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU a’r gwerth cyffredinol am arian.

Bydd marchnadoedd gwaredu carbon gwirfoddol hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu i ddefnyddio gwaredu nwyon tŷ gwydr drwy ddatgloi cyfalaf preifat a lleihau’r costau cymorth i’r llywodraeth. Bydd yr Awdurdod yn archwilio sut y gellir integreiddio gwaredu nwyon tŷ gwydr i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU, gan ddarparu ffynhonnell gynaliadwy o alw hirdymor drwy’r farchnad gydymffurfio, ar yr un pryd â manteisio i’r eithaf ar fanteision posibl marchnadoedd gwirfoddol.

Bydd integreiddio gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU yn cael ei reoli mewn ffordd sy’n sicrhau bod datgarboneiddio’n cael ei flaenoriaethu a bod cyfranogwyr yn cael eu cymell i leihau eu hallyriadau cymaint ag sy’n rhesymol bosibl. Er mwyn atal gwaredu nwyon tŷ gwydr rhag disodli’r gostyngiadau angenrheidiol mewn allyriadau, roedd cyngor cychwynnol y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn argymell gostyngiad priodol yn nifer lwfansau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn y DU wrth i lwfansau gwaredu nwyon tŷ gwydr gael eu cyflwyno i’r farchnad. Byddai hyn yn golygu y byddai’r cap a’r llwybr lwfans cyffredinol ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael eu cynnal hyd yn oed wrth i waredu nwyon tŷ gwydr gael eu cynnwys. Roedd yr ymatebion i’r Cais am Dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at ffyrdd eraill o sicrhau bod y cymhelliant i ddatgarboneiddio yn cael ei gynnal. Bydd yr Awdurdod yn ystyried yr holl opsiynau hyn ymhellach. Mae’n bwysig pwysleisio bod disgwyl i’r risg o atal lliniaru fod yn gyfyngedig yn y blynyddoedd cynnar o integreiddio gwaredu nwyon tŷ gwydr yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU – nid yw’r llwybrau Strategaeth Sero Net yn disgwyl lefelau uchel o ddefnyddio dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu, o’i gymharu â chap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, tan y 2030au, a bydd oedi cyn i rai atebion sy'n seiliedig ar natur atafaelu swm uchel o garbon o gymharu â chap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

### Technolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr

Wrth galon dulliau sy’n seiliedig ar y farchnad, fel Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mae’r egwyddor o fod yn niwtral o ran technoleg. Mae’r Awdurdod yn gosod cap sy’n gosod terfyn cyffredinol ar allyriadau – o fewn y cap hwn, mae gweithredwyr yn rhydd i wneud y penderfyniadau mwyaf cost-effeithiol, gan roi hyblygrwydd iddynt o ran a ydynt yn buddsoddi mewn datgarboneiddio ai peidio. Dylid cynnal yr egwyddor o fod yn niwtral o ran technoleg wrth ystyried cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu a rhai sy’n seiliedig ar natur. Gallai cael gwahanol ddulliau o waredu nwyon tŷ gwydr yn cystadlu am alw yn yr un farchnad hefyd sbarduno arloesi ac ysgogi gwelliannau o ran costau a pherfformiad. Dros amser, gallai’r farchnad felly hyrwyddo’r gwaredu nwyon tŷ gwydr hynny y mae cyfranogwyr yn y farchnad yn credu sydd fwyaf cost-effeithiol. Rôl yr Awdurdod fyddai gosod safonau cadarn i

sicrhau bod y gwaredu nwyon tŷ gwydr a ddarperir o ansawdd uchel, yn gadarn ac yn cyfrannu at bolisi ehangach y llywodraeth.

Mae’r Awdurdod yn bwriadu cynnwys technolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu, yn amodol ar ymgynghori pellach; bod trefn fonitro, adrodd a dilysu gadarn ar waith; a rheoli effeithiau ehangach yn unol â chyngor cychwynnol y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Gallai hyn gynnwys technolegau sydd o fewn cwmpas y Model Busnes Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr arfaethedig, Model Busnes Bio-ynni Pŵer gyda Dal a Storio Carbon (pŵer BECCS), a’r Model Busnes Dal Carbon Diwydiannol (gan gynnwys Gwastraff). Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o’r holl dechnolegau sy’n cael eu hystyried. Mae’r Awdurdod yn cydnabod y gallai dulliau newydd ddod i’r amlwg sydd â’r potensial i waredu nwyon tŷ gwydr yn gost-effeithiol ac ar raddfa fawr, ac felly gallai fod yn addas iawn ar gyfer integreiddio yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

**Astudiaeth achos: Dal Uniongyrchol o'r Aer sy’n cael ei bweru gan orsaf ynni niwclear**

Mae Llywodraeth y DU yn ariannu amrywiaeth o dechnolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr arloesol, gan gynnwys nifer o dechnolegau Dal Uniongyrchol o'r Aer cenhedlaeth gyntaf drwy Ddal Uniongyrchol o’r Aer a'r Rhaglen Arloesi Gwaredu Nwyon Tŷ Gwydr. Amcan y rhaglen hon yw cynhyrchu nifer o safleoedd peilot gweithredol erbyn 2025, yn ogystal â gwireddu buddsoddiad, swyddi, sgiliau a thechnoleg yn y sector hwn.

Un enghraifft o brosiect sy’n cael ei ariannu yw consortiwm dan arweiniad Sizewell C, sy’n datblygu gorsaf arddangos arloesol sy’n cael ei phweru gan wres ar gyfer dal uniongyrchol o’r aer, wedi ei dylunio i ddal gwres gwastraff carbon isel o orsaf ynni niwclear. Gallai’r dechnoleg hon arwain at fwy o effeithlonrwydd a llai o ddibyniaeth ar drydan, gan leihau’r gost o waredu carbon deuocsid o’r atmosffer. Gallai gorsaf dal uniongyrchol o’r aer ar raddfa fawr sy’n gysylltiedig â Sizewell C ddefnyddio tua 400 MW o wres o’r orsaf ynni niwclear i ddal 1.5 miliwn tunnell o garbon deuocsid y flwyddyn.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn edrych ar gynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr sy’n seiliedig ar natur. Mae’r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi codi cwestiynau ynghylch pa mor barhaol yw gwaredu sy’n seiliedig ar natur ac a allai cynnwys Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU fynd yn rhy bell o ran coedwigo wrth ystyried y disgwyliadau presennol ynghylch prisiau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y dyfodol. Roedd y Cais am Dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch effeithiau ehangach cyflwyno atebion sy’n seiliedig ar natur o ran rheoli tir. Bydd yr Awdurdod yn cadw’r rhain mewn cof wrth ystyried cynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys y Cod Carbon Coetiroedd sydd â meini prawf ychwanegedd cadarn yn eu lle a mecanweithiau i leihau'r risg o wrthdroi. Byddwn yn gweithio gyda’r Pwyllgor Newid Hinsawdd i ddiogelu uniondeb amgylcheddol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gan gefnogi’r gwaith o ddefnyddio amrywiaeth eang o dechnolegau gwaredu nwyon tŷ gwydr. Yn 2023, bydd y cynllun Gwarant Carbon Coetiroedd presennol yn cael ei ddefnyddio i ganfod yn gystadleuol y pris carbon coetiroedd sy’n absennol o gymorth grant arall ar gyfer plannu coed, gan helpu i fynd i’r afael â’r bylchau presennol mewn gwybodaeth. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn

cyhoeddi Fframwaith Defnydd Tir, gan nodi sut byddwn yn cydbwyso nifer o ofynion ar ein tir, yn cynnwys lliniaru ac addasu i’r hinsawdd.

**Astudiaeth achos: Cod Carbon Coetiroedd y DU**

Mae’r Cod Carbon Coetiroedd yn nodi’r gofynion ar gyfer prosiectau gwirfoddol yn y DU sy’n ceisio gwahanu carbon drwy greu coetiroedd. Mae’n darparu safonau sicrhau ansawdd ar gyfer prosiectau coetir er mwyn cynhyrchu unedau carbon uchel, wedi eu dilysu’n annibynnol. Yn ogystal â storio carbon, mae prosiectau hefyd yn darparu manteision cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae’r rhain yn cynnwys bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd, gwelliannau mewn iechyd a llesiant, manteision i ffermio, cyflogaeth leol a chyfleoedd addysgol. Mae’r Cod yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol am safonau uchel o ran rheoli carbon a choedwigoedd yn gynaliadwy ac fe’i cymeradwyir gan y Gynghrair Ryngwladol ar gyfer Lleihau Carbon (ICROA), sef y corff ambarél byd-eang ar gyfer darparwyr lleihau carbon yn y farchnad wirfoddol.

Mae gan y Cod Carbon Coetiroedd nifer o fecanweithiau ar waith i sicrhau bod y broses o gynhyrchu unedau carbon yn gadarn ac yn wiriadwy. Er mwyn cefnogi parhad y carbon sy’n cael ei storio, mae’r cynllun yn gofyn i brosiectau sefydlu trefn rheoli tir ar gyfer cyfnod y prosiect (hyd at 100 mlynedd) ac unrhyw gamau lliniaru sydd eu hangen i leihau colled. Mae’n ofynnol hefyd i brosiectau gyfrannu at y Byffer Carbon Coetiroedd, sy’n cronni 20% o’r holl unedau a gynhyrchir i ddiogelu’r buddsoddiad a wneir gan brynwyr carbon ac sy’n diogelu uniondeb unedau sydd wedi eu dilysu. Gellir defnyddio'r Byffer os bydd digwyddiadau gwrthdroi, a bydd rhaid i brosiectau ei ailgyflenwi yn dibynnu a oedd modd osgoi'r digwyddiad neu beidio. Bydd angen trwydded cwympo coed ar goed sy’n cael eu symud oddi ar y tir hefyd, gyda mân eithriadau, ac mae trwyddedau cwympo coed yn destun hysbysiadau ailstocio ar hyn o bryd. Bydd hyn, mewn gwirionedd, yn cynnal y tir fel coetir i’r dyfodol (y tu hwnt i gytundeb 100 mlynedd y Cod Carbon Coetiroedd) drwy fynnu bod coed newydd yn cael eu plannu pan fydd coed yn cael eu symud.

## Amseru a’r camau nesaf

Bydd yr Awdurdod yn ceisio cynnal ymgynghoriad pellach yn 2023 ar gynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu a rhai sy’n seiliedig ar natur yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Bydd hyn yn rhoi sylw i sut gallem ddylunio’r farchnad, pa ofynion cymhwysedd marchnad y gallem eu gosod a phryd y gellid eu cynnwys ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill.

Mae’r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi argymell bod gwaredu wedi ei beirianyddu yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU pan fyddant yn aeddfed (e.e. pan fydd nifer o gyfleusterau ar waith) oherwydd nad yw’r DU wedi defnyddio technolegau o’r fath ar raddfa fawr eto. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebion Cais am Dystiolaeth yn dadlau dros gynhwysiant cynnar fel ffordd o roi hyder i fuddsoddwyr i gefnogi defnydd cyflymach a lleihau costau ar gyfer prosiectau gwaredu nwyon tŷ gwydr.

Byddai’r amseru’n cael ei asesu’n fras yn erbyn yr ystyriaethau a nodir uchod ynghylch:

- Creu lwfans gwaredu nwyon tŷ gwydr sy’n seiliedig ar fframwaith monitro, adrodd a dilysu cadarn i sicrhau y byddai lwfansau o’r fath yn cynrychioli buddion hinsawdd gwirioneddol y gellir eu dilysu;
- Y polisi gwaredu nwyon tŷ gwydr ehangach, fel datblygu modelau busnes ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr wedi eu peirianyddu a fframweithiau fel y Cod Carbon Coetiroedd, ac asesiad o sut gallai integreiddio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU gefnogi’r mecanweithiau gwahanol hyn;
- Rôl marchnadoedd carbon gwirfoddol o ran darparu ffynhonnell arall o alw am waredu nwyon tŷ gwydr ac asesu sut i fanteisio i’r eithaf ar eu potensial ochr yn ochr ag integreiddio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU;
- Esblygiad Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU dros amser, gan gynnwys y newidiadau a amlinellwyd yng ngweddill yr Ymateb hwn gan y Llywodraeth;
- Effaith cynnwys gwaredu nwyon tŷ gwydr ar Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU a’i gyfranogwyr, yn ogystal ag effeithiau cynhwysiant ar gyflwyno dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr;
- Y berthynas rhwng costau disgwyliedig gwaredu nwyon tŷ gwydr dros amser a’r pris carbon presennol, a beth fyddai integreiddio’n ei olygu o ran sut mae dulliau gwaredu nwyon tŷ gwydr yn cael eu hariannu.

Bydd hyn yn pennu llwybr ar gyfer integreiddio gwaredu nwyon tŷ gwydr i’r farchnad. Bydd yr Awdurdod yn ystyried rôl cynlluniau peilot ac yn cyflwyno gwaredu nwyon tŷ gwydr yn raddol i Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU fel rhan o hyn.

# Cais am Dystiolaeth ar sut y gellir monitro, adrodd a dilysu allyriadau amaethyddiaeth a defnydd tir yn briodol

## Crynodeb o’r Cais am Dystiolaeth

Mae’r adran hon yn crynhoi canfyddiadau’r Cais am Dystiolaeth ar fonitro, adrodd a dilysu allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol ar fferm. Mae monitro, adrodd a dilysu yn rhoi cyfle i ni ddeall mwy am ffynhonnell a graddfa allyriadau yn y sector amaethyddiaeth, a all yn ei dro hefyd fod yn sail i benderfyniadau gan gynhyrchwyr bwyd, manwerthwyr a’r llywodraeth.

Roedd y Cais am Dystiolaeth yn ystyried rôl bosibl monitro, adrodd a dilysu mewn busnes amaethyddol, gwella penderfyniadau ar lefel busnes, cynhyrchiant a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o dyfu bwyd (boed hynny yn seiliedig ar anifeiliaid neu blanhigion). Roedd yn gofyn am dystiolaeth ynghylch a yw monitro, adrodd a dilysu yn her yn y sector hwn ai peidio, a rôl llywodraeth, busnesau a thechnolegau arloesol o ran goresgyn yr heriau hyn.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau am weithgareddau busnes o fewn ‘porth’ y fferm; nid oedd y Cais am Dystiolaeth yn ystyried allyriadau annatod cysylltiedig o brosesu a chludo bwyd neu gynhyrchion amaethyddol eraill.

### Crynodeb o'r Ymatebion

Cawsom 29 o ymatebion gan amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys cymdeithasau masnach, undebau ffermwyr, cyrff cyhoeddus, cyrff anllywodraethol/grwpiau cysylltiadau, a busnesau. Fe wnaethom ofyn naw cwestiwn am ddefnyddio a chymhwyso monitro, adrodd a dilysu, a chawsom 154 o atebion, ynghyd â safbwyntiau mwy cyffredinol.

## Defnyddio Monitro, Adrodd a Dilysu

### Crynodeb o'r Ymatebion

| **Cwestiwn** |
| --- |
| **165) Ar gyfer busnesau fferm: Ydych chi'n defnyddio adnoddau archwilio carbon ar hyn o bryd? (Ydym/Nac Ydym)**<br>**a) Os ydych, pa un neu ba rai, a pha arferion neu reolaeth fferm rydych wedi eu newid yn sgil defnyddio'r adnodd?**<br>**b) Os nad ydych, beth sydd wedi eich atal rhag defnyddio'r adnoddau hyn?** |

Cawsom 17 o ymatebion i gwestiwn 165 ar y defnydd presennol o adnoddau archwilio carbon gan fusnesau fferm.

Cyfeiriwyd rhan gyntaf y cwestiwn hwn at fusnesau fferm ac a ydynt yn defnyddio adnoddau archwilio carbon ar hyn o bryd. Ni chafodd hwn ei ateb gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, neu nid oedd yn berthnasol iddynt. Cafwyd tri ymateb 'ydym' (18%), a thri (18%) ymateb 'nac ydym'. Cyfeiriodd dau arall (12%), o sefydliadau aelodaeth, at raniad o 50:50 rhwng 'ydym' a 'nac ydym' yn yr atebion a dderbyniwyd gan eu haelodau.

O ran pa adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, y rhai a gafodd eu crybwyll amlaf oedd Agrecalc (saith ymateb (41%)), Farm Carbon Toolkit (pedwar ymateb (24%)), a'r Cool Farm Tool (tri ymateb (18%)). Cafodd Agrecalc ei nodi fel adnodd sy'n cael ei ddefnyddio'n arbennig gan ffermwyr yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn manylu ar arferion ffermydd penodol sydd wedi cael eu newid o ganlyniad i ddefnyddio'r adnodd, gan gynnwys rheoli pridd, maethynnau a da byw yn well, plannu coed a gwrychoedd, lleihau costau ynni a chynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at gyfleoedd i ddefnyddio'r adnoddau ar gyfer meincnodi a llinellau sylfaen, i nodi arbedion, ac i gefnogi cysylltiadau â'r gadwyn gyflenwi a rhwymedigaethau contractau.

O ran ffactorau sy'n atal defnyddio adnoddau archwilio carbon, tynnodd sefydliadau'r sector ffermio sylw at yr anawsterau y mae ffermwyr yn eu hwynebu wrth eu defnyddio ynghyd â'r diffyg cymhelliant neu fanteision. Soniodd chwe ymatebydd am amser, cymhlethdod neu gost cwblhau archwiliadau a/neu weithredu newidiadau. Soniodd grŵp ehangach o ymatebwyr am bryderon ynghylch yr adnoddau neu'r cyfrifianellau eu hunain.

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at y pecynnau cymorth a'r cyfrifianellau carbon presennol drwy gydol yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth, fel y Farm Carbon Toolkit, Agrecalc ac adnodd ôl troed carbon Prifysgol Bangor. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at waith CSXCarbon ac

adroddiad gan yr WWF (Gronfa Bywyd Gwyllt y Byd) ar gyfleoedd i gael marchnadoedd carbon. Rhannodd un ymatebydd adroddiad gan Natural England, a oedd yn tynnu sylw at fap tebygolrwydd cynefinoedd gan ddefnyddio delweddau lloeren.

| Cwestiwn |
|---|
| **166) Beth yw'r rhwystrau i ddefnyddio dull cadarn o Fonitro, Adrodd a Dilysu allyriadau nwyon tŷ gwydr, a sut y gallwn wella'r broses o gadw cofnodion?**<br>**a) Yn y sector amaethyddol**<br>**b) Yn y sector defnydd tir** |

Cawsom 21 ymateb i gwestiwn 166 ar y rhwystrau rhag gweithredu prosesau Monitro, Adrodd a Dilysu ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr cadarn a sut y gellir gwella'r gwaith o gadw cofnodion.

Cyfeiriodd wyth o'r ymatebwyr, ar draws yr amrywiaeth o fathau o ymatebwyr, at y costau neu'r baich.  Cyfeiriodd pedwar o'r ymatebwyr at y diffyg cymhellion i ffermwyr a/neu fusnesau, gyda dau yn dweud bod archwilio carbon yn fuddiol i ymgynghorwyr yn hytrach na ffermwyr.

Fe wnaeth wyth o'r ymatebwyr o amrywiaeth o sectorau fynegi amrywioldeb neu ddiffyg safoni mewn cyfrifianellau, codau a modelau fel rhwystr i gyfyngu ar hyder mewn monitro, adrodd a dilysu.

Cododd pedwar ymatebydd bryderon ynghylch cywirdeb data. Cyfeiriodd pump arall at gymhlethdod neu anhawster wrth fesur nwyon tŷ gwydr ar gyfer y sector, ac yn benodol atafaelu carbon.

Fe wnaeth pum ymatebydd, pob un yn gyrff cynrychioliadol ar gyfer y sector ffermio, dynnu sylw at rwystrau i ymgysylltu â ffermwyr a defnyddio adnoddau , gan gynnwys amser ac anhawster wrth gasglu, cyflwyno a defnyddio data.  Dywedodd tri o'r ymatebwyr hyn hefyd nad yw'r adnoddau'n adlewyrchu gwahanol systemau fferm, strwythurau busnes neu amgylchiadau unigryw.

Cafwyd awgrymiadau ar gyfer gwella cadw cofnodion gan ddeg ymatebydd o bob rhan o'r gwahanol sectorau.  Cafodd symleiddio'r gwaith o gasglu a dadansoddi data ei gynnwys mewn pedwar ymateb, yn benodol y defnydd o dechnoleg, rhaglenni presennol a systemau ar-lein. Cafwyd sylwadau gan dri ymatebydd ar gofrestrfa neu lwyfan ar gyfer monitro, adrodd a dilysu.

| Cwestiwn |
|---|
| **167) Gellid defnyddio technolegau synhwyro o bell ac arsylwi ar y ddaear i ategu adnoddau adrodd ar garbon. A oes gennych unrhyw bryderon am ddefnyddio'r dechnoleg hon a beth allai dawelu eich meddwl?** |

Atebodd 16 o ymatebwyr gwestiwn 167 ar ddefnyddio technolegau synhwyro o bell ac arsylwi'r ddaear i ategu adnoddau adrodd carbon.

Y pryderon mwyaf cyffredin ynghylch defnyddio’r technolegau hyn oedd cywirdeb (wyth ymateb (50%)), gallu i dyfu (pedwar ymateb (25%)) a chostau (tri ymateb (19%). Tynnodd dau ymatebydd (13%) sylw at yr heriau o ran costau a mynediad at dechnolegau synhwyro o bell ar gyfer ffermydd bach. Awgrymodd tri ymatebydd (19%) y byddai prynu data Canfod ac Anelu Golau (LiDAR) ledled y wlad a’i ddadansoddi drwy un set o feddalwedd y cytunwyd arni yn fwyaf effeithiol.

Codwyd nifer o heriau data, gan gynnwys dewis y ffynonellau data a’r dulliau mwyaf priodol, deall y modelau a ddefnyddir i ddehongli’r data, a materion sy’n ymwneud â diogelu a pherchnogaeth data.

Roedd awgrymiadau ar ffyrdd o roi sicrwydd yn canolbwyntio ar gywirdeb, cadernid a meithrin hyder. Soniodd tri ymatebydd (19%) am dreialu a phrofi technoleg synhwyro o bell a dau am bwysigrwydd cynnal arolwg gwirionedd daearu. Nodwyd hefyd yr angen am ragor o ymchwil a chynnwys rhanddeiliaid.

Wrth ateb y cwestiwn hwn, roedd 13 ymatebydd (19%) o bob math hefyd yn myfyrio ar fanteision defnyddio synhwyro o bell a thechnolegau newydd e.e. dronau. Roedd eu sylwadau’n cynnwys: mesuriadau mwy cadarn, rheolaidd a niferus; y potensial i chwyldroi’r broses adrodd a rhoi mwy o hyder i’r diwydiant; lleihau costau o samplo ar y fferm a symleiddio’r gwaith o gasglu data.

| **Cwestiwn** |
|---|
| **168) Sut y gall adnoddau archwilio carbon ac adrodd ar garbon gael eu defnyddio ar y cyd â dulliau cynllunio busnes eraill?** |

Atebodd tri ar ddeg o ymatebwyr gwestiwn 168 ar sut y gall adnoddau archwilio carbon ac adrodd ar garbon gael eu defnyddio ar y cyd â dulliau cynllunio busnes eraill.

Roedd tua hanner yr ymatebion yn tynnu sylw at fanteision adnoddau archwilio carbon ar gyfer asesu ffynonellau a sinciau gwaredu nwyon tŷ gwydr ac ar gyfer nodi cyfleoedd i leihau allyriadau o wahanol arferion rheoli ar ffermydd, gan gynnwys tystiolaeth o’r Arolwg Arferion Ffermydd a ganfu fod 67% o fusnesau fferm yn ystyried pwysigrwydd nwyon tŷ gwydr wrth wneud penderfyniadau. Fel rhan o gynllunio busnes, gallai hyn helpu i wella effeithlonrwydd adnoddau/busnes (pedwar ymateb), blaenoriaethu meysydd i weithredu arnynt (dau ymateb), a nodi arbedion cost (un ymateb). Cyfeiriodd tri ymateb (23%) at y cyfle i wella cynaliadwyedd a diogelwch amgylcheddol; roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â gwella cynhyrchiant a phroffidioldeb. Fe wnaeth pedwar ymgeisydd (31%) grybwyll defnyddio adnoddau carbon i wneud penderfyniadau strategol ar asedau carbon a nodi incwm ychwanegol drwy arallgyfeirio a marchnadoedd carbon.

Roedd pwysigrwydd data a dadansoddi cadarn (tri ymateb (23%)) yn parhau i fod yn thema gyffredin, gyda phwyslais ar ddilysu a meincnodi i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau. Cyfeiriodd dau ymatebydd (15%) at yr angen am fesurau ychwanegol ochr yn ochr â monitro, adrodd a dilysu, fel trosglwyddo gwybodaeth, datblygu sgiliau, cymhellion a buddsoddiad, i sbarduno gweithredu ar lefel fferm.

## Defnyddio monitro, adrodd a dilysu i ddatgarboneiddio’r sector amaethyddiaeth

### Crynodeb o’r Ymatebion

| **Cwestiwn** |
| --- |
| **169) Sut y gall Monitro, Adrodd a Dilysu gael ei ddefnyddio orau at ddiben:**<br>**a) Datgarboneiddio amaethyddiaeth**<br>**b) Nodi cyfleoedd lliniaru allyriadau ac allyriadau negyddol, e.e. drwy atafaelu carbon**<br>**c) Denu buddsoddiad ar gyfer rheoli carbon yn y sector amaethyddiaeth a'r sector defnydd tir?** |

Atebodd 18 o ymatebwyr gwestiwn 169 ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio monitro, adrodd a dilysu. Roedd y cwestiwn yn gofyn am atebion i’r tri diben a amlinellwyd uchod, ac atebodd ymatebwyr rai, neu bob un, o’r is-adrannau hyn.

Myfyriodd un ar ddeg o ymatebwyr (61%) ar y ffyrdd gorau o ddefnyddio monitro, adrodd a dilysu ar gyfer datgarboneiddio amaethyddiaeth. Roedd eu hawgrymiadau’n cynnwys y gofynion ar gyfer monitro, adrodd a dilysu (methodoleg y cytunwyd arni/alinio adnoddau), a sut gallai gefnogi datgarboneiddio (annog ffermwyr i weld cyfanswm eu hallyriadau tir; annog defnydd tir amgen ac arferion rheoli newydd e.e. cadwraeth mawndiroedd).

Mewn ymateb i sut y gellir defnyddio monitro, adrodd a dilysu i nodi cyfleoedd lliniaru a negyddol o ran allyriadau, cyfrannodd deg o ymatebwyr argymhellion. Cyfeiriodd pedwar ymatebydd (22%) at yr angen am hyder mewn cyfrifyddu, a phwysleisiodd dau o’r rhai bwysigrwydd cyfrifo cenedlaethol ar draws sectorau ffermio a defnydd tir. Dywedwyd hefyd y dylai’r llywodraeth asesu sut i ddarparu dull o gydbwyso cynhyrchu bwyd cynaliadwy ag allyriadau negyddol ac atafaelu ar gyfer cynaliadwyedd busnes economaidd hirdymor (tri ymateb). Soniwyd hefyd am yr angen i integreiddio mwy o sectorau a gwella’r rhestr genedlaethol ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr.

Cafwyd saith ymateb (39%) ar ddenu buddsoddiad mewn rheoli carbon. Dywedodd pedwar ymatebydd (22%) y gellir defnyddio safonau monitro, adrodd a dilysu cywir, cadarn ac uchel i oresgyn problemau sy’n ymwneud ag ychwanegedd, dadleoli, sefydlogrwydd, a mesur a dilysu gwir enillion carbon o ddal a storio ar ffermydd. Yn ei dro, byddai hyn yn cynyddu hyder ffermwyr a buddsoddwyr, ac yn cefnogi datblygiad y farchnad. Tynnodd tri ymatebydd (17%) sylw at y Cod Carbon Coetiroedd a’r Cod Mawndiroedd fel ‘mecanwaith’ ar gyfer darparu cyfleoedd i atafaelu carbon a lleihau allyriadau.

Nododd llawer o ymatebwyr fanteision pellach y gallai defnyddio monitro, adrodd a dilysu eu cyflawni, gan gynnwys: llywio penderfyniadau gwell ar ffermydd; cefnogi cywirdeb adroddiadau cwmpas y gadwyn gyflenwi 1 a 3; helpu i asesu effaith penderfyniadau polisi cenedlaethol a datganoledig; a chynorthwyo natur ac adfer bioamrywiaeth.

| Cwestiwn |
|---|
| **170) A ddylai cymhwysedd i fasnachu mewn carbon wedi ei atafaelu ar ffermydd fod yn amodol ar y gwerthwr yn dangos bod lefel dderbyniol o leihad mewn allyriadau fferm wedi ei chyflawni? (Byddai angen gwneud rhagor o waith i ddiffinio lefelau 'derbyniol' o leihad mewn allyriadau a gallai fod yn benodol i is-sector neu fferm).** |

Atebodd 19 o ymatebwyr gwestiwn 170 ynghylch a ddylai cymhwysedd i fasnachu fod yn amodol ar y gwerthwr yn dangos lefel dderbyniol o ostyngiad mewn allyriadau ffermydd.

O'r rhain, cawsom dri ymateb uniongyrchol yn nodi Ie/Na, dywedodd dau (11%) 'ie' ac atebodd un 'na' (5%). Fodd bynnag, cafwyd nifer o ymatebion cadarnhaol ac ambell i safbwynt croes.

Roedd yr ymatebion cadarnhaol yn cynnwys yr angen i ddarparu strategaeth lleihau allyriadau ar gyfer y sector amaethyddiaeth a defnydd tir; a darparu iawndal am allyriadau drwy atebion sy'n seiliedig ar natur, yn ogystal â lleihau allyriadau, ac nid fel dewis arall.

Roedd yr ymatebion croes yn honni y dylai fod yn annibynnol ac yn fater i fusnesau unigol benderfynu gwerthu credydau ai peidio, ac y byddai'n dod yn amodol dros amser i ddangos lefel dderbyniol o leihad mewn allyriadau fferm cyn masnachu.

Yn ogystal â hyn, mynegodd wyth o ymatebwyr (42%) bryderon, gyda rhai ynghylch cwmpas a gwaharddiadau, costau a chanlyniadau anfwriadol.

| Cwestiwn |
|---|
| **171) Pa sectorau o fewn amaethyddiaeth a defnydd tir y dylem eu blaenoriaethu er mwyn pennu data sylfaenol â Monitro, Adrodd a Dilysu?** |

Atebodd tri ar ddeg o ymatebwyr gwestiwn 171 ynghylch pa sectorau i'w blaenoriaethu i sefydlu data sylfaenol â monitro, adrodd a dilysu.

Roedd safbwyntiau'n amrywio o gytuno y dylid blaenoriaethu rhai sectorau i gredu ei bod yn annheg i flaenoriaethu unrhyw un sector.

Roedd pump o'r ymatebwyr (39%) yn credu na ddylid rhoi blaenoriaeth i unrhyw un sector ac nid oeddent yn glir ynghylch pam na ddylid gwneud hynny. Roedd eu rhesymau'n cynnwys: mae gan lawer o ffermydd yn y DU statws cymysg; mae rhai adnoddau'n cael eu hystyried yn fwy datblygedig nag eraill; ac y dylid blaenoriaethu pob sector i sicrhau data cywir.

Fodd bynnag, awgrymodd pum ymatebydd (39%) sectorau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt. Y sectorau a grybwyllwyd amlaf oedd y sector llaeth (pedwar ymateb) a'r sectorau cig eidion, moch a defaid (tri ymateb).

Nodwyd hefyd na ddylai unrhyw gynllun gymell lleihad mewn cynhyrchiant, gan arwain at fewnforion cynyddol ac allyriadau posibl yn cael eu hallforio.

| **Cwestiwn** |
|---|
| **172) Yn eich barn chi beth ddylai rôl llywodraeth fod o ran Monitro, Adrodd a Dilysu seiliedig ar fferm a defnydd tir?**<br>**a) A ddylai'r Llywodraeth ystyried gorfodi'r defnydd o Fonitro, Adrodd a Dilysu ar gyfer y sector neu is-sectorau?**<br>**b) I gefnogi hyn, a ddylai llywodraeth gyflwyno protocolau neu adnoddau safonedig, y tu hwnt i god gwirfoddol Safon 2050?**<br>**c) Neu fel arall, a ddylai llywodraeth ddarparu fframwaith safonedig ar gyfer y farchnad i ddatblygu protocolau i gyflawni'r canlyniadau adrodd ar ddata sydd eu hangen?** |

Cawsom 20 ymateb i gwestiwn 172, roedd rhai o'r rhain yn ymateb i rannau (a)-(c), ond yn y rhan fwyaf o achosion, ni chafodd yr is-gwestiynau eu hateb neu roeddent yn amherthnasol.

O ran a ddylai'r llywodraeth orfodi defnyddio monitro, adrodd a dilysu, cawsom ddau ymateb pendant – un (5%) 'ie' a'r llall 'na' (5%). Nododd pedwar ymatebydd arall nad oeddent yn cefnogi gorfodi'r llywodraeth i ddefnyddio monitro, adrodd a dilysu.

O ran a ddylai llywodraeth gyflwyno dulliau neu brotocolau safonol (y tu hwnt i god gwirfoddol Safon 2050), cafwyd dau ymateb 'ie' uniongyrchol (10%), allan o chwe ymateb. Roedd yr holl atebion yn ffafrio cyflwyno protocolau neu arfau safonol.

Roedd trydedd ran y cwestiwn yn cwmpasu'r opsiwn arall i lywodraeth ddarparu fframwaith safonol ar gyfer y farchnad i ddatblygu protocolau i gyflawni'r canlyniadau gofynnol o ran adrodd ar ddata. O'r naw ymatebydd, roedd y rhan fwyaf yn gefnogol i'r dull gweithredu hwn ar y cyfan. Ymatebodd pump yn uniongyrchol gyda 'ie' (25%).

Atebodd un ar bymtheg o'r ymatebwyr (80%) y cwestiwn hwn yn fwy cyffredinol ynghylch rôl llywodraeth mewn monitro, adrodd a dilysu sy'n seiliedig ar ffermio a defnydd tir. Cynigiodd nifer o ymatebwyr fod llywodraeth yn darparu cymorth i oresgyn rhwystrau ariannol cychwynnol, gan gynnwys er mwyn gallu casglu data a gwreiddio archwilio, gweithredu ac adolygu gwaredu nwyon tŷ gwydr mewn busnesau fferm. Yn yr un modd, awgrymodd tri ymatebydd (15%) fod llywodraeth yn cefnogi ffermwyr a rheolwyr tir drwy raglenni cymhelliant ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol ac archwilio potensial atafaelu.

Awgrymodd dau ymatebydd (10%) y dylai llywodraeth flaenoriaethu'n wahanol; drwy ganolbwyntio ar addysg a buddsoddi mewn meysydd fel datblygu safonau, casglu data, cynghori a systemau gwybodaeth.

Roedd nifer fach yn pwysleisio bod angen cysoni ar raddfa fawr ac ar frys drwy safoni mesuriadau, ac ar draws protocolau monitro, adrodd a dilysu. Nodwyd hefyd bod angen trafodaethau pellach i benderfynu a fyddai cysoni'n ymestyn i gynnwys Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, ac y byddai'n fuddiol i'r Llywodraethau gynnal cynlluniau peilot i

gynorthwyo penderfyniadau i safoni adnoddau neu ddarparu fframwaith safonol. Nodwyd hefyd yr angen i lywodraeth weithio mewn partneriaeth â’r diwydiant i ddatblygu protocolau.

| **Cwestiwn** |
|---|
| **173) A yw monitro, adrodd a dilysu gwirfoddol yn y sector amaethyddol a'r sector defnydd tir yn debygol o gyflawni lefel ddigonol o ddefnydd a chywirdeb i wella effeithlonrwydd busnesau, datgarboneiddio a phenderfyniadau gan ffermwyr, manwerthwyr a'r llywodraeth?** |

Atebodd 18 o’r ymatebwyr gwestiwn 173 ynghylch a yw monitro, adrodd a dilysu gwirfoddol yn debygol o gael digon o ddefnydd a chywirdeb.

Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol ar y cwestiwn hwn ac roedd diffyg consensws. Dywedodd pedwar ymatebydd (22%) na fyddai adrodd gwirfoddol yn ddigon. Roedd tri ymatebydd (17%) yn ffafrio adrodd gwirfoddol ac yn teimlo y dylai deddfwriaeth fod yn ddewis olaf.

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn awgrymu mesurau i gefnogi defnydd gwirfoddol. Roedd y rhain yn cynnwys: marchnadoedd wedi eu rheoleiddio a mecanweithiau marchnad i brynu credydau carbon; safonau/cofnodion cenedlaethol y cytunwyd arnynt a methodolegau cofnodi/casglu data; ysgogi dulliau demo/treial wedi eu hysgogi; a chael gwared ar rwystrau i weithredu ee cost, uwchsgilio a hyfforddiant, ynghyd â chyfathrebu’r budd i fusnesau’n effeithiol, a awgrymwyd gan rai ymatebwyr.

Cafwyd nifer o ymatebion hefyd a oedd yn sôn am gymell, gan gynnwys drwy’r gadwyn gyflenwi, e.e. yn y sector llaeth, lle amcangyfrifir bod 40% o ffermydd llaeth y DU wedi gadael ôl troed carbon, llawer ohonynt oherwydd trefniadau contract gyda’u prynwyr llaeth.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae’r Awdurdod yn dymuno diolch i’r holl unigolion a sefydliadau a roddodd o’u hamser i ymateb i’r Cais am Dystiolaeth. Mae’r cyflwyniadau wedi bod yn werthfawr o ran nodi ac archwilio themâu allweddol sy’n ymwneud â chyfleoedd monitro, adrodd a dilysu ar gyfer y sector amaethyddiaeth, rhwystrau i ddefnyddio a defnyddio monitro, adrodd a dilysu, a sut i wella archwilio carbon.

Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, nid yw’r Awdurdod yn bwriadu ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys amaethyddiaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gyfle addas i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a’r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon gyhoeddi’r Cais am Dystiolaeth, er mwyn dechrau deall a gwella allyriadau’r monitro, adrodd a dilysu ar gyfer y sectorau amaethyddiaeth a defnydd tir.

Mae’r Cais am Dystiolaeth yn gam cyntaf hollbwysig i ddatblygu ein dealltwriaeth o lefelau a dulliau presennol o ymdrin â monitro, adrodd a dilysu ar draws y sector, a’r camau nesaf i’w

cymryd i gryfhau cadernid monitro, adrodd a dilysu o ran allyriadau ar draws busnesau fferm. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a DAERA ar gyfer Gogledd Iwerddon i nodi ac ystyried yr holl opsiynau ar gyfer gwella monitro, adrodd a dilysu fel adnodd gwerthfawr i helpu'r sector i ddatgarboneiddio.

Fel y nodir yng 'Nghynllun Twf Sero Net' Llywodraeth y DU, bydd canfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth ochr yn ochr â thystiolaeth ychwanegol a gesglir drwy brosiectau ymchwil parhaus yn cael eu defnyddio i ddatblygu dull cyson o fesur allyriadau carbon o ffermydd yn Lloegr. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn nodi erbyn 2024 sut bydd ffermwyr yn cael eu cefnogi i ddeall eu ffynonellau allyriadau drwy archwiliadau carbon a chymryd camau pellach i ddatgarboneiddio eu busnesau, gan gynnwys drwy gynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol.

## Cyfleoedd a rhwystrau i ddefnyddio a chymhwyso monitro, adrodd a dilysu mewn amaethyddiaeth

Mae'r Awdurdod yn cydnabod manteision a gwerth posibl mynediad at adnoddau cyfrifo carbon sy'n wyddonol gadarn ac y gellir ymddiried ynddo i'w defnyddio ar lefel fferm. Mae hyn yn allweddol i lywio ffynhonnell a graddfa allyriadau gwaredu nwyon tŷ gwydr, ac i asesu cyfleoedd i leihau allyriadau o wahanol arferion rheoli ar ffermydd.

Gall defnyddio ar lefel fferm alluogi ffermwyr i ddatgloi buddsoddiad preifat i gefnogi'r newid i ffermio carbon isel yn ogystal â chynyddu dealltwriaeth ehangach o allyriadau gwaredu nwyon tŷ gwydr. Gall casglu data'n well drwy ddefnyddio'r adnoddau hyn arwain at fanteision o ran cynhyrchiant drwy alluogi busnesau i nodi meysydd posibl i wneud enillion effeithlonrwydd, defnyddio dulliau arloesol a gwella rheoli ffermydd, er enghraifft drwy ddatblygu a gweithredu cyllideb maethynnau a chynllun rheoli ar y fferm. Gall pob un o'r rhain gyfrannu at newid ymddygiad cadarnhaol a gwella effeithlonrwydd cyffredinol y busnes.

Yn y bennod Cais am Dystiolaeth, roeddem yn cydnabod diffyg dull safonol o fonitro ac adrodd ar allyriadau ar lefel fferm, a bod canlyniadau data amrywiol o adnoddau asesu carbon ffermydd wedi arwain at ddiffyg hyder yng ngwerth a dibynadwyedd archwiliadau carbon. Roedd hyn hefyd yn cael ei gydnabod yn glir yn yr ymatebion fel rhwystr sylweddol i ddefnyddio monitro, adrodd a dilysu yn ehangach ar draws y sector amaethyddiaeth.

Mae'r ymatebion yn tynnu sylw at amrywiaeth o anawsterau y mae ffermwyr yn eu hwynebu wrth ddefnyddio adnoddau archwilio carbon, gan gynnwys y gost, yr amser a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â chasglu, cyflwyno a defnyddio'r data. Dywedodd ymatebwyr hefyd nad yw adnoddau yn adlewyrchu strwythurau a busnesau fferm yn ddigonol, nac yn rhoi digon o sylw i'r holl ryngweithiadau carbon yn y system, yn enwedig atafaelu carbon.

## Gwella monitro, adrodd a dilysu ar gyfer amaethyddiaeth

Mae'r adborth o'r Cais am Dystiolaeth yn cefnogi'r angen am adnoddau monitro, adrodd a dilysu cadarn â chysondeb gwell. Mae hefyd yn awgrymu rôl bosibl i lywodraeth o ran helpu i sefydlu fframwaith ar gyfer adnoddau, yn ogystal â hybu mwy o ddefnydd o adnoddau yn y sector ac arloesi mewn technolegau newydd.

### Cryfhau'r fframwaith/ safoni adnoddau

Byddai'r angen i wella dulliau archwilio carbon, drwy eu gwneud yn fwy cadarn a chyson yn wyddonol yn eu gwaith modelu ac, yn y pen draw, allbynnau data, ond hefyd drwy eu gwneud yn symlach ac yn haws eu defnyddio, yn rhoi mwy o hyder i ffermwyr ac yn helpu i gynyddu'r niferoedd sy'n eu defnyddio. Byddai hefyd yn rhoi mwy o hyder i fuddsoddwyr ysgogi rhagor o fuddsoddiad preifat ac yn helpu i sbarduno'r sector i ddatgarboneiddio.

Awgrymodd ymatebwyr y dylai llywodraeth chwarae rhan yn y gwaith o gyflwyno protocolau neu fframweithiau safonol ar gyfer adnoddau archwilio carbon, a'r farchnad, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol o ran adrodd ar ddata.

Er mwyn deall yn well y gwyriad rhwng adnoddau archwilio carbon a nodi meysydd i'w cryfhau er mwyn sicrhau mwy o gysondeb o ran allbwn data, mae Defra wedi comisiynu prosiect ymchwil dwy flynedd 'Cysoni Adnoddau Cyfrifo Carbon ar gyfer Amaethyddiaeth'. Mae ffermydd enghreifftiol sy'n cynrychioli deg Categori Ffermydd Cadarn Defra yn cael eu defnyddio i ymchwilio i'r graddau y mae cyfrifianellau carbon a ddefnyddir yn aml yn amrywio yn eu hamcangyfrifon o olion traed carbon. Bydd y prosiect hwn yn dod i ben yn ystod haf 2023 a'i nod yw targedu'r gwaith o ddatblygu canllawiau methodolegol gwell i wella cysondeb y canlyniadau ar draws yr adnoddau, yn ogystal â helpu defnyddwyr i ddewis yr adnodd mwyaf addas ar gyfer anghenion busnes eu fferm.

Cafodd canllawiau presennol ar archwilio allyriadau ar raddfa fferm, ar ffurf safon Manyleb sydd ar gael i'r Cyhoedd (PAS) 2050, eu datblygu ar y cyd gan Defra ac maent yn darparu gwybodaeth am sut i ddatblygu safonau monitro, adrodd a dilysu ar gyfer cynnyrch amaethyddol. Fodd bynnag, arweiniad gwirfoddol yw hwn ac nid yw'n mynd yn ddigon pell ar hyn o bryd i gyfyngu ar y gwahaniaeth rhwng allbynnau'r adnoddau. Gallai canfyddiadau'r prosiect ymchwil 'Cysoni Adnoddau Cyfrifo Carbon ar gyfer Amaethyddiaeth' fod yn gam cyntaf tuag at wella safonau ac arweiniad, gan gynnwys drwy ein gwaith parhaus gyda'r Sefydliad Safonau Prydeinig, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu metrigau a safonau cyffredin drwy'r Bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd.

Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r Cais hwn am Dystiolaeth ochr yn ochr ag allbynnau o'r meysydd gwaith presennol hyn, bydd Defra yn datblygu dull cyson o fesur allyriadau carbon o ffermydd yn Lloegr.

### Cefnogi'r defnydd o archwiliadau carbon ar draws amaethyddiaeth

Mae ymatebion o'r Cais am Dystiolaeth hefyd yn cyfeirio at rôl i lywodraeth o ran helpu i fynd i'r afael â'r rhwystr cost cychwynnol i ddefnyddio adnoddau archwilio carbon. Roedd rhai ymatebion yn cynnig y dylai llywodraeth ddarparu cymorth drwy raglenni cymhelliant.

Yn yr Alban, darparwyd cymorth i ffermwyr gynnal Archwiliadau Carbon o dan y 'Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr' a 'Paratoi ar gyfer Ffermio Cynaliadwy'. Drwy'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr, gall ffermwyr gael gafael ar gyngor ac adnoddau â chymhorthdal gyda'r nod o gynyddu proffidioldeb a chynaliadwyedd ffermydd a thyddynnod. Mae'r olaf yn canolbwyntio ar gymhellion i ffermwyr a thyddynwyr, yn cynnwys cyllid tuag at archwiliad carbon, i'w helpu i

ddeall eu hallyriadau carbon a dal a storio ar ffermydd, gan nodi argymhellion a all leihau’r allyriadau hyn a chynyddu effeithlonrwydd.

Ledled Cymru, gall ffermwyr sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio gael cymorth i gyfrifo ôl-troed carbon eu busnesau. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pa rôl y gall y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei chwarae o ran dod â data at ei gilydd mewn ffordd gyson a hawdd ei defnyddio, er mwyn helpu ffermwyr i ddeall eu hôl troed carbon. Mae gwerthusiad opsiynau ar y gweill ar hyn o bryd sy’n ymchwilio i gyfrifiannell carbon (y carboniadur) sy’n benodol i Gymru y gellid ei chyflwyno drwy’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy’n destun proses Cydlunio ar hyn o bryd, yn cynnig bod y carboniadur yn weithred gyffredinol o dan y cynllun, ond y gellid ei darparu hefyd i ffermwyr nad ydynt yn dewis ymuno â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd y gyfrifiannell yn cael ei chyfuno â gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi fel bod ffermwyr yn cael eu harwain drwy gamau gweithredu sy’n benodol i ganlyniadau’r carboniadur ar gyfer eu fferm.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae DAERA yn datblygu rhaglen meincnodi carbon ffermydd dan arweiniad y diwydiant. Bydd y rhaglen hon yn helpu ffermwyr i gael gwybodaeth a dealltwriaeth o ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr a’u cofnodi ar eu ffermydd eu hunain.

Yn Lloegr ar hyn o bryd, darperir cymorth gan Defra drwy eu Cronfa Cadernid ar gyfer Ffermio yn y Dyfodol sy’n cynnig cyngor busnes am ddim i ffermwyr.  Mae chwech o’r darparwyr annibynnol yn cynnig cyngor ynghylch archwiliadau carbon fel un o’r gwasanaethau a ariennir gan Defra sydd ar gael tan fis Mawrth 2025. Gan edrych tua’r dyfodol, erbyn 2024 bydd Defra yn nodi sut y bydd ffermwyr yn cael eu cefnogi i ddeall eu ffynonellau allyriadau drwy archwiliadau carbon ac yn cymryd camau pellach i ddatgarboneiddio eu busnesau, gan gynnwys drwy gynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol.

Fel rhan o Raglen Brawf Defra ar Reoli Tir Er Lles yr Amgylchedd, archwiliodd Prawf Sero Net Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) sut y gall meincnodi carboniadur helpu ffermwyr yn Lloegr i ddeall eu perfformiad cyfredol o ran gwaredu nwyon tŷ gwydr amgylcheddol, a sut y gallai hyn fod yn sail i gynllunio ar gyfer rheoli tir. Roedd yn ystyried rôl cyngor a chymorth o ran defnyddio cyfrifianellau ar gyfer gwaredu nwyon tŷ gwydr i godi lefelau ymwybyddiaeth ac annog newid ymddygiad i wneud cynnydd tuag at sero net. Roedd y canfyddiadau, fel y cyhoeddwyd mewnadroddiad ym mis Rhagfyr 2021, yn dangos gwerth cyngor, gan gynnwys cymorth gan gynghorwyr sydd â’r cymwysterau priodol, helpu ffermwyr i ddeall allbynnau data’r adnodd archwilio carbon a gwella’r tebygolrwydd o leihau allyriadau’n llwyddiannus yn dilyn archwiliad. Mae’r canfyddiadau’n parhau i lywio’r gwaith o gwmpasu polisïau fel rhan o’r broses o ddiwygio polisi amaethyddol yn Lloegr.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym am i ffermwyr a rheolwyr tir allu gwneud dewisiadau gwybodus am leihau allyriadau a manteisio ar gyfleoedd atafaelu drwy gyfuno cyfleoedd buddsoddi preifat â’n cynlluniau cefnogi newydd gan y llywodraeth. Roedd yr egwyddorion talu a nodwyd yn 2021 yn cadarnhau ein nod i sicrhau bod cyfranogwyr yn y cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol newydd yn gallu ennill incwm o ffynonellau sector cyhoeddus a phreifat ar yr amod eu bod yn gydnaws, yn talu am ganlyniadau gwahanol neu ychwanegol ac nad ydynt yn talu am yr un cam ddwywaith.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Fframwaith Marchnadoedd Natur[80] ar gyfer cynyddu cyllid preifat i adfer natur a ffermio cynaliadwy drwy farchnadoedd natur. Roedd hwn yn nodi egwyddorion craidd ar gyfer twf yn y farchnad a'n cynlluniau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu safonau newydd ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau ecosystem.

### Rôl cytundebau'r gadwyn gyflenwi o ran annog pobl i gymryd rhan mewn archwiliadau carbon

Cyfle arall i gymell defnyddio archwiliadau carbon yn y sector yw drwy amodau contract y gadwyn gyflenwi.  Mae eisoes yn ofynnol i gwmnïau mawr adrodd ar allyriadau gwaredu nwyon tŷ gwydr ar gyfer cwmpas 1 a 2, a bydd y Bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd yn edrych ar sut mae ymestyn hyn i ddal allyriadau Cwmpas 3 – y rhai ar draws y gadwyn gyflenwi sydd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y busnes. Gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant a chymdeithas sifil, bydd y Bartneriaeth Tryloywder Data Bwyd yn ystyried datblygu protocolau adrodd cyson a data ar gyfer allyriadau cwmpas 3. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd, lle mae nifer o gwmnïau manwerthu mwy wedi cynnal archwiliadau, neu'n ymchwilio, i garbon busnesau ffermydd dan gontract iddynt. Cafodd hyn ei gydnabod gan y Cais am Dystiolaeth a'r ymatebion a gafwyd a oedd yn tynnu sylw at yr enghraifft o'r diwydiant llaeth, lle amcangyfrifir bod 40% o ffermydd llaeth y DU wedi cynnal asesiad ôl troed carbon, gyda llawer o'r rhai oherwydd trefniadau dan gontract gyda'u prynwyr llaeth.

80 https://www.gov.uk/government/publications/nature-markets

# Pennod 8: Diwygiadau gweithredol i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i gynigion a nodwyd ym Mhennod 9 yn yr ymgynghoriad.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â gweithredu llwybrau apelio ar gyfer penderfyniadau'r Awdurdod ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i adolygu hyn.

Rydym yn cynnwys y gosb am fethu i gyflwyno gwybodaeth a'r hysbysiad diffyg arfaethedig (a'r gosb gysylltiedig). Bydd hyn yn dod i rym erbyn diwedd 2024 neu 1 Ionawr 2025.

## Llwybrau Apelio

### Crynodeb o'r Cynnig

Yng Ngorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU[81], mae erthygl 70 yn nodi hawl gweithredwyr, gweithredwyr awyrennau a phersonau eraill yn y cynllun i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan y rheoleiddiwr a gweinyddwr y gofrestrfa. Rheoleiddwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yw'r OPRED, EA, SEPA, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r NIEA. Nid yw'r Gorchymyn yn rhoi'r hawl i weithredwyr apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod.

Buom yn ystyried darparu llwybr apelio statudol yn erbyn nifer o benderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod.

| **Cwestiwn** |
| --- |
| **187) Ar gyfer pa benderfyniadau eraill a wneir gan yr Awdurdod y byddai'n ddymunol darparu llwybr apelio statudol?** |

#### Crynodeb o'r Ymatebion

Derbyniodd yr Awdurdod bedwar ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y pedwar yn gyffredinol o blaid darparu llwybr apelio statudol ar gyfer penderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod ond nid oeddent yn darparu tystiolaeth ynghylch pam fod hyn yn ddymunol nac yn angenrheidiol. Roedd dau ymateb yn sôn am benderfyniadau penodol y byddai'n ddymunol gweld llwybr apelio ar eu cyfer, yn benodol y broses dosbarthiad tir amaethyddol a dyraniadau cysylltiedig am ddim.

[81] https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348209761/contents

**Ymateb yr Awdurdod**

O ystyried yr ymateb cyfyngedig a’r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer y cwestiwn hwn, mae’r Awdurdod wedi penderfynu peidio â gweithredu llwybrau apelio ar gyfer penderfyniadau’r Awdurdod ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i adolygu hyn ac yn achos rhagor o dystiolaeth sy’n dod i’r amlwg gan randdeiliaid ynghylch pam y dylem weithredu llwybrau apelio o’r fath, byddwn yn ailedrych ar y cynigion hyn ac yn ymgynghori ymhellach ar lwybrau apelio penodol.

# Cosbau

## Crynodeb o'r Cynigion

Yn yr ymgynghoriad ar Ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU, ymgynghorodd yr Awdurdod ar gynnwys un gosb a math newydd o hysbysiad gorfodi, a elwir yn hysbysiad diffyg, gyda chosb yn gefn iddo os na chydymffurfir ag ef.

Mae’r gosb newydd yn ymwneud â’r methiant i gyflwyno gwybodaeth i’r Rheoleiddwyr a nodir yn erthygl 27A o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae’r hysbysiad diffyg yn newid y weithdrefn ar gyfer achosion lle nad yw gweithredwyr yn ildio digon o lwfansau ar gyfer eu hallyriadau erbyn y terfyn amser ar gyfer ildio.

### Methiant i gyflwyno gwybodaeth

Roeddem yn cynnig y byddai cosb yn berthnasol pan na fydd gweithredwyr gweithfeydd yn cyflwyno’r wybodaeth a nodir yn erthygl 27A o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i’r Rheoleiddwyr. Mae’r erthygl hon yn ymwneud â gwybodaeth sydd i’w chyflwyno cyn y cyfnod dyrannu 2026-2030 pan nad yw gweithredwr yn gwneud cais am ddyraniad am ddim neu i fod yn y naill neu’r llall o’r cynlluniau optio allan. Os bydd gweithredwyr yn methu â chydymffurfio â’r gofynion hysbysu, dylent fod yn agored i gosb o £5,000.

### Diffyg rhybudd

Ar hyn o bryd, pan fydd gweithredwr neu weithredwr awyrennau yn methu ildio lwfansau erbyn y terfyn amser ar gyfer ildio, fel sy’n ofynnol gan y Gorchymyn, mae’n agored i gosb wedi ei haddasu o chwyddiant o £100 am bob lwfans nad yw’n cael ei ildio. Mae’r gwahaniaeth rhwng y lwfansau sy’n ofynnol a’r lwfansau sy’n cael eu hildio (y ‘diffyg’) yn cael ei ychwanegu at eu hallyriadau adroddadwy/hedfanaeth ar gyfer blwyddyn nesaf y cynllun. Fodd bynnag, nid yw peidio ag ildio’r lwfansau cysylltiedig yn arwain at gosb ychwanegol o £100/lwfans ar hyn o bryd.

Cynigiodd yr Awdurdod bod rhaid i’r rheoleiddiwr gyhoeddi ‘hysbysiad diffyg’, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r gweithredwr neu weithredwr awyrennau ildio’r diffyg mewn lwfansau erbyn terfyn amser. Y terfyn amser fydd 30 Ebrill nesaf, ac eithrio mewn sefyllfaoedd fel pan fydd y diffyg yn codi mewn sefyllfa ildio neu ddirymu trwydded, pan fydd y terfyn amser yn cael ei bennu gan y Rheoleiddiwr. Os nad yw’r gweithredwr neu’r gweithredwr awyrennau yn cydymffurfio â’r hysbysiad diffyg, roeddem yn cynnig y dylid gosod cosb orfodol. Caiff y gosb orfodol ei gyfrifo fel cynnyrch o nifer y lwfansau sy'n weddill wedi ei luosi ag 1.5x y pris carbon wedi ei gyfrifo o

dan erthygl 46 ar gyfer blwyddyn berthnasol y cynllun. Ar ben hynny, roeddem yn cynnig, os na chaiff y diffyg ei ildio o fewn mis arall i’r terfyn amser, y caiff Rheoleiddiwr gyhoeddi ‘hysbysiad cychwynnol’ fel bod cosb ddyddiol yn dechrau cronni nes bod y diffyg yn cael ei ildio. Dylai’r gosb ddyddiol hon gael ei gosod ar gyfradd ddyddiol o £1,000 am bob diwrnod y mae’r gweithredwr neu weithredwr yr awyren yn methu ildio’r diffyg, gan ddechrau gyda’r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cychwynnol.

## Darpariaethau ildio a dirymu.

O dan Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU, gellir ildio neu ddirymu trwydded gweithredwr. Yn yr achosion hyn, rhoddir hysbysiad ildio neu ddirymu, sy’n cynnwys nifer o ofynion. Mewn sefyllfaoedd ildio / dirymu, os nad yw’r gweithredwr yn ildio digon o lwfansau i gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad ildio/dirymu, bydd yn agored i gosb sifil. Fodd bynnag, nid oes rhwymedigaeth benodol i ildio unrhyw ddiffyg mewn lwfansau, sy’n anghyson â’r egwyddor polisi y dylid ildio lwfansau bob amser i dalu am allyriadau. Cynigiwyd y dylai’r hysbysiad diffyg newydd ymdrin â’r sefyllfaoedd hyn hefyd. Byddai rheoleiddwyr hefyd yn cael pwerau i orfodi gweithredwyr sydd wedi ildio/dirymu trwyddedau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn lwfansau os bydd gwallau hanesyddol o ran adrodd ar allyriadau yn cael eu datgelu.

| **Cwestiynau** |
|---|
| **190) Ydych chi'n cytuno â chynnwys y gosb hon o £5000 yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU? (Ydw/Nac Ydw) Esboniwch eich ymateb**.<br><br>**191) Ydych chi'n cytuno â'r argymhelliad lle, yn hytrach nag ychwanegu'r diffyg at rwymedigaeth ildio'r flwyddyn nesaf, y dylai'r Rheoleiddwyr gael eu grymuso i roi hysbysiad diffyg i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr/gweithredwyr awyrennau sy'n methu ag ildio lwfansau wneud iawn am unrhyw ddiffyg? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**192) Ydych chi'n cytuno y dylai'r gosb am ddiffyg fod mewn dwy ran, y rhan gyntaf yn gosb orfodol pan fydd gweithredwr neu weithredwr awyrennau yn methu â gwneud iawn am ddiffyg erbyn y dyddiad a nodir mewn hysbysiad diffyg, a'r ail yn gosb ddyddiol ddewisol sy'n gymwys os na fydd y gweithredwr/gweithredwr awyrennau wedi gwneud iawn am y diffyg o fewn mis i derfyn amser yr hysbysiad diffyg? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**<br><br>**193) Ydych chi'n cytuno â'r symiau a awgrymir ar gyfer cosbau, lle mae'r gosb orfodol wedi ei chyfrifo fel nifer y lwfansau sy'n weddill wedi ei luosi ag 1.5 y pris carbon perthnasol a lle mae'r gosb ddyddiol ychwanegol wedi ei phennu ar £1,000 y dydd nes i'r gweithredwr/gweithredwr awyrennau ildio'r diffyg? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.** |

**194) Ydych chi'n cytuno â'r argymhelliad y dylai'r Rheoleiddwyr gael eu grymuso i gyhoeddi hysbysiad pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sy'n methu ag ildio lwfansau yn unol â hysbysiadau ildio / dirymu ildio'r diffyg o ran lwfansau? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**

**195) Ydych chi'n cytuno y dylai cosbau am yr uchod fod yn unol â'r rhai a gynigir am fethu ag ildio lwfansau i wneud iawn am ddiffyg mewn sefyllfaoedd lle nad ildir / y dirymir? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb.**

**196) Beth yw eich barn chi am weithredu pwerau i fynd ar ôl gweithredwyr ar ôl i'w trwydded gael ei hildio / dirymu os nodir gwallau hanesyddol wrth adrodd ar allyriadau? Esboniwch eich ymateb.**

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cawsom 12 ymateb i gwestiwn 190 ynghylch cynnwys y gosb o £5000, gyda saith (58%) o blaid. Roedd ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnwys yn tynnu sylw at y ffaith y byddai hyn yn sicrhau y byddai Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cyd-fynd â deddfwriaeth Trwyddedu Amgylcheddol arall, a bydd adeiladu cyfundrefn orfodi gadarn ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn bwysig o ran ei hygrededd ac ar gyfer ei lwyddiant yn y pen draw o ran lleihau allyriadau. O'r rhai nad oeddent yn cytuno, dywedodd rhai y gallai fod gan fusnesau ddata ariannol gyfrinachol nad ydynt yn dymuno'i gyflwyno'n gyfreithlon, a gallent gael eu heithrio rhag datgelu hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn 191, roedd wyth (62%) o'r 13 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith bod y gofynion o ran ildio lwfansau a'r terfynau amser sydd wedi eu gwreiddio yn y broses monitro, adrodd a dilysu wedi eu hamlinellu'n glir ac y bydd anfon arwydd o ddiffyg cydymffurfio yn sicrhau cysondeb ar draws yr holl gyfranogwyr. Dywedodd dau (15%) o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y gellid atal gweithredwyr rhag cael lwfansau i dalu eu diffyg oherwydd diffyg hylifedd yn y farchnad garbon. Un sylw a gafodd ei wneud oedd gan fod lwfansau a chap y cynllun yn rhedeg o flwyddyn i flwyddyn, nid yw'n ymddangos yn briodol i ddiffyg ym mlwyddyn y cynllun gael ei briodoli i flwyddyn yn y dyfodol.

I ymateb i gwestiwn 192, roedd saith (58%) o'r 12 ymatebydd o blaid gweithredu dwy ran. I ymateb i gwestiwn 193, roedd saith (47%) o'r 15 ymatebydd o blaid y symiau cosb. I ymateb i gwestiwn 194, roedd 11 (73%) o'r 15 o ymatebion o blaid y cynnig. I ymateb i gwestiwn 195, roedd 10 (71%) o'r 14 ymateb yn cytuno y dylai'r cosbau fod yn gyson â'r gosb diffyg uchod. O'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynllun, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai cosbau gael eu disgyblu'n ddigonol er mwyn annog cydymffurfio â'r cynllun. O'r rhai a oedd yn anghytuno, awgrymodd un fod y cynnig yn llawdrwm ac roeddent yn cytuno y dylid rhoi'r gosb yn ôl disgresiwn. Awgrymodd dau (13%) o'r ymatebwyr i gwestiwn 193 fod symiau'r cosbau yn afresymol/gormodol. Fe wnaeth tri (25%) o'r ymatebwyr i gwestiwn 192 dynnu sylw at yr angen am arweiniad clir gan y rheoleiddiwr ar yr amgylchiadau lle byddai/na fyddai'r gosb ddyddiol yn ôl disgresiwn yn cael ei defnyddio.

## Ymateb yr Awdurdod

Bydd yr Awdurdod yn cyflwyno’r methiant i gyflwyno cosb am wybodaeth, gan ei fod yn gymesur ac yn gyson â sut mae achosion tebyg yn cael eu trin yng Nghynllun Masnachu Allyriadau’r DU.

Mae gan weithredwyr ddyletswydd statudol i gyflwyno’r wybodaeth yn erthygl 27a o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Er bod modd gorfodi’r ddyletswydd bresennol drwy hysbysiad gorfodi o dan erthygl 44 o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, bydd cosb uniongyrchol yn caniatáu gorfodaeth fwy cyson a bydd yn cysoni’r sefyllfa â mecanweithiau gorfodi tebyg yng nghynllun ehangach y DU ar gyfer Masnachu Allyriadau. Byddwn yn ceisio rhoi hyn ar waith erbyn 1 Ionawr 2025 fan bellaf.

Mae’r Awdurdod wedi penderfynu cynnwys yr hysbysiad diffyg a’r gosb gysylltiedig, fel y cynigiwyd. Bydd y protocolau ar wahân ar gyfer cyfrifo lwfansau allyriadau diweddar a lwfansau i dalu am ddiffygion o flynyddoedd blaenorol y cynllun yn helpu i sicrhau eglurder. Mae'r hysbysiad diffyg arfaethedig yn darparu mecanwaith wedi ei dargedu i orfodi gweithredwyr i ildio unrhyw ddiffyg mewn lwfansau, sy'n gyson â'r egwyddor polisi y dylid ildio lwfansau bob amser i dalu am allyriadau. Mae’r Awdurdod yn cydnabod pryderon a godwyd ynghylch lefel y dirwyon, ond mae’n nodi bod yn rhaid eu gosod yn ddigon uchel i annog cydymffurfiaeth â’r rhwymedigaethau y mae’r cynllun yn eu gosod ar weithredwyr yn effeithiol. Cytunwyd ar y symiau cosb gan eu bod yn gymesur â’r math o doriad y byddant yn berthnasol iddo.

Mae’r Awdurdod yn nodi pryderon ynghylch argaeledd lwfansau i weithredwyr ond bod mecanweithiau ar waith i sicrhau hylifedd ym marchnad garbon y DU. Byddwn yn ceisio rhoi’r hysbysiad diffyg/cosb ar waith erbyn 1 Ionawr 2025 fan bellaf.

Byddwn hefyd yn gweithredu’r cynnig a amlinellir uchod i ymestyn yr hysbysiadau diffyg a’r cosbau hyn i achosion lle mae gweithredwyr wedi ildio eu trwyddedau neu bod eu trwyddedau wedi cael eu dirymu, ar yr un amserlen.